# Adroddiad Blynyddol PAEF

2022-2023



# Rhagair PAEF

## 2022-2023

Yn Estyn, rydym wedi ymrwymo i'n cyfrifoldebau sicrhau ansawdd a chwarae rôl allweddol yng ngwelliant parhaus addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Amlygodd yr adolygiad annibynnol o'n gwaith, Arolygiaeth Dysgu (Donaldson, 2018), natur effeithlon, hyblyg ac arloesol y sefydliad, a'r hygrededd rydym ni'n ei fwynhau o ganlyniad i'n hannibyniaeth a'n proffesiynoldeb. Ers yr adolygiad, rydym wedi parhau i addasu, gan anelu at wella'r ffordd rydym yn gweithio ymhellach er budd dysgwyr yng Nghymru. Rydym wedi mireinio ein ffocws ar nodi sut gall darparwyr, a'r system addysg a hyfforddiant ehangach, wella. Rydym wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio graddau crynodol un gair ar draws y rhan fwyaf o sectorau. Rydym wedi gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda darparwyr yn ystod arolygiadau ffurfiol a hefyd fel rhan o'n gweithgareddau casglu tystiolaeth a gwerthuso ehangach. Mae elwa ar fewnbwn ymarferwyr presennol yn parhau i fod yn nodwedd allweddol o'n hymagwedd. Trwy weithredu fel arolygwyr cymheiriaid ac enwebeion darparwyr, a thrwy gymryd rhan yn ein hadolygiadau thematig a bwydo i'n grwpiau rhanddeiliaid, mae ymarferwyr yn cyfrannu mewnwelediadau gwerthfawr, yr ydym yn eu defnyddio i lywio ein gwaith.




Rydym yn awyddus i ychwanegu gwerth trwy rannu ein canfyddiadau mewn ffordd amserol a hygyrch fel y gellir deall ein cyngor yn rhwydd, a gweithredu yn unol ag ef. Ym mis Hydref y llynedd, gan barhau â'r ymagwedd a gyflwynom yn 2022, cyhoeddom grynodeb cynnar o ganfyddiadau'r adroddiad blynyddol yn benodol i sector. Nod yr ymagwedd hon yw darparu adborth prydlon a defnyddiol ar gyfer y gweithlu addysg a hyfforddiant ac amlygu'r enghreifftiau o arfer effeithiol yr ydym wedi'u gweld yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn y crynodeb cynnar hwnnw, mae'n bleser gen i nawr lansio'r Adroddiad Blynyddol llawn hwn. Mae'n darparu cryn dipyn yn fwy o fanylion a chefndir i'n canfyddiadau, yn amlinellu pa mor dda y mae pob sector yng Nghymru yn cyflawni, a hefyd yn gwerthuso addysg a hyfforddiant yng nghyd-destun ystod o themâu allweddol trawsbynciol. Rwy'n gobeithio y bydd yn ddefnyddiol.

Mae llawer i'w ddathlu am ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rwy'n ymweld â lleoliadau addysgol o bob math ledled Cymru bron yn wythnosol. Yn ystod arolygiadau, rwy'n clywed yn uniongyrchol gan ddisgyblion a dysgwyr hŷn, ac yn siarad ag athrawon ac aelodau staff cymorth, yn ogystal ag uwch arweinwyr. I mi, mae ymroddiad cryf addysgwyr ledled Cymru yn destun balchder. Fel yr arolygiaeth, mae ein cyfraniadau i gefnogi gwelliant pellach yn hollbwysig. Ein rôl ni yw amlygu a rhannu'r arfer orau a welwn ledled Cymru tra'n cynnal ein hymagwedd ddiduedd at werthuso trwy nodi'n glir agweddau sydd angen eu gwella.

Mae darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn wynebu heriau deuol adfer o bandemig COVID-19 gan hefyd weithio i roi diwygiadau polisi â ffocws ar wella ar waith. Mae cysgod y pandemig yn parhau i fod yn amlwg ar les dysgwyr a'r cynnydd a wnânt. Mae presenoldeb dysgwyr, eu hagweddau at ddysgu ac agweddau ar wybodaeth a medrau dysgwyr yn parhau i fod yn wannach na normau cyn y pandemig. Mae effeithiau parhaus ar y gweithlu addysg a hyfforddiant hefyd, gydag absenoldebau o'r gweithle yn cymhlethu'r her cyson sy'n wynebu darparwyr wrth recriwtio athrawon ac aelodau staff cymorth ar draws nifer o arbenigeddau.

Mae cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2017a), gweithredu Rhaglen Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (Llywodraeth Cymru, 2020), adolygu gwasanaethau cymorth gwella ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2023a) a ffurfio'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) (Llywodraeth Cymru, 2017b) i gyd yn deillio o ddiwygiadau polisi sydd â ffocws ar wella a byddant yn effeithio ar lawer o ddarparwyr. Er bod buddion hirdymor posibl y newidiadau hyn yn glir, mae gwireddu'r newidiadau yn her sylweddol. Mewn cyfnod pan mae cymaint o newid a her, rydym wedi bod yn ofalus i gydnabod y pwysau sy'n wynebu pob sector. Fel y pwysleisiwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei araith ym mis Tachwedd, ni ddylai darparwyr wynebu'r problemau hyn ar eu pen eu hunain (Llywodraeth Cymru, 2023b). Rydym wedi ceisio bod yn gefnogol yn ein hymagwedd, gan gydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu ymarferwyr ac arweinwyr, tra'n cynnal ffocws ar les a chynnydd dysgwyr. Wrth i ddarparwyr addysg a hyfforddiant weithio i adfer o effeithiau'r pandemig, rydym wedi gweld enghreifftiau o arfer ragorol ledled Cymru. Yn 2022-2023, roedd yn ddyddiau cynnar iawn o ran gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, ond rydym wedi gweld enghreifftiau o arfer yn dod i'r amlwg sy'n cyfiawnhau graddau o optimistiaeth ar gyfer y dyfodol. Ar y cyfan, mae brwdfrydedd addysgwyr ar draws y sectorau i wneud cynnydd a goresgyn yr heriau sy'n eu hwynebu yn galonogol.




Mae addysgwyr ledled Cymru wedi gweithio'n ddiwyd hefyd i gynorthwyo plant, pobl ifanc ac oedolion bregus sydd wedi cyrraedd yma yn geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid. Mae Cymru fel cenedl wedi agor ei breichiau i gynnig noddfa i'r rhai sy'n ffoi rhag cael eu herlid mewn gwledydd eraill. Yn ystod tymor yr haf, gofynnais i'n harolygwyr adolygu'r ffordd yr oedd ein gwasanaethau addysg a hyfforddiant yn gofalu am y plant a'r oedolion bregus hyn, ac yn darparu ar eu cyfer. Er bod ein canfyddiadau'n nodi ychydig o feysydd i'w gwella, ar ôl ein sgyrsiau â'r ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches eu hunain, heb amheuaeth gwelsom fod addysgwyr yma yng Nghymru wedi dangos tosturi gwirioneddol. Maent wedi meithrin ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn llwyddiannus ac wedi eu helpu i deimlo y gallent ganolbwyntio ar ddysgu wrth iddynt ymgyfarwyddo â bywyd heddychlon yma yng Nghymru. Mae'n hyfryd clywed gan addysgwyr am y cyfraniadau gwerthfawr yr oedd y rhai a gyrhaeddodd yn ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi'u gwneud at eu cymunedau newydd.

Fodd bynnag, caiff cynnydd ar gyfer yr holl ddysgwyr ar draws y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru ei rwystro gan agweddau gwannach ar arfer. Rydym yn parhau i weld gormod o enghreifftiau o hunanwerthuso a chynllunio gwelliant aneffeithiol. Mae'n hanfodol bod darparwyr yn gwneud yn siŵr fod eu gwaith bob amser yn ychwanegu gwerth. Dylent feddu ar ddealltwriaeth glir o beth sy'n gweithio'n dda, a dylent flaenoriaethu gwella addysgu, hyfforddi a dysgu i sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer dysgwyr. Yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd, mae'r broblem wedi'i waethygu gan rai ysgolion yn canolbwyntio'n ormodol ar 'beth' i'w addysgu h.y. cynnwys eu cwricwlwm, tra'n methu a rhoi digon o sylw i 'sut' y caiff ei addysgu a sut y caiff asesu a dilyniant eu monitro. Mae effeithiolrwydd y cymorth allanol sydd ar gael i ysgolion, yn enwedig â'u prosesau gwerthuso a gwella, yn anghyson. Rydym wedi gweld enghreifftiau mewn partneriaethau tra datblygedig, ond mewn mannau eraill, ac yn enwedig ar gyfer ysgolion uwchradd, mae ansawdd amrywiol y cymorth yn peri pryder.

Mae darparwyr yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i gymorth lles effeithiol ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos bod gwaddol y pandemig yn parhau, gydag effeithiau clir ar bresenoldeb dysgwyr a'r cynnydd a wnânt yn eu dysgu. Mae medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr wedi'u heffeithio o hyd, gyda chynnydd anghyson yn cael ei wneud i gau'r bylchau a ddatblygwyd yn ystod y pandemig. Mae ein lleoliadau addysg gychwynnol athrawon (AGA) yn wynebu heriau parhaus, sy'n peryglu ein gallu fel cenedl i sicrhau niferoedd dibynadwy o ymgeiswyr talentog sy'n meddu ar gymwysterau addas yn y proffesiwn addysgu yn y dyfodol.

Mae'r canlyniadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar o rownd 2022 o Raglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn dangos, er gwaethaf y gwelliannau a welwyd yn sgorau PISA Cymru yn 2018, y bu gostyngiad nodedig ers hynny. Roedd effeithiau negyddol pandemig COVID-19 ar ddysgu disgyblion yn amlwg yn neilliannau PISA 2022. Ar draws gwledydd yr OECD ar gyfartaledd, ac yn arbennig yng Nghymru, roedd gostyngiadau sylweddol yn sgorau asesu disgyblion ym mhob un o'r tri pharth, sef mathemateg, gwyddoniaeth a darllen, er 2018. Roedd sgorau asesu 2022 disgyblion yng Nghymru islaw cyfartaleddau OECD ac islaw sgorau cenhedloedd eraill y DU.

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn hanfodol os yw disgyblion am wneud y cynnydd y gallent ei wneud. Ar ôl y tarfu yn sgil y pandemig, parhaodd presenoldeb i beri pryder sylweddol yn 2022-2023, er gwaethaf ymdrechion ysgolion, lleoliadau a'u gwasanaethau cymorth. O gymharu â normau cyn y pandemig, roedd cyfraddau absenoldeb wedi dyblu ymhlith disgyblion oedran ysgol uwchradd. Cyrhaeddodd cyfran y gwersi a gollwyd gan ddisgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros 20% (Llywodraeth Cymru, 2023c). Cafodd colli un diwrnod yr wythnos, ar gyfartaledd, o'u haddysg ffurfiol, effaith sylweddol ar gynnydd y disgyblion hyn. Ymhlith y grŵp hwn, roedd absenoldeb parhaus yn ddybryd, a thybiwyd bod mwy nag un o bob tri disgybl yn absennol yn barhaus yn 2022-2023. Felly, croesewir ffocws a gweithgarwch o'r newydd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Mae cyfran y dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) yn bennaf bron wedi dyblu er 2009-2010, gyda niferoedd mwy o blant oedran cynradd yn arbennig yn methu'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2023d). Ar y cyfan, nid yw'r disgyblion hyn yn dychwelyd i addysg brif ffrwd, ac i'r rhai sydd yn dychwelyd, maent yn dychwelyd yn rhy araf. Mae hyn yn cyfyngu ar eu cyfle i elwa ar y cwricwlwm llawn a'r rhyngweithio cymdeithasol ehangach sydd ar gael yn yr ysgol. Mae cynnydd mewn gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol, yn enwedig ar lefel ysgol uwchradd ac ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2023e), yn peri pryder pellach.

Gan fod tua 28% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 (Llywodraeth Cymru, 2023f), mae'n iawn fod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i liniaru'r effeithiau ar ddysgu a chyrhaeddiad addysgol. Rydym wedi gweld bod disgyblion o aelwydydd llai cefnog yn tueddu i golli mwy o addysg, ac yn gwneud llai o gynnydd yn eu dysgu na'u cyfoedion (Llywodraeth Cymru, 2023g). Yn dilyn ein ffocws ar hyn yn adroddiad blynyddol 2021-2022, rydym yn disgrifio nodweddion arweinyddiaeth sy'n galluogi ysgolion i helpu disgyblion yn llwyddiannus i oresgyn y rhwystrau rhag dysgu sy'n aml yn gysylltiedig â thlodi. Mae ysgolion llwyddiannus yn adnabod eu cymunedau'n dda ac yn mynd ati i ffurfio perthnasoedd cynhyrchiol â theuluoedd. Maent yn ymwybodol o'r costau sy'n gysylltiedig ag addysg ac yn defnyddio adnoddau'n ofalus i helpu teuluoedd sy'n cael pethau'n anodd. Mae'r dyheadau a'r disgwyliadau uchel y mae'r ysgolion hyn yn eu cynnal ar gyfer pob un o'u disgyblion yn sylfaen i'r ymagweddau hyn. Fodd bynnag, mae arfer yn amrywio ledled Cymru ac mae'r gostyngiad sylweddol mewn presenoldeb ysgol ymhlith disgyblion o aelwydydd llai cefnog dros y blynyddoedd diwethaf yn cymhlethu'r anawsterau sy'n wynebu'r plant hyn, a'u hathrawon. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru i ddatblygu Ysgolion Bro yn ddatblygiad i'w groesawu, sydd â'r nod i adeiladu ar arfer effeithiol bresennol a chryfhau perthnasoedd rhwng ysgolion, asiantaethau cymorth, rhieni a'u cymunedau (Llywodraeth Cymru, 2022).

Ar draws y sectorau ôl-16 addysg bellach (AB), dysgu yn y gwaith, rhaglenni cyflogadwyedd a dysgu oedolion yn y gymuned, mae dysgwyr wedi'u cymell yn dda yn eu gwersi, eu sesiynau ymarferol a'u cyfarfodydd adolygu, ar y cyfan. Roedd cyfran y bobl ifanc sy'n sôn am broblemau â gorbryder ac iechyd meddwl yn tyfu cyn y pandemig, ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer darparwyr. Mae dysgwyr AB yn gwybod sut i fanteisio ar y cymorth ychwanegol gwerthfawr a ddarperir gan golegau, ac mae darparwyr prentisiaethau yn canolbwyntio ar les dysgwyr, hefyd. Mae darparwyr prentisiaethau yn ehangu ystod y cymorth a gynigir ganddynt, a gallent adnabod a darparu cymorth yn gynyddol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol sydd gan unrhyw brentisiaid. Fodd bynnag, mae ein harolygiadau wedi canfod yn gyson fod cyfran y prentisiaid sy'n cwblhau eu fframweithiau yn llwyddiannus yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn rhy isel. Mae hyn yn adlewyrchu'r heriau recriwtio a chadw sydd wedi wynebu cyflogwyr yn y sectorau hyn. Cyflwynwyd rhaglen cyflogadwyedd ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ ledled Cymru i ennyn pobl ifanc i mewn i hyfforddiant a phrofiadau gwaith. Mae'r sesiynau hyn yn werthfawr, gydag addysgu effeithiol a chymorth cynhwysfawr, ond nid oes digon o gyfranogwyr yn manteisio ar brofiad gwaith ystyrlon fel rhan o'r rhaglen hon. Gwelsom ddarpariaeth effeithiol o fewn dysgu oedolion yn y gymuned, yn defnyddio cyflwyno ar-lein a chyflwyno wyneb yn wyneb yn unol ag angen dysgwyr. Fodd bynnag, mae angen o hyd i ddatblygu'r ffordd y mae ystod eang y ddarpariaeth sydd ar gael ar draws y sectorau ôl-16 yng Nghymru yn gweddu i ddysgwyr unigol. Gall fod yn anodd i ddysgwyr weld a deall ystod lawn yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Nid yw'r wybodaeth a'r arweiniad a gaiff darpar ddysgwyr bob amser yn glir ac yn gyson ddefnyddiol.

Mae llawer o ddysgwyr ôl-16 wedi llwyddo i adeiladu ar y medrau llythrennedd digidol a ddatblygon nhw yn ystod y defnydd helaeth o ddysgu o bell ar-lein ar draws y gwahanol sectorau yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, nid yw medrau rhifedd dysgwyr ôl-16 wedi'u datblygu cystal â rhai dysgwyr o garfanau tebyg cyn y pandemig. Ar draws y sectorau ôl-16, nid yw ymagweddau darparwyr at ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn manteisio'n ddigonol ar gyd-destunau a diddordebau galwedigaethol dysgwyr. Gall hyn achosi i ddysgwyr golli symbyliad, a chyfyngu ar y cynnydd a wnânt. Mae cyfansoddiad asesiadau Sgiliau Hanfodol Cymru, fel yr adroddwyd yn ein hadolygiad thematig diweddar (Estyn, 2023), wedi cymhlethu'r mater hwn ac rwy'n falch fod hyn yn cael ei adolygu.



Mae arweinyddiaeth effeithiol yn allweddol i sicrhau bod darparwyr yn ymateb i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Ar draws y tirlun addysg a hyfforddiant, gwelwn fod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg dysgwyr yn anghyson. Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, yn aml, nid yw disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent yn eu medrau Cymraeg. Pan welwn arfer effeithiol, mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf i'r Gymraeg, ac adlewyrchir hyn yn eu cynlluniau gwella. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael cynnig dysgu a chymorth proffesiynol i ddatblygu eu medrau Cymraeg eu hunain yn ogystal â'u haddysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgwyr a'u gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Ar draws darpariaeth addysg bellach a phrentisiaethau, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n gwneud unrhyw waith ysgrifenedig yn Gymraeg. Mae cyfleoedd cyfyngedig hefyd trwy ddysgu oedolion yn y gymuned i ddysgwyr ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae arweinwyr ar draws y sectorau yn wynebu heriau parhaus sylweddol fel prinder staff â medrau addas. Caiff y broblem hon ei gwaethygu gan y ffaith nad oes digon o fyfyrwyr yn cofrestru i hyfforddi fel athrawon ysgol uwchradd, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae presenoldeb ac agweddau at ddysgu, y Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant, gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, a sut mae darparwyr yn mynd i'r afael â thlodi, i gyd yn themâu allweddol o fewn adroddiad blynyddol eleni. Rydym hefyd yn amlinellu canlyniadau PISA 2022 a gyhoeddwyd yn ddiweddar (Ingram et al, 2023), ac yn archwilio'r ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys adran fer ar weithgarwch dilynol ar ôl arolygiad, sy'n cynnwys astudiaethau achos defnyddiol a throsolwg o argymhellion a adawyd ar gyfer ysgolion a gynhelir sy'n mynd i gategori statudol. Mae'r adroddiad blynyddol yn gorffen â throsolwg cryno o bob un o'r adroddiadau thematig a luniwyd gennym i ymateb i'n llythyr cylch gwaith gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar gyfer 2022-2023.

Credaf fod fy adroddiad yn darparu darlun cynhwysfawr o sut mae addysg a hyfforddiant yn cyflawni yng Nghymru.  Mae'n amlygu'r llwyddiannau ac yn amlinellu rhai o'r heriau sy'n parhau i wynebu addysg a hyfforddiant; rwy'n gobeithio ei fod yn ysgogi myfyrio a thrafodaethau adeiladol am sut gallwn ni wella ar y cyd. Hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr yn ogystal â'r holl addysgwyr hynny ar draws y sectorau a fu'n gweithio gyda ni yn ystod y flwyddyn. Yn olaf, hoffem ni fel sefydliad, a minnau'n bersonol, ddiolch i bob un o'r addysgwyr ledled Cymru am eu hymdrechion parhaus. Rydym yn cydnabod y ffordd y maent yn gweithio'n ddiwyd i adeiladu ar eu llwyddiannau ac ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â chynorthwyo ein plant, a dysgwyr o bob oedran, i ddysgu a ffynnu.

**Owen Evans**
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Cyfeiriadau


Donaldson, G. (2018) Arolygiaeth Dysgu: Adolygiad annibynnol o Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-01/A%2520Learning%2520Inspectorate%2520-%2520cy%2520-%2520June%25202018.pdf [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Estyn (2023) Cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-11/Cyflwyno%20cymwysterau%20Sgiliau%20Hanfodol%20Cymru%20mewn%20rhaglenni%20prentisiaeth_0.pdf [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2017a) Cwricwlwm i Gymru: trosolwg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-trosolwg [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2017b) Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/comisiwn-addysg-drydyddol-ac-ymchwil [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2020) Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/rhaglen-trawsnewid-y-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-cwestiynau-cyffredin-html [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2022) Ysgolion Bro. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/ysgolion-bro-html [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023a) Cylch gorchwyl: adolygu rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflwyno trefniadau i wella ysgolion. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/cylch-gorchwyl-adolygu-rolau-chyfrifoldebau-partneriaid-addysg-yng-nghymru-chyflwyno-trefniadau-html [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023b) Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: dysgu yng Nghymru ar ôl COVID-19. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/perthyn-ymgysylltu-chyfranogi-dysgu-yng-nghymru-ar-ol-covid-19 [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023c) Absenoldeb o ysgolion uwchradd: Medi 2022 i Awst 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/10/4/1697706994/absenoldeb-o-ysgolion-uwchradd-medi-2022-i-awst-2023-diwygiedig.pdf [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023d) Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2022 i Awst 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/9/3/1695198689/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2022-i-awst-2023.pdf [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023e) Gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir: Medi 2021 i Awst 2022. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/11/4/1699522294/gwaharddiadau-o-ysgolion-gynhelir-medi-2021-i-awst-2022.pdf [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023f) Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html. [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023g) Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 5 Medi 2022 i 24 Gorffennaf 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/presenoldeb-disgyblion-mewn-ysgolion-gynhelir-5-medi-2022-i-24-gorffennaf-2023 [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2023]

Ingram, J., Stiff, J., Cadwallader, S., Lee, G., Kayton, H. (2023) PISA 2022: National Report for Wales: Research Report. Cardiff: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-12/pisa-2022-adroddiad-cenedlaethol-cymru-605.pdf [Cyrchwyd 19 Rhagfyr 2023]

# Cynnwys


2 Rhagair PAEF

9 Ein hymagwedd

**10 Themâu allweddol**

11 Addysg a chymorth ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches

21 Y Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant

29 PISA 2022

36 Lliniaru effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol

41 Agweddau at ddysgu a phresenoldeb

51 Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru

56 Gweithgarwch dilynol arolygu

**65 Adroddiadau sector**

66 Meithrinfeydd nas cynhelir

73 Cynradd

80 Uwchradd

87 Pob oed

92 Ysgolion arbennig a gynhelir

97 Ysgolion arbennig annibynnol

101 Prif ffrwd annibynnol

105 Unedau cyfeirio disgyblion

110 Colegau arbenigol annibynnol

115 Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

125 Addysg bellach

130 Dysgu yn y gwaith

135 Twf Swyddi Cymru+ (rhaglen cyflogadwyedd)

137 Dysgu oedolion yn y gymuned

141 Addysg gychwynnol athrawon

146 Cymraeg i oedolion

149 Cyfiawnder

**153 Adroddiadau thematig**

154 Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol o ran cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

157 Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10-14 mlwydd oed

159 Cefnogi'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon

161 Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)

164 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn colegau addysg bellach ledled Cymru

166 Cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth

169 Llywodraethwyr Ysgol: gweithredu fel ffrindiau beirniadol ac effaith hyfforddiant i lywodraethwyr

# Ein hymagwedd

## 2022-2023

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi'u seilio ar ddadansoddiad o ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys:

- Tystiolaeth o arolygiadau craidd a gynhaliwyd rhwng mis Medi 2022 a mis Awst 2023. Mae arolygiadau'n cynnwys gweithgareddau fel arsylwadau o addysgu a dysgu, teithiau dysgu, craffu ar waith dysgwyr, trafodaethau ag arweinwyr, staff a dysgwyr, a chraffu ar ddogfennau.
- Y dystiolaeth a gasglwyd ar ymweliadau dilynol â darparwyr mewn categorïau gweithgarwch dilynol a chyfarfodydd aml-asiantaethol.
- Canlyniadau ein holiaduron, gan gynnwys holiaduron cyn-arolygiad sy'n cael eu hanfon at ddarparwyr cyn arolygiad. Mae'r rhain yn nodweddiadol yn cynnwys holiaduron ar gyfer staff, dysgwyr, llywodraethwyr a rhieni.
- Tystiolaeth werthusol o ymweliadau a chyfarfodydd cyswllt â darparwyr, er enghraifft ymweliadau cyswllt awdurdodau lleol ac ymweliadau ag ysgolion annibynnol.
- Tystiolaeth o ymweliadau ymgysylltu.
- Tystiolaeth o ymweliadau i gasglu tystiolaeth ar gyfer adroddiadau thematig, neu yn gysylltiedig â themâu allweddol mewn addysg a hyfforddiant.
- Ymchwil wrth ddesg pellach, gan gynnwys adolygiad cyflym o lenyddiaeth ymchwil allanol.
- Adborth o gyfarfodydd â rhanddeiliaid.
- Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, dadansoddwyd y dystiolaeth ar gyfer gweithgareddau a gynhaliwyd ym mhob sector i nodi themâu cyffredin. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddi'r argymhellion a roddwyd i ddarparwyr mewn sectorau.
- Dadansoddiad o ystadegau swyddogol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

# Themâu allweddol



### Themâu allweddol

# Addysg a chymorth ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches

## 2022-2023

Mae Cymru yn croesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches[1] o bob cwr o'r byd, a'i nod yw bod y wlad gyntaf yn y byd i gael ei chydnabod yn 'Genedl Noddfa' lle mae pobl sy'n ceisio lloches 'yn cael croeso, dealltwriaeth, a'u cyfraniad unigryw i dapestri cyfoethog o fywyd Cymreig yn cael ei ddathlu' (Cymru: Cenedl Noddfa, 2023). Er 2020, mae nifer y ceisiadau am loches a gofnodwyd yn y DU wedi cynyddu'n sylweddol (Llywodraeth y DU, 2023). Yn 2022, amcangyfrifodd Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid fod tua 40% o ffoaduriaid byd-eang o dan 18 oed (UNHCR, 2022, tud.3). Amlygodd ymchwil gan Lywodraeth Cymru fod yr heriau a oedd yn wynebu dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn aml wedi gwaethygu yn sgil pandemig COVID-19 (Llywodraeth Cymru, 2023, tud.4).

Yn 2020, fel rhan o'i adroddiad ar bontio mewn addysg ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc, fe wnaeth UNICEF gynnwys cyfres o argymhellion buddiol ar gyfer ysgolion a cholegau addysg bellach (AB) yn Lloegr. Amlygodd yr adroddiad fod y cyngor a'r arweiniad diduedd y trefnwyd eu bod ar gael i ddysgwyr yn pontio o ysgolion i AB yn annigonol (UNICEF, 2020, tud.10). Dyma ganfyddiadau adolygiad ymchwil ar wahân ar anghenion a phrofiadau addysgol plant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid gan Peterson et al (2017):

- Mae gan addysg ac ysgol rôl hanfodol i gefnogi cynnwys plant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid o fewn eu cymunedau newydd;
- Felly, mae angen i ysgolion, arweinwyr ysgolion ac athrawon gymryd eu rôl o ddifri o ran ymateb i anghenion addysgol plant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid – gan gynnwys y rhai sydd ar eu pen eu hunain;
- Mae ymagweddau ysgol gyfan wedi'u hadeiladu ar sail ymatebion croesawus a chyfannol at blant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid yn gynhyrchiol, ac yn gallu herio trafodaethau ac arferion ehangach sy'n elyniaethus at bobl a phlant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid;
- Mae ysgolion ac athrawon yn debygol o fod angen, ac elwa ar, weithgareddau dysgu a datblygiad proffesiynol sy'n meithrin ac ymestyn eu dealltwriaeth o hanesion, anghenion a phrofiadau addysgol a diwylliannol plant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid;
- Mae angen mwy o gymorth â ffocws ar blant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid ar gyfer eu llwybrau addysgol i addysg bellach ac addysg uwch mewn ffyrdd sy'n ymgysylltu â'u dyheadau uwch, y maent yn debygol o elwa'n sylweddol ar hyn. Mae cymorth o'r fath yn debygol o gynnwys arweiniad a chwnsela â ffocws, yn ogystal ag argaeledd modelau rôl cefnogol (tud.5).

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn chwarae rhan bwysig mewn cynorthwyo

[1] Y diffiniad o geisiwr lloches yw rhywun sydd wedi cyrraedd mewn gwlad ac wedi gofyn am loches. Hyd nes bydd yn cael penderfyniad ynghylch p'un a yw'n ffoadur ai peidio, caiff ei adnabod fel ceisiwr lloches. Yn y DU, mae hyn yn golygu nad oes ganddo'r un hawliau â ffoadur neu ddinesydd Prydeinig. Er enghraifft, ni chaniateir i bobl sy'n ceisio lloches weithio.' (Refugee Action, 2023)

ysgolion cyn i ddisgyblion sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid gyrraedd, ac yn ystod eu cyfnod mewn ysgol yn ogystal. Mae timau arbenigol awdurdodau lleol yn gweithio gyda theuluoedd sy'n ffoaduriaid i bontio'n esmwyth i ysgol a monitro cynnydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, darperir cyswllt a chymorth cychwynnol gan yr awdurdod lleol i newydd-ddyfodiaid o fewn wythnos. Yn ddiweddarach, caiff plant a phobl ifanc eu cofrestru mewn ysgol neu goleg, fel arfer o fewn pythefnos.

Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches hŷn hefyd yn cael mynediad at ystod o addysg a hyfforddiant mewn colegau addysg bellach (AB) neu drwy bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n oedolion ystod eang iawn o brofiadau addysg blaenorol. Maent yn amrywio o'r rhai sydd wedi cael ychydig iawn o ysgol a lefelau isel o lythrennedd, i'r rhai sydd â chymwysterau ôl-raddedig ond y gallai fod angen iddynt ddatblygu eu medrau Saesneg i gael swydd.

I ddysgu am brofiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r ffyrdd y maent wedi cael eu cynorthwyo, yn ystod haf 2023, fe wnaethom gyfarfod â chwe awdurdod lleol, ac ymweld ag 13 ysgol, tri choleg a dwy bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Dewiswyd y darparwyr hyn oherwydd eu gwaith i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac o'r herwydd, nid oedd y sampl hon o ddarparwyr yn cynrychioli'r holl ddarparwyr ledled Cymru gyfan.

# Addysgu a dysgu

## Ysgolion ac awdurdodau lleol

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd disgyblion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches wedi'u cymell ac yn mwynhau dysgu. Siaradon nhw yn gadarnhaol am eu cynnydd, a'r modd datblygodd eu hyder o ganlyniad i'w dysgu.

Roedd llawer o blant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches wedi dioddef seibiannau sylweddol yn eu haddysg cyn cyrraedd Cymru, ac roedd eu medrau Saesneg yn gyfyngedig, os oedd ganddynt rai o gwbl. Roedd staff awdurdodau lleol ac ysgolion wedi ymrwymo i gynorthwyo disgyblion i ddysgu Saesneg fel ail iaith ac yn darparu deunyddiau dysgu i gynorthwyo rhieni a gofalwyr gartref. O ganlyniad, roedd disgyblion yn caffael yr iaith yn gyflym ac yn gallu mynegi eu hunain yn glir. Mewn llawer o achosion, roedd y plant hyn yn dysgu Saesneg cyn eu rhieni neu'u gwarcheidwaid ac yn cyfieithu iddynt, pan roedd angen. Yn ogystal â datblygu'n gyflym i fod yn siaradwyr Saesneg huawdl, at ei gilydd, roedd disgyblion oedran cynradd hefyd yn gwneud cynnydd addas yn eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Roeddent yn awyddus i ddysgu Cymraeg, ac roedd ychydig ohonynt wedi datblygu'n gyflym i gyrraedd lefel uchel o ruglder.

Gweithiodd awdurdodau lleol yn dda gydag ysgolion i oresgyn yr her o ran cael gwybodaeth gefndir gyfyngedig neu anghywir am newydd-ddyfodiaid. Siaradon nhw â theuluoedd y disgyblion ac asesu galluoedd disgyblion yn ofalus. Roeddent yn anelu at adeiladu'n raddol ar fedrau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol gan addysgu iaith, llythrennedd a rhifedd ar wahân mewn ffordd a oedd yn diwallu eu hanghenion unigol. Yn gyffredinol, gan ystyried oedran a chyfnod datblygu, gwnaeth y disgyblion hyn gynnydd cryf yn datblygu eu medrau llafaredd, eu hymwybyddiaeth ffonolegol, a'u medrau darllen ac ysgrifennu.

### Trochi yn y Gymraeg ar gyfer ffoaduriaid yn Ysgol Gynradd Llanfairpwll ac Ysgol Y Borth, Ynys Môn

Rhoddir cyfnod cychwynnol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n cyrraedd yn yr ysgolion fel eu bod yn ymgynefino â'u hamgylchedd newydd ac yn datblygu eu hyder. Mae staff yn yr ysgolion yn rhoi croeso cynnes ac yn dathlu mamieithoedd y disgyblion hyn a'u diwylliannau cartref.

Wedyn, mae'r disgyblion yn mynychu Canolfan Newydd-ddyfodiaid Môn ym Moelfre. Ar ôl y cyfnod hwn, mae'r disgyblion yn dychwelyd i'w hysgolion ac mae athro o'r uned iaith yn ymweld â nhw yn rheolaidd i barhau i'w cynorthwyo i ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn rhoi parhad i'r disgyblion ac yn helpu'r ysgolion i ddarparu ar gyfer anghenion unigol y disgyblion yn ogystal. Mae'r ddarpariaeth hon yn effeithiol iawn ac yn adeiladu'n dda ar y gwaith trochi iaith cychwynnol. Caiff medrau Saesneg y disgyblion eu datblygu trwy weithgareddau integredig yn yr ysgol.

O ganlyniad, mae'r disgyblion sy'n ffoaduriaid yn y ddwy ysgol wedi gwneud cynnydd cryf â'u medrau iaith. Mae'r disgyblion hyn, nad oeddent yn medru unrhyw Gymraeg ac yr oedd eu gallu yn Saesneg yn gyfyngedig pan gyrhaeddon nhw, bellach yn gallu siarad y ddwy iaith yn hyderus gyda lefel dda o ruglder.

Gweithiodd timau awdurdodau lleol arbenigol yn agos gydag ysgolion i'w helpu i gynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Rhoesant gyngor a chymorth i athrawon, yn ogystal â chyswllt rhwng y cartref a'r ysgol a gwersi iaith ychwanegol i ddisgyblion unigol neu grwpiau bach o ddisgyblion. Roedd yr arbenigwyr hyn, sy'n aml yn ddwyieithog neu'n amlieithog, yn fodelau rôl cryf ac yn cefnogi dysgu a lles disgyblion unigol yn effeithiol.

Mewn llawer o ysgolion, defnyddiodd athrawon ystod o ddulliau addysgu effeithiol ac adnoddau dynodedig i sicrhau bod disgyblion yn gwneud y cynnydd yr oeddent yn gallu ei wneud. Roedd awdurdodau lleol wedi datblygu eu hadnoddau addysgu eu hunain ac wedi nodi rhai eraill sydd ar gael ar-lein, i gefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Roedd athrawon yn cynllunio'n ofalus i sicrhau bod gweithgareddau llythrennedd yn hygyrch, yn berthnasol ac yn bwrpasol. Fe wnaethant addasu eu hiaith a defnyddio ystum ac arwyddion yn effeithiol i gyfathrebu â phlant nad oeddent yn medru llawer o Saesneg, os o gwbl. Gwnaed defnydd effeithiol o dechnoleg hefyd, fel apiau cyfieithu, i gefnogi cyfathrebu. O ganlyniad, llwyddodd disgyblion i fagu hyder a datblygu eu dysgu ymhellach wrth i'w Saesneg wella.



Yn ystod eu cyfnod yng Nghymru, roedd disgyblion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn cael eu hannog i ddilyn cymwysterau iaith yn eu hiaith gyntaf, fel TGAU Wcreineg neu TGAU Rwsieg. Fodd bynnag, roedd llawer o'r disgyblion hyn, ynghyd â'r rhai sy'n dilyn cymwysterau UG neu Safon Uwch, dan anfantais wrth sefyll eu harholiadau ar gyfer pynciau eraill yn Saesneg neu yn Gymraeg. Roedd hyn yn arbennig o wir os oeddent wedi cyrraedd Cymru yn gymharol ddiweddar a heb gael llawer o amser i ddysgu naill ai Saesneg neu'r Gymraeg. Yn yr achosion hyn, roedd disgyblion yn ei chael yn anodd deall, defnyddio a chymhwyso iaith gymhleth a therminoleg pwnc yn eu gwaith asesedig. Adeg ein hymweliadau, dywedodd arweinwyr ysgolion eu bod yn aros am fwy o arweiniad ynghylch unrhyw gonsesiynau a chymorth y gellid trefnu eu bod ar gael i'r dysgwyr hyn. Mewn ychydig o achosion, roedd ysgolion yn gallu gwneud trefniadau i ddisgyblion sefyll arholiadau yn eu hiaith gyntaf trwy weithio gyda sefydliadau dyfarnu dramor.

## Rôl Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd fel Ysgol Hyb i Wcreiniaid

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi dynodi Ysgol Uwchradd Llanwern ac Ysgol Gynradd Milton yn Ysgolion Hyb Wcrain. Mae'r dull hwn yn hwyluso cymorth newydd-ddyfodiaid o Wcráin gan deuluoedd sefydledig o Wcráin, yn ogystal â staff cymorth dynodedig.

Mae cynorthwyydd addysgu dwyieithog yn gweithio gyda phob dysgwr yn Ysgol Uwchradd Llanwern i nodi eu diddordebau a'r pynciau y gwnaethant eu hastudio a'u mwynhau yn y gorffennol. Maent yn eu hannog i ddilyn y rhain ymhellach, er enghraifft trwy ymgysylltu â gweithgareddau allgyrsiol perthnasol. Defnyddir asesiadau i sefydlu dysgu blaenorol disgyblion o ran eu gwybodaeth, eu medrau a'u nodau, gan gynnwys eu gallu ieithyddol. Darperir strategaethau dysgu unigol ar gyfer disgyblion, ac fe gânt eu partneru â chyfeillion sy'n eu cynorthwyo yn ystod eu hwythnos gyntaf yn eu hysgol newydd.

Mae'r cynorthwyydd addysgu dwyieithog hefyd yn sefydlu cysylltiadau cryf â rhieni ac yn chwarae rôl allweddol ym mhob cyfarfod derbyn. Mae'n cefnogi integreiddio pob disgybl i'w ysgol newydd trwy gysylltu'n agos â'r pennaeth, y pennaeth blwyddyn a'r athro dosbarth i helpu sefydlu perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol. Mae'n gweithio gyda rhieni i sicrhau eu bod yn deall sut mae plant yn mynd ati i gaffael iaith newydd a'u bod yn deall y gwahaniaethau rhwng system addysg Cymru a'r un yn Wcráin.

## Defnyddio llenyddiaeth i gefnogi integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn Ysgol Gynradd Severn, Caerdydd

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches yn cael eu cynrychioli yn adnoddau'r ysgol.

Maent yn darparu ystod o lyfrau y gall disgyblion uniaethu â nhw a gweld eu hunain ynddynt, neu lyfrau sydd wedi'u hysgrifennu yn eu mamiaith. Defnyddir y llyfrau hyn fel symbyliad ar gyfer profiadau dysgu ac maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion archwilio themâu pwerus sy'n berthnasol i'w bywydau. Er enghraifft, maent yn ystyried profiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn testun fel 'The Island' a 'The Boy at the Back of the Class'. Mae disgyblion yn galw testunau i gof fel stori Floella Benjamin a Chenhedlaeth Windrush. Maent yn ymateb yn dda i'r testunau hyn oherwydd bod y storïau'n adlewyrchu eu profiadau eu hunain.

Mae rhannu storïau o'r fath gyda disgyblion eraill yn helpu meithrin goddefgarwch a pharch.

## Colegau AB a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

Roedd y rhan fwyaf o ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n oedolion yn canolbwyntio ar ddatblygu eu medrau Saesneg. Roedd y dysgwyr hyn, sy'n aml yn fregus, yn gwerthfawrogi'r agwedd gymdeithasol ar ddod at ei gilydd, yn ogystal â'r addysg a gynigir o fewn amgylcheddau croesawgar colegau AB a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Roedd athrawon yn canmol, yn annog ac yn hyrwyddo parch ymhlith eu grwpiau amrywiol o ddysgwyr. Roedd athrawon yn cydnabod y rhwystrau a'r heriau oedd yn wynebu'r dysgwyr hyn ac yn gweithio'n hyblyg i fodloni'r gofynion a osodwyd arnynt, fel cyfrifoldebau gofal plant ac apwyntiadau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Mewn ychydig o achosion, yn enwedig os oedd dysgwyr yn aros i gael eu hadleoli, roedd yn rhaid iddynt ddod â'u plant i wersi, a gallai hyn darfu arnyn nhw a phobl eraill.

Yn gyffredinol, roedd athrawon ôl-16 a dysgu oedolion yn defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau yn effeithiol i sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn ddiddorol a chyfoes. Roedd dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddod â phrofiadau go iawn ac iaith i mewn i wersi; roeddent yn gofyn cwestiynau treiddgar, yn gwirio'u dealltwriaeth, ac yn mynd ati i gyfrannu syniadau. Roedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gwerthfawrogi dysgu am ddiwylliant Cymru a Phrydain, ochr yn ochr â gallu dod â'u diwylliannau a'u profiadau eu hunain i'w dysgu.

Yn gyffredinol, roedd dysgwyr yn datblygu perthynas gadarnhaol ag athrawon, staff cymorth ac arweinwyr. Siaradon nhw'n gadarnhaol am eu cynnydd, a sut roedd eu hyder wedi datblygu. Roedd hyn yn eu galluogi i ymgeisio am swyddi a chael cyflogaeth; nodi cyfleoedd gwirfoddoli; trefnu apwyntiadau meddygol; deall rhaglenni teledu Saesneg; ac integreiddio'n fwy yn eu cymunedau lleol.

Cydnabu rhai darparwyr fod bylchau o hyd yn y ddarpariaeth ar gyfer y grŵp oedran hwn, a lleiafrif o ddarparwyr yn unig sy'n cynnig cyrsiau wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer dysgwyr a oedd eisiau elwa ar ddysgu galwedigaethol, ond yr oedd angen iddynt ddatblygu eu medrau Saesneg, hefyd.

Roedd cydnabod y cymwysterau yr oedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi'u hennill yn eu gwledydd cartref yn her i ddarparwyr. Roedd yr angen i gadarnhau cywerthoedd cymwysterau yn achosi oedi i ddysgwyr oedd eisiau dechrau rhaglenni neu fynd ymlaen i ddysgu pellach neu ddysgu uwch.



### Cynorthwyo ffoaduriaid i yrru'n ddiogel ar ffyrdd y DU – Addysg Oedolion Cymru

I ymateb i angen dysgwyr a'r awydd i sicrhau cyflogaeth, mae Addysg Oedolion wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector ac awdurdodau lleol i ddatblygu rhaglen gymorth ar gyfer y rhai sydd eisiau pasio eu prawf Theori Gyrru yn y DU. Mae'r cwrs yn ymdrin ag elfennau fel adnabod arwyddion ffordd, pellterau brecio, a diogelwch ar y ffordd ac yn y car. Pan fo'n briodol, mae tiwtoriaid hefyd yn cynorthwyo â'r broses ymgeisio am drwydded dros dro. Mae'r cyrsiau ar-lein buddiol hyn wedi galluogi'r darparwr i ddarparu yn y modd hwn ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches ledled Cymru.

# Lles, gofal a chymorth

## Ysgolion ac awdurdodau lleol

Nod awdurdodau lleol ac ysgolion oedd rhoi lles pob plentyn yn ganolog i'w gwaith. Canolbwyntion nhw ar ddarparu amgylcheddau diogel ac anogol lle gallai disgyblion bregus deimlo'n ddiogel. Yn aml, roedd plant sy'n ffoaduriaid yn cyrraedd ar ôl dioddef trawma ac yn byw ag ofn neu orbryder. Chwaraeodd awdurdodau lleol ran allweddol mewn darparu hyfforddiant a chyngor ar gyfer staff ysgolion ar ystod o agweddau, gan gynnwys gwahanol werthoedd diwylliannol, yn ogystal ag effaith trawma.

Roedd awdurdodau lleol yn cynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches â threfniadau ymarferol ar gyfer llety, gwisg ysgol a chludiant. Fe wnaeth hyn helpu teuluoedd i ymgynefino'n gyflym a sefydlu ymdeimlad o normalrwydd. Roedd awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion trwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau penodol i helpu aelodau staff ysgolion i gefnogi lles y disgyblion hyn. Fe wnaeth hyn alluogi staff ysgolion i fod yn hyblyg ac effeithiol wrth ymateb i'r heriau penodol dan sylw, ac roeddent yn gallu dod i adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda. Roedd arweinwyr ysgolion ac arbenigwyr awdurdodau lleol yn gweithio'n agored, yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol gyda'r teuluoedd bregus hyn heb farnu.

Roedd disgyblion a'u teuluoedd yn elwa ar ystod amrywiol o ymyriadau teilwredig o fewn yr ysgol ac ar y cyd â phartneriaid allanol. Pan roedd y trefniadau amlasiantaethol hyn yn fwyaf effeithiol, roeddent yn mynd i'r afael ag anghenion tai, addysg ac iechyd trwy gynnal asesiadau manwl o gyflyrau ac anghenion y teuluoedd cyn i ddisgyblion gyrraedd yr ysgol. Roedd hyn yn galluogi i'r ddarpariaeth gael ei chynllunio'n ofalus.

Esboniodd rhieni a phlant sy'n ffoaduriaid a oedd yn teimlo'n orbryderus neu'n ofnus i ddechrau wedi iddynt gyrraedd, eu bod wedi cael help i deimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt. Defnyddiodd awdurdodau lleol ac ysgolion ddulliau arloesol a sensitif i gynorthwyo'r teuluoedd hyn. Gwahoddwyd rhieni i gyfarfodydd ymsefydlu cyfeillgar neu foreau coffi lle roeddent yn dysgu am sut roedd y diwrnod ysgol yn cael ei drefnu, a beth oedd y disgwyliadau, ac roeddent hefyd yn cael cymorth i gwblhau unrhyw waith papur angenrheidiol. Helpodd y digwyddiadau hyn y rhieni i ffurfio rhwydweithiau cymdeithasol a chymorth gyda'i gilydd ac o fewn cymuned yr ysgol.

Cododd llawer o ysgolion ymwybyddiaeth am ddiwylliant a phrofiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Cynllunion nhw brofiadau cyfoethogi gwerthfawr a oedd yn canolbwyntio ar ddathlu gwahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth ochr yn ochr â hunaniaeth Gymreig yr ysgol. O ganlyniad, cydnabu disgyblion y rôl bwysig sydd ganddyn nhw fel dinasyddion yng Nghymru; roedd hyn yn helpu ennyn diddordeb a brwdfrydedd disgyblion ar gyfer hanes lleol a hanes Cymru. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn darparu profiadau ehangach gwerthfawr na fyddai eu disgyblion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches wedi elwa arnynt fel arall, fel ymweld â'r sinema neu'r pwll nofio, fel rhan o'u cwricwlwm cynlluniedig. Roedd rhieni a disgyblion yn gwerthfawrogi'r gweithgareddau ychwanegol niferus a oedd yn cael eu cynnig gan yr ysgolion hyn.

### Gwasanaethau cymorth wedi'u hatgyfnerthu trwy 'Teulu Môn', Ynys Môn

Mae Ynys Môn yn darparu un man cyswllt, sef 'Teulu Môn,' ar gyfer yr holl blant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig sydd angen cymorth ychwanegol. Maent yn darparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae penaethiaid lleol yn gwerthfawrogi'r un man cyswllt hwn gan eu bod yn gallu cyfeirio teuluoedd sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches at ystod o wasanaethau cymorth. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn hyblyg, ac mae aelodau staff yn barod i addasu'r ddarpariaeth yn unol â beth sydd orau ar gyfer lles pob teulu.

I ychwanegu at waith y gwasanaeth hwn, mae'r awdurdod lleol wedi hyrwyddo defnydd o ddull 'sy'n ystyriol o drawma' ar draws pob ysgol. Mae'r hyfforddiant cysylltiedig wedi rhoi sylfaen gadarn i ysgolion feithrin perthnasoedd â phlant bregus a'u teuluoedd.

### Gweithgareddau haf ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid o Wcráin gan Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent

Mae gwasanaeth Addysg yn y Gymuned Sir Fynwy yn gweithio mewn partneriaeth â'r adran hamdden a thwristiaeth i gyflwyno rhaglen haf ar gyfer plant sy'n preswylio mewn canolfan groeso ar gyfer ffoaduriaid o Wcráin. Mae'r gwasanaeth, a ddarperir gan dîm 'Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE)' y bartneriaeth, yn galluogi'r plant i elwa ar gyfleoedd datblygu medrau iaith trwy sesiynau celf a chrefft anffurfiol. Mae hyn nid yn unig yn cefnogi datblygiad iaith, ond hefyd yn helpu newydd-ddyfodiaid i wneud ffrindiau a dysgu am normau diwylliannol i baratoi ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd.

### Cymorth ehangach i deuluoedd yn Ysgol Gynradd Maendy, Casnewydd

Mae gan yr ysgol bolisi drws agored i ddarparu cymorth hygyrch i deuluoedd a'r gymuned. Mae eu clwb ar ôl yr ysgol, 'Wicked Wednesday,' yn dod â theuluoedd lleol ac asiantaethau cymorth allanol at ei gilydd o fewn amgylchedd croesawgar yr ysgol. Mae'r clwb hwn, sy'n eithriadol o boblogaidd, yn agored i deuluoedd disgyblion presennol a chyn-ddisgyblion, fel ei gilydd; mae'n denu tua 90 o gyfranogwyr yn rheolaidd. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn gweithio ochr yn ochr â gwahanol sefydliadau i drefnu bod teuluoedd yn cael cyfle i ddefnyddio dyfeisiadau cartref, cyfrifiaduron a chysylltiadau â'r rhyngrwyd.

Mae arweinwyr yr ysgol yn awyddus i ddatblygu medrau'r gymuned leol o oedolion sy'n ffoaduriaid, yn geiswyr lloches ac yn fewnfudwyr. Mae'r awdurdod lleol wedi gallu helpu â hyn trwy ddarparu cwrs cynorthwyydd addysgu ar gyfer rhieni. Mae hyn wedi arfogi sawl rhiant addas â'r wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen arnynt i gael swydd mewn ysgolion lleol. Mae hefyd yn sicrhau parhad mewn cymorth ar gyfer disgyblion trwy helpu datblygu gweithlu staff amrywiol i ddiwallu gwahanol anghenion ieithyddol a diwylliannol disgyblion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches, a'u teuluoedd.

Yn ogystal â chynorthwyo teuluoedd, roedd awdurdodau lleol hefyd yn croesawu plant sy'n geiswyr lloches ar eu pen eu hunain (UASC). Ar ôl nodi plentyn o'r fath, roedd gweithwyr cymdeithasol yn trefnu gofal maeth ac yn dewis ysgol briodol. Datblygwyd cynllun addysg personol, a oedd yn ystyried safbwyntiau'r plentyn, gan gynnwys ei ddiddordebau a'i ddyheadau, a chynhaliwyd adolygiad ar ôl wyth wythnos ysgol. Roedd ychydig o awdurdodau lleol yn cael trafferth darparu ar gyfer plant ar eu pen eu hunain a oedd yn cael eu hanfon atynt o awdurdodau lleol heb rybudd. Nid oedd awdurdodau rhiant corfforaethol a chwmnïau maethu preifat bob amser yn cyfathrebu'n dda ag adrannau addysg awdurdodau lleol.

Yn gyffredinol, roedd cyfraddau absenoldeb ymhlith disgyblion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches yn peri pryder i ysgolion ac awdurdodau lleol. Roedd nifer o deuluoedd yn byw mewn gwestai neu lety dros dro a gellid eu symud rhwng gwahanol leoliadau ar fyr rybudd. Mewn rhai ardaloedd, roedd y diffyg lle mewn ysgolion cyfagos yn golygu bod rhaid i blant deithio i ysgolion y tu allan i'r ardal lle roeddent yn cael eu lletya, gan wneud presenoldeb rheolaidd yn fwy heriol. Roedd ysgolion hynod effeithiol yn gosod blaenoriaeth uchel ar olrhain presenoldeb disgyblion ac roeddent yn gweithredu ymateb cadarn ar y diwrnod cyntaf i unrhyw absenoldebau. Fodd bynnag, nid oedd statws ceisiwr lloches neu ffoadur yn cael ei gofnodi trwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ac roedd hyn yn rhwystro gwaith monitro a gwerthuso ehangach.

At ei gilydd, roedd y disgyblion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches y siaradom â nhw o'r farn fod eu lleisiau'n cael eu clywed yn yr ysgol ac y gallent awgrymu ffyrdd o wella'u bywydau a'u cymunedau. Roedd cynghorau ysgol yn rhoi gwerth yn gynyddol ar ddathlu amrywiaeth ddiwylliannol eu hysgol. At ei gilydd, roedd gan ddisgyblion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu ac yn dangos lefelau uchel o wydnwch ac uchelgais ar gyfer eu dyfodol.

Ar y cyfan, roedd ethos cynhwysol cryf ym mhob un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon. Roedd Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) Iechyd a Lles y Cwricwlwm newydd i Gymru, yn ogystal â'r agwedd ar addysg rhyw a chydberthynas ar y cwricwlwm, yn helpu i gefnogi hyn. Roedd yr agweddau hyn yn cael eu hymgorffori'n gynyddol yn y cwricwlwm ac mewn agweddau ehangach ar fywyd ysgol. Roedd hyn o fudd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer yr holl ddisgyblion oedran cynradd ym mis Medi 2022. Roedd gwasanaethau, gweithgareddau bugeiliol a diwrnodau ac wythnosau dynodedig yn cael eu defnyddio'n dda i ddathlu amrywiaeth iaith a diwylliant.

### Helpu disgyblion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches a'u teuluoedd i integreiddio yn Ysgol Gymunedol Plascrug, Ceredigion

Dros y degawd diwethaf, mae Ysgol Gynradd Plascrug wedi dod yn noddfa groesawgar a gwerthfawr yn gynyddol ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd. Mae'r ysgol wedi darparu ar gyfer ffoaduriaid o Syria, Affganistan ac Wcráin, ochr yn ochr â phlant o wledydd eraill, ac wedi eu helpu i integreiddio'n ddi-dor i'w bywyd yng Nghymru.

Mae staff yr ysgol yn cynnwys dau gynorthwyydd addysgu sydd, gan eu bod yn rhugl mewn Arabeg, yn gallu helpu disgyblion o amrywiaeth o wledydd i deimlo'n gartrefol. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol yn cyflogi cyn athro Saesneg o Wcráin, sy'n ffoadur ei hun, sy'n gweithio'n agos gyda phlant sy'n newydd i'r ardal ac angen help i integreiddio. Caiff gwaith pob un o'r aelodau staff hyn ei werthfawrogi'n fawr gan y disgyblion, aelodau staff eraill a chymuned ehangach yr ysgol. Mae un wedi dysgu Cymraeg i safon dda ac yn gwasanaethu fel model rôl da ar gyfer y disgyblion.

Un o nodweddion nodedig yr ysgol yw'r ffordd y mae teuluoedd o ystod amrywiol o ddiwylliannau, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn cyfrannu at gymuned yr ysgol. Mae ffoaduriaid sy'n oedolion yn helpu cynnal agweddau ar adeiladau a thir yr ysgol. Yn noson ryngwladol flynyddol hynod boblogaidd yr ysgol, mae teuluoedd o bob cwr o'r byd yn cynnig amrywiaeth o fwydydd traddodiadol wedi'u coginio gartref i ddathlu integreiddio amlddiwylliannol.

Mae uned anogaeth 'PLAS' yr ysgol yn darparu'n dda ar gyfer anghenion disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae pwyslais yr ysgol ar anogaeth yn llwyddo i alluogi ffoaduriaid i nid yn unig ymgynefino ond ffynnu ochr yn ochr â'u ffrindiau o Gymru. Mae 'diwrnodau empathi' yn meithrin synnwyr o gydymdeimlad ymhlith yr holl ddisgyblion, tuag at y rhai sydd wedi dioddef, ac yn parhau i ddioddef, o effeithiau rhyfel ac erledigaeth.

Ochr yn ochr â ffocws ar ddatblygu medrau cyfathrebu Saesneg y disgyblion, mae'r ysgol yn helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn effeithiol i ymddiddori yn y Gymraeg, a'i pharchu. Mae disgyblion a'u rhieni yn ymdrechu i ddysgu'r iaith a gall ychydig ohonynt siarad yn fedrus fel dysgwyr.

## Colegau AB a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

Yn y tri choleg a'r ddwy bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yr ymwelom â nhw, roedd cymorth helaeth ar gyfer lles a datblygiad personol dysgwyr ôl-16 a dysgwyr sy'n oedolion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches, ac mewn llawer o ffurfiau. Roedd enghreifftiau'n cynnwys prosesau ymgeisio symlach; amrywiaeth o gyrsiau, lleoliadau a dulliau cyflwyno; cymorth a hyfforddiant personol; a gweithgareddau allgyrsiol a oedd yn darparu cyfoethogi ac yn hybu lles. Roedd y dysgwyr hŷn hefyd yn elwa ar gysylltiadau â phartneriaid allanol fel cymdeithasau tai, y Ganolfan Byd Gwaith, a Cyngor ar Bopeth. Mewn rhai achosion, roedd cymorth entrepreneuriaeth ar gael ar gyfer y rhai sy'n gobeithio dechrau eu busnesau eu hunain.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n oedolion yn ddysgwyr wedi'u cymell ac yn mwynhau dysgu. Fodd bynnag, roedd rhai ohonynt yn orbryderus am eu dyfodol o ran adleoli o fewn y DU, neu'r posibilrwydd o ddychwelyd i'w gwledydd cartref. Roedd llawer ohonynt hefyd yn cael trafferth ag effeithiau trawma a'i effaith ar eu gallu i ganolbwyntio ar ddysgu. Roedd eu hathrawon yn cydnabod hyn ac yn ymateb yn sensitif ac yn briodol.

Yn ogystal â'r cymorth sy'n cael ei roi gan athrawon, darparwyr a sefydliadau allanol, roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi manteision bod yn rhan o gymuned ddysgu. I lawer ohonynt, helpodd y perthnasoedd a ffurfiwyd gyda'u cymheiriaid ddarparu ymdeimlad o gymuned a oedd yn ymestyn y tu hwnt i'r amgylchedd dysgu. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu am wledydd a diwylliannau ei gilydd, yn ogystal â gallu treulio amser gyda'i gilydd a chefnogi'i gilydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'i cholegau AB i ddatblygu modiwlau cwricwlwm gwrth-hiliol fel rhan o'i Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru (2022, tud. 46). Fodd bynnag, dywedodd dysgwyr sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches eu bod wedi bod yn dyst i achosion o hiliaeth neu fwlio, neu wedi'u dioddef. Roedd yr achosion hyn bron bob amser yn digwydd y tu allan i'r amgylchedd dysgu. Os oeddent o'r farn fod angen cymorth, dywedodd dysgwyr eu bod yn gwybod gyda phwy i gysylltu.

Roedd cynorthwyo dysgwyr SSIE a oedd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi'u cadarnhau neu eu hamau yn her i ddarparwyr. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod y rhwystr iaith yn cyfyngu ar effeithiolrwydd yr offer diagnostig yr oeddent yn eu defnyddio fel arfer. Pan roedd materion yn cael eu nodi, roedd dod o hyd i aelodau staff â medrau priodol hefyd yn gallu bod yn anodd gan fod angen arbenigedd SSIE ac ADY yn aml ar y rhai a oedd yn cynorthwyo'r dysgwyr hyn.

Gallai ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd newydd gyrraedd ac yn gobeithio dilyn cyrsiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) a chymorth perthnasol eraill droi at yr Hybiau Canolog Asesu SSIE Rhanbarthol (REACH). Roedd y 'siopau un stop' hyn yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol ond hefyd yn gweithredu fel sianelau gwerthfawr ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arfer dda yng Nghymru gyfan. Roedd hybiau wedi eu lleoli yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam. Mae hyb REACH Caerdydd wedi asesu a chefnogi dros wyth mil o ddysgwyr SSIE ers ei sefydlu yn 2017.

Roedd colegau a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn darparu adnoddau caledwedd yn fuddiol i ddysgwyr, lle bo'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys benthyca dyfeisiau digidol a 'donglau' i gynorthwyo dysgwyr, yn enwedig ar gyfer y rhai mewn ardaloedd mwy anghysbell neu'r rhai yn cael trafferth â gofynion gofal plant, i allu dysgu o bell.

### Menter ac entrepreneuriaeth yng Ngholeg Pen-y-bont

Mae dysgwyr SSIE yng Ngholeg Pen-y-bont, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn gallu cael cymorth i ddatblygu eu medrau menter ac entrepreneuriaeth i'w helpu i ddechrau eu busnes eu hunain. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae dysgwyr SSIE wedi mynychu digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein amrywiol, gan gynnwys gweithdai 'dechrau eich busnes eich hun'. Sefydlodd un dysgwr SSIE fusnes trin gwallt symudol, agorodd cwpwl arall dŷ bwyta Halal, ac mae dysgwr arall yn sefydlu busnes fel cyfrifydd hunangyflogedig gyda chymorth Busnes Cymru.

### Nodi anghenion dysgu ychwanegol ymhlith dysgwyr SSIE yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro

Mae'r Prosiect Cymorth a Chynhwysiant SSIE (ESIP) yn helpu athrawon i nodi rhwystrau dysgu cudd. Mae tîm arbenigol wedi datblygu tri maes cymorth penodol: rhaeadru dysgu i'r tîm addysgu; datblygu dosbarthiadau arbenigol a chymorth hyfforddiant dysgu ar gyfer dysgwyr sydd â llythrennedd isel yn eu mamiaith; a gweithio'n agos gyda thimau ADY arbenigol i sicrhau bod dysgwyr a staff yn gallu elwa ar arbenigedd. Trwy ddefnyddio'r dull hwn, mae'r coleg yn llwyddo i helpu ei ddysgwyr trwy rwystrau cudd a chyflawni eu nodau dysgu.

# Arwain a gwella

## Ysgolion ac awdurdodau lleol

Roedd nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu gweledigaeth a gwerthoedd Dinas Noddfa ('City of Sanctuary') i feithrin diwylliant o letygarwch a chroeso ar gyfer unigolion sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth. Roeddent yn cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn hynod effeithiol, ac ar y cyfan yn eu helpu i integreiddio yn eu cymunedau a dathlu eu cyfraniadau. Yn gyffredinol, roedd swyddogion o fewn awdurdodau lleol ac uwch arweinwyr ysgolion yn hyrwyddo ethos cynhwysol yn llwyddiannus a oedd yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgu a lles yr holl ddisgyblion.

Diolch i ddysgu proffesiynol awdurdodau lleol dros y blynyddoedd diwethaf, roedd eu swyddogion, arweinwyr ysgolion ac aelodau yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r heriau penodol sy'n wynebu ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Roedd yr ymwybyddiaeth hon yn helpu'r rhai dan sylw i ymateb yn sensitif i anghenion ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'u teuluoedd, gan alluogi staff, disgyblion a rhieni i weithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol. Fodd bynnag, roedd pwysau o ran cyllid yn effeithio ar gapasiti ysgolion ac awdurdodau lleol i gyflogi staff cymorth arbenigol, fel swyddogion ymgysylltu a oedd yn gallu darparu ymyrraeth bwrpasol.

Yn gyffredinol, roedd yr awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn ein hadolygiad yn gweithio'n dda iawn gyda sefydliadau partner i helpu ysgolion i ddarparu cymorth addas ar gyfer dysgu a lles ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Roeddent yn hyrwyddo diwylliant cynhwysol ac yn defnyddio dysgu proffesiynol yn effeithiol i helpu aelodau staff i ddeall yr amrywiaeth o heriau sy'n wynebu'r disgyblion hyn a'u teuluoedd. Cydnabu pob un o'r awdurdodau lleol fod ymateb amlasiantaethol, ar y cyd, yn hanfodol i fynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion diwylliannol, cymdeithasol, iechyd, emosiynol, academaidd ac anghenion tai'r teuluoedd bregus hyn. Cefnogwyd cydweithio cryf, i gyd-fynd â gweledigaeth 'Dinas Noddfa', trwy gyfarfodydd dynodedig yn cynnwys nifer o asiantaethau. Fe wnaeth hyn helpu staff o fewn gwahanol sefydliadau i ddeall gwaith ei gilydd yn well, gan arwain at ddiwylliant pwrpasol lle roedd gwahanol arbenigwyr yn elwa ar arbenigedd ei gilydd. Roedd hyn yn hynod effeithiol wrth ddatrys problemau ar ran gwahanol deuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Cydnabu awdurdodau lleol ac ysgolion fod dysgu disgyblion yn cael ei gefnogi orau trwy bartneriaethau cynhyrchiol rhyngddyn nhw eu hunain a rhieni. Yn gyffredinol, teimlai rhieni eu bod yn gwybod at bwy i droi am gymorth, beth bynnag fo'u hamgylchiadau. Helpodd yr ymgysylltiad cryf hwn â rhieni i feithrin medrau, hyder a hunan-barch rhieni. O ganlyniad, roedd rhieni'n gweld yr ysgol fel lle iddynt allu cael cyngor a chymorth. Byddai hyn yn eu helpu i ddatrys materion yn ymwneud â'u plant yn ogystal â phryderon ehangach ynghylch tai, arian, medrau neu les teuluol. Roedd llawer o rieni yn gweld eu hysgolion fel noddfa a lle diogel. Sicrhaodd awdurdodau lleol fod ysgolion yn cael mynediad at wasanaethau cyfieithu byw dros y ffôn yn ogystal â chyfieithwyr wyneb-yn-wyneb, pan roedd angen.

### Ymagwedd amlasiantaethol at gymorth cyfannol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn Sir y Fflint

Mae awdurdod lleol Sir y Fflint yn cydnabod bod pob teulu yn unigryw, gyda'i ddiwylliant, ei hanes a'i brofiadau addysgol ei hun, yn ogystal ag anghenion tai, meddygol a chymdeithasol. Maent yn darparu ymagwedd gyfannol ac amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddiwallu anghenion pob teulu sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches.

- Tîm Ymateb Rheoli Brys (EMRT) – yn dod ag uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, yr heddlu, cyfathrebu, diogelwch rhag tân, yr Adran Gwaith a Phensiynau a chyllid, at ei gilydd. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth amserol i wasanaethau addysgol gan alluogi ymateb cyflym i anghenion sy'n newid gan wahanol deuluoedd.
- Tîm Ymateb Addysg ac Ieuenctid – yn cefnogi derbyn i ysgolion, cludiant, tîm chwarae, gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd a chydweithio gan ystod o wasanaethau cynhwysiant, er enghraifft addysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY), cwnsela ac ADY.
- Y Groes Goch Brydeinig – yn darparu gwasanaethau cyfeiriadu ar gyfer ffoaduriaid o Wcráin ac Affganistan.
- Dysgu oedolion yn y gymuned – yn rhoi mynediad at addysg a hyfforddiant ar gyfer rhieni sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches.
- Gwasanaethau ieuenctid – yn darparu ystod o weithgareddau cymunedol ar gyfer rhieni a phlant sydd ar wasgar ledled y sir i hwyluso rhwydweithio â'u cydwladwyr.

### Cyfathrebu rhwng rhieni / gofalwyr sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches ac Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd

Mae Ysgol Uwchradd Cathays wedi rhoi pecynnau cymorth pwrpasol ar waith ar gyfer disgyblion a'u rhieni neu ofalwyr, sy'n darparu ar gyfer eu hanghenion emosiynol a dysgu, yn codi eu dyheadau ac yn eu paratoi ar gyfer y dyfodol.

Mae cydweithio yn helpu sefydlu ymddygiadau cadarnhaol wrth i ddisgyblion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches ddechrau ymgynefino â ffordd newydd o fyw. Rhoddir blaenoriaeth i gyfathrebu rheolaidd dwy ffordd rhwng yr ysgol a'r teuluoedd neu'r gofalwyr. Mae gweithio mewn partneriaeth yn y modd hwn yn sicrhau dull cyson ar gyfer disgyblion yn yr ysgol ac yn y cartref. Mae'r ysgol a'r rhieni neu'r gofalwyr hefyd yn elwa ar ddealltwriaeth glir ac amserol o anghenion y plant ac unrhyw heriau fel y maent yn codi. Mae disgwyliadau uchel yr ysgol yn helpu sicrhau bod disgyblion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches wedi eu paratoi'n dda ar gyfer eu llwybrau yn y dyfodol.

At ei gilydd, mae'r disgyblion hyn yn llwyddo i gyflawni eu nodi, er enghraifft trwy fynd ymlaen i astudio mewn prifysgol neu ddechrau eu busnesau eu hunain.

Roedd effeithiolrwydd y cyfathrebu a'r cydweithio rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 i gynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches wrth iddynt drosglwyddo rhyngddynt yn rhy amrywiol. Cydnabu arweinwyr fod angen datblygu'r agwedd hon ymhellach o ystyried nifer gynyddol yr unigolion o'r cymunedau hyn, gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain, a oedd yn paratoi i adael yr ysgol.

## Colegau AB a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

Roedd arweinwyr mewn colegau AB a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn ymateb yn dda i'r galw cynyddol am ddarpariaeth SSIE. Roedd darparwyr wedi ymateb yn gyflym i fodloni'r galw, ac wedi cynllunio eu darpariaeth mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill, lle roedd modd, i sicrhau cynnig addysgol priodol, osgoi dyblygu darpariaeth, a sicrhau bod cymorth perthnasol ar gael. Roedd partneriaid yn cynnwys darparwyr addysg eraill, sefydliadau'r trydydd sector, adrannau awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd ehangu darpariaeth SSIE wedi achosi heriau o ran recriwtio aelodau staff newydd, yn enwedig y rhai a oedd yn gymwys ac yn brofiadol mewn arferion sy'n ystyriol o drawma. Cydnabu darparwyr nad aethpwyd i'r afael â hyn yn gyffredinol fel rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon a bod ymdriniaeth fel rhan o weithgareddau dysgu proffesiynol parhaus yn anghyson, hefyd.

Gallai'r amgyffrediad ymhlith ffoaduriaid a cheiswyr lloches o fodolaeth hierarchaeth yn y cymorth yr oedd gwahanol gymunedau yn ei gael, fod yn anodd i arweinwyr ac athrawon ei reoli. Gallai rhai grwpiau fanteisio ar fuddion na allai grwpiau eraill, fel cludiant cyhoeddus am ddim, a gallai hyn arwain at densiynau yr oedd angen eu rheoli'n sensitif. Pan roedd modd, roedd darparwyr yn ceisio gwneud iawn i sicrhau cydraddoldeb, er enghraifft trwy ddefnyddio ffrydiau cyllido amgen yn synhwyrol i ariannu gwasanaethau ar gyfer y rhai na allent fanteisio ar rywbeth.

Mynegodd arweinwyr rwystredigaeth ei bod yn ymddangos bod gwahanol grantiau ag amcanion tebyg wedi cael eu sefydlu heb roi llawer o ystyriaeth i grantiau sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft, roeddent yn ansicr ynglŷn â sut y dylent ddefnyddio cyllid 'Ffyniant Bro' a ddyrannwyd gan Lywodraeth y DU ochr yn ochr â ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru.

### Sesiynau galw i mewn ar gyfer ffoaduriaid yn Grŵp Llandrillo Menai

Mae cynllun adsefydlu ffoaduriaid Gwynedd a Môn yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer ffoaduriaid ar ffurf sesiynau galw i mewn 'un stop' a gynhelir mewn lleoliadau amrywiol, gan gynnwys ar safleoedd coleg Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r 'siopau un stop' hyn yn cynorthwyo â chwilio am swyddi, yn ogystal â chysylltiadau i gyfleoedd gwirfoddoli, ac mae llawer o ffoaduriaid yn manteisio ar y cymorth hwn. Yn ychwanegol, mae cyngor ac arweiniad arbenigol ar gael i helpu ffoaduriaid i sicrhau llety a chael cymorth ariannol. Cynhelir banciau cyfnewid dillad bob mis hefyd sy'n galluogi ffoaduriaid i gyfnewid neu gael dillad newydd.

# Cyfeiriadau


Higham, G. (2021) Lleisiau Ffoaduriaid Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://vimeo.com/581106410 [Cyrchwyd 8 Tachwedd 2023]

Peterson, A., Meehan, C., Ali, Z., and Durrant, I. (2017) What are the educational needs and experiences of asylum-seeking and refugee children, including those who are unaccompanied, with a particular focus on inclusion? Canterbury Christ Church University: England. [Ar-lein]. Ar gael o: https://repository.canterbury.ac.uk/download/06e2b644563fd83b0b18df9db4876ff82f08cd3d874b6fdab34435ba4708969d/1009797/__stafs-sal-01.ccad.canterbury.ac.uk_id25_Documents_Hartsdhown_literature-review.pdf [Cyrchwyd 8 Tachwedd 2023]

Refugee Action (2023) Facts About Asylum. [Ar-lein] Ar gael o: https://www.refugee-action.org.uk/facts-about-asylum/?gclid=EAIaIQobChMIk-CUvKa3ggMVkcXtCh2nhgUEEAAYAiAAEgJFFvD_BwE [Cyrchwyd 8 Tachwedd 2023]

UK Government, Home Office (2023) Summary of latest statistics. London: UK Government. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/immigration-system-statistics-year-ending-june-2023/summary-of-latest-statistics#how-many-people-do-we-grant-protection-to [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

UNICEF (2020) Education Transitions for Refugee and Asylum-Seeking Young People in the UK: Exploring the Journey to Further and Higher Education. London: UNICEF. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/Education-Transitions-UK-Refugee-Report.pdf [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Cymru: Cenedl Noddfa (2023) Nod Cymru yw bod y 'Genedl Noddfa' gyntaf yn y byd. [Ar-lein]. Ar gael o: https://wales.cityofsanctuary.org/cy/ [Cyrchwyd 8 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-12/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol_0.pdf [Cyrchwyd 8 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023) Effaith Covid-19 ar ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/7e2aaedd-c0c8-4d19-b37c-1710e121338b/effaith-covid-19-ar-ddysgwyr-sy-n-ffoaduriaid-yng-nghymru.pdf [Cyrchwyd 8 Tachwedd 2023]

## Themâu allweddol

# Y Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant

## 2022-2023




Yn ystod 2022-2023, roedd canfyddiadau ein harolygon yn darlunio sefyllfa anghyson o ran y Gymraeg. Parhaodd dylanwad cyfnod y pandemig i gael effaith negyddol ar allu dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Yn adroddiad blynyddol 2021-2022, nodom effaith y pandemig ar hyder dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg. Yn 2022-2023, gwelsom bod llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau Cymraeg, yn enwedig eu medrau gwrando a siarad mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn ffrwyth gwaith a wnaethpwyd gan ddarparwyr i dargedu medrau llafaredd dysgwyr. Fodd bynnag, nid oedd disgyblion yn aml yn gwneud cymaint o gynnydd yn eu medrau Cymraeg ag y medrant, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn aml, nid oedd arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn rhoi digon o flaenoriaeth i ddatblygu medrau Cymraeg eu disgyblion. O ganlyniad, yn yr ysgolion hynny, ac mewn mwyafrif o ddarparwyr ar draws y sectorau, nid oedd medrau Cymraeg dysgwyr yn datblygu'n ddigon cadarn.

Mae datblygiad gallu disgyblion i gyfathrebu yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi bod yn destun pryder dros gyfnod hir. Yn 2012-2013, nododd Ann Keane, prif arolygydd y cyfnod, bod arolygwyr wedi gwneud argymhelliad i wella medrau Cymraeg disgyblion yn chwarter yr ysgolion cyfrwng Saesneg a arolygwyd (Estyn, 2013, t.26). Degawd yn ddiweddarach, yr un yw'r darlun. Yn 2022-2023, derbyniodd trideg y cant o'r ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a deunaw y cant o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a arolygwyd, argymhelliad ar y Gymraeg. Cafodd chwarter o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd yn 2022-2023 argymhelliad am y Gymraeg.

Yn Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2022b) ganlyniadau Cyfrifiad 2021 am fedrau Cymraeg pobl tair oed neu hŷn sy'n byw yng Nghymru. Bu gostyngiad o 6 pwynt canran mewn plant rhwng 5 a 15 oed y nodwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021(2022b, t. 5). Mae darparwyr addysg a hyfforddiant yn wynebu llawer o heriau wrth ddatblygu medrau Cymraeg eu dysgwyr gan gynnwys:

- Recriwtio staff i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sectorau. Er enghraifft, yn 2021-2022 roedd y niferoedd oedd yn cwblhau rhaglen addysg gychwynnol athrawon trwy gyfrwng y Gymraeg ymhell o'r targedau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwelir problemau recriwtio yn effeithio ar lawer o sectorau gan gynnwys y sector uwchradd gyda'r niferoedd sydd yn hyfforddi i addysgu mewn ambell bwnc arbenigol yn isel iawn. Yn ogystal, roedd recriwtio ymarferwyr sydd a'r medrau arbenigol angenrheidiol i gefnogi disgyblion anghenion dysgu ychwanegol yn peri pryder.
- Sicrhau cefnogaeth dysgu proffesiynol addas a hyblyg i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg personol.

- Sicrhau cefnogaeth dysgu proffesiynol addas i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut mae dysgwyr yn caffael iaith a beth yw'r addysgeg mwyaf effeithiol i gefnogi dysgwyr.
- Trefniadau pontio effeithiol o un cyfnod i'r llall, er enghraifft, rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ac addysg ôl-16.
- Sicrhau darpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr ôl-16 gan gynnwys cyfleoedd i gymhwyso eu medrau Cymraeg.
- Sicrhau bod arweinwyr mewn darparwyr cyfrwng Saesneg yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu medrau Cymraeg eu dysgwyr a deall gwerth y medrau hyn ym myd gwaith.

Yn ystod 2022-2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru sawl cynllun i gefnogi'r Gymraeg gan gynnwys cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg (Llywodraeth Cymru, 2022) a dogfen ymgynghorol ar gynigion am Ddeddf Addysg y Gymraeg mewn Addysg (Llywodraeth Cymru, 2023a). Mae'r dogfennau yn cydnabod bod heriau arwyddocaol i dyfu'r gweithlu addysg sydd â'r sgiliau iaith angenrheidiol i alluogi ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a gwella deilliannau ieithyddol disgyblion ymhob ysgol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod yr uchelgais a'r angen i barhau i gynyddu faint o ddisgyblion sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n cydnabod bod angen gwella'r ddarpariaeth a'r cyswllt gyda'r Gymraeg ym mhob ysgol fel bod digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg a gwneud y cynnydd disgwyliedig.

Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru, yn Ionawr 2023 roedd 378 o ysgolion cyfrwng Cymraeg, 27 o ysgolion dwy ffrwd, dwy ysgol a oedd yn y broses drawsnewid ac 32 o ysgolion dwyieithog allan o gyfanswm o 1,463 o ysgolion yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2023b). Yn ogystal roedd 35 ysgol Saesneg ble gwnaed defnydd arwyddocaol o'r Gymraeg. Ers 2018-2019 mae'r cyfran o ysgolion ble darperir addysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn gyson fel 30% o gyfanswm ysgolion Cymru. Yn ogystal, mae'r cyfran o ddisgyblion sydd mewn ysgolion ble mae o leiaf hanner y pynciau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn gyson ar 23%. Mae'r canran o ddisgyblion addysgir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig wedi cynyddu o 16% yn 2012-2013 i 17% yn 2022-2023 (Llywodraeth Cymru, 2023b).

Ble roedd y gefnogaeth ar brwdfrydedd i ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr yn gadarn, roedd arweinwyr yn blaenoriaethu'r Gymraeg gan osod gweledigaeth glir a chynllun gwella strategol a bwriadus ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth. Yn yr arferion effeithiol hyn ym mhob sector, roedd arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol a chefnogaeth i ymarferwyr ddatblygu eu medrau i gefnogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg mewn modd adeiladol dros gyfnod. Roedd hyn yn meithrin brwdfrydedd a hyder ymysg ymarferwyr a oedd yn ei dro yn cael effaith cadarnhaol ar ddysgwyr i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol ddigymell mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Er enghraifft, chwaraeodd cynlluniau fel y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg rôl allweddol wrth ddatblygu medrau Cymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ambell ysgol a chlwstwr (Llywodraeth Cymru, 2021a). Yn yr enghreifftiau gorau, gwelsom effaith y ddarpariaeth ar athrawon unigol a sut bu iddynt ddefnyddio'r hyn a ddysgont i ddylanwadu ar eraill. Yn bwysicaf oll, cafodd hyn effaith gadarnhaol ar addysgu a safonau'r Gymraeg yn yr ysgolion hyn. Darllenwch am sut datblygodd St David's R.C. Primary School, Cwmbran y Gymraeg o ganlyniad i ddysgu proffesiynol bwriadus.

Yn yr arferion llai cadarnhaol, nid oedd arweinwyr yn blaenoriaethu'r Gymraeg nac yn hyrwyddo buddion bod yn ddwyieithog ac amlieithog yn ddigonol. Yn aml, nid oeddent yn ystyried yn briodol gynnydd disgyblion na'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg wrth hunan-werthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Er enghraifft, yn rhy aml, roeddent yn ystyried bod defnyddio ychydig iawn o gyfarchion a geiriau Cymraeg gyda disgyblion yn ddigonol ac nid oedd cynllun i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg tu hwnt i ychydig o wersi penodol. Yn ogystal, ychydig iawn o ddysgu proffesiynol a roddwyd i helpu staff i ddatblygu eu medrau a'u hyder yn y Gymraeg. Testun pryder yw bod y sefyllfa hon wedi parhau mewn rhai ysgolion dros gyfnod hir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu adnodd i helpu arweinwyr ddatblygu'r Gymraeg Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o arweinwyr sy'n ymwybodol o'r adnodd hwn ac yn ei ddefnyddio wrth hunanwerthuso eu taith i ddatblygu'r Gymraeg.

Yn unol â Chanllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Llywodraeth Cymru, 2021b), mae pob awdurdod lleol (ALl) wedi cyflwyno cynllun 10 mlynedd a fydd yn anelu at ymdrechu i wneud 'pob dysgwr yn un o bob miliwn' er mwyn cefnogi'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Er bod cynlluniau strategol wedi eu cyflwyno yn yr awdurdodau lleol, mae'n rhy fuan i fesur effaith y cynlluniau hyn ar arweinyddiaeth, a'r effaith ar addysgu a dysgu y Gymraeg mewn darparwyr ar draws y sectorau. Yn Nhachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o £2.2miliwn er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu eu darpariaeth trochi hwyr. Mae hyn wedi galluogi awdurdodau lleol ar draws Cymru i adeiladu ar eu darpariaeth bresennol neu sefydlu canolfannau trochi or newydd (Llywodraeth Cymru, 2021c).

## Prif negeseuon o'r sectorau




Mewn **lleoliadau nas-gynhelir**, roedd mwyafrif y plant a oedd yn newydd i'r iaith mewn darparwyr Cymraeg a Saesneg yn gwneud cynnydd yn unol â'u cam datblygiad. Roedd ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd i wrando a defnyddio'r iaith er enghraifft trwy gyflwyno cyfarwyddiadau syml a chaneuon Cymraeg. Roedd plant yn dangos eu dealltwriaeth trwy ddilyn cyfarwyddiadau yn llwyddiannus. Yn aml, roedd plant yn defnyddio ychydig o eirfa Saesneg wrth ymdrechu i gyfathrebu, er enghraifft wrth ymateb trwy ddweud 'Dw i'n gallu torri banana by myself' tra'n paratoi byrbryd. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o ddarparwyr Cymraeg a Saesneg, nid oedd ymarferwyr yn cynllunio'r cam nesaf yn natblygiad Cymraeg disgyblion wrth iddynt gaffael iaith, yn ddigon effeithiol.

Wrth i blant symud i'r **sector cynradd**, roedd llawer o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan gynnwys disgyblion newydd i'r iaith, yn gwneud cynnydd cadarn. Yn yr arfer orau, roedd ymarferwyr yn cynllunio datblygiad iaith disgyblion yn effeithiol mewn amrywiaeth ddiddorol o gyd-destunau dysgu ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Trwy hyn, roedd disgyblion yn datblygu geirfa a phatrymau iaith a oedd yn cefnogi eu hyder i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol annibynnol mewn sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol. Cafodd medrau darllen ac ysgrifennu llawer o ddisgyblion eu datblygu'n briodol gan ymarferwyr wrth iddynt ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion eu cymhwyso mewn amryfal gyd-destunau.

Yn y **sector uwchradd**, yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog roedd disgyblion yn mynegi eu hunain yn briodol gan ddefnyddio geirfa eang. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn fwy chwithig. Yn aml, yn yr achosion hyn, roedd geirfa disgyblion yn fwy cyfyngedig, roeddent yn defnyddio cystrawennau gwallus, bratiaith neu roedd geiriau Saesneg yn britho eu brawddegau. At ei gilydd, roedd llawer o ddisgyblion yn lleoli ffeithiau a chywain gwybodaeth o destunau darllen yn llwyddiannus. Gallai disgyblion gyfuno gwybodaeth o amrywiol destunau yn addas. Roedd mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol yn y Gymraeg gydag ychydig yn ysgrifennu'n raenus gan ddefnyddio iaith naturiol a choeth. Fodd bynnag, roedd lleiafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n wallus gan sillafu geiriau yn anghywir neu ddefnyddio cystrawen brawddegau chwithig.

Ar draws y **sectorau nas-gynhelir, cynradd, uwchradd a phob oed cyfrwng Cymraeg a dwyieithog**, roedd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn Gymraeg yn briodol. Yn yr arferion gorau, roedd cyfleoedd dysgu proffesiynol i helpu ymarferwyr ddwysáu eu dealltwriaeth o ddatblygiad iaith disgyblion dros gyfnod. O ganlyniad roedd ymarferwyr hyn yn cynllunio datblygiad y Gymraeg yn fwriadus ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion siarad a defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau diddorol ac ystyrlon. Gwnaeth disgyblion gynnydd cryf yn eu medrau Cymraeg oherwydd y ddarpariaeth hon. Darllenwch fwy am sut mae Ysgol Caer Elen yn datblygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws yr ysgol.

Yn gyffredinol, o gael y cyfle roedd llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau dysgu cadarnhaol i ddysgu Cymraeg ac yn awyddus i ddysgu am eu hardal leol, Cymru a thu hwnt. Darllenwch sut mae arweinwyr ac ymarferwyr yn Ysgol Penclawdd yn canolbwyntio ar ddatblygu ethos a diwylliant Cymru a'r Gymraeg, yn hytrach na dim ond ar yr iaith. Trwy hyn, cafodd disgyblion brofiad cyfannol a chynhwysfawr o ddysgu Cymraeg gan werthfawrogi hanes a threftadaeth Cymru fel rhan allweddol o'u profiad dysgu.

Yn llawer o **ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg,** nid oedd yr addysgu yn ffocysu yn ddigon manwl ar sut cefnogir disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg. Nid oedd disgyblion yn adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth blaenorol ac ni roddwyd digon o gyfleoedd iddynt ymarfer eu medrau, yn arbennig eu medrau llafar. Nid oedd ymarferwyr yn hyderus eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddulliau addysgu iaith, gan gynnwys dulliau trochi, er mwyn cefnogi disgyblion i gaffael iaith yn systematig. Yn aml, nid oedd cyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi staff i ddatblygu'r agweddau hyn o'u gwaith. O ganlyniad, nid oeddent yn cynllunio gweithgareddau i adeiladu ar wybodaeth flaenorol disgyblion o'r Gymraeg nac yn caniatáu iddynt ddatblygu a chymhwyso eu medrau yn adeiladol dros gyfnod. Yn ogystal, nid oeddynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion siarad a defnyddio'r iaith y tu allan i wersi Cymraeg, yn enwedig wrth i'r disgyblion ddatblygu trwy'r ysgol. Roedd hyn yn llesteirio gallu a hyder llawer o ddisgyblion i gyfathrebu'n hyderus a siarad Cymraeg yn ddigymell. Testun pryder ers dros ddegawd yw'r diffyg dealltwriaeth o addysgeg effeithiol, cynllunio ieithyddol pwrpasol a darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Un o egwyddorion y **system addysg dysgu ychwanegol** (ADY) yw datblygu system ddwyieithog sy'n 'cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg' (Llywodraeth Cymru, 2021d, p.37). Mae cyfres o ddyletswyddau strategol wedi'u cynllunio hefyd er mwyn symud i gyfeiriad system ADY ddwyieithog (Llywodraeth Cymru, 2020, t.13). Yn 2022-2023 dangosodd gweithgareddau arolygu a threfniadau cyfathrebu gyda rhanddeiliaid mai ychydig iawn o effaith hyd yn hyn mae'r rhaglen drawsnewid wedi ei chael ar wella ansawdd darpariaeth i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Her arwyddocaol yn y sector hon yw recriwtio staff sy'n gallu'r Gymraeg er mwyn cynnal y gefnogaeth angenrheidiol.

Mae **awdurdodau lleol** (ALl) wedi gwella eu darpariaeth arbenigol i ddisgyblion a chanddynt anghenion dysgu yn raddol. Yn gyffredinol, gwnaed hyn trwy ddarparu dosbarthiadau arbenigol sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdodau o fewn ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, her barhaol yw recriwtio ymarferwyr sydd a'r medrau arbenigol angenrheidiol a medrau Cymraeg. Yn ogystal, prin iawn oedd yr adnoddau addysgu ac asesu Cymraeg ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n derbyn eu haddysg yn Gymraeg. Darllenwch am waith Cyngor Gwynedd i ddatblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd.



Dros y blynyddoedd diwethaf, nododd **darparwyr ôl-16** yr angen i gyflwyno neu ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i'w dysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg. Hefyd bu iddynt adnabod yr angen i ddarparu ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn rhugl yn y Gymraeg allu ymgymryd â rhywfaint o'u dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae darparwyr yn wynebu heriau sylweddol wrth ddarparu ar gyfer dysgwyr sydd â gwahanol lefelau gallu a rhuglder ar draws ystod eang iawn o gyrsiau ôl-16. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae llawer o ddarparwyr addysg bellach a phrentisiaethau wedi cyflwyno gwersi Cymraeg sylfaenol gwerthfawr ar gyfer carfannau dethol o ddysgwyr. Fodd bynnag, mae'r cynnydd cyffredinol o ran sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu medrau Cymraeg o'u mannau cychwyn unigol fel rhan o'u hastudiaethau neu hyfforddiant wedi bod yn araf. Nid yw darparwyr wedi gallu arloesi nac annog cydweithredu effeithiol ar draws gwahanol adrannau, cyfadrannau a darparwyr i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Dechreuodd cynllun i ddarparu cyrsiau am ddim i ddysgwyr 16-25 oed yn ystod y flwyddyn 2022 – 2023 (Llywodraeth Cymru, 2022c). Roedd y cynllun yn darparu cyrsiau rhad ac am ddim gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer pobl ifanc 18 i 25 oed a pheilotwyd adnodd e-ddysgu newydd gyda phobl ifanc 16 i 18 oed sy'n mynychu ysgol, coleg neu gynllun prentisiaeth. Roedd pob athro, pennaeth a chynorthwyydd addysgu hefyd yn gallu cael gwersi Cymraeg am ddim. Rhwng 22 Medi 2022 a 31 Mawrth 2023, ymunodd dros 1,500 o bobl ifanc 16 i 25 oed â gwersi dysgu Cymraeg ynghyd â 450 o athrawon a darpar athrawon (Llywodraeth Cymru, 2023c). Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y dysgu proffesiynol hwn ar sut mae athrawon yn cefnogi ac yn datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion.

Yn gyffredinol, gwnaeth llawer o fyfyrwyr oedd yn astudio **rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon** (AGA), gynnydd addas yn eu medrau Cymraeg personol. Mewn rhai achosion lle'r oedd myfyrwyr yn gwneud cynnydd cryf iawn, roedd arweinwyr yn blaenoriaethu'r Gymraeg ochr yn ochr â datblygu medrau addysgu'r myfyrwyr. Lle nad oedd cynnydd myfyrwyr mor gryf, ychydig iawn o gyswllt oedd rhwng yr hyn a astudiwyd yn y brifysgol a phrofiadau ysgol y myfyrwyr. O ganlyniad, nid oedd digon o ganolbwyntio ar addysgeg effeithiol, a oedd yn ei dro yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion yn eu medrau Cymraeg. Yn ogystal, roedd yr hyn a olygwyd wrth 'astudio drwy gyfrwng y Gymraeg' yn amrywio ac nid oedd cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws y partneriaethau. Lle roedd myfyrwyr yn cael cyfleoedd i brofi addysg Gymraeg yn gynnar yn eu rhaglen, roedd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hyder a'u parodrwydd i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Darllenwch fwy am y gefnogaeth i'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon yn ein adroddiad thematig (Estyn, 2023).

Yn ystod 2022 - 2023, nid oedd dau o'r tri darparwr **Dysgu Oedolion yn y Gymuned** (DOG) a arolygwyd yn cynnig unrhyw ddarpariaeth i ddysgu Cymraeg, ac nid oeddynt yn cynnig cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd gan Bartneriaeth DOG Caerdydd a'r Fro er enghraifft, tra'n cydnabod bod angen gwneud mwy, rywfaint o ddarpariaeth ar gael er mwyn galluogi dysgwyr 'Saesneg i ddysgwyr sydd ag ieithoedd eraill' (English for speakers with Other Languages [ESOL]) i ddysgu ymadroddion Cymraeg sylfaenol. Rhoddwyd argymhellion i'r tri darparwr i wella eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Roedd pob un o'r tri darparwr prentisiaethau ynghyd â'r coleg **Addysg Bellach** (AB) a arolygwyd wedi defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i gyflwyno addysgu Cymraeg ar gyfer grwpiau o ddysgwyr penodol. Roedd y grwpiau wedi'u targedu yn cyd-fynd â meysydd pwnc blaenoriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel y nodwyd yn ei gynllun gweithredu AB a Phrentisiaethau. (Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 2018) Arweiniodd un o'r arolygiadau at argymhelliad i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gweithredu i ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr yn ystyrlon gan ystyried mannau cychwyn unigol myfyrwyr.

Yn gyffredinol, roedd arolygwyr yn nodi mai ychydig o ddysgwyr a gofrestrodd mewn colegau AB, darparwyr prentisiaethau neu ddarparwyr DOG a sydd â lefel gymedrol neu well o allu yn y Gymraeg a ddatblygodd eu medrau Cymraeg fel rhan o'u rhaglenni. Ar wahân i'r rhai sy'n ymgymryd â Safon Uwch Cymraeg neu Fagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg, ychydig iawn o ddysgwyr AB galwedigaethol neu brentisiaethau sy'n siarad Cymraeg a gynhyrchodd unrhyw waith ysgrifenedig yn y Gymraeg. Nid oedd darparwyr yn gwneud digon i sicrhau bod dysgwyr yn elwa o gymryd rhan mewn cyfran fach o'u gwaith hyd yn oed drwy gyfrwng y Gymraeg. Canfu arolygwyr fod darparwyr wedi bod yn araf yn cyflwyno cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu Cymraeg ysgrifenedig yng nghyd-destun eu rolau swydd neu bynciau a ddewiswyd.


Yn gyffredinol, yn y sector **Cymraeg i Oedolion**, roedd gan ddarparwyr weledigaeth glir yn cyd-fynd yn gyson â pholisi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (GDCG) a Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. O ganlyniad, roeddent yn cyflawni rôl bwysig yng ngweithredoedd eu sefydliadau lletyol wrth hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Cynyddodd y nifer o oedolion sy'n dysgu yn ystod y cylch arolygu ac mae darparwyr yn cynnig ystod eang o gyrsiau ac opsiynau dysgu. At ei gilydd, roedd deilliannau arolygiadau craidd yn y sector hwn yn gadarnhaol gyda llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau.

# Adroddiadau arolygu a thematig Estyn

Yn unol â chais Llywodraeth Cymru, mae Estyn wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau thematig am y Gymraeg er mwyn gwerthuso a chefnogi ymarferwyr ac arweinwyr i ddatblygu gwahanol elfennau o'r iaith. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys adnoddau i helpu darparwyr ddatblygu eu harferion.

- Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf (Mehefin, 2020)
- Partneriaethau Ôl-16 (Ionawr, 2021)
- Caffael yr iaith Gymraeg (Mawrth, 2021)
- Addysgu hanes Cymru gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (Hydref, 2021)
- Trochi iaith yn parhau'n flaenoriaeth i gefnogi plant sy'n dysgu Cymraeg (Chwefror, 2022)
- Addysg Drochi Cymraeg - strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3 i 11 mlwydd oed (Chwefror, 2022)
- Cefnogi'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon (llyw.cymru) (Medi 2023)

# Adnoddau i gefnogi'r thema allweddol




# Cyfeiriadau

Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2018) Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr: Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Caerdydd: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. [Ar-lein]. Ar gael o: https://colegcymraeg.ac.uk/media/234ixpu1/tuagatcymraeg2050.pdf [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Estyn (2013) Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2012-2013. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Adroddiad_Blynyddol_Prif_Arolygydd_Ei_Mawrhydi_dros_Addysg_a_Hyfforddiant_yng_Nghymru_2012-2013.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Estyn (2023) Cefnogi'r Gymraeg mewn Addysg Gychwynnol Athrawon. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-09/Cefnogi%E2%80%99r%20Gymraeg%20yn%20Addysg%20Gychwynnol%20Athrawon.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2020) Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/9/1/1695036377/rhaglen-trawsnewid-y-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-cwestiynau-cyffredin.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2021a) Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg: crynodeb. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/3/2/1615882569/gwerthusiad-or-cynllun-sabothol-iaith-gymraeg-ar-gyfer-ymarferwyr-addysg-crynodeb.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2021b) Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2021c) Ehangu cymorth trochi yn y Gymraeg i ddysgwyr ledled Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/ehangu-cymorth-trochi-yn-y-gymraeg-i-ddysgwyr-ledled-cymru [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2021d) Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/220622-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2022a) Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/12/3/1671610676/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2022b) Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2022c) Gwersi Cymraeg am ddim bellach ar gael i bobl 18 i 25 mlwydd oed ac i staff addysgu. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/gwersi-cymraeg-am-ddim-bellach-ar-gael-i-bobl-18-i-25-mlwydd-oed-ac-i-staff-addysgu [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023a) Addysg Gymraeg: papur gwyn. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/addysg-gymraeg-papur-gwyn [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023b) Ysgolion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o gyfrwng Cymraeg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/Schools-by-LocalAuthorityRegion-WelshMediumType [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023c) Gwersi Cymraeg am ddim yn ei gwneud hi'n haws nag erioed i bobl ddysgu'r iaith. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/gwersi-cymraeg-am-ddim-yn-ei-gwneud-hin-haws-nag-erioed-i-bobl-ddysgur-iaith [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

## Themâu allweddol


# PISA 2022

Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) a gynhelir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yw'r astudiaeth addysg ryngwladol fwyaf yn y byd. Bob tair blynedd, caiff profion eu rhoi i sampl gynrychioliadol o ddisgyblion 15 oed o ysgolion mewn gwledydd sy'n cymryd rhan, i asesu eu gallu i ddefnyddio eu medrau darllen, mathemateg a gwyddoniaeth mewn heriau bywyd go iawn. Yn ystod pob cylch, mae PISA yn canolbwyntio'n fanylach ar un o'r tri maes hyn. Yn ystod y cylch diweddaraf o asesiadau, a gynhaliwyd yn hwyr yn nhymor yr hydref 2022, mathemateg oedd y prif faes. Er mwyn gallu cynnal dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r asesiad, gofynnwyd cwestiynau i'r disgyblion am eu profiad yn yr ysgol a'u bywyd ehangach, hefyd.

Mae Cymru wedi bod yn rhan o astudiaeth PISA ers 2006. Yn 2022, cwblhaodd 2,568 o ddisgyblion o 89 ysgol, a oedd yn cynrychioli 7% o holl blant 15 mlwydd oed yng Nghymru, yr asesiad cyfrifiadurol dwy awr a'r holiadur dysgwyr. Mynychai 97% o'r dysgwyr a gwblhaodd yr asesiad yng Nghymru ysgolion a gynhelir o gymharu gyda 83% o ddysgwyr ar draws gwledydd yr OECD. Ers y cylch blaenorol o asesiadau yn 2018, mae perfformiad disgyblion a ymgymerodd â'r asesiadau mewn mathemateg, darllen, a gwyddoniaeth yng Nghymru wedi gostwng mwy na chyfartaledd yr OECD. Yn 2022, roedd perfformiad disgyblion yng Nghymru mewn mathemateg, darllen a gwyddoniaeth yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD (Ingram et al, 2023; OECD, 2023).


## Mathemateg

Roedd perfformiad disgyblion yng Nghymru yn asesiadau mathemateg PISA wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2012 a 2018, gan arwain at gau'r bwlch rhwng perfformiad Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwnnw wedi tyfu yn 2022. Yn 2022, sgôr gyfartalog gymedrig gyffredinol Cymru mewn mathemateg oedd 466. Roedd hyn yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 472. Yn 2018, roedd perfformiad Cymru yn agos i gyfartaledd yr OECD, ac yn agos i sgôr yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er bod tuedd gyfartalog gwledydd yr OECD wedi gostwng 15 pwynt ar gyfartaledd rhwng 2018 a 2022, roedd perfformiad Cymru wedi gostwng 21 pwynt.




Mae PISA yn disgrifio perfformiad disgyblion yn erbyn chwe lefel hyfedredd wahanol; lefel hyfedredd 6 yw'r mwyaf heriol ac ystyrir bod lefel 2 yn hyfedredd sylfaenol yn y maes hwnnw.

## Y ganran a gyflawnodd wahanol lefelau hyfedredd mewn mathemateg, 2022




Roedd cyfran y disgyblion yng Nghymru a gyflawnodd lefel hyfedredd sylfaenol o 2 neu uwch mewn mathemateg wedi gostwng yn sylweddol rhwng 2018 a 2022, o 79% i 68%. Yn 2018, roedd canran y disgyblion yng Nghymru â lefel hyfedredd sylfaenol o 2 neu uwch mewn mathemateg yn uwch na chyfartaledd yr OECD, ond yn 2022 roedd y gyfran yn unol â chyfran yr OECD.


Gwelwyd tuedd debyg o ran perfformiad disgyblion gallu canolig, wrth i ganran y disgyblion a gyflawnodd lefel hyfedredd 3 neu uwch ostwng o 53% yn 2018 i 42% yn 2022. Yn 2018, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel hyfedredd 3 neu uwch yn unol â chyfartaledd yr OECD, ond yn 2022 roedd y gyfran hon wedi gostwng i fod yn bedwar pwynt canran oddi tano.

Yn 2022, bu gostyngiad bach yng nghanran y disgyblion yng Nghymru a gyflawnodd lefel hyfedredd 5 neu uwch mewn mathemateg. Cyflawnwyd y lefel hon gan chwech y cant o ddisgyblion yng Nghymru, sy'n parhau i fod yn is na chyfartaledd yr OECD, sef naw y cant. Yng Nghymru, roedd bechgyn wedi perfformio'n arwyddocaol well na merched o naw pwynt yn 2022, gyda bechgyn yn cyflawni sgôr o 470 a merched yn cyflawni 461. Roedd hefyd fwlch o naw pwynt yng nghyfartaleddau'r OECD ar gyfer bechgyn a merched yn 2022. Yn 2018, perfformiodd bechgyn yn well na merched o ddau bwynt yn unig yng Nghymru.

Yn Adroddiad Blynyddol PAEF Estyn ar gyfer 2021-2022, dywedom, ym mwyafrif yr ysgolion uwchradd, fod diffygion yn y ddarpariaeth yn golygu nad oedd disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm (Estyn, 2023a). Yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023, nododd ein harolygwyr fod addysgu mathemateg a rhifedd yn aneffeithiol mewn lleiafrif sylweddol o wersi, gyda gormod o bwyslais ar rwyddineb gweithdrefnol a digon dim o bwyslais ar ddatblygu hyfedredd mathemategol disgyblion. Adlewyrchwyd hyn ym mherfformiad gwan disgyblion yng Nghymru yn elfen fathemateg PISA 2022. Yn ein rhyngweithiadau ag arweinwyr ysgolion, un o'u pryderon mwyaf o hyd yw recriwtio athrawon mathemateg arbenigol (Llywodraeth Cymru, 2023).

Yn 2022, mathemateg oedd prif faes yr asesiadau PISA. Felly, mae gwybodaeth ar gael am berfformiad mewn mathemateg mewn gwahanol is-raddfeydd. Cafodd llythrennedd mathemategol ei asesu mewn perthynas â phedwar categori cynnwys, sef newid a pherthnasoedd; maint; gofod a siâp; ansicrwydd a data.

## Perfformiad yn yr isfeysydd cynnwys mathemateg, 2022





Perfformiodd disgyblion yng Nghymru yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD ym mhob un o'r categorïau cynnwys newid a pherthnasoedd, maint, gofod a siâp, ond gwnaethant yn well na'u cymheiriaid yng ngwledydd eraill yr OECD yn y categori ansicrwydd a data.

Canfu ein harolygiadau o ysgolion uwchradd yn ystod 2022-2023 fod disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â dadansoddi data, yn enwedig graffiau. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau rhifedd eraill, fel eu dealltwriaeth o rif a materion yn ymwneud â siapiau a mesurau, a'u gallu i ddatrys problemau mewn cyd-destunau bywyd go iawn, wedi'u datblygu digon ar draws ysgolion uwchradd yng Nghymru.

# Gwyddoniaeth

Yn 2022, sgôr gyfartalog gymedrig gyffredinol Cymru mewn gwyddoniaeth oedd 473. Roedd hyn yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 485. Yn 2018, roedd perfformiad Cymru yn agos i gyfartaledd yr OECD. Fodd bynnag, er bod tuedd gyfartalog gwledydd yr OECD wedi gostwng dau bwynt ar gyfartaledd rhwng 2018 a 2022, roedd perfformiad Cymru wedi gostwng 15 pwynt, sy'n ostyngiad sylweddol. Er gwaethaf cynnydd bach rhwng 2015 a 2018, mae sgorau gwyddoniaeth disgyblion yng Nghymru wedi bod yn mynd i lawr yn gyffredinol ers i Gymru gymryd rhan yn astudiaeth PISA gyntaf yn 2006.


Tueddiadau mewn **gwyddoniaeth,** gwledydd y Deyrnas Unedig, 2012-2022




At ei gilydd, roedd perfformiad pob un o wledydd y Deyrnas Unedig wedi gostwng rhwng 2018 a 2022. Fodd bynnag, roedd y gostyngiad yn sgôr Cymru yn fwy o lawer na phob un o wledydd eraill y Deyrnas Unedig.

Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel hyfedredd sylfaenol o 2 neu uwch mewn gwyddoniaeth wedi gostwng yn sylweddol rhwng 2018 a 2022, o 81% i 74%. Ar gyfer yr un cyfnod, roedd y gyfran gyfatebol ar gyfer yr OECD wedi gostwng dau bwynt canran yn unig. Roedd perfformiad disgyblion gallu canolig wedi dilyn tuedd debyg, gyda chanran y disgyblion a gyflawnodd lefel hyfedredd 3 neu uwch yn gostwng o 52% yn 2018 i 44% yn 2022, tra bod canran yr OECD wedi gostwng dau bwynt canran yn unig.

## Y ganran a gyflawnodd wahanol lefelau hyfedredd mewn gwyddoniaeth, 2022



Yn 2022, bu cynnydd bach yng nghanran y disgyblion yng Nghymru a gyflawnodd hyfedredd lefel 5 neu uwch mewn gwyddoniaeth. Cyflawnodd chwech y cant o ddisgyblion yng Nghymru y lefel hon, sy'n agos i gyfartaledd yr OECD, sef saith y cant.


Mae perfformiad gwan disgyblion yng Nghymru yn elfen wyddoniaeth asesiadau PISA yn adlewyrchu casgliadau Estyn yn adroddiad thematig 2017 ar wyddoniaeth yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 (Estyn, 2017), lle y dywedom er bod addysgu'n well yng Nghyfnod Allweddol 4, fod disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn tua hanner y gwersi yn unig yng Nghyfnod Allweddol 3. Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, nid yw disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol yn ddigon da. Yn ogystal, mae ysgolion yng Nghymru wedi'i chael hi'n anodd iawn recriwtio athrawon gwyddoniaeth arbenigol yn ddiweddar, yn enwedig ar gyfer ffiseg a chemeg (Llywodraeth Cymru, 2023).

Heblaw am 2018, mae bechgyn yng Nghymru bob tro wedi perfformio'n well na merched yn asesiadau gwyddoniaeth PISA. Roedd hynny'n wir unwaith eto yn 2022, wrth i fechgyn berfformio'n well na merched o saith pwynt, er nad oedd y bwlch hwn mewn perfformiad yn sylweddol. Roedd hyn yn debyg i'r darlun ar draws gweddill y Deyrnas Unedig wrth i fechgyn gyflawni sgorau uwch na merched, ar gyfartaledd, er bod hyn yn wahanol i'r cyfartaledd ar gyfer yr OECD lle nad oes gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched.

# Darllen


Yn 2022, sgôr gyfartalog gymedrig gyffredinol Cymru ar gyfer darllen oedd 466. Roedd hyn yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 476. Rhwng 2015 a 2018, roedd perfformiad Cymru wedi gwella ac roedd y bwlch rhwng perfformiad Cymru a chyfartaledd yr OECD wedi lleihau. Fodd bynnag, rhwng 2018 a 2022, roedd perfformiad Cymru mewn darllen wedi gostwng mwy na gwledydd eraill y Deyrnas Unedig a chyfartaledd yr OECD. Roedd hyn yn golygu bod perfformiad disgyblion yng Nghymru yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD ac yn sylweddol is na chyfartaleddau gweddill y Deyrnas Unedig.

Tueddiadau mewn **darllen**, gwledydd y Deyrnas Unedig, 2012-2022



Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel hyfedredd sylfaenol o 2 neu uwch mewn darllen wedi gostwng yn sylweddol rhwng 2018 a 2022, o 78% i 71%. Yn 2018, roedd cyfran y disgyblion yng Nghymru a chanddynt lefel hyfedredd sylfaenol o 2 neu uwch mewn darllen yn debyg i gyfran yr OECD, ond yn 2022 roedd y gyfran dri bwynt canran yn is. Gostyngodd berfformiad disgyblion gallu canolig hefyd, fel y'i mesurwyd yn ôl y ganran a gyflawnodd lefel hyfedredd 3 neu uwch, o 52% i 44%. Roedd yn parhau i fod islaw cyfartaledd yr OECD, sef 49%. Yn ogystal, gostyngodd ganran y disgyblion yng Nghymru a gyflawnodd lefel hyfedredd 5 neu uwch mewn darllen o saith y cant i bump y cant. Gostyngodd gyfartaledd yr OECD un pwynt canran i saith y cant.

## Y ganran a gyflawnodd wahanol lefelau hyfedredd mewn darllen, 2022




Cydnabu ein hadroddiad thematig 'Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10-14 mlwydd oed' a'n hadroddiadau arolygu, er bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar fedrau darllen disgyblion, dim ond ambell ysgol uwchradd oedd wedi datblygu diwylliant o ddarllen lle'r oedd darllen er pleser yn flaenoriaeth ochr yn ochr â darllen i ddysgu (Estyn, 2023b). Roedd cefnogaeth uwch arweinwyr yn hanfodol er mwyn i hyn ddigwydd. Ychydig iawn o glystyrau o ysgolion oedd yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn gynyddol o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Dim ond lleiafrif o ysgolion uwchradd oedd yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu medrau darllen ar draws y cwricwlwm neu'n monitro ac yn gwerthuso effaith y cyfleoedd hyn yn ddigon trwyadl. Yn gyffredinol, roedd athrawon ysgolion cynradd yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau darllen disgyblion, ond mewn ysgolion uwchradd roedd y pwyslais yn bennaf ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau pynciol.

Yn yr un modd ag asesiadau blaenorol PISA, roedd perfformiad merched mewn darllen (475 yn 2022) yn sylweddol uwch na pherfformiad bechgyn (456). Yn gyffredinol, roedd maint y bwlch mewn perfformiad bechgyn a merched yn debyg i'r bwlch a welwyd yng ngwledydd eraill yr OECD a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

# Cyfeiriadau

Estyn (2017) Gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Science%2520at%2520key%2520stage%25203%2520and%2520key%2520stage%25204%25202%2520cy.pdf [Cyrchwyd 14 Rhagfyr 2023]

Estyn (2023a) Adroddiad Blynyddol PAEF 2021-2022. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://annual-report.estyn.gov.wales/app/uploads/2023/08/Estyn-Adroddiad-Blynyddol-PAEF-2021-2022-AA1.pdf [Cyrchwyd 14 Rhagfyr 2023]

Estyn (2023b) Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10-14 mlwydd oed. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2023-05/Datblygu%20medrau%20darllen%20Saesneg%20disgyblion%20o%2010-14%20mlwydd%20oed.pdf [Cyrchwyd 14 Rhagfyr 2023]

Ingram, J., Stiff, J., Cadwallader, S., Lee, G., Kayton, H. (2023) PISA 2022: Adroddiad Cenedlaethol Cymru: Adroddiad Ymchwil. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-12/pisa-2022-adroddiad-cenedlaethol-cymru-605.pdf [Cyrchwyd 11 Rhagfyr 2023]

Organisation for Economic Co-operation and Development (2023) *PISA 2022 Results (Volume I): The State of Learning and Equity in Education*. OECD Publishing: Paris. [Ar-lein]. Ar gael o: 53f23881-en.pdf (oecd-ilibrary.org) [Cyrchwyd 8 Ionawr 2024]

Llywodraeth Cymru (2023) Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA addysg uwchradd yng Nghymru yn ôl pwnc a blwyddyn. Caerdydd: StatsCymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Initial-Teacher-Training-ITT/students-in-Wales/FirstyearsonITEcoursesinWales-by-subject-year [Cyrchwyd 14 Rhagfyr 2023]

## Themâu allweddol

# Lliniaru effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol

2022-2023

Fel rhan o'n hadroddiad blynyddol 2021-2022 (Estyn, 2022), cyhoeddom drosolwg o waith darparwyr a oedd yn hynod effeithiol o ran mynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfantais ar eu dysgwyr. Eleni, rydym yn ymhelaethu ar y trosolwg hwnnw trwy ddarparu mwy o enghreifftiau o arferion cryf ac amlygu'r hyn y mae angen ei wella yn gyffredinol, hefyd.



Mae lliniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol plant yn parhau i fod yn her sylweddol yng Nghymru, ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022). Ystyrir bod plant a'u teuluoedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol os yw cyfanswm incwm yr aelwyd yn llai na 60% o gyfartaledd canolrifol incwm aelwyd yn y DU (ar ôl costau tai). Canfu adroddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru fod tua 28% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn ystod cyfnod y tair blwyddyn ariannol yn gorffen ym mis Ebrill 2022 (Llywodraeth Cymru, 2023a).

Mae adolygiad o ymchwil tlodi yn y DU a gynhaliwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree yn awgrymu, yn gyffredinol, bod bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol yn ôl lefel incwm rhieni, sy'n parhau trwy gydol gwahanol gamau addysg plentyn (Sefydliad Joseph Rowntree, 2023, tud. 107). Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod bwlch cyrhaeddiad 27 pwynt canran rhwng disgyblion 16 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yng Nghymru (tud.109). Maent yn nodi bod pandemig COVID-19 wedi ehangu'r bwlch cyrhaeddiad yn gyffredinol rhwng y disgyblion mwyaf a lleiaf difreintiedig yn y DU, o ganlyniad i ffactorau fel bwlch digidol, amgylcheddau dysgu amrywiol yn y cartref, a thlodi dyfnach. (tud. 111).

Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol. Caiff hyn ei gryfhau gan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2020), a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021 ac mae'n gwneud mynd i'r afael ag effaith tlodi yn ddyletswydd statudol i awdurdodau lleol.

# Beth sy'n mynd yn dda



Mae ein gwaith arolygu yn rhoi mewnwelediad i ymagweddau darparwyr at fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Dangosodd ein tystiolaeth o arolygiadau yn 2022-2023 yn glir fod arweinyddiaeth gref, lle roedd arweinwyr yn deall yr heriau, wedi nodi camau priodol ac wedi gwerthuso'u heffeithiolrwydd, yn allweddol i liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad.

Dangosodd arweinwyr effeithiol y canlynol:

- Roedd eu gweledigaeth glir a chynhwysol yn rhoi blaenoriaeth allweddol i fynd i'r afael â thlodi. Roedd eu gweledigaeth wedi'i seilio ar gynwysoldeb a'r angen i fynd i'r afael ag annhegwch. Er enghraifft, datblygodd arweinwyr yn Ysgol Gyfun Y Coed-duon eu gweledigaeth o amgylchedd dysgu anogol a dyheadol lle mae disgyblion a staff yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi, a lle maent yn ymdrechu i lwyddo.
- Roedd gwneud penderfyniadau effeithiol a chydweithredol yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â rhieni i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Er enghraifft, roedd arweinwyr ac aelodau staff yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn, Sir Ddinbych, yn meithrin perthnasoedd cryf â rhieni a'r gymuned i gefnogi disgyblion i fod yn ddysgwyr dyheadol ac uchelgeisiol. Helpodd hyn y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, i wneud cynnydd cryf yn eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Roedd arweinwyr yn Camau Cyntaf – Cylch Meithrin Rhydyfelin, Pontypridd, yn gweithredu polisi drws agored, ac ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol iawn gyda rhieni. Teimlai rhieni'n hyderus i droi at aelodau staff ar unrhyw adeg i ofyn am gyngor. Roedd ymglymiad pob un o'r staff a'r perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid ehangach yn golygu bod mynd i'r afael â thlodi a dileu rhwystrau yn fater i bawb. Roedd hyn hefyd yn amlwg mewn ysgolion a oedd yn mabwysiadu ymagwedd ysgol gymunedol ac yn cydweithio ag ystod o asiantaethau. Er enghraifft, roedd arweinwyr yn Ysgol Arbennig Riverbank, sy'n rhan o Western Learning Federation, Caerdydd, yn gweithio'n bwrpasol gydag ystod o bartneriaid a gofalwyr. Cefnogwyd y gwaith hwn gan swyddog cyswllt â theuluoedd yr ysgol a oedd yn darparu cymorth a chyngor sensitif ar draws ystod o feysydd. Roedd hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at liniaru effaith tlodi ar les a chyrhaeddiad disgyblion.
- Roeddent yn adnabod eu cymunedau yn dda, gan eu galluogi i dargedu eu cyllid yn effeithiol. Er enghraifft, roedd Ysgol Gynradd Markham, Y Coed-duon, yn cyflogi gweithiwr cymorth disgyblion a theuluoedd a oedd yn sefydlu ac yn ymgorffori rhaglen gynhwysfawr i ymgysylltu â rhieni a theuluoedd. Sicrhaodd ymglymiad ystod eang o asiantaethau perthnasol hefyd, yn ogystal ag aelodau o'r gymuned leol.
- Fe wnaethant leihau rhwystrau rhag dysgu yn effeithiol ac uchafu'r cyfleoedd dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc. Er enghraifft, sicrhaodd partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Pen-y-bont ar Ogwr fod bron pob un o'r tiwtoriaid yn ystyried cyfrifoldebau ac ymrwymiadau dysgwyr y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a allai eu rhwystro rhag dysgu. Yn yr un modd, roedd Rhondda Cynon Taf yn defnyddio'i wasanaeth ieuenctid yn effeithiol i gefnogi pobl ifanc yn eu hysgolion ac yn eu cymunedau ar draws ardaloedd yr awdurdod lleol lle mae'r angen mwyaf. Roedd y rhain yn cynnwys cymunedau oedd â chyfleusterau lleol prin.

- Cymerwyd gofal i ystyried y costau ariannol i rieni yn sgil cyfranogiad eu plentyn yn yr ysgol. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Llwydcoed, Aberdâr, roedd arweinwyr yn gweithio'n ystyriol gydag asiantaethau allanol, fel y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, i archwilio darpariaeth ysgol a nodi a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella. O ganlyniad, roedd y newidiadau a wnaed i arfer ysgol yn helpu lliniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles dysgwyr. Yn yr un modd, yn Ysgol Arbennig Greenhill, Caerdydd, gwnaeth arweinwyr yn sicr nad oedd cyllid teuluoedd yn rhwystr rhag dysgu trwy gyflwyno mentrau fel tripiau ysgol a ariennir. Cyfrannodd hyn at welliannau yn ymgysylltiad a chymhelliant disgyblion i ddysgu.
- Roedd cyllid grant yn cael ei dargedu'n briodol i gynorthwyo plant a phobl ifanc a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu rai o aelwydydd incwm isel. Roeddent yn dyrannu adnoddau'n ofalus i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion o bob gallu ac yn cydnabod croestoriadedd effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion. Er enghraifft, yn Ysgol Idris Davies, Abertyswg, lle mae dwy ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd wedi uno, roedd arweinwyr yn ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol yn gadarnhaol, yn enwedig o ran mynd i'r afael ag effaith tlodi. Roedd arweinwyr yn cynllunio strategaethau pwrpasol i godi dyheadau disgyblion mewn teuluoedd incwm isel o oedran cynnar. Gwnaeth arweinwyr ddefnydd effeithiol o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion (GDD). Cyfrannodd hyn yn gadarnhaol at y cyfleoedd i ddisgyblion o deuluoedd incwm isel elwa ar brofiadau y byddai cyfyngiadau ariannol yn eu hatal, fel arall.
- Roedd effeithiau darpariaeth a gwariant grantiau yn cael eu monitro'n ofalus i sicrhau eu bod yn cael yr effaith ddymunol, gan addasu pe bai angen. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Adamsdown, Caerdydd, roedd gweithdrefnau monitro a gwerthuso yn gadarn, ac roedd gan arweinwyr ddarlun clir o gryfderau disgyblion, yn ogystal ag unrhyw rwystrau rhag dysgu. Galluogodd hyn yr ysgol i ddarparu cymorth pwrpasol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a oedd yn helpu lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion.
- Roedd disgwyliadau uchel o'r holl blant a phobl ifanc, ni waeth beth oedd eu cefndiroedd, a bod yr ysgol yn cydnabod pwysigrwydd addysgu a dysgu o ansawdd uchel i alluogi pob un o'r bobl ifanc i gyflawni. Er enghraifft, yn Ysgol Uwchradd Coedcae, Llanelli, roedd gan athrawon ddealltwriaeth fanwl o anghenion unigol disgyblion. Mae hyn, ynghyd â chynnig allgyrsiol cynhwysfawr ac ystod eang o ddewisiadau pwnc, yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau difyr a oedd yn darparu'n dda ar gyfer eu hanghenion a'u diddordebau unigol.
- Roeddent yn targedu dysgu proffesiynol yn briodol. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Pontyberem, Llanelli, roedd arweinwyr yr ysgol wedi sefydlu rhaglen dysgu proffesiynol gynhwysfawr i helpu aelodau staff i ddelio â thrawma ymhlith plant a chefnogi lles ehangach disgyblion.
- Roedd ymyrraeth gynnar a chymorth effeithiol ar waith. Er enghraifft, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn defnyddio ystod eang o ddulliau i helpu lliniaru effeithiau tlodi yn y sector cyn ysgol ac ym mlynyddoedd cynnar plant mewn addysg. Dechreuodd hyn cyn geni gyda chymorth i ddarpar famau, er enghraifft annog bwyta'n iach a datblygu medrau cyllidebu.
- Roeddent yn blaenoriaethu ac yn ystyried effaith tlodi, ni waeth ble oedd yr ardal na beth oedd amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yr ysgol. Er enghraifft, mabwysiadodd Ysgol Gynradd Sgeti, Abertawe, ymagwedd yn canolbwyntio ar y gymuned er mwyn mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o deuluoedd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol.

## Beth sydd angen ei wella

Er mwyn lliniaru'n effeithiol yn erbyn effeithiau andwyol tlodi, roedd angen gwella agweddau ar y gwaith o hyd.



- Nid oedd arweinwyr yn gwerthuso effaith gwaith i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn ddigon da. Er enghraifft, er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio eu defnydd o grantiau fel y GDD yn briodol, nid oeddent yn gwerthuso effaith eu defnydd ar gyrhaeddiad addysgol yn ddigon da.
- Yn gyffredinol, nid oedd darparwyr yn gwneud digon o ddefnydd o dystiolaeth ymchwil i sicrhau eu bod yn cynllunio darpariaeth briodol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad. O ganlyniad, ychydig iawn o ysgolion oedd yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y trefniadau addysgu, fel grwpiau disgyblion, ar gyrhaeddiad disgyblion.
- Nid oedd awdurdodau lleol, rhanbarthau, ysgolion a darparwyr eraill yn canolbwyntio dysgu proffesiynol ar liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn ddigon da. Mewn lleiafrif o ysgolion a lleoliadau, nid oedd arweinwyr yn targedu dysgu proffesiynol yn ddigon da i alluogi pob un o'r staff i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad.
- Nid oedd arweinwyr bob amser yn rhoi ystyriaeth ddigon gofalus costau ariannol cyfranogi'n llawn yn yr ysgol ar gyfer teuluoedd. Nid oeddent yn ystyried yn ddigon da sut gallai addysgu effeithiol leihau effaith tlodi. Ni wnaethant sicrhau bod yr holl rwystrau rhag dysgu wedi cael eu lleihau cyhyd ag y bo modd.
- Nid oedd awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion i ennill dealltwriaeth well o'u cymunedau yn ddigon da. Mewn lleiafrif o ysgolion a lleoliadau, nid oedd arweinwyr yn adnabod eu cymunedau'n ddigon da. Nid oedd gan arweinwyr yn yr ysgolion hyn ddigon o wybodaeth i'w galluogi i gynllunio cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel neu rai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- Roedd angen gwella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ddisgyblion o aelwydydd incwm isel. Yn genedlaethol, roedd presenoldeb yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 yn waeth ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim na'r rhai nad ydynt yn gymwys (Llywodraeth Cymru, 2023c). Cyfran y sesiynau a gollwyd ymhlith disgyblion oedran ysgol uwchradd oedd 20.6% ar gyfer disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a 10.2% ar gyfer y rhai nad oeddent yn gymwys (Llywodraeth Cymru, 2023b). Mae'r bwlch hwn wedi ehangu'n sylweddol ers dechrau pandemig COVID-19; gweler ein thema allweddol ar bresenoldeb ac agweddau at ddysgu i gael mwy o fanylion.

# Cyfeiriadau


Estyn (2022) Adroddiad Blynyddol PAEF 2021-2022. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-10/Estyn-Adroddiad-Blynyddol-PAEF-2021-2022-AA1.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Joseph Rowntree Foundation (2023) UK Poverty 2023: The essential guide to understanding poverty in the UK. England: Joseph Rowntree Foundation. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.jrf.org.uk/work/uk-poverty-2023-the-essential-guide-to-understanding-poverty-in-the-uk [Cyrchwyd 15 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2020) Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: arweiniad ac adnoddau ar gyfer cyrff cyhoeddus. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2022) Strategaeth tlodi plant: adroddiad cynnydd 2022. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2024/1/1/1705936444/strategaeth-tlodi-plant-2015-adroddiad-cynnydd-2022.pdf [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023a) Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/3/4/1679567852/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2021-i-fawrth-2022.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023b) Absenoldeb o ysgolion uwchradd: Medi 2022 i Awst 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/10/4/1697706994/absenoldeb-o-ysgolion-uwchradd-medi-2022-i-awst-2023-diwygiedig.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023c) Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 5 Medi 2022 i 24 Gorffennaf 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/presenoldeb-disgyblion-mewn-ysgolion-gynhelir-5-medi-2022-i-24-gorffennaf-2023 [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Themâu allweddol

# Agweddau at ddysgu a phresenoldeb

## 2022-2023

Yn 2021-2022, gwelsom fod galw cynyddol am gymorth â lles ac iechyd meddwl ar draws lleoliadau addysgol, ac roedd presenoldeb ysgol, yn enwedig ymhlith y dysgwyr mwyaf difreintiedig, yn parhau ar lefelau is nag oeddent cyn y pandemig (Llywodraeth Cymru, 2023a). Parhaodd y galw hwn am gymorth yn 2022-2023, gyda  phresenoldeb yn parhau'n rhy isel, ac arweinwyr yn dweud bod dysgwyr yn parhau i'w chael yn anodd ailaddasu i fywyd ysgol. Parhaodd arweinwyr a staff i roi pwyslais cryf ar gefnogi lles dysgwyr. Yn aml, roedd yn rhaid i ymagweddau at gefnogi lles esblygu i ymateb i anghenion a ddaeth i'r amlwg ymhlith plant a phobl ifanc ar ôl y pandemig, ac ymdopi â nhw.




Wrth gymharu adroddiadau sector o'r cyfnod cyn y pandemig (2018-2019) â'n hadroddiadau ar gyfer 2022-2023, nid oedd sylwadau ynghylch lles ac ymddygiad yn wahanol iawn. Er enghraifft, yn 2022-2023, roedd y rhan fwyaf o blant yn hapus, yn ddiogel ac yn awyddus i ddysgu mewn lleoliadau a gynhelir. Mewn ysgolion cynradd, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol, roeddent yn frwdfrydig am eu dysgu ac yn ymddwyn yn dda. Mewn ysgolion uwchradd, roedd llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Roedd lleiafrif o ddisgyblion weithiau'n fodlon aros yn oddefol yn eu gwersi, ac roedd ychydig o ddisgyblion yn tarfu ar eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill. Ar draws unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), teimlai disgyblion fod perthnasoedd gweithio cryf gyda staff yn eu helpu i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da. Yn gyffredinol, roedd arolygiadau'n cyfeirio at gyfran debyg o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn arddangos ymddygiad da ag a gafwyd yn ystod y blynyddoedd yn union cyn y pandemig.

Mae'n anodd cymharu'r hyn a ddywedodd disgyblion am ymddygiad yn ein holiaduron cyn-arolygiad o 2018-2019 a 2022-2023 oherwydd newidiodd y cwestiynau a'r fformat wrth i ni ailafael mewn arolygu ar ôl y pandemig. Mae holiaduron yn un ffynhonnell o dystiolaeth i werthuso lles ac agweddau at ddysgu yn ystod y broses arolygu, ac fe gaiff canlyniadau eu triongli â thystiolaeth arall, gan gynnwys siarad â grwpiau o ddysgwyr, grwpiau o athrawon a barn rhieni.


Dangosodd canlyniadau holiaduron ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed yn 2018-2019 a 2022-2023 y canlynol:

**Ffigur 1: Cymharu ymatebion i'r datganiad 'Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda yn fy nosbarth i' mewn holiaduron cyn-arolygiad, Cynradd, 2018-2019 a 2022-2023**





Cynradd: Yn 2022-2023, roedd bron i 70% o ddisgyblion yn cytuno bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth bob amser, neu'r rhan fwyaf o'r amser. Yn 2018-2019, roedd 75% o ddisgyblion cynradd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth.

**Ffigur 2: Cymharu ymatebion i'r datganiad 'Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod amseroedd chwarae / egwylion ac amser cinio' mewn holiaduron cyn-arolygiad i ddysgwyr, Cynradd, 2018-2019 a 2022-2023**




Cynradd: Yn 2022-2023, roedd 68% o ddisgyblion yn cytuno bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod amseroedd egwyl ac amser cinio bob amser, neu'r rhan fwyaf o'r amser. Roedd 72% o ddisgyblion cynradd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth yn 2018-2019.

**Ffigur 3: Cymharu ymatebion i'r datganiad 'Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda yn fy nosbarth / mewn gwersi' mewn holiaduron cyn-arolygiad i ddysgwyr, Uwchradd, 2018-2019 a 2022-2023**




Uwchradd: Yn 2022-2023, mae 47% o ddisgyblion yn cytuno bod plant eraill yn ymddwyn yn dda mewn gwersi bob amser, neu'r rhan fwyaf o'r amser. Roedd 41% ychwanegol yn cytuno bod disgyblion yn ymddwyn yn dda weithiau. Yn 2018-2019, roedd 47% o ddisgyblion uwchradd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth.

**Ffigur 4: Cymharu ymatebion i'r datganiad 'Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod amseroedd chwarae / egwylion ac amser cinio' mewn holiaduron cyn-arolygiad i ddysgwyr, Uwchradd, 2018-2019 a 2022-2023**



Uwchradd: Yn 2022-2023, roedd 48% o ddisgyblion yn cytuno bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod egwylion ac amser cinio bob amser, neu'r rhan fwyaf o'r amser. Roedd 38% arall yn cytuno bod disgyblion yn ymddwyn yn dda, weithiau. Roedd 47% o ddisgyblion uwchradd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod amseroedd chwarae ac amser cinio yn 2018-2019.



Er bod ymddygiad disgyblion, fel yr adroddwyd mewn adroddiadau arolygu a holiaduron, wedi aros yn debyg i'r darlun cyn y pandemig ar y cyfan, dywedodd llawer o ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed fod disgyblion yn dangos ymddygiadau mwy heriol. Er enghraifft, mewn ysgolion cynradd, dywedodd arweinwyr fod mwy o ddisgyblion yn cael trafferth rheoli eu hemosiynau a bod angen rhoi darpariaeth ar waith i'w cynorthwyo. Mewn ysgolion uwchradd, dywedodd arweinwyr fod mwy o ddisgyblion yn cael trafferth oherwydd problemau fel gorbryder,  medrau cymdeithasol gwanach, diffyg ymgysylltu ac iechyd meddwl gwael. Cyfrannodd y problemau hyn hefyd at y rhesymau pam nad oedd rhai disgyblion yn ymgymryd yn dda â'u dysgu ar ôl y pandemig. Mae hyn wedi effeithio ar bresenoldeb. Dywedodd arweinwyr hefyd fod ymddygiad disgyblion yn ystod adegau anffurfiol, fel amseroedd egwyl ac amser cinio, yn fwy heriol nag ydoedd cyn y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd mewn achosion o ymddygiad ymosodol a herio awdurdod. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd mewn gwaharddiadau cyfnod penodol a gwaharddiadau parhaol a welir ym mhob un o'r sectorau a gynhelir. Cynyddodd cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol (pum niwrnod neu lai) o 39.0 yn 2018-2019 i 50.6 o waharddiadau fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2021-2022, tra cynyddodd cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol (dros bum niwrnod) o 1.7 yn 2018-2019 i 1.9 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2021-2022. Cynyddodd gwaharddiadau parhaol o 0.4 (2018-2019) i 0.5 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2021-2022 (Llywodraeth Cymru, 2023b).

Ble roedd ysgolion uwchradd wedi ymateb yn hynod effeithiol i les eu disgyblion, roeddent yn ystyried sut i addasu eu darpariaeth i ymateb i anghenion esblygol disgyblion. Roeddent yn gweithio'n bwrpasol, gan ddefnyddio arbenigedd roeddent wedi'i ddatblygu'n fewnol a gydag ystod o asiantaethau allanol i deilwra cymorth ar gyfer disgyblion. Roeddent yn gwerthuso darpariaeth yn effeithiol, gan gynnwys eu cynnig cwricwlwm, i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Fe wnaethant ailsefydlu arferion y diwrnod ysgol yn ofalus i gynorthwyo disgyblion i ymgysylltu â'u dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae hyn wedi golygu gorddefnydd o amserlenni wedi'u lleihau trwy gynlluniau cymorth bugeiliol am gyfnodau estynedig.

Yn ystod 2022-2023, parhaodd gwasanaethau addysg llywodraeth leol i ymateb i heriau a adawyd gan COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer ysgolion â phroblemau ymddygiad a phresenoldeb a oedd y tu hwnt i'r hyn a oedd yn gyffredin cyn y pandemig. Yn gyffredinol, dywedodd awdurdodau lleol fod cynnydd yn y cyfraddau atgyfeirio ar gyfer darpariaeth i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY); roedd 2,396 o ddisgyblion yn cael mynediad at ryw fath o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ym mis Ionawr 2023. O'r disgyblion hynny, roedd 1,891 yn cael eu haddysgu'r tu allan i'r ysgol yn bennaf, ac UCDau oedd y math mwyaf cyffredin o ddarpariaeth. Rhwng 2018-2019 a 2022-2023, roedd cynnydd yn niferoedd y disgyblion oedran cynradd ac uwchradd iau yn mynychu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (Llywodraeth Cymru, 2023c). Nododd tystiolaeth o 2022-2023 fod y rhan fwyaf o staff mewn UCDau yn deall trefniadau i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn hyrwyddo strategaethau ymddygiad gwerthfawr gyda disgyblion. O ganlyniad, roedd ymddygiad disgyblion tra oeddent yn mynychu'r UCDau a arolygwyd yn briodol.

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddom adroddiad thematig ar brofiad cwricwlaidd disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (Estyn, 2023). Nodom fod gormod o ddisgyblion oedran cynradd ac uwchradd iau yn aros mewn darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn y tymor hir. O ganlyniad, ychydig iawn o'r disgyblion hyn yn unig sy'n dychwelyd i ysgol brif ffrwd yn llwyddiannus. Mae'r prif rwystrau rhag ailintegreiddio yn llwyddiannus yn cynnwys lefel a chymhlethdod cynyddol anghenion disgyblion, yn enwedig anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM) ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gwaelodol (tud.2).

## Absenoldebau disgyblion




Mae achosion absenoldebau disgyblion yn gymhleth ac amlweddog. Mewn ymchwil grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda rhieni yn Lloegr, nodwyd nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddiffyg presenoldeb. Roedd y rhain yn cynnwys newid agweddau rhieni at bwysigrwydd presenoldeb, iechyd meddwl disgyblion, cynyddu derbynioldeb cymdeithasol o wyliau yn ystod y tymor, yr argyfwng costau byw, a'r berthynas rhwng yr ysgol a theuluoedd yn methu, yn enwedig lle defnyddir cosbau (Burtonshaw and Dorrell, 2023, tud.12).

Mae'r sylwadau canlynol ar bresenoldeb wedi'u seilio ar ddwy set wahanol o ddata. Ar gyfer disgyblion oedran uwchradd, rydym yn defnyddio data blynyddol wedi'i wirio ar absenoldeb o ysgolion uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2023d). Y data hwn yw'r diweddaraf yn y gyfres o setiau data a gyhoeddir bob blwyddyn, sydd wedi ailddechrau ar ôl seibiant o dair blynedd rhwng 2019-2020 a 2021-2022 o ganlyniad i'r tarfu yn sgil y pandemig. Gan na fydd y data sector cynradd tebyg wedi'i ddilysu ar gael tan Wanwyn 2024, ar gyfer disgyblion oedran cynradd, rydym wedi defnyddio ffigurau o gasgliadau wythnosol Llywodraeth Cymru o ddata presenoldeb ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2023a). Mae'r set data hon dros dro, heb ei gwirio, ac nid yw'n seiliedig ar yr un diffiniadau â'r data blwyddyn lawn wedi'i ddilysu a fydd yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2024. Dylid trin y set data fel arwydd o bresenoldeb ar gyfer y flwyddyn, a gellir ei chywiro.

Mae'r data sector uwchradd yn cyfrif am ddisgyblion oedran ysgol uwchradd mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir gan awdurdodau lleol, mae'r data sector cynradd yn cyfrif am ddisgyblion oedran cynradd mewn ysgolion cynradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Yn genedlaethol, mae'r data heb ei wirio yn awgrymu bod cyfraddau presenoldeb yn 2022-2023 yn gymharol gyson ar draws yr ystod oedran ysgol gynradd, sef tua 91%. Fodd bynnag, roedd presenoldeb yn is ar gyfer pob grŵp blwyddyn yn olynol o ddechrau'r ysgol uwchradd (Blwyddyn 7) ymlaen, a Blwyddyn 11 oedd â'r gyfradd presenoldeb isaf, sef tua 84%. Mae hyn yn gyson ag ymchwil gan John et al am absenoldeb mewn ysgolion yng Nghymru, a ganfu fod cyfraddau absenoldeb yn cynyddu'n barhaus ag oedran (2021, tud. 2). Roedd y duedd hon yn bennaf o ganlyniad i gyfraddau uwch o absenoldebau heb eu hawdurdodi ymhlith disgyblion hŷn, gyda thros 6% o sesiynau Blwyddyn 11 yn cael eu colli o ganlyniad i absenoldebau heb eu hawdurdodi, o gymharu ag ychydig dros 2% ymhlith disgyblion oedran cynradd.

**Ffigur 5: Absenoldebau ysgol yn ôl grŵp blwyddyn, 2022-2023**





Ffynonellau – Llywodraeth Cymru, 2023a (disgyblion oedran cynradd) a Llywodraeth Cymru, 2023d (disgyblion oedran uwchradd)

Sylwer – Mae data presenoldeb ar gyfer disgyblion oedran cynradd wedi'i seilio ar ddata casgliad wythnosol Llywodraeth Cymru. Mae'r data hwn yn wybodaeth reoli heb ei gwirio. Mae'r data hwn ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 1 i Flwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd a gynhelir, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig. Bydd data cynradd wedi'i wirio ar gyfer y flwyddyn 2022-2023 ar gael yng Ngwanwyn 2024. Mae data uwchradd o gasgliad blynyddol wedi'i wirio o ddata presenoldeb Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys data ar gyfer disgyblion yn y blynyddoedd ysgol hyn mewn ysgolion uwchradd a gynhelir ac ysgolion pob oed.

Fel yr adroddwyd yn ei throsolwg o ddata presenoldeb uwchradd 2022-2023 (Llywodraeth Cymru, 2023d), o gymharu â'r gyfradd cyn y pandemig, fe wnaeth canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion oedran ysgol uwchradd fwy neu lai dyblu i gyrraedd 12.5% yn 2022-2023.

**Ffigur 6: Absenoldebau ymhlith disgyblion oedran ysgol uwchradd yn ôl math o absenoldeb, 2013-2014 i 2022-2023**





Ffynhonnell – Llywodraeth Cymru, 2023d

Sylwer – Mae'r blynyddoedd lle roedd Llywodraeth Cymru yn gallu cyhoeddi data wedi'i wirio wedi'u nodi gan farcwyr cylchol ar y llinellau.

Roedd cyfraddau absenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) gryn dipyn yn uwch na chyfraddau disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; roedd y gwahaniaeth hwn yn fwyaf amlwg ymhlith disgyblion oedran ysgol uwchradd.

**Ffigur 7: Absenoldebau ymhlith disgyblion oedran ysgol uwchradd yn 2018-2019 a 2022-2023 yn ôl cymhwyster PYDd**




Ffynhonnell – Llywodraeth Cymru, 2023d

Roedd cyfran y sesiynau a gollwyd gan ddisgyblion oedran ysgol uwchradd yn 2022-2023, sef 12.5%, ddwywaith yn fwy na'r gyfradd cyn y pandemig. Y gyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfer 2022-2023 oedd 20.6% ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (cPYDd) a 10.2% ar gyfer y rhai nad ydynt yn gymwys. Ar gyfartaledd, mae hyn gyfwerth â phob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn colli un diwrnod o ysgol yr wythnos, a phob disgybl nad yw'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn colli un diwrnod bob pythefnos. Yn ystod y flwyddyn cyn y pandemig, sef 2018-2019, roedd absenoldebau disgyblion fwy neu lai hanner y lefelau hyn, sef 10.5% ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a 5.3% ar gyfer y disgyblion nad ydynt yn gymwys. Felly, roedd y bwlch yn 2022-2023 rhwng cyfraddau absenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys, sef 10.4 pwynt canran, ddwywaith yn fwy na'r bwlch cyn y pandemig yn 2018-2019.

Ymhlith disgyblion oedran uwchradd, roedd cyfraddau absenoldeb parhaus yn destun pryder mawr. At ei gilydd, cyfran y disgyblion yr ystyrir eu bod yn absennol yn barhaus yn 2022-2023 oedd 16.3%; roedd hyn dros deirgwaith yn fwy na'r ffigur cyn y pandemig, sef 4.6% yn 2018-2019[2]. Ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd problem absenoldeb parhaus yn ddybryd, a mwy nag un o bob tri disgybl, 35.6%, yn cael eu hystyried yn absennol yn barhaus yn 2022-2023; roedd hyn yn cymharu â'r ffigur cyn y pandemig, sef un o bob wyth, 12.7%, yn 2018-2019.

Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion a arolygwyd yn 2022-2023 wrth arolygwyr fod presenoldeb disgyblion wedi gwella o gymharu â'r un adeg yn y flwyddyn flaenorol, ond bod nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn parhau i beri pryder iddynt. Arweiniodd 13 o'r 25 o arolygiadau ysgolion uwchradd a gynhaliwyd at argymhelliad yn gysylltiedig â gwella presenoldeb disgyblion. Mewn cyferbyniad, pedair yn unig o'r 156 o arolygiadau ysgolion cynradd a arweiniodd at argymhelliad yn gysylltiedig â phresenoldeb. Yn gyffredinol, roedd gan ysgolion arbennig drefniadau cadarn iawn i gefnogi presenoldeb rheolaidd. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwella presenoldeb mewn un o'r saith ysgol arbennig a gynhelir a arolygwyd.

Roedd cofnodion presenoldeb llawer o'r disgyblion yn yr UCDau yn wael yn eu hysgolion blaenorol. Roedd gwella presenoldeb disgyblion UCDau yn parhau i fod yn her a oedd wedi gwaethygu yn sgil y pandemig. Er gwaethaf ymdrechion arweinwyr, arhosodd presenoldeb cyffredinol islaw lefelau cyn y pandemig. Ar gyfer tair o'r pedair UCD a arolygwyd yn ystod 2022-2023, gadawodd arolygwyr argymhellion yn gysylltiedig â phresenoldeb disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys cryfhau gweithdrefnau ar gyfer monitro presenoldeb, yn ogystal â gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion.

Yn yr achosion gorau, canfu arolygwyr fod ysgolion wedi sefydlu systemau effeithiol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb da ac ymateb i batrymau pryderus o absenoldebau. Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr yn gwerthuso'u strategaethau i hyrwyddo presenoldeb da yn ofalus ac yn addasu eu dulliau os nad oeddent yn ddigon llwyddiannus. Roedd rolau a chyfrifoldebau aelodau staff yn yr ysgolion hyn yn glir, ac roedd hyn, ynghyd â threfniadau dibynadwy ar gyfer cyfathrebu â rhieni a disgyblion, yn helpu'r ysgolion i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol iawn i absenoldebau. Roeddent yn cysylltu â disgyblion a'u rhieni yn brydlon i fynd i'r afael ag achosion pan nad oedd disgyblion yn bresennol pan oedd disgwyl iddynt fod. Ymhlith ysgolion a oedd wedi llwyddo i gynyddu cyfraddau presenoldeb disgyblion, nodwyd bod ymgysylltiad gwell â rhieni yn un o'r ffactorau allweddol cyfranogol.

## Gwella presenoldeb yn Ysgol Uwchradd Gatholig St Alban

Mae gan Ysgol Uwchradd Gatholig St Alban ffocws clir a chadarn ar wella presenoldeb ei disgyblion. Mae arweinwyr yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol gyda theuluoedd ac yn ystyried hyn fel allwedd i wella presenoldeb. Mae'r ysgol yn cyfathrebu pwysigrwydd presenoldeb da i rieni yn rheolaidd gan ddechrau hyn yn noson trosglwyddo blwyddyn 6. Pan mae disgyblion yn ymuno â'r ysgol ym mlwyddyn 7, mae tiwtoriaid dosbarth yn anfon ebost croesawu i gartref pob disgybl er mwyn sefydlu perthynas gyda rhieni. Mae Swyddog Lles ac Ymgysylltu yr ysgol yn cysylltu'n fuan i gynnig cymorth i rieni os yw presenoldeb disgybl yn dechrau peri pryder. Dilynir hyn gydag ymweliadau i'r cartref gan dîm lles yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth am bresenoldeb disgyblion unigol gan gysylltu hyn gyda'u cynnydd a thanlinellu effaith presenoldeb gwael ar ddisgyblion. Mae rhieni yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth gan gydweithio yn agos gyda'r Swyddog Lles ac Ymgysylltu.

Mae'r ysgol wedi datblygu ei system gyfathrebu i sicrhau bod gan diwtoriaid dosbarth, penaethiaid blwyddyn, uwch arweinwyr, y tîm ymgysylltu lles a'r llywodraethwyr ddealltwriaeth drylwyr o ddata presenoldeb a'r ymyraethau sydd eu hangen. Mae system ymateb graddoledig gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau clir. Mae penaethiaid blwyddyn yn cael cyfarfodydd wythnosol i werthuso pa gynnydd a wnaethpwyd mewn presenoldeb (blwyddyn flaenorol, tymor, wythnos) ac mae cyfarfodydd rheolwr llinell yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd a gwerthuso a newid strategaethau fel bo angen.

O ganlyniad i'r strategaethau hyn, mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn dda yn eu lefelau presenoldeb. Mae bron pob disgybl yn falch o gael perthyn i ysgol gynhwysol sydd yn hyrwyddo gwerthoedd parch, cwrteisi a charedigrwydd.

## Hyrwyddo lles ac iechyd meddwl disgyblion yn Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam

Ar ôl y tarfu yn sgil y pandemig, mae arweinwyr yn Ysgol Morgan Llwyd yn rhoi sylw manwl i hyrwyddo lles ac iechyd yr holl ddisgyblion. Elfen nodedig o waith yr ysgol yw'r cymorth cryf a chadarnhaol a roddir i'r disgyblion mwyaf bregus trwy'r 'Hwb Bugeiliol'. Mae'r staff yn yr Hwb yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol perthnasol fel y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn cynnig cymorth personol i ddisgyblion a'u teuluoedd.

Mae'r ysgol yn llwyddo i gynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol dwys neu sy'n absennol yn barhaus, gan sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu â'u haddysg tan ddiwedd Blwyddyn 11.

[2] Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ganllawiau drafft newydd ar wella ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr fel rhan o ymgynghoriad 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi'. O ganlyniad i hyn, diwygiodd Llywodraeth Cymru ei diffiniad o 'absenoldeb parhaus' i achosion lle mae disgyblion yn colli dros 10% o sesiynau. Ers hynny, mae'r newid hwn i'r trothwy wedi cael ei gymhwyso, ac fe'i defnyddir o fewn ein hadroddiad blynyddol. O ganlyniad, mae cyfran y dysgwyr sy'n disgyn i'r categori absennol yn barhaus yn uwch nag y byddai wedi bod gan ddefnyddio'r trothwy a ddiffiniwyd yn flaenorol, sef 20%.

Roedd trefniadau ar gyfer hysbysu rhieni am absenoldeb eu plentyn, yn ogystal ag i rieni hysbysu'r ysgol neu'r UCD am y rhesymau y tu ôl i unrhyw absenoldebau, yn gyfoes ym mwyafrif yr ysgolion a'r holl UCDau a arolygwyd. Pan oedd systemau digidol, yn aml wedi'u seilio ar apiau symudol, negeseuon e-bost neu negeseuon testun, yn cael eu defnyddio'n dda, roeddent yn darparu ffyrdd ymatebol a chyfleus ar gyfer rhieni o fonitro presenoldeb eu plentyn a chyfathrebu â'r ysgol. Roedd y trefniadau hyn, wedi'u hatgyfnerthu gan alwadau ffôn, yn helpu sefydlu diwylliant o gyfathrebu cyfrifol rhwng rhieni ac ysgolion, yn ogystal â phresenoldeb cryf ymhlith disgyblion.

Pan oedd presenoldeb disgyblion mewn perygl o fod yn destun pryder, roedd yr ysgolion a'r UCDau mwyaf effeithiol yn gweithio gyda theuluoedd i nodi'r rhesymau y tu ôl i hyn a mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag presenoldeb ar lefel disgybl unigol. Ochr yn ochr ag ymgysylltu â rhieni, roedd strategaethau sensitif a chefnogol i helpu disgyblion y nodwyd eu bod yn absennol o ganlyniad i resymau emosiynol yn effeithiol yn cynorthwyo dysgwyr i ymgysylltu â'r ysgol o'r newydd ar ôl y tarfu yn sgil y pandemig. Yn aml, roedd y trefniadau hyn yn cael eu harwain gan aelodau staff arbenigol, fel swyddogion ymgysylltu / cyswllt â theuluoedd, mewn partneriaeth ag arweinwyr bugeiliol, swyddogion awdurdodau lleol ac asiantaethau allanol, lle bo'n briodol.

Mewn ysgolion ac UCDau lle roedd cyfraddau presenoldeb cyfartalog yn isel, nodwyd bod absenoldeb parhaus ymhlith nifer fach ond arwyddocaol o ddisgyblion yn ffactor allweddol. Dywedodd llawer o arweinwyr ysgolion uwchradd eu bod yn pryderu ynglŷn â nifer y disgyblion a oedd yn absennol yn barhaus. Fodd bynnag, canfu arolygwyr, mewn gormod o ysgolion lle roedd presenoldeb yn wannach, fod arweinwyr naill ai ddim yn cydnabod effaith y broblem, neu fod prosesau i fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus o'r fath yn aneffeithiol. Er enghraifft, yn aml, cyflawnwyd cam cyntaf y polisi presenoldeb, ond nid oedd y camau dilynol a nodwyd gan gyfnodau diweddarach bob amser yn cael eu rhoi ar waith, er eu bod yn briodol.

Yn yr ysgolion lleiaf effeithiol, yn aml, nid oedd uwch arweinwyr yn cydnabod, yn dadansoddi nac yn ymchwilio i batrymau absenoldebau disgyblion yn ddigon da. Pan fyddai materion yn cael eu nodi, roedd ysgolion llai effeithiol yn aml yn rhy ddibynnol ar drefniadau traddodiadol, a oedd yn aml yn araf ac anymatebol, i gynnwys rhieni a gweithio gyda theuluoedd i wella presenoldeb. Mewn achosion o'r fath, nid oedd arweinwyr wedi addasu eu trefniadau i ystyried natur newidiol rhwystrau presenoldeb, gan gynnwys costau byw cynyddol ac sgileffeithiau pandemig COVID-19. Mewn ychydig o achosion, roedd polisïau ac arferion yn dibynnu ar drothwyau presenoldeb, a ddefnyddir i sbarduno mwy o ymyrraeth ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd, a oedd yn rhy isel. Er enghraifft, mewn rhai ysgolion, roedd cymorth ehangach gan swyddog lles awdurdod lleol yn cael ei sbarduno ar gyfer disgybl os oedd ei bresenoldeb yn disgyn islaw 60%. Mewn ysgolion eraill sydd â chyfraddau presenoldeb cyffredinol uwch, roedd cymorth o'r fath ar gael os oedd presenoldeb disgybl yn disgyn islaw 80% neu 85%.

Roedd arolygwyr yn bryderus am nifer yr amserlenni llai a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer disgyblion. Pan roeddent yn cael eu defnyddio'n dda, roedd amserlenni llai ar y cyd â chynlluniau cymorth bugeiliol, yn offeryn effeithiol i gefnogi disgyblion, er enghraifft wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn raddol ar ôl cyfnod o absenoldeb. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nododd arolygwyr fod disgyblion yn dilyn amserlenni llai am gyfnod rhy hir, a heb adolygiadau priodol, a oedd yn golygu eu bod yn methu amser gwerthfawr yn eu hysgol neu UCD. O fewn UCDau, yn gyffredinol, roedd disgyblion a oedd yn mynd am gyfnodau maith heb gael mynediad at addysg amser llawn yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu dysgu, ar y cyfan. Mewn ychydig o achosion, nid oedd awdurdodau lleol yn monitro'r defnydd o amserlenni llai yn ddigon manwl nac yn herio unrhyw ddefnydd amhriodol ohonynt.

### Hyrwyddo uchelgais ac ymrwymiad disgyblion yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r dulliau a fabwysiadwyd gan Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn cyfrannu'n sylweddol at fwynhad disgyblion o ran mynd i'r ysgol. Mae'r ffordd y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddel nodweddion 'Dysgwyr Llan', sef 'llwyddiannus, arweiniol a phwerus', yn gryfder. Mewn gwersi, mae disgyblion yn meithrin meddylfryd bod yn unigolion llwyddiannus; mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon, ac mae eu presenoldeb, gan gynnwys ymhlith y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, uwchlaw'r gyfradd genedlaethol.

Mae clybiau prynhawn dydd Gwener yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 feithrin perthnasoedd â'i gilydd a mwynhau cymdeithasu. Mae hyn wedi cyfrannu at welliannau mewn agweddau at ddysgu, yn ogystal â phresenoldeb cyffredinol. Mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaethau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddisgyblion am lefelau presenoldeb mewn dosbarthiadau dros y chwe wythnos flaenorol. Mae hyn yn symbylu ymateb cadarnhaol a chystadleuol ymhlith y disgyblion ac yn eu cymell i wella ymhellach.

I ymateb i'r heriau ychwanegol a achoswyd gan y pandemig, mae aelodau staff wedi datblygu system lwyddiannus i olrhain a gwella presenoldeb. Mae cydweithio effeithiol â swyddog addysg a lles yr awdurdod lleol, wedi'i gyfuno â gwaith y swyddog cyswllt â theuluoedd a benodwyd yn ddiweddar, yn sicrhau ymateb cyflym ac effeithiol i absenoldebau.

Mewn rhai ysgolion, roedd arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus â chynrychiolwyr disgyblion i gynllunio a gweithredu mentrau penodol i hyrwyddo presenoldeb ac ymgysylltu. Roedd ychydig ohonynt wedi llwyddo i wella presenoldeb disgyblion trwy weithio i wneud y diwrnod ysgol yn fwy difyr i ddisgyblion. Yn aml, roedd yr ysgolion hyn yn cymell disgyblion i wella'u presenoldeb trwy gyflwyno cystadlaethau a oedd yn cynnwys cynnig gwobrau bach am bresenoldeb da. Roedd hyn yn helpu gwella ymdeimlad disgyblion o berchnogaeth o'u cofnodion presenoldeb. Roedd dulliau ymarferol eraill yn cynnwys 'bws cerdded' lle roedd disgyblion yn cerdded i'r ysgol ar hyd llwybr wedi'i bennu ymlaen llaw dan oruchwyliaeth, gan aros i gasglu eu cyfoedion ar y ffordd. Roedd hyn yn helpu hyrwyddo presenoldeb a gweithgarwch corfforol, yn ogystal â lleihau ôl-troed carbon cymudo i'r ysgol ac oddi yno.

# Cyfeiriadau


Burtonshaw, S., Dorrell, E. (2023) Listening to, and learning from, parents in the attendance crisis. England: Public First. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.publicfirst.co.uk/wp-content/uploads/2023/09/ATTENDANCE-REPORT-V02.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Estyn (2023) Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2023-06/Tegwch%20profiadau%E2%80%99r%20cwricwlwm%20ar%20gyfer%20disgyblion%20sy%E2%80%99n%20derbyn%20addysg%20heblaw%20yn%20yr%20ysgol%20%28AHY%29.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

John, A., Friedmann, Y., Del Pozo Banos, M., Frizzati, A., Ford, T., Thapar, A. (2021) Association of school absence and exclusion with recorded neurodevelopmental disorders, mental disorders or self-harm: a nationwide e-cohort study of children and young people in Wales. Cymru: Ymchwil Data Gweinyddol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.adruk.org/fileadmin/uploads/adruk/Documents/Data_Insights/Data_Insights_Diagnosis_and_absence_November_2021.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023a) Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 5 Medi 2022 i 24 Gorffennaf 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/presenoldeb-disgyblion-mewn-ysgolion-gynhelir-5-medi-2022-i-24-gorffennaf-2023 [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023b) Gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir: Medi 2021 i Awst 2022. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/11/4/1699522294/gwaharddiadau-o-ysgolion-gynhelir-medi-2021-i-awst-2022.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023c) Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2022 i Awst 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/9/3/1695198689/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2022-i-awst-2023.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023d) Absenoldeb o ysgolion uwchradd: Medi 2022 i Awst 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/10/4/1697706994/absenoldeb-o-ysgolion-uwchradd-medi-2022-i-awst-2023-diwygiedig.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

## Themâu allweddol

# Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru

## 2022-2023

Yn ystod 2022-2023, parhaodd darparwyr ledled Cymru i ddatblygu eu hymagweddau tuag at weithredu Cwricwlwm i Gymru. Roedd gweithredu'r cwricwlwm yn statudol ar gyfer ysgolion ac UCDau sydd â disgyblion oedran cynradd a lleoliadau nas cynhelir o fis Medi 2022. Roedd gweithredu'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion ac UCDau sydd â disgyblion oedran ysgol uwchradd yn orfodol o fis Medi 2023 ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8. Fodd bynnag, dewisodd tua hanner yr ysgolion uwchradd weithredu'r cwricwlwm ar gyfer Blwyddyn 7 flwyddyn yn gynnar, o fis Medi 2022, ynghyd â thua chwarter o ysgolion arbennig ac UCDau.



Lle'r oedd datblygiadau cwricwlaidd yn fwyaf llwyddiannus, roedd darparwyr yn blaenoriaethu gwella ansawdd yr addysgu ochr yn ochr â chynllunio eu cwricwlwm. Yn ychwanegol, canolbwyntiodd y darparwyr hyn yn fanwl ar gynorthwyo athrawon ac ymarferwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Gweithiodd llawer o ddarparwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddilyniant addas yn eu cwricwlwm ac ystyried sut beth yw cynnydd effeithiol gan ddisgyblion. Yr agwedd hon ar gynllunio'r cwricwlwm, ynghyd â datblygu ymagweddau asesu at gefnogi addysgu a dysgu, yw'r agweddau mwyaf heriol i ysgolion ar hyn o bryd. Byddai arweinwyr ysgolion yn elwa ar ganllawiau cenedlaethol mwy penodol am ddisgwyliadau gofynnol o gynnydd ar gyfer disgyblion ar wahanol adegau. Byddai hyn yn helpu arweinwyr i ystyried sut maent yn cynllunio cwricwlwm cynyddol ar gyfer eu disgyblion.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn destun gwerthusiad i ddeall sut mae'r diwygiadau'n gweithio a'r graddau y maent yn cael yr effaith ddymunol ar gyfer yr holl ddysgwyr, ni waeth beth yw eu cefndir neu'u hanghenion. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gwerthuso ym mis Medi 2023.

## Y cwricwlwm o fewn sectorau

Mewn **lleoliadau nas cynhelir**, gwelsom nifer gynyddol yn dechrau gweithredu Cwricwlwm i Gymru a'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir yn llwyddiannus. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, roedd gan ymarferwyr ddealltwriaeth glir o sut mae cynllunio i ymateb i ddiddordebau a cham datblygu plant yn cefnogi cynnydd mewn dysgu. Mewn llawer o leoliadau lle roedd addysgu'n gryf, roedd ymarferwyr yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i gamu'n ôl i roi amser i blant weithio allan drostynt eu hunain.

Mewn **ysgolion cynradd**, roedd mwyafrif yn gwneud cynnydd da wrth iddynt weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Gwnaeth ychydig o ysgolion fwy o gynnydd ac roeddent yn gwreiddio eu dull gan gynnwys disgyblion mewn cynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd ystyrlon. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, roedd yn ddyddiau cynnar o hyd o ran gwneud cynnydd i weithredu'r cwricwlwm. Yn aml, nid oedd gan yr ysgolion hyn ddealltwriaeth ddigon cadarn o egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, ac roeddent yn addasu cynllunio i ganolbwyntio ar beth mae disgyblion yn ei ddysgu, yn hytrach na sut maent yn dysgu. Yn yr achosion hyn, nid oedd eu cwricwlwm yn ymgorffori agweddau pwysig fel medrau trawsgwricwlaidd.

Datblygodd mwyafrif o **ysgolion uwchradd** weledigaeth addas ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. At ei gilydd, roedd parodrwydd ysgolion i gyflwyno'u cwricwlwm yn rhy amrywiol. Yn yr enghreifftiau gorau, treialodd ysgolion ddulliau cyn mynd ati i werthuso a mireinio. Bu lleiafrif o ysgolion uwchradd yn cydweithio'n bwrpasol â'u hysgolion cynradd i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddysgu. Mewn ychydig iawn o achosion, arweiniodd hyn at gwricwlwm mwy cydlynus i gefnogi cynnydd disgyblion wrth iddynt bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn yr achosion hynny lle roedd cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn llai llwyddiannus, nid oedd ysgolion yn aml yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar sicrhau addysgu neu gyflwyno effeithiol, a oedd wedi cael ei lesteirio gan gamddehongli egwyddorion allweddol.

Mewn rhai **ysgolion uwchradd**, gwelsom ddisgyblion yn dechrau cyrsiau TGAU ar ddechrau Blwyddyn 9. O ganlyniad, roedd y disgyblion hyn yn cael cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu a dyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y cwricwlwm cyn gwneud eu dewisiadau cymhwyster. Yn ychwanegol, cyflwynodd ychydig o ysgolion ymagwedd garwsél at eu cwricwlwm lle roedd disgyblion yn cylchdroi pynciau penodol ar draws y flwyddyn. Roedd y dull hwn yn aml yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i atgyfnerthu eu dysgu, a gwneud cynnydd ynddo. Roedd hyn hefyd yn gwneud dilyniant i Flwyddyn 10 yn fwy heriol.

Mewn **ysgolion pob oed**, sefydlodd arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm, yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau a gwella addysgu. Roeddent yn annog athrawon i dreialu ymagweddau at addysgu, a thrwy werthuso systematig, yn addasu eu darpariaeth yn seiliedig ar eu canfyddiadau. Roedd rhai o'r gwendidau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn amlwg yn y sector hwn, hefyd.

Parhaodd yr **unedau cyfeirio disgyblion** yr ymwelom â nhw i ystyried sut orau i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau addysg heblaw yn yr ysgol (Llywodraeth Cymru, 2020). At ei gilydd, roedd hyn yn digwydd ar raddau datblygu amrywiol, ac yn gyffredinol, canfuom fod ansawdd ac effaith y gwaith hwn yn amrywiol. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, roedd ehangder a dyfnder addas i'r cynnig cwricwlwm ac roedd yn cefnogi dysgu a chynnydd disgyblion a'u hanghenion iechyd emosiynol a therapiwtig. Gallwch chi ddarllen mwy yn ein hadroddiad ar degwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) (Estyn, 2023).

Parhaodd **ysgolion arbennig a gynhelir** i ganolbwyntio ar sicrhau cwricwlwm a oedd yn briodol o eang a chytbwys. Canfuom fod cynllunio cwricwlwm cydweithredol yn nodwedd gref mewn ysgolion arbennig, ar y cyfan. Roedd hyn yn ymgorffori syniadau gan ddisgyblion ac aelodau staff, fel ei gilydd.

Mewn partneriaethau **Addysg Gychwynnol Athrawon**, gwelsom eu bod yn cyflwyno myfyrwyr i egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn briodol. Fodd bynnag, nid oedd myfyrwyr yn gyffredinol yn cael eu cynorthwyo'n ddigon da i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn aml oherwydd bod eu dealltwriaeth o'r modd yr oedd y Cwricwlwm i Gymru yn gweithio'n ymarferol dim ond wedi'i gyfyngu i'r hyn yr oeddent yn ei arsylwi yn eu hysgolion lleoli. Mewn ychydig o achosion, atgyfnerthodd ysgolion gamdybiaethau yn ymwneud â chynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Nid oedd partneriaethau'n nodi a mynd i'r afael â hyn yn ddigon da trwy eu prosesau gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.



**Ystyriaethau allweddol i ysgolion wrth ddatblygu a gweithredu eu cwricwlwm.** Mae'r rhain yn cynnwys heriau a chamdybiaethau cyffredin, sy'n gallu effeithio ar gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

## Y pedwar diben

Pan oedd ysgolion yn deall yn eglur sut i greu cwricwlwm effeithiol wedi'i arwain gan ddiben, roeddent yn canolbwyntio llai ar helpu disgyblion i wybod beth oedd y pedwar diben, ac yn canolbwyntio yn hytrach ar gynllunio profiadau dysgu difyr a oedd yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben, a'u hymgorffori. Roedd gan yr ysgolion hyn ddealltwriaeth glir o sut i gynllunio dysgu sy'n cefnogi cynnydd disgyblion ac yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oedd ysgolion yn ystyried sut gallent ddatblygu gwybodaeth, medrau a phrofiadau disgyblion i gyflawni'r pedwar diben yn ddigon da. Yn ychwanegol, mewn ychydig o achosion, roedd ysgolion yn gofyn i athrawon nodi pa rai o'r pedwar diben y byddent yn eu cynnwys mewn gwersi unigol, ac yn gofyn iddynt geisio gwerthuso p'un a oedd disgyblion yn bodloni'r dibenion yn y gwersi hyn. Roedd yr arfer hon yn aml yn ddi-fudd, gan nad oedd yn cynorthwyo staff i alluogi disgyblion i ddatblygu tuag at y pedwar diben yn y ffordd fwriadol, gyfannol.

Creodd ychydig o ysgolion gymeriadau i gynrychioli pob un o bedwar diben y cwricwlwm. Er bod hyn yn gweithio'n dda mewn rhai achosion, er enghraifft wrth helpu disgyblion i nodi'r pedwar diben, yn aml, roedd yn achosi i ddisgyblion feddwl y gallent ond cynrychioli un diben ar unrhyw adeg benodol.

## Pwysigrwydd addysgu

Lle'r oedd darparwyr wedi datblygu'r cwricwlwm yn hynod lwyddiannus, roeddent yn blaenoriaethu gwella ansawdd yr addysgu ochr yn ochr â chynllunio'u cwricwlwm. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd arweinwyr yn canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol yn bwrpasol i gynorthwyo staff i wella'u harfer. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, roeddent yn helpu staff i ystyried sut mae addysgu effeithiol a chwricwlwm o ansawdd uchel yn ategu ei gilydd.

Yn gyffredinol, lle roedd y cwricwlwm yn llai effeithiol o ran gwella dysgu, roedd arweinwyr yn canolbwyntio gormod ar ddatblygu cynnwys y cwricwlwm ar draul gwella addysgu. Yn yr achosion hyn, roedd arweinwyr yn canolbwyntio'n ormodol ar 'beth' maent yn ei addysgu, ac nid oeddent yn darparu digon o amser na dysgu proffesiynol i alluogi athrawon i feddwl 'sut' orau i addysgu gwahanol agweddau ar eu cwricwlwm.

## Datblygu annibyniaeth

Lle'r oedd athrawon yn datblygu annibyniaeth yn effeithiol, roeddent yn meddwl yn ofalus am y dysgu bwriadedig. Roeddent yn cynllunio profiadau dysgu a oedd yn adeiladu'n fuddiol ar ei gilydd. Roedd athrawon yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth oedd eu hangen arnynt ac yn cymhwyso'r rhain yn annibynnol mewn cyd-destunau newydd a weithiau mwy heriol.

Mewn ychydig o achosion, gwelsom ysgolion yn dechrau cyflwyno arferion dysgu sylfaen ar ddiwedd y sector cynradd a thu hwnt. Yn aml, nid oedd gan yr ysgolion hyn ddealltwriaeth ddigon cryf o sut gall yr arfer hon gynorthwyo disgyblion hŷn. Er enghraifft, roedd athrawon yn gosod ystod o 'genadaethau' neu 'heriau' i ddisgyblion weithio'n annibynnol, heb sicrhau bod gan ddisgyblion y wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth roedd eu hangen arnynt i lwyddo. Mewn gormod o achosion, roedd diffyg her a diben yn y tasgau yr oedd disgyblion yn ymgymryd â nhw, gydag ychydig iawn o gymorth gan oedolyn, os o gwbl, ac nid oeddent yn gwneud rhyw lawer i ymestyn dysgu'r disgyblion. O ganlyniad, roedd disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Parhaodd lleoliadau nas cynhelir, ysgolion ac UCDau i ddatblygu eu dulliau i alluogi disgyblion i ddylanwadu ar eu dysgu eu hunain. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd staff yn cychwyn trafodaethau ystyrlon â disgyblion am beth hoffent ei ddysgu, a sut. Roeddent hefyd yn sicrhau bod gan yr holl oedolion ddealltwriaeth glir o'r dysgu bwriadedig. Sicrhaodd hyn fod athrawon yn gallu cynllunio'n ofalus i gefnogi cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, roedd athrawon yn canolbwyntio gormod ar beth ddywedodd disgyblion yr oeddent eisiau ei ddysgu ac nid oeddent yn ystyried p'un a oedd hyn yn briodol, a sut roedd yn cyd-fynd â thaith ddysgu disgyblion. Mae'n bwysig fod arweinwyr yn helpu athrawon i ddeall sut i arwain a chyfeirio dysgu tra'n rhoi cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a'r ffordd y maent yn gwneud hynny.

## Hyrwyddo Cynefin a datblygu diwylliant gwrth-hiliol a chynhwysol

Fel rhan o ddatblygu eu cwricwlwm, ystyriodd llawer o ysgolion ac UCDau sut roeddent yn galluogi pob un o'r disgyblion i deimlo eu bod yn rhan o'r ysgol a'r gymuned leol, a sut roeddent yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn, Cynefin. Yn gynyddol, fel rhan o hyn, roedd ysgolion ac UCDau yn ystyried sut gallent ddatblygu diwylliant gwrth-hiliol a chynhwysol. Yn yr achosion gorau, roedd athrawon yn ystyried sut roeddent yn defnyddio cyfleoedd dysgu i ddatblygu synnwyr o Gynefin, yn ogystal ag addysgu disgyblion am Gymru a'r byd ehangach. Roeddent yn cynnwys cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a hanes pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Yn Ysgol Gynradd Parc Jiwbili, fel rhan o'u taith tuag at gwricwlwm gwrth-hiliol, defnyddiodd arweinwyr a staff eu gwerthusiadau yn dda i wella'r ffordd roeddent yn galluogi eu cwricwlwm i uniaethu â diddordebau'r disgyblion eu hunain. Arweiniodd hyn at ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd dathlu amrywiaeth ac o hyrwyddo cynhwysiant ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ysgolion, megis dechrau datblygu oedd yr agwedd hon.

Mewn ychydig o achosion, canolbwyntiodd ysgolion yn rhy gyfyng ar eu bro wrth ddatblygu eu hymagwedd at y cwricwlwm, ac ni roesant ystyriaeth ddigon da i sut roeddent yn addysgu disgyblion am Gymru a'r byd ehangach. O ganlyniad i hyn, roedd athrawon ond yn cynllunio profiadau dysgu a oedd yn gysylltiedig â diwylliannau a phrofiadau a oedd eisoes yn gyfarwydd i ddisgyblion yn yr ysgol. Nid oedd yr arferion hyn yn cynorthwyo disgyblion yn ddigon da i ddatblygu dealltwriaeth o'r diwylliannau amrywiol yng Nghymru, o fewn eu cymunedau, a'r tu allan, ac nid oeddent yn helpu disgyblion i greu cysylltiadau ar draws eu dysgu. Lle'r oedd ysgolion yn hynod effeithiol, roedd ganddynt gwricwlwm cynlluniedig a oedd yn atgyfnerthu diwylliant cynhwysol a gwrth-hiliol trwy gael gwerthoedd clir yr oedd pob un o'r disgyblion yn falch o'u cynnal. Fel rhan o'r diwylliant cynhwysol hwn, roedd yr ysgolion hyn yn llwyddiannus o ran hyrwyddo hawliau disgyblion LHDTC+ ac yn creu amgylchedd cadarnhaol lle roedd disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.



## Asesu a chynnydd

Y pryder mwyaf cyffredin a gododd arweinwyr a staff yn ystod ein harolygiadau oedd datblygu ymagweddau at asesu a dilyniant. Yn fwyaf cyffredin, roedd staff yn poeni am sut gallent fesur ac olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol. Yn aml, teimlai darparwyr ar gam fod angen iddynt newid eu holl ymagweddau at asesu wrth iddynt ddatblygu eu cwricwlwm. At ei gilydd, mae angen arweiniad mwy ymarferol ar arweinwyr am y disgwyliadau ar gyfer cynnydd disgyblon trwy gydol eu haddysg. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd arweinwyr a staff yn ystyried yn ofalus pa arferion asesu effeithiol yr oeddent yn eu defnyddio ar hyn o bryd a sut gallent barhau i ddefnyddio'r rhain i lywio dysgu'r disgyblion. At ei gilydd, dylid defnyddio asesu i nodi cryfderau disgyblion a'r meysydd i'w gwella, a galluogi staff i gynllunio addysgu i gefnogi a mynd i'r afael â chamdybiaethau ac adeiladu ar gynnydd blaenorol disgyblion. Yn ystod ein harolygiadau, gwelsom, yn gyffredinol, nad oedd dysgu proffesiynol yn cynorthwyo staff yn ddigon da i wella'u hymagweddau at asesu ac addysgu ac nid oedd bob amser yn ddigon ymarferol i ddiwallu anghenion athrawon. Yn ychwanegol, nid oes ffocws digon cryf wedi bod ar gefnogi datblygiad addysgegau pwnc a sector, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

# Cyfeiriadau

Estyn (2023) Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: [https://www.estyn.gov.wales/system/files/2023-06/Tegwch%20profiadau%E2%80%99r%20cwricwlwm%20ar%20gyfer%20disgyblion%20sy%E2%80%99n%20derbyn%20addysg%20heblaw%20yn%20yr%20ysgol%20%28AHY%29.pdf](https://www.estyn.gov.wales/system/files/2023-06/Tegwch%20profiadau%E2%80%99r%20cwricwlwm%20ar%20gyfer%20disgyblion%20sy%E2%80%99n%20derbyn%20addysg%20heblaw%20yn%20yr%20ysgol%20%28AHY%29.pdf) [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2020) Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: [https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-ahy](https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-ahy) [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Themâu allweddol

# Gweithgarwch dilynol arolygu

2022-2023

Pan fydd arolygwyr yn nodi diffygion difrifol adeg arolygiad craidd, rhoddir darparwyr mewn categori gweithgarwch dilynol. Mae trefniadau dilynol yn amrywio ar draws sectorau a gellir eu gweld yn yr arweiniad 'Sut rydym yn arolygu' ar ein gwefan.

## Lleoliadau nas cynhelir

Mae Estyn yn arolygu lleoliadau nas cynhelir ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae timau arolygu'n ystyried a oes angen naill ai gweithgarwch dilynol gwelliant â ffocws neu weithgarwch dilynol Estyn yn unig, o'r enw adolygu gan Estyn. Gellir gweld arweiniad ar drefniadau gweithgarwch dilynol mewn lleoliadau nas cynhelir yma.

Pan roddwyd lleoliadau yn y categori gweithgarwch dilynol gwelliant â ffocws, amlygodd argymhellion fod angen i arweinwyr a rheolwyr:

- gryfhau'r ffordd y maent yn gwerthuso darpariaeth ac yn mynd i'r afael ag agweddau y mae angen eu gwella
- datblygu agweddau fel ansawdd yr addysgu a defnyddio arsylwadau i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer plant
- mynd i'r afael â'r meysydd diffyg cydymffurfio â rheoliadau a amlygwyd gan y tîm arolygu



Yn ystod 2022-2023, tynnwyd pum lleoliad nas cynhelir o'r categori gweithgarwch dilynol gwelliant â ffocws. Roedd y darparwyr hyn wedi derbyn argymhellion yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth, yn amlygu'r angen i ddatblygu eu hymagwedd at hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.

Roedd y gwelliannau allweddol a nodwyd gan arolygwyr pan dynnwyd darparwyr o'r categori gweithgarwch dilynol yn cynnwys:

- Sefydlodd arweinwyr rolau a chyfrifoldebau clir, fel bod ymarferwyr yn deall beth oedd yn ddisgwyliedig ohonynt.
- Mewn rhai lleoliadau, datblygodd arweinwyr arweiniad arferion i helpu ymarferwyr i ddeall sut i gefnogi chwarae ac annog dysgu.
- Roedd gan arweinwyr ddealltwriaeth ddyfnach o lawer o bwysigrwydd gwerthuso darpariaeth a'r effaith ar brofiadau a chynnydd plant. Ystyrion nhw farn ymarferwyr trwy sgyrsiau anffurfiol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.
- Roedd cynlluniau gwella cryno yn cynnwys blaenoriaethau allweddol, a oedd wedi'u rhannu'n dargedau rhesymol yn gysylltiedig ag amser ac yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir.
- Roedd arweinwyr yn deall gwerth dysgu proffesiynol ac yn elwa ar ddysgu proffesiynol wedi'i hwyluso gan bartneriaid fel tîm ymgynghorol y blynyddoedd cynnar yn yr awdurdod lleol, a sefydliadau ymbarél sy'n darparu cyngor a chymorth ymarferol ar gyfer lleoliadau.
- Roedd arweinwyr yn datblygu systemau addas ar gyfer arfarnu a goruchwylio ymarferwyr, ac o ganlyniad, ymgymerodd staff â mwy o gyfrifoldeb am wella.

## Ysgolion a gynhelir ac UCDau

Yn ystod pob arolygiad, mae arolygwyr yn ystyried a yw'r ysgol neu'r UCD yn achosi pryder sy'n golygu y gallai fod angen ei rhoi mewn categori statudol. Os nad yw'r ysgol yn rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion ac nad yw'r bobl sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol / UCD yn dangos y gallu i sicrhau gwelliant angenrheidiol yr ysgol, caiff ei gosod yn y categori mesurau arbennig. Os yw arolygwyr yn dod i'r casgliad nad oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol / UCD, mae arolygwyr yn ystyried os nad yw'r ysgol / UCD yn perfformio cystal o gryn dipyn nag y gellid yn rhesymol disgwyl iddi berfformio yn yr holl amgylchiadau. Os felly, gosodir yr ysgol / UCD mewn gwelliant sylweddol. Os yw arolygwyr wedi ystyried o ddifri gosod ysgol neu UCD mewn categori statudol ond yn pryderu bod angen gweithgarwch dilynol, gallent ystyried gosod yr ysgol yn y categori adolygu gan Estyn. Gellir gweld arweiniad ar drefniadau gweithgarwch dilynol mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau yma.

Yn yr ysgolion prin oedd angen gweithgarwch dilynol statudol, yn gyffredinol, roedd diffygion sylweddol yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Yn rhy aml, nid oedd arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir nac yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol i'r ysgol. Yn nodweddiadol, nid oedd disgwyliadau arweinwyr o'r hyn y gallai disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel, ac o ganlyniad, nid oeddent yn mynd i'r afael â diffygion yng nghynnydd disgyblion ar ddigon o frys. Roedd ansawdd yr arfer ystafell ddosbarth yn yr ysgolion hyn yn wan neu'n anghyson, ac o ganlyniad, nid oedd disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent neu y gallent. Yn aml, roedd yr ysgol wedi profi cyfnod sylweddol o aflonyddwch mewn staffio, ac yn rhy aml, roedd morâl staff yn isel.

Pan osodir ysgolion ac UCDau mewn categori gweithgarwch dilynol statudol, mae arolygwyr yn monitro'u cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad craidd. I ddechrau, mae arolygwyr yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol a'r awdurdod lleol i'w cynorthwyo i lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA).

Pan fydd angen mesurau arbennig ar yr ysgol, mae arolygwyr yn parhau i ymweld bob pedwar i chwe mis, hyd nes bydd yr ysgol yn dangos bod ganddi'r capasiti i wneud gwelliannau heb gymorth. Yn ystod 2022-2023, gwnaeth arolygwyr ymweliadau monitro rheolaidd, tymhorol ag 18 o ysgolion mewn mesurau arbennig. Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd chwe ysgol (pum ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd) o'r categori mesurau arbennig.

## Darparwr: Ysgol Uwchradd Dinbych

**Lefel y gweithgarwch dilynol: Mesurau Arbennig**
**Tynnwyd o'r categori: Mehefin 2023**

Arolygwyd Ysgol Uwchradd Dinbych yn Nhachwedd 2016. O ganlyniad i ddiffygion mewn arweinyddiaeth ac addysgu, nid oedd disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ac roedd angen gwelliant sylweddol. Mewn ymweliad monitro deunaw mis yn ddiweddarach, nodwyd nad oedd yr ysgol wedi gwneud y gwelliannau hyn a rhoddwyd yr ysgol yn y categori mesurau arbennig.

Er bod gan yr ysgol gynllun gweithredu ôl-arolygiad addas a chyflwyno amrediad o strategaethau i sicrhau gwelliannau, erbyn seithfed ymweliad Estyn ym Mai 2022, nid oedd yr ysgol wedi gwneud digon o gynnydd i gael ei thynnu o gategori gweithgarwch dilynol. Un o'r ffactorau a gyfyngodd ar wella'r ysgol oedd sawl blwyddyn o ansefydlogrwydd yn uwch arweinyddiaeth yr ysgol

Pan apwyntiwyd y pennaeth presennol ym Medi 2022, rhoddodd flaenoriaeth i sefydlu diwylliant o ymddiriedaeth a chydweithio. Un o agweddau pwysicaf ei weledigaeth oedd dylai staff gydweithio ar strategaethau gwella oedd yn canolbwyntio ar wella deilliannau disgyblion yn hytrach na ffocysu ar ymweliadau monitro Estyn. Bu i'r pennaeth adnabod nad oedd arolygwyr yn edrych am strategaeth neu ddull penodol, ond yn hytrach eu bod yn canolbwyntio ar effaith gwaith yr ysgol ar gynnydd a lles disgyblion.

Un o ymagweddau allweddol ei ddull gweithredu oedd cyflwyno'r broses 'Gwella Ansawdd'. Roedd y dull hwn o hunanwerthuso a chynllunio gwella yn defnyddio cydweithio rhwng uwch arweinwyr, arweinwyr canol a staff eraill - er enghraifft gyda chraffu llyfrau ac arsylwadau gwersi - fel man cychwyn. Roedd hyn yn helpu athrawon ac arweinwyr ar bob lefel i ddod i gyd-ddealltwriaeth o'r cryfderau a'r meysydd penodol ar gyfer datblygu ar gyfer pob maes pwnc ac athro unigol. Nid yn unig y gwnaeth hyn alluogi arweinwyr i gynllunio ar gyfer gwelliant yn fwy manwl, roedd y ffocws ar 'sgyrsiau dysgu' yn hytrach nag atebolrwydd 'o'r brig i lawr' wedi helpu i gryfhau'r diwylliant datblygol o ymddiriedaeth a chydweithio.

Cafodd uwch-rolau arweinyddiaeth eu mireinio a'u hail-alinio er mwyn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau gwella'r ysgol a hefyd i wneud y defnydd gorau o sgiliau a phrofiad arweinwyr unigol. Ad-drefnwyd arweinyddiaeth fugeiliol i helpu'r arweinwyr hyn i fabwysiadu dull mwy cydlynol a chydweithredol o gefnogi a gwella lles disgyblion. Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau disgyblion, dechreuodd arweinwyr fabwysiadu dull mwy strategol â ffocws. Roedd hyn yn golygu bod meysydd pwnc unigol yn canolbwyntio ar feysydd sgiliau penodol, dynodedig, er enghraifft datblygu gallu disgyblion i grynhoi gwybodaeth o ystod o destunau. Helpodd hyn i gynyddu effaith yr agwedd hon ar waith yr ysgol.

Cynyddodd y dulliau cryfach hyn gyflymder y gwelliant. Yn yr ymweliadau monitro a gynhaliwyd yn 2022-2023, nododd arolygwyr fod addysgu yn gynyddol heriol a diddorol a'i fod yn helpu disgyblion i wneud cynnydd gwell. O ganlyniad, cafodd yr ysgol ei thynnu o fesurau arbennig ym mis Mehefin 2023.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol ymhen rhyw ddeunaw mis i ddwy flynedd. Fodd bynnag, mae ysgolion ac UCDau sydd angen mesurau arbennig fel arfer yn cymryd rhwng dwy a phum mlynedd i ddatblygu'r gallu i wella a chael eu tynnu o weithgarwch monitro pellach. Mae maint yr amser yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys maint yr ysgol a maint y staffio a'r aflonyddwch o ran arweinyddiaeth. Yn gyffredinol, pan fydd timau arweinwyr a staff sefydlog ar waith, mae arweinwyr yn symbylu staff i ysgogi gwelliannau sefydlog, a chyflym o bryd i'w gilydd, sy'n arwain at welliannau i ddeilliannau disgyblion a thynnu o gategori monitro.

## Darparwr: Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Malpas

**Lefel y gweithgarwch dilynol: Mesurau arbennig**
**Tynnwyd o'r categori: Tachwedd 2022**

Arolygwyd Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Malpas ym mis Tachwedd 2019 a'i gosod mewn mesurau arbennig. Nododd arolygwyr fod perthnasoedd toredig rhwng staff ac arweinwyr, gan arwain at ddiffyg cyfeiriad clir a strategol. Nid oedd systemau olrhain yr ysgol yn cynorthwyo arweinwyr i nodi p'un a oedd pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent. Nid oedd monitro gan arweinwyr yn nodi nac yn mynd i'r afael ag arfer wan yn yr ystafell ddosbarth.

Yn ystod tymor y gwanwyn 2020, cyn y pandemig, bu pennaeth dros dro o ysgol gyfagos yn gweithio gyda'r dirprwy bennaeth am dymor i greu cynllun gweithredu ôl-arolygiad addas. Yn hydref 2020, penodwyd pennaeth gweithredol dros dro i arwain yr ysgol am flwyddyn, a chafodd pennaeth parhaol ei recriwtio gan y corff llywodraethol.

Dechreuodd y pennaeth newydd yn ei swydd ym mis Medi 2021. Galluogodd y sefydlogrwydd hwn mewn arweinyddiaeth yr ysgol i ailddiffinio rolau a chyfrifoldebau pawb, a sefydlu disgwyliadau gofynnol clir a chytunedig ar gyfer arfer ystafell ddosbarth. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd cyflymdra'r gwelliant, a bu staff ac arweinwyr ar bob lefel yn cydweithio â'i gilydd. Sicrhaodd sianelau cyfathrebu cryf fod pawb yn wybodus ac yn dilyn hynt a helynt digwyddiadau. O ganlyniad, sefydlodd yr ysgol synnwyr clir o gymuned a hunaniaeth yn gyflym, gan ganolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion.

Yn ychwanegol, sefydlodd arweinwyr ddigwyddiadau proffesiynol rheolaidd, ochr yn ochr â chyfarfodydd wythnosol i staff ac arweinwyr. Dyfeision nhw gyfres o ganllawiau hanfodol a oedd yn esbonio'n fanwl y disgwyliadau cadarn a gytunwyd gan bob un o'r staff, yn cwmpasu agweddau penodol ar ddarpariaeth yr ysgol. O ganlyniad, dechreuodd ansawdd arfer ystafell ddosbarth wella. Cododd athrawon eu disgwyliadau o beth y gallai ac y dylai disgyblion ei gyflawni. Buont yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu gofod awyr agored eang yn amgylchedd dysgu pwrpasol, a ddefnyddir yn dda, a daeth ystafelloedd dosbarth yn lleoedd cynhyrchiol ac ysgogol i ddysgu. Bu'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn monitro'r cymorth ychwanegol yr oedd oedolion yn ei ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gweddu i'w hanghenion unigol.

Erbyn hydref 2022, ar ôl monitro tymhorol, nododd arolygwyr fod arweinwyr a staff yn gweithio gyda'i gilydd yn adeiladol ac yn gynhyrchiol i greu synnwyr ar y cyd o ddiben a pherchnogaeth. Nodon nhw falchder datblygol yn ansawdd yr addysg y mae staff yn ei chyflwyno, yn dilyn gwelliannau i'r ddarpariaeth ystafell ddosbarth. O ganlyniad, tynnwyd yr ysgol o fesurau arbennig ym mis Tachwedd 2022.

# Trosolwg o argymhellion o ysgolion a osodwyd mewn categori gweithgarwch dilynol statudol o ganlyniad i'w harolygiad craidd:



Fel y gellir ei ddisgwyl, yn aml, gadawodd arolygwyr argymhellion i **arweinwyr wella agweddau ar eu gwaith** mewn ysgolion ac UCDau a osodwyd yn y categori gweithgarwch dilynol statudol.

## Arweinyddiaeth

- Ym mhob un o'r ysgolion hyn, gadawodd arolygwyr o leiaf un argymhelliad yn gysylltiedig â gwella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth. Hefyd, cafodd tua hanner yr ysgolion hyn ddau o argymhellion neu fwy yn y maes hwn. Yn gyffredinol, nododd y rhain fod angen cryfhau neu sefydlogi arweinyddiaeth, diffinio rolau a chyfrifoldebau yn glir a dwyn staff ac arweinwyr i gyfrif
- Roedd negeseuon ynglŷn â chryfhau effaith arweinwyr ar wella safonau neu elfennau'r ddarpariaeth, er enghraifft ansawdd yr addysgu, hefyd yn ffocws ar gyfer argymhellion mewn llawer o'r ysgolion hyn.
- Thema amlwg bellach oedd yr angen i gryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i sicrhau ei effaith ar nodi'r hyn yr oedd angen ei wella a sut i gyflawni'r gwelliant hwnnw. Gadawodd arolygwyr yr argymhelliad hwn mewn tua hanner y darparwyr a osodwyd yn y categori mesurau arbennig, a'r rhan fwyaf o'r rhai a osodwyd yn y categori gwelliant sylweddol.

Roedd argymhellion ynghylch gwella agweddau ar **addysgu a phrofiadau dysgu** yn amlwg ym mhob un o'r ysgolion a osodwyd mewn categori gweithgarwch dilynol statudol. Derbyniodd y rhan fwyaf ohonynt o leiaf ddau argymhelliad yn gysylltiedig â'r maes arolygu hwn.

- Y brif thema o'r argymhellion hyn oedd yr angen i ddarparu her briodol i ddisgyblion a sicrhau bod athrawon yn cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion yn systematig ac yn gydlynol (yn aml yn gysylltiedig â'r argymhellion a gafodd yr ysgol ar gyfer dysgu).
- Roedd argymhellion eraill o'r maes hwn yn amrywio, gan gynnwys, er enghraifft yr angen i wella ansawdd addysgu ac asesu (er enghraifft trwy sefydlu cysondeb ar draws yr ysgol) a gwella elfennau o'r cwricwlwm.
- Yn ychwanegol, derbyniodd bron pob un o'r ysgolion o leiaf un argymhelliad yn gysylltiedig â dysgu a chynnydd. Roedd y rhain bob tro yn gysylltiedig â gwella un neu fwy o fedrau craidd disgyblion, fel rhifedd, ysgrifennu, darllen neu'r Gymraeg (neu ryw fath o gyfuniad o'r rhain).

Roedd llai o argymhellion yn gysylltiedig â gwella **lles** disgyblion neu systemau'r ysgol ar gyfer **gofal, cymorth ac arweiniad**.

- Cafodd ryw hanner yr ysgolion a osodwyd mewn categori gweithgarwch dilynol statudol argymhelliad yn ymwneud â materion diogelu a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Cafodd gweddill yr ysgolion argymhellion yn gysylltiedig â chryfhau'r ddarpariaeth i gynorthwyo disgyblion ag ADY, neu'r ddarpariaeth i wella presenoldeb neu ymddygiad disgyblion.
- Roedd ychydig iawn o argymhellion i wella lles disgyblion. Fodd bynnag, cafodd ychydig o ysgolion a osodwyd mewn categori gweithgarwch dilynol statudol argymhelliad i wella presenoldeb a phrydlondeb.

# Trosolwg o argymhellion o ysgolion y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn o ganlyniad i'w harolygiad craidd:

Cafodd bron pob un o'r ysgolion a'r UCDau y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn argymhelliad i wella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion hyn yn canolbwyntio ar gryfhau neu fireinio effaith gwaith arweinwyr i ysgogi gwelliannau. Yn ychwanegol, nododd tua hanner yr argymhellion arweinyddiaeth ar gyfer yr ysgolion a'r UCDau hyn ofyniad i gryfhau'r cylch hunanwerthuso a chynllunio a gweithgarwch. Cafodd y rhan fwyaf o ysgolion ac UCDau argymhelliad i wella safonau disgyblion, a chafodd llawer ohonynt argymhelliad i wella addysgu a darpariaeth. Cafodd tua hanner y darparwyr y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn argymhelliad i gryfhau eu systemau ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, neu wella lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

# Cynlluniau gweithredu ôl arolygiad a datganiad gweithredu'r awdurdod lleol

O dan ofynion Deddf Addysg 2005, lle mae ysgol neu uned cyfeirio disgyblion wedi cael ei gosod yn y categori angen gwelliant statudol neu fesurau arbennig, mae'n ofynnol i gorff llywodraethol yr ysgol neu bwyllgor rheoli'r UCD lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA). Yn ychwanegol, mae gofyn i awdurdodau lleol baratoi datganiad gweithredu ysgrifenedig i gefnogi'r ysgol.

Dylai'r cynllun gweithredu amlinellu'r gwaith a gynigir i alluogi'r ysgol i wneud gwelliant digonol er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gan Estyn cyn gynted ag y bo modd. Dylai ysgolion anelu at wneud y gwelliannau angenrheidiol o fewn rhyw flwyddyn o ganfod bod angen gwelliant sylweddol arnynt, neu o fewn rhyw ddwy flynedd ar gyfer y rhai y mae angen mesurau arbennig arnynt. Fodd bynnag, yn ymarferol, gall hyn yn aml gymryd yn hirach, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob ysgol.

Mater i ysgolion yw fformat y cynllun gweithredu. Fel isafswm, fodd bynnag, ar gyfer pob maes i'w wella (argymhelliad) a nodwyd yn yr adroddiad arolygu, dylai'r cynllun gweithredu nodi'r canlynol:

- y camau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd
- cyfrifoldeb arweiniol am y camau a gynigir
- y cymorth y bydd yr ysgol yn ei gael i fynd i'r afael â'r maes i'w wella
- y raddfa amser ar gyfer y gwaith i'w gwblhau gyda cherrig milltir allweddol
- adnoddau i'w cymhwyso i'r gwaith
- meini prawf llwyddiant (gan gynnwys targedau meintiol ar gyfer gwelliannau mewn deilliannau dysgwyr), y bydd cynnydd yn cael ei farnu yn eu herbyn
- sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro, e.e. pwy, pryd a sut
- sut bydd yn rhoi gwybod i rieni am y camau a fwriedir ar gyfer yr ysgol, cael gwybod barn rhieni ar y camau hyn a sut bydd yn ystyried y farn honno

Rhaid i ddatganiad gweithredu'r awdurdod lleol hefyd fynd i'r afael â'r holl argymhellion yn yr adroddiad arolygu, gan gynnwys y meini prawf a nodir uchod. Yn ychwanegol, dylai datganiad yr awdurdod lleol nodi p'un a yw'r awdurdod yn bwriadu defnyddio'i bwerau ymyrraeth i ofyn i'r corff llywodraethol sicrhau cyngor neu gydweithio, rhoi cyfarwyddiadau i'r corff llywodraethol neu'r pennaeth a chymryd unrhyw gamau eraill, penodi llywodraethwyr ychwanegol, tynnu cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn ôl, neu ddisodli'r corff llywodraethol â bwrdd gweithredol dros dro.

Dylai fod yn glir fod yr awdurdod lleol a'r ysgol / UCD wedi gweithio gyda'i gilydd i greu eu cynlluniau.



## Cwestiynau myfyriol

Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynllunio i helpu darparwyr ac awdurdodau lleol i ystyried eu cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad a sut maent yn ysgogi gwelliannau cynaledig:

- At ei gilydd, a yw'r cynllun gweithredu yn mynd i'r afael â'r materion allweddol sydd angen eu gwella?
- A yw'r cyfnod ar gyfer y gweithgarwch gwella arfaethedig yn realistig ac ystyriol? Er enghraifft, a yw'r cerrig milltir yn gydlynus ac â chyflymdra addas? A yw'r blaenoriaethau wedi'u gwasgaru'n briodol dros y cyfnod arfaethedig?
- A yw'r nodau sydd wedi'u nodi yn y cynlluniau yn briodol ddyheadol, o ystyried y sefyllfa bresennol? A ydynt yn debygol o arwain at y gwelliannau a gynigir gan y meini prawf llwyddiant?
- A yw cynllun yr ysgol / UCD a chamau gweithredu arfaethedig yr awdurdod lleol yn glir i'w darllen, ac a oes cydlyniad rhyngddynt?
- A yw rolau a chyfrifoldebau staff a llywodraethwyr yn briodol o glir? Er enghraifft, pwy sy'n monitro beth, pryd, sut, ac ar ba ffurf ddylai eu hadroddiad neu adborth fod?
- A yw'r dysgu proffesiynol arfaethedig yn cyd-fynd yn dynn â'r gwelliannau arfaethedig? Sut bydd arweinwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd dysgu proffesiynol?
- A yw'r cynllun yn nodi'n glir y ffynonellau cyllid, y cymorth, yr amser a'r adnoddau eraill sydd eu hangen i wireddu'r cynllun yn llwyddiannus? A yw datblygiadau cynlluniedig, er enghraifft newidiadau staffio neu gyfleoedd dysgu proffesiynol, yn gost effeithiol?
- Pa mor hylaw a realistig yw ymglymiad arfaethedig y corff llywodraethol yn y broses wella? A oes gan aelodau o'r corff llywodraethol y medrau sydd eu hangen arnynt, er enghraifft i fonitro a gwerthuso llwyddiant y cynllun?
- Sut mae'r ysgol a'r awdurdod lleol yn bwriadu cynnwys rhieni / gofalwyr mewn cyfrannu eu barn? A oes cyfleoedd priodol ac ystyrlon i ddisgyblion gyfrannu eu syniadau a'u barnau?

# Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, roedd tri awdurdod lleol mewn categori gweithgarwch dilynol. Barnwyd bod dau ohonynt wedi gwneud cynnydd digonol yn ystod ymweliadau monitro a chawsant eu tynnu o unrhyw weithgarwch dilynol pellach. Llwyddodd y ddau awdurdod lleol i wella'u gallu arwain a'u hymagweddau at werthuso a chynllunio ar gyfer gwella, a oedd yn agweddau pwysig i alluogi arweinwyr i sicrhau gwelliant ar draws yr argymhellion o'u harolygiadau. Mae cwestiynau i helpu gwasanaethau addysg llywodraeth leol i fyfyrio ar hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella wedi'u cynnwys o fewn ein crynodeb o'r sector. Gellir eu gweld yma.

Parhaom ni i weithio gydag un awdurdod lleol i fonitro a chefnogi ei broses wella. Fe wnaethom beilota ymagwedd newydd at gefnogi a monitro cynnydd trwy ymweliadau ac ymgysylltu mwy rheolaidd. Nod yr ymagwedd hon yw rhoi adborth mwy uniongyrchol ac amserol i'r awdurdod lleol ar ei gynnydd.

# Ysgolion annibynnol

Methodd un o'r tair ysgol annibynnol a arolygwyd, a chwech o'r 25 ysgol yr ymwelwyd â nhw fel rhan o ymweliadau monitro yn 2022-2023, fodloni un neu fwy o'r rheoliadau. Mae hyn yn cynrychioli cyfran fwy o ysgolion sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau o gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol. Yn ystod 2022-2023, ymwelodd arolygwyr â dwy o'r pum ysgol nad oeddent yn bodloni'r safonau ar gyfer cofrestru yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Gwerthusodd arolygwyr gydymffurfiad yr ysgolion â'r safonau yn dilyn cyfres o ymweliadau dilynol cefnogol. Gwelwyd bod y ddwy ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Felly, cawsant eu tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol.

# Trosolwg o ddarparwyr y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt

Yn ystod y flwyddyn, roedd cyfran y darparwyr sydd angen gweithgarwch dilynol yn gyffredinol yn debyg i lefelau cyn y pandemig, sef tua 23%. Mae'r tablau isod yn cynnwys gwybodaeth am niferoedd y darparwyr a aeth i ryw fath o gategori gweithgarwch dilynol.

| Sectorau ysgolion a gynhelir ac UCDau | Cyfanswm nifer y darparwyr a arolygwyd 2022-2023 | Mesurau arbennig | Gwelliant sylweddol | Adolygu gan Estyn |
|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 219 | 12 | 5 | 29 |
| Uwchradd | 28 | 1 | 4 | 6 |
| Pob oed | 6 | | | 1 |
| UCD | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Arbennig | 7 | | | 1 |
| Cyfran y darparwyr sydd angen gweithgarwch dilynol | | 5.3% | 3.8% | 14.4% |

| Sector | Gweithgarwch dilynol | Nifer a arolygwyd | Nifer a osodwyd mewn categori gweithgarwch dilynol 2022-2023 |
|---|---|---|---|
| Lleoliadau nas cynhelir | Gwelliant â ffocws ar y cyd neu adolygu gan Estyn | 92 | 2 (Gwelliant â ffocws ar y cyd) |
| Dysgu oedolion yn y gymuned | Gweithgarwch dilynol | 3 | 1 |
| Ysgolion arbennig annibynnol | Nid yw'n bodloni Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 | Ysgolion arbennig annibynnol 28 (3 arolygiad, 25 ymweliad) | 7 |
| Addysg Gychwynnol Athrawon | Yn achosi pryder sylweddol ac angen ail-arolygiad neu Ymgysylltu Manylach gan Estyn | 2 | 2 (1 yn achosi pryder sylweddol ac un angen ymgysylltu manylach) |

## Darparwyr a wnaeth ddigon o gynnydd i'w tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol statudol (ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol), gwelliant â ffocws ar y cyd (lleoliadau nas cynhelir) a gweithgarwch dilynol (dysgu oedolion yn y gymuned ac ysgolion annibynnol) yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023.

Mae'n anodd nodi tueddiadau yn niferoedd y darparwyr sydd wedi cael eu tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol yn ddiweddar. Mae hyn oherwydd amgylchiadau unigol darparwyr sydd angen gweithgarwch dilynol, ochr yn ochr ag effaith y pandemig ar weithgarwch arolygu. Yn nodweddiadol, darparwyr a osodir mewn mesurau arbennig sydd angen y cyfnod hiraf i wneud y gwelliannau angenrheidiol. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod darparwyr yn y categori gweithgarwch dilynol, dros gyfnod, yn gwneud cynnydd yn gyflymach neu'n arafach na'r rhai a oedd yn y categori gweithgarwch dilynol cyn y pandemig.

| Darparwr | Sector | Awdurdod lleol | Lefel y gweithgarwch dilynol | Dyddiad tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol | Dyddiad dechrau'r arolygiad craidd |
|---|---|---|---|---|---|
| Cylch Chwarae Sŵn y Don | Nas cynhelir | Conwy | GFf-C | 17/11/2022 | 24/05/2022 |
| Cylch Chwarae Greenfield | Nas cynhelir | Sir y Fflint | GFf-C | 11/10/2022 | 29/03/2022 |
| Presteigne Little People | Nas cynhelir | Powys | GFf-C | 01/03/2023 | 14/06/2022 |
| Pips Bach - Cefnllys | Nas cynhelir | Powys | GFf-C | 18/04/2023 | 11/10/2022 |
| Cylch Meithrin Llangadog | Nas cynhelir | Sir Gaerfyrddin | GFf-C | 11/07/2023 | 25/01/2022 |
| Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Malpas | Cynradd | Casnewydd | MA | 15/11/2022 | 04/11/2019 |
| Ysgol Uwchradd Dinbych | Uwchradd | Sir Ddinbych | MA | 20/06/2023 | 15/11/2016 |
| Ysgol Rhosnesni | Uwchradd | Wrecsam | MA | 27/03/2023 | 26/11/2018 |
| Ysgol Greenhill | Uwchradd | Sir Benfro | MA | 12/12/2022 | 13/05/2014 |
| Ysgol Uwchradd Casnewydd | Uwchradd | Casnewydd | MA | 27/03/2023 | 20/11/2017 |
| Ysgol Gyfun Gwynllyw | Uwchradd | Torfaen | MA | 01/02/2023 | 08/04/2019 |
| Cyngor Sir Penfro | GALlL | Sir Benfro | AAPS | 28/07/2023 | 14/10/2019 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | GALlL | Wrecsam | AAPS | 28/07/2023 | 14/10/2019 |
| Dysgu oedolion yn y gymuned Sir Benfro | Dysgu oedolion yn y gymuned | Sir Benfro | GD | 14/03/2022 | 01/08/2023 |
| Mynydd Haf | Annibynnol | Dd/b | GD | 23/05/2022 | 21/07/2023 |
| Summergil House | Annibynnol | Dd/b | GD | 14/03/2022 | 21/07/2023 |

MA – Mesurau arbennig
GS – Gwelliant sylweddol
GFf-C – Gwelliant â ffocws ar y cyd

AAPS – Awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol
GD – Gweithgarwch dilynol

Fe wnaethom dynnu saith ysgol o'r categori adolygu gan Estyn yn ystod 2022-2023, hefyd.

# Adroddiadau sector



Adroddiad sector

# Meithrinfeydd nas cynhelir

2022-2023



## Darparwyr

**529**
Nifer o ddarparwyr 2023

**529**
Nifer o ddarparwyr 2022

**537**
Nifer o ddarparwyr 2021

## Arolygiadau craidd

Nifer o arolygiadau craidd: **92**
Cyfrwng Cymraeg: **42**
Cyfrwng Saesneg: **50**

## Astudiaethau achos

Nifer o astudiaethau achos: **8**

## Gweithgarwch dilynol

Nifer o fewn y categori dilynol Medi 2022: **5**
Nifer a dynnwyd allan 2022-23: **5**
Nifer a israddwyd: **1**
Nifer a roddwyd mewn categori dilynol yn 2022-23: **2**
Cyfanswm o fewn categori dilynol Awst 2023: **3**

Yn ystod 2022-2023, at ei gilydd, parhaodd lleoliadau meithrin nas cynhelir i ddarparu gofal, cymorth ac arweiniad cryf a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar les plant. Canolbwyntiodd arweinwyr ac ymarferwyr yn dda ar ddatblygu Cwricwlwm i Gymru a rhoi'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ar waith. Gwellodd hyn gyfleoedd i blant ddysgu ac archwilio'n annibynnol, gydag ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o ba bryd a sut i ymyrryd yn chwarae plant i'w helpu i wneud cynnydd. Roedd lleoliadau'n dechrau datblygu eu prosesau asesu ac arsylwi yn briodol, er nad oedd yr holl leoliadau'n defnyddio'r rhain yn ddigon da i gefnogi plant yn effeithiol. Yn gyffredinol, roedd arweinyddiaeth mewn lleoliadau yn parhau'n gryf ac roedd gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer eu lleoliadau. Fodd bynnag, parhaodd y sector i wynebu anawsterau wrth recriwtio staff â chymwysterau addas, yn enwedig mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Roedd rhai anghysondebau o hyd o ran effeithiolrwydd prosesau hunanwerthuso, hefyd. O ganlyniad, nid oedd arweinwyr yn nodi'r meysydd mwyaf perthnasol i'w datblygu bob tro nac yn cynnwys yr holl ymarferwyr wrth hunanwerthuso.

## Addysgu a dysgu



Trwy gydol y flwyddyn, gwelom nifer gynyddol o leoliadau'n dechrau rhoi Cwricwlwm i Gymru a'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ar waith yn llwyddiannus. Mae'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn cysylltu'n agos â'r egwyddorion datblygu plant, yn ogystal â'r pedwar diben, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a chwe maes dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru. Darparodd y lleoliadau hyn gyfleoedd mwy pwrpasol i blant ddylanwadu ac arwain dysgu eu hunain.

Lle'r oedd yr ymagwedd hon yn fwyaf effeithiol, roedd gan ymarferwyr ddealltwriaeth glir o sut roedd cynllunio wrth ymateb i ddiddordebau a cham datblygu plant yn cefnogi cynnydd mewn dysgu. Roeddent yn darparu profiadau ymarferol, difyr mewn cyd-destun dilys a oedd yn ystyrlon i'r plant. Roeddent yn cynnig cydbwysedd priodol rhwng galluogi plant i wneud eu penderfyniadau eu hunain am ble a gyda beth yr hoffent chwarae, â'u cynlluniau a'u gwybodaeth eu hunain am ba fedrau roedd angen i blant gwahanol eu datblygu. Roeddent yn mireinio eu cynllunio'n rheolaidd er mwyn ymateb i anghenion y plant.

Mewn llawer o leoliadau, lle'r oedd addysgu'n gryf, gwnaeth ymarferwyr ddefnydd da o holi hynod effeithiol i ddatblygu dysgu a medrau meddwl plant. Roeddent yn annog plant i wneud penderfyniadau priodol am eu chwarae, er enghraifft trwy ddod o hyd i'r cynhwysydd cywir i ail-lenwi hambwrdd dŵr. Roedd ymarferwyr yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i gymryd cam yn ôl i roi amser i blant weithio pethau allan drostynt eu hunain.

Mewn ychydig o leoliadau, lle nad oedd darpariaeth yr un mor gryf, nid oedd ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau plant bob tro. Nid oeddent yn rhoi cyfleoedd buddiol i blant arbrofi â phrofiadau newydd neu herio eu hunain. Yn yr achosion hyn, roedd oedolion yn gorgyfarwyddo'r dysgu ac roedd ychydig iawn o gyfleoedd i blant ddarganfod pethau drostynt eu hunain. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid oedd ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd digon gwerthfawr i blant ddefnyddio'r ardal tu allan i ddatblygu eu medrau'n gynyddol.

Trwy gydol y flwyddyn, dechreuodd lleoliadau ddiwygio eu trefniadau arsylwi ac asesu yn addas, yn unol â'r trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Roedd llawer o ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda trwy siarad â nhw a'u harsylwi'n chwarae. Roeddent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i ddarparu cyfleoedd i blant adeiladu ar eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth bresennol. Roedd mwyafrif yr ymarferwyr yn gwneud asesiadau ac arsylwadau defnyddiol o blant, gan sylwi ar beth roeddent yn gallu ei wneud yn dda a lle'r oedd angen cymorth arnynt, a nodi'r camau nesaf yn eu dysgu. Mewn lleiafrif o leoliadau, roedd y defnydd o arsylwadau ac asesiadau i gynllunio profiadau i ddyfnhau ac ymestyn dysgu yn y camau datblygu cynnar. Yn y lleoliadau hyn, nid oedd ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth yn ddigon da bob tro i gynllunio'r camau nesaf yn natblygiad plant. Nid oeddent yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ba fedrau roeddent am i blant eu datblygu na chwaith os oedd gweithgareddau'n herio plant ar y lefel briodol.

Yn yr un modd ag y llynedd, datblygodd y rhan fwyaf o blant eu medrau cyfathrebu a llythrennedd yn effeithiol. Roeddent yn gwrando'n dda ar ymarferwyr a gwrandawodd llawer ohonynt ar farnau ei gilydd yn barchus, er enghraifft wrth ddewis stori ac ymdawelu i'w rhannu. Roedd llawer o blant yn sgwrsio'n hapus â'u ffrindiau ac ymarferwyr ac yn gofyn cwestiynau synhwyrol. Roeddent yn defnyddio iaith addas yn eu chwarae digymell a strwythuredig, fel trafod cynhwysion mewn llyfr ryseitiau cyn siopa yn yr ardal chwarae rôl. Roedd llawer o blant yn dewis ymweld ag ardal ddarllen eu lleoliad yn llawen. Roeddent yn mwynhau cynnwys llyfrau, gan ddangos medrau darllen cynnar da, fel archwilio a thrin llyfrau'n annibynnol, ailadrodd storïau cyfarwydd a chreu cysylltiadau rhwng llyfrau a'u profiadau eu hunain. Gofynnodd llawer o blant i ymarferwyr ddarllen iddynt mewn ardaloedd gwahanol yn yr amgylchedd dysgu.

Datblygodd medrau corfforol llawer o blant yn dda. Roeddent yn dringo ac yn cydbwyso ar rwystrau gwahanol a defnyddiodd y mwyafrif ohonynt deganau mawr, beiciau a threiciau gyda deheurwydd cynyddol. Roeddent yn defnyddio ystod o offer â rheolaeth gynyddol ac yn datblygu eu cryfder a'u cydsymud dan do ac yn yr awyr agored. Roedd mwyafrif y plant yn defnyddio offer gwneud marciau yn effeithiol i gefnogi eu chwarae, er enghraifft wrth ysgrifennu rhestr siopa yn yr ardal chwarae rôl neu ddefnyddio sialc ar y buarth. Datblygodd llawer o blant ystod dda o fedrau rhifedd yn llwyddiannus ac roeddent yn dechrau defnyddio iaith fathemategol yn hyderus mewn cyd-destunau go iawn. Er enghraifft, defnyddiodd plant a oedd yn ymweld â rhandir eu gwybodaeth am bwysau a mesur i ddisgrifio maint pwmpenni. At ei gilydd, rhoddodd ymarferwyr gyfleoedd i blant fod yn greadigol wrth chwarae, gan werthfawrogi'r broses greadigol yn hytrach na chanolbwyntio ar gynnyrch gorffenedig. Roedd hyn yn golygu y datblygodd y rhan fwyaf o blant eu medrau creadigol yn briodol trwy weithgareddau celf a chrefft, gan ddewis y deunyddiau a'r adnoddau roeddent am eu defnyddio. Roedd llawer o blant yn dangos mwynhad a phleser wrth iddynt ddatblygu eu medrau creadigol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt ddawnsio'n llawn mynegiant a chwarae offerynnau taro yn llwyddiannus i ganeuon cyfarwydd. Datblygodd llawer o blant eu medrau meddwl a datrys problemau yn effeithiol, er enghraifft wrth wneud cuddfan yn yr ardal awyr agored a dyfeisio ffyrdd i atal y tarpolin rhag cael ei dynnu gan y gwynt.

### Cynllunio effeithiol yng Nghaban Kingsland yng Nghaergybi, Ynys Môn

Mae'r lleoliad wedi arddel Cwricwlwm i Gymru ac mae ymarferwyr wedi datblygu ymagwedd hynod effeithiol at gynllunio ymatebol. Maent wedi sicrhau cydbwysedd rhagorol rhwng caniatáu i'r plant wneud eu penderfyniadau eu hunain am ble a gyda beth yr hoffent chwarae, ochr yn ochr â'u cynlluniau a'u gwybodaeth eu hunain am ba fedrau y mae angen i blant gwahanol eu datblygu. Mae hyn yn arbennig o bwysig ac effeithiol i blant a all fod yn profi heriau yn eu dysgu. Mae'r cydbwysedd hyn o chwarae rhydd â mynediad agored, wedi'i gyfuno ag ystod hyfryd o adnoddau, a medrau'r ymarferwyr o ran gwybod pa bryd i ymyrryd a pheidio ymyrryd, yn hynod effeithiol. Mae eu hymagwedd gyfan wedi'i seilio ar ddatblygu pob plentyn fel unigolyn. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddatblygu eu hyder, gwydnwch a'u hunan-barch yn effeithiol.

Mewn mwyafrif o leoliadau cyfrwng Saesneg, roedd ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ymarfer a datblygu eu medrau Cymraeg. Roeddent yn defnyddio caneuon gyda'r plant ac yn darllen storïau syml iddynt. Roeddent yn defnyddio'r Gymraeg i ofyn cwestiynau syml ac annog plant i enwi lliwiau a rhifau'n briodol wrth chwarae. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o leoliadau, nid oedd ymarferwyr yn rhoi digon o gyfleoedd i blant glywed neu ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'r drefn ddyddiol. Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau Cymraeg plant ac yn cefnogi'r rhai a oedd yn newydd-ddyfodiaid i'r iaith yn effeithiol. Roeddent yn darparu ystod eang o weithgareddau dysgu a chwarae cyffrous a oedd yn golygu bod llawer o blant, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg gartref, yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg llafar.

Roedd y rhan fwyaf o leoliadau'n dathlu ac yn rhoi ychydig o gyfleoedd addas i blant gael profiad o ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, yn ogystal â dathlu diwrnodau pwysig yn y calendr Cymreig, roedd llawer o leoliadau hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu am eu hardal leol trwy ymweliadau rheolaidd ag atyniadau lleol ac adeiladau hanesyddol. Darparodd y rhan fwyaf o leoliadau ychydig o gyfleoedd addas i blant ddysgu am ddiwylliannau a chredoau eraill, fel trwy ddysgu am Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Fodd bynnag, yn rhy aml, roedd adnoddau a phrofiadau i ddatblygu dealltwriaeth plant o gydraddoldeb a gwahaniaethau diwylliannol ehangach yn gyfyngedig. O ganlyniad, nid oedd plant bob amser yn dysgu am eu cymdeithas ehangach ac amrywiaeth Cymru.

## Gofal, cymorth a lles



Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, parhaodd y rhan fwyaf o leoliadau i ddarparu gofal, cymorth ac arweiniad cryf i blant, a gafodd effaith gadarnhaol ar les plant. Wrth gyrraedd eu lleoliadau, roedd y rhan fwyaf o blant yn teimlo'n hapus, yn hyderus ac yn awyddus i ddechrau'r diwrnod. Roedd llawer ohonynt yn cyfarch ei gilydd yn hapus ac yn siarad ag ymarferwyr yn llawn cyffro am eu newyddion

Roedd bron pob un o'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n dda â'r plant ac yn meithrin perthynas gadarnhaol â nhw. Roeddent yn rhyngweithio mewn modd cynnes, cyfeillgar ac yn helpu i greu amgylcheddau tawel a hamddenol i blant. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd ymarferwyr yn sylwgar iawn ac yn cefnogi plant i fod yn fwy ymgysylltiedig ac annibynnol wrth chwarae a dysgu, gan gymryd diddordeb ym mywyd pob plentyn.

Lle'r oedd arfer ar ei chryfaf, roedd plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i fynegi eu hunain yn glir. Roedd ganddynt lais cryf ac roeddent yn cyfrannu'n gadarnhaol at y ffordd roedd ymarferwyr yn datblygu'r ddarpariaeth. Lle'r oedd hyn yn fwyaf effeithiol, roedd ymarferwyr yn ystyried eu diddordebau a'u safbwyntiau ac yn eu cynnwys yn y gweithgareddau cynlluniedig, er enghraifft trwy roi camerâu i'r plant dynnu lluniau o ddail yr hydref er mwyn ymateb i'w cwestiynau am y lliwiau gwahanol. O ganlyniad, roedd llawer o blant yn archwilio ardaloedd yn rhydd ac yn hyderus ac yn penderfynu beth i chwarae ag ef a ble i archwilio. Roeddent yn mynegi eu teimladau ac yn gwneud penderfyniadau effeithiol am sut roeddent yn treulio eu hamser a gyda phwy roeddent yn chwarae. Roedd llawer o blant yn mynd at ymarferwyr yn gyson â cheisiadau ac yn sgwrsio â nhw'n naturiol.

Parhaodd ymarferwyr i roi pwyslais cryf ar annog plant i fod yn iach ac yn heini. Roeddent yn defnyddio arferion a gweithgareddau cadarnhaol i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Er enghraifft, roeddent yn cynnig amrywiaeth addas o ddewisiadau bwyd a diod iach i'r plant ar gyfer eu byrbrydau. Rhoddodd bron pob arweinydd systemau addas ar waith i reoli alergeddau ac, yn ôl yr angen, anghenion iechyd penodol plant unigol.

Lle'r oedd ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd da o weithgareddau dan arweiniad oedolion a phlant, a oedd yn briodol i'w hoedran, datblygodd plant eu medrau annibyniaeth yn dda. Er enghraifft, roedd plant hŷn yn dewis ac yn paratoi eu ffrwythau eu hunain yn ystod amser byrbryd. Roeddent yn casglu eu powlenni eu hunain, yn cael gwared ar fwyd oedd dros ben ac yn rhoi eu llestri yn y sinc. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn rhoi sylw priodol i'w medrau gofal personol, fel golchi eu dwylo ar adegau priodol ac estyn hances i sychu eu trwyn. Mewn ychydig o leoliadau, roedd plant yn dysgu i helpu pobl eraill trwy osod enwau, platiau a chwpanau, gweini eu hunain â gefeiliau a thywallt llaeth yn ystod amser byrbryd.

Ym mron pob lleoliad, datblygodd arweinwyr ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol i gynorthwyo ymarferwyr i gadw plant yn ddiogel. Roedd gan bron pob un o'r arweinwyr a'r ymarferwyr wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os oedd ganddynt unrhyw bryderon. Yn yr ychydig iawn o achosion lle y nodom broblemau o ran diogelu, nid oedd gan ymarferwyr ddealltwriaeth ddigonol o bolisi a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad ac nid oeddent yn eu rhoi ar waith yn ddigon da. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid oedd gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn ddigon cadarn, fel gweithdrefnau i lofnodi oedolion i mewn ac allan o leoliadau neu gofnodi ymarferion tân yn briodol.

Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol i blant, gan ddangos iddynt sut i drin ei gilydd â pharch a chwrteisi. Roeddent yn rheoli ymddygiad plant yn fedrus, gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol ac esboniadau clir, yn unol â'u polisïau rheoli ymddygiad. Roedd llawer o ymarferwyr yn cefnogi ac yn rhagweld anghenion emosiynol plant yn dda. Er enghraifft, roeddent yn paratoi'r plant ac yn eu cyflwyno i oedolion anghyfarwydd a oedd yn ymweld â'r lleoliad.

Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio eu gwybodaeth am y plant yn dda i ddarparu gofal addas a oedd yn briodol i'w hanghenion. Yn yr enghreifftiau gorau, roeddent yn defnyddio'r holl wybodaeth a ddarparwyd gan rieni a gofalwyr, gan gynnwys proffiliau un-dudalen i addasu eu darpariaeth yn unol ag anghenion unigol. Roeddent yn nodi plant a all fod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gywir ac roedd ganddynt systemau effeithiol i'w cefnogi nhw a'u teuluoedd. Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth gan yr awdurdod lleol.

## Deall anghenion unigol plant ym Meithrinfa Ddydd Meadowbank, Y Fenni, Sir Fynwy

Mae gan ymarferwyr wybodaeth helaeth am anghenion unigol plant. Maent yn cynnal arsylwadau fel rhan o'r sesiwn ddyddiol ac yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lywio eu cynllunio a'r camau nesaf yn nysgu unigol plant. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth ragorol o anghenion pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn cynnig cyngor ac arweinyddiaeth effeithiol ar bob mater sy'n ymwneud ag ADY. Gwna ymarferwyr ddefnydd da o'r cysylltiadau a ffurfiwyd â gwasanaethau arbenigol, fel Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol iaith a lleferydd. Mae ymarferwyr yn ymgysylltu'n dda â rhieni wrth nodi targedau unigol y plant ac adolygu eu cynnydd.

# Arwain a gwella

Roedd arweinyddiaeth yn gryf yn y rhan fwyaf o leoliadau. Roedd bron pob arweinydd yn cynnig gweledigaeth glir ar gyfer eu lleoliadau. Yn yr enghreifftiau cryfaf, roeddent yn rhannu eu gweledigaeth â'r holl staff a rhieni ac yn adolygu eu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu eu gweledigaeth.

Roedd llawer o arweinwyr yn ymgysylltu'n effeithiol ag ymarferwyr wrth adolygu eu harfer a'u darpariaeth eu hunain a chynnydd plant. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd arweinwyr yn ystyried safbwyntiau rhieni ac athrawon ymgynghorol yn dda i'w helpu i greu darlun cywir o'u darpariaeth. Roedd y lleoliadau mwyaf effeithiol yn defnyddio'r wybodaeth gynhwysfawr hon yn dda i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Roedd gan y lleoliadau hyn gysylltiad da rhwng y blaenoriaethau a nodwyd ganddynt a chynlluniau ar gyfer datblygu. Fe wnaethant nodi camau gweithredu clir i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Arweiniodd y rhain at welliannau clir yng nghynnydd plant, ansawdd darpariaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mewn ychydig o leoliadau, er bod arweinwyr yn aml yn deall yr angen am y prosesau hyn, roedd monitro a gwerthuso i gefnogi gwelliant parhaus yn gyfyngedig.

Roedd llawer o arweinwyr yn cynnal goruchwyliaeth a gwerthusiadau rheolaidd gydag ymarferwyr. Roeddent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn crynhoi rhain mewn swydd ddisgrifiadau manwl. Lle'r oedd hyn yn fwyaf effeithiol, roedd arweinwyr yn nodi anghenion hyfforddiant ymarferwyr a chyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol parhaus yn effeithiol. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, arweiniodd hyn at ddarpariaeth o ansawdd da a oedd yn cael ei gwerthuso a'i mireinio'n rheolaidd. Yn yr ychydig achosion lle nad oedd arfer yr un mor effeithiol, roedd gwerthusiadau staff yn rhy anffurfiol ac nid oeddent yn canolbwyntio'n ddigon da ar nodi cryfderau, targedau ar gyfer gwella ac anghenion hyfforddiant.

Roedd bron pob arweinydd yn sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a sicr a oedd wedi'i gynnal a chadw'n dda, yn lân ac yn lle addas i blant ddysgu a chwarae. Roedd llawer o arweinwyr ac ymarferwyr yn darparu amgylcheddau cyfoethog a symbylol i blant a oedd yn cefnogi pob un o'u meysydd dysgu a datblygiad yn dda. Cafodd y rhain effaith gadarnhaol ar ddysgu plant, fel helpu i ddatblygu eu medrau corfforol, cymdeithasol a chyfathrebu.

Fodd bynnag, nid oedd gan ychydig o leoliadau asesiadau risg digon cadarn bob tro i nodi a lliniaru peryglon rhagweladwy. Yn aml, roedd angen i'r rhain gael eu diweddaru neu eu teilwra ar gyfer nodweddion penodol y lleoliad unigol.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, roedd arweinwyr yn defnyddio cyllid yn effeithiol i wella darpariaeth ar gyfer dysgu a datblygiad plant. Roeddent yn defnyddio Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a grantiau eraill yn effeithlon. Cafodd y rhain effaith gadarnhaol ar fedrau corfforol, cymdeithasol a chyfathrebu plant. Roedd ychydig o leoliadau hefyd yn cefnogi'r disgyblion hynny ag anghenion ychwanegol yn ddefnyddiol, er enghraifft trwy ddarparu byrddau gwyn synhwyraidd i helpu plant i ddatblygu medrau gwneud marciau cynnar.

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd gan y rhan fwyaf o leoliadau gysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr Roeddent yn rhoi gwybodaeth werthfawr iddynt i gefnogi dysgu eu plant gartref a deall y cynnydd roedd eu plentyn yn ei wneud yn y lleoliad. Cynhaliodd llawer o leoliadau sesiynau aros a chwarae i gynyddu gwybodaeth rhieni a gofalwyr am beth roedd eu plant yn ei wneud yn ystod y dydd a sut roeddent yn hoffi dysgu. Roedd y sesiynau hyn yn creu cysylltiad cryf ac ymdeimlad o berthynas rhwng y lleoliadau a theuluoedd.

### Darparu amgylchedd dysgu cyfoethog a symbylol yn Mini Miners Club, Ystrad Mynach, Caerffili

Mae arweinwyr yn gweithio'n dda i ddarparu amgylchedd dan do croesawgar, symbylol sy'n addas i blant, sy'n tanio chwilfrydedd plant. Maent yn defnyddio cydbwysedd effeithiol o adnoddau naturiol ac adnoddau gwneud. Mae pob un o'r ystafelloedd chwarae yn olau ac yn drefnus ac mae ganddynt ardaloedd sydd wedi'u nodi'n glir. Mae arweinwyr yn sicrhau lefel o gysondeb o fewn yr ystafelloedd chwarae amrywiol i gynorthwyo â phontio a datblygu ymdeimlad o berthyn wrth i blant symud o amgylch y lleoliad. Mae ymarferwyr yn darparu ystod fuddiol o adnoddau i ennyn diddordeb plant wrth iddynt aros i fynd i'r ystafelloedd chwarae, er enghraifft ardal lyfrau glyd lle gall plant eistedd a rhannu llyfrau â'u rhieni a gofalwyr. Gwna arweinwyr ddefnydd da o ddodrefn ac adnoddau go iawn ac maent yn ystyried hyn yn rhan greiddiol o'u gweledigaeth ar gyfer y lleoliad. Mae pob ystafell yn cynnwys dodrefn deniadol sydd o faint addas i'r plant, addurniadau, dillad go iawn ac offer cegin. Mae'r adnoddau hyn yn cefnogi dychymyg a chwilfrydedd plant yn effeithiol ac yn cynnig ysbrydoliaeth werthfawr ar gyfer chwarae rôl.



Roedd llawer o leoliadau'n cydweithio'n agos â'u Hathrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar. Roeddent yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol reolaidd ac yn gweithredu ar gyngor i wella darpariaeth i'w plant. Roeddent hefyd yn manteisio ar hyfforddiant buddiol a oedd yn eu cynorthwyo'n dda i roi'r cwricwlwm ar waith. Roedd hyn yn eu galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cwricwlwm a rhoi system ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Manteisiodd ychydig iawn o leoliadau cyfrwng Cymraeg ar gyfleoedd hyfforddiant gwerthfawr ar ddulliau trochi iaith, sydd wedi cael effaith fuddiol ar wella medrau Cymraeg plant. Fodd bynnag, methodd ychydig iawn o leoliadau i greu cysylltiadau buddiol â'r awdurdod lleol neu grwpiau cymunedau ehangach a busnesau. O ganlyniad, nid oedd ychydig iawn o leoliadau'n gwneud defnydd addas o'r ystod o gyfleoedd a oedd ar gael i ddatblygu dysgu plant a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas bob tro.

Roedd trefniadau ar gyfer pontio rhwng lleoliadau ac ysgolion yn amrywio. Mewn mwyafrif o leoliadau, roedd arweinwyr wedi sicrhau partneriaethau effeithiol ag ysgolion i sicrhau pontio rhwydd i blant. Lle'r oedd trefniadau pontio wedi'u hen sefydlu, roedd cyfathrebu rhwng lleoliadau ac ysgolion yn rheolaidd ac yn ddefnyddiol. Roedd lleoliadau'n trefnu i blant ymweld ag ysgolion cyn iddynt ddechrau eu cyfnod yno. Er enghraifft, roedd ychydig ohonynt yn gallu cael cinio yn yr ysgol, a mynychodd llawer o blant achlysuron fel cyngherddau, gwasanaethau neu ddiwrnod mabolgampau. Roedd llawer o arweinwyr yn trefnu i athrawon o'r ysgolion ymweld â'r lleoliad i gyfarfod â'r plant mewn amgylchedd cyfarwydd a dysgu mwy amdanynt.

# Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2022) Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas gynhelir. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/api/storage/2292053c-a4fe-41fe-8e8d-c6ad34b66309/230626-cwricwlwm-ar-gyfer-lleoliadau-meithrin-a-ariennir-nas-cynhelir.pdf [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Adroddiad sector

# Cynradd

2022-2023



## Darparwyr

**1,219**
Nifer o ddarparwyr 2023

**383**
Nifer o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg 2023

## Disgyblion

**263,072**
Cyfanswm disgyblion

**267,185**
Cyfanswm disgyblion 2021-22

**273,063**
Cyfanswm disgyblion 2020-21

**23%**
Canran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

**7%**
Canran gyda Saesneg fel iaith ychwanegol (A,B,C)

**12%**
Canran o ddisgyblion sy'n gallu siarad Cymraeg

**13%**
Canran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

## Arolygiadau craidd

Nifer o arolygiadau craidd: **219**
Cyfrwng Cymraeg: **52**
Cyfrwng Saesneg: **167**
Ymweliadau ymgysylltu: **4**

## Astudiaethau achos

Nifer o astudiaethau achos: **57**

## Gweithgarwch dilynol

Nifer o fewn y categori dilynol Medi 2022
MA: **4** GS: **1** AE: **10**

Nifer a dynnwyd allan 2022-23
MA: **1** GS: **0** AE: **4**

Israddwyd 1 o AE i AE

Nifer a roddwyd mewn categori dilynol yn 2022-2023
MA: **12** GS: **5** AE: **29**

Cyfanswm o fewn categori dilynol Awst 2023
MA: **16** GS: **6** AE: **34**

Yn ystod 2022-2023, parhaodd ysgolion cynradd i roi pwyslais cryf ar gefnogi lles disgyblion a'u teuluoedd. O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, cryfhaodd llawer o ysgolion eu systemau bugeiliol i ddarparu'r cymorth emosiynol ychwanegol yr oedd ei angen ar lawer o ddisgyblion a'u teuluoedd. Mireiniodd llawer o ysgolion eu hymagwedd at fonitro ac annog presenoldeb, hefyd. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gorau llawer o ysgolion, roedd cyfraddau presenoldeb islaw'r lefelau cyn y pandemig o hyd. Roedd cyfraddau presenoldeb disgyblion o gyd-destunau dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn peri pryder penodol. Dechreuodd mwyafrif o ysgolion roi Cwricwlwm i Gymru ar waith yn dda a chynlluniodd y rhan fwyaf o ysgolion yn effeithiol i ddatblygu medrau siarad, gwrando a darllen disgyblion. Roedd llawer o arweinwyr yn adnabod eu hysgolion yn dda ac roedd ganddynt systemau a phrosesau clir ar waith. Fodd bynnag, roedd gormod o arweinwyr nad oeddent yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion ac aelodau staff yn ddigon da. Mae cynnydd o ran datblygu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn peri pryder o hyd ac mae effaith y pandemig wedi rhwystro hyn ymhellach.

## Addysgu a dysgu

Trwy gydol y flwyddyn, ystyriodd ysgolion y ffordd orau i roi gofynion Cwricwlwm i Gymru ar waith. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r flwyddyn gynt, roedd ansawdd ac effaith y gwaith hwn yn amrywio o hyd, gyda mwyafrif o ysgolion yn gwneud cynnydd da. Yn aml, roedd staff yn yr ysgolion hyn yn elwa ar gydweithio rhwng athrawon yn eu lleoliad eu hun, yn ogystal â gydag ysgolion eraill. Roeddent yn canolbwyntio ar arbrofi, adolygu a mireinio prosesau ac yn sicrhau eu bod yn edrych yn ofalus ar sut roeddent yn cyflwyno'r cwricwlwm, yn hytrach na'r hyn roedd y cwricwlwm yn ei gynnwys yn unig. Fe ddechreuon nhw feddwl hefyd am sut olwg ddylai fod ar ddilyniant drwy'r cwricwlwm i ddisgyblion yn eu hysgol a sut gallai disgyblion gymhwyso'r medrau maent yn eu datblygu mewn meysydd ar draws y cwricwlwm. Yn aml, roedd hyn yn cynnwys datblygu themâu trawsbynciol a oedd yn caniatáu i ddisgyblion greu cysylltiadau â'u profiadau bywyd eu hunain. Gwnaeth ychydig o ysgolion fwy o gynnydd. Yn aml, roedd y rhain wedi bod ar eu taith ddiwygio ers tro, yn dechrau ymwreiddio eu hymagwedd ac, mewn ychydig o achosion, yn rhoi'r drydedd neu'r bedwaredd fersiwn o'u cwricwlwm ar waith. Yn aml, roedd hyn yn cynnwys disgyblion yn nylunio'r cwricwlwm mewn ffordd ystyrlon ac yn sicrhau bod rhieni'n cael cyfleoedd i gyfrannu at y newidiadau a deall eu diben. Darllenwch sut mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn ym Mro Morgannwg wedi datblygu taith gwricwlaidd deilwredig a chydweithredol wrth ymateb i Gwricwlwm i Gymru.

Ar gyfer lleiafrif yr ysgolion, roedd cynnydd o ran datblygu Cwricwlwm i Gymru yn y camau cynnar o hyd. Yn aml, dim ond yn ddiweddar roedd yr ysgolion hyn wedi dechrau diwygio'r cwricwlwm ac nid oedd ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r egwyddorion sy'n sail i fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Addasodd llawer o'r ysgolion hyn gynllunio i ganolbwyntio ar beth mae disgyblion yn ei ddysgu yn hytrach na sut maent yn dysgu. O ganlyniad, roeddent yn aml yn brin o drylwyrdeb mewn agweddau pwysig, fel medrau trawsgwricwlaidd, ac roedd eu dealltwriaeth o asesu a dilyniant yn gyfyngedig.



Yn yr achosion gorau, lle'r oedd ysgolion yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i sut roedd angen newid addysgu i gyd-fynd â Cwricwlwm i Gymru, cadwodd athrawon ffocws cryf ar yr effaith y byddai unrhyw newidiadau'n eu cael ar ansawdd profiadau dysgu i ddisgyblion a'r cynnydd y byddant yn ei wneud. Rhoddodd arweinwyr gyfle iddynt arbrofi a threialu ymagweddau newydd. Yn yr ysgolion hyn, roedd athrawon yn ymgysylltu'n bwrpasol â gwybodaeth ymchwil, yn gweithio â chydweithwyr yn eu hysgolion eu hunain ac ysgolion eraill. Yn ogystal, roedd hyn yn sicrhau eu bod yn addasu unrhyw syniadau a methodolegau newydd i weddu i anghenion a chyd-destun disgyblion a staff yn eu hysgol. Roeddent hefyd yn fodlon rhoi'r gorau i'w hymagweddau neu eu haddasu ar sail tystiolaeth gadarn o'r hyn a oedd yn gweithio ac nad oedd yn gweithio.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd arweinwyr ac athrawon yn cydnabod manteision newidiadau pwysig i addysgeg, fel sicrhau bod disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain, ac y dylent gyflwyno addysgu a dysgu o fewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad. Fodd bynnag, lle'r oedd newidiadau i addysgu'n llai effeithiol, roedd athrawon yn cynllunio gweithgareddau i feithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion nad oeddent yn eu herio'n ddigonol nac yn eu helpu i wneud cynnydd yn eu dysgu. Yn aml, roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys disgyblion yn dewis pa dasgau i ymgysylltu â nhw, ond ar lefel a oedd islaw eu gallu ac nad oedd yn eu herio i gymhwyso eu dysgu ar lefel addas a gwneud cynnydd.

Yn gyffredinol, gwnaeth llawer o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gynnydd da o ran datblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn ystod gwersi a gweithgareddau a thros gyfnod. Roedd medrau llefaredd disgyblion yn gynyddol gryf mewn llawer o ysgolion. Roedd hyn yn aml yn adlewyrchu newidiadau mewn addysgeg a oedd yn rhoi mwy o amser i ddisgyblion gydweithio a thrafod. Roedd athrawon yn cynnwys cyfleoedd cynlluniedig i ddisgyblion ymarfer eu medrau llefaredd i wneud iawn am effaith negyddol y pandemig. Nododd llawer o ysgolion cynradd strategaethau wedi'u seilio ar dystiolaeth i wella medrau darllen disgyblion. Yn yr achosion mwyaf llwyddiannus, cymhwyswyd yr ymagweddau hyn yn gyson a chawsant eu hategu gan ddysgu proffesiynol effeithiol i staff. Mae'r adroddiad thematig Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10-14 mlwydd oed mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn cynnwys cameos ac astudiaethau achos o arfer effeithiol. O ganlyniad, erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, roedd llawer o ddisgyblion yn darllen â rhuglder priodol ac roedd y mwyafrif ohonynt yn crynhoi ac yn gwerthuso testunau a oedd yn cynnig her addas. Mewn llawer o ysgolion, roedd gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o nodweddion gwahanol fathau o ysgrifennu ond yn yr un modd â'r llynedd, mewn gormod o ysgolion, nid oedd disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml ac roeddent yn gwneud gwallau sylfaenol o ran gramadeg ac atalnodi nad aethpwyd i'r afael â nhw'n ddigon da drwy adborth gan athrawon. Darllenwch sut y defnyddiodd Ysgol Gynradd Gymuned Cwm-bach ger Aberdâr ymagwedd ysgol gyfan at ddatblygu disgyblion i fod yn ysgrifenwyr effeithiol i wella medrau darllen disgyblion.

Roedd y cynnydd o ran datblygu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn peri pryder o hyd ac roedd effaith y pandemig wedi rhwystro hyn ymhellach. Ni welwyd llawer o welliant yn y maes hwn dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn wir, yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2012-2013 adroddodd y Prif Arolygydd ar y pryd, Ann Keane:

> **"Mae arolygwyr yn gwneud argymhellion i ddatblygu medrau Cymraeg ail iaith disgyblion mewn dros chwarter o ysgolion cyfrwng Saesneg. Bydd cynnydd disgyblion wrth ddysgu Cymraeg yn lleihau wrth iddynt fynd yn hŷn, ac er bod mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, mae eu cynnydd yn arafu mewn cyfnodau dilynol."**

Bu'r thema hon yn un gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac mae canfyddiadau arolygwyr yn 2022-2023 yn debyg iawn, gyda thua thraean o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn cael argymhelliad i wella medrau Cymraeg disgyblion. Fe gafodd bron i un o bob pump (18%) o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg argymhelliad tebyg. Yn rhy aml, nid oedd disgyblion yn adeiladu eu medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Roedd disgyblion hŷn yn parhau i ddefnyddio ymadroddion sylfaenol nad oeddent wedi datblygu'n sylweddol o'r rhai a ddysgwyd pan oeddynt yn iau. Yn aml, roedd hyn yn gysylltiedig â diffyg brwdfrydedd tuag at yr iaith a medrau gwael staff yr ysgol. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion lle'r oedd cynnydd yn fwy cadarn, roedd arweinwyr wedi sicrhau'n llwyddiannus fod y Gymraeg wedi'i hintegreiddio'n dda ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, ei bod wedi'i chynnwys mewn amrywiaeth o feysydd y cwricwlwm a bod gan staff y medrau, yr hyder a'r brwdfrydedd i addysgu a hyrwyddo'r iaith. Mae ein hadroddiad thematig ar Cefnogi'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon yn cynnwys adnoddau i helpu ysgolion ystyried eu darpariaeth.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd disgyblion yn ennill medrau a gwybodaeth gadarn mewn mathemateg. Roeddent yn datblygu dealltwriaeth dda o rif ac ystod o dechnegau i gwblhau cyfrifiadau. Yn yr achosion gorau, roedd disgyblion o bob oed yn dewis o ystod o ddulliau i ddatrys problemau mathemategol, gan ddewis yr un a oedd yn fwyaf priodol i'r cyd-destun ac esbonio eu hymagwedd.

Roedd gallu disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd a llythrennedd mewn meysydd dysgu eraill ar draws y cwricwlwm yn amrywio. Yn rhy aml, roedd athrawon yn cynllunio gweithgareddau annibynnol i ddisgyblion nad oeddent yn eu herio'n ddigon nac yn eu helpu i wneud cynnydd yn eu dysgu. O ganlyniad, yn enwedig o ran rhifedd, nid oedd disgyblion yn cymhwyso eu medrau mewn gwaith ar draws y cwricwlwm ar lefel ddigon uchel nac mewn cyd-destunau digon dilys. I'r gwrthwyneb, parhaodd llawer o ysgolion i wneud cynnydd da yn eu gallu i gymhwyso eu medrau digidol mewn amrywiaeth o feysydd dysgu. Yn aml, roedd athrawon yn dod o hyd i ffyrdd arloesol i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi dysgu disgyblion a sicrhau bod profiadau dysgu yn ddifyr ac yn hwyliog. Yn benodol, roedd defnyddio'r cyfryngau i gefnogi medrau llythrennedd disgyblion yn gryfder a oedd yn datblygu.

# Gofal, cymorth a lles



Parhaodd ymdeimlad disgyblion o les, eu hagweddau at ddysgu ac ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad y mae ysgolion yn eu darparu i fod yn gryfder mewn ysgolion cynradd. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd disgyblion yn mwynhau'r ysgol, roeddent yn frwdfrydig am eu dysgu ac yn ymddwyn yn dda. Wrth weithio tuag at roi Cwricwlwm i Gymru ar waith, ystyriodd llawer o ysgolion ffyrdd i wella medrau disgyblion fel dysgwyr, er enghraifft eu gallu i gydweithio, datrys problemau ac arwain eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, yn aml, roedd gweithgareddau annibynnol cynlluniedig o ansawdd gwael. O ganlyniad, cafodd tua thraean (29%) o'r ysgolion a arolygwyd argymhelliad yn ymwneud â gwella gallu disgyblion i weithio a meddwl yn annibynnol.

Roedd llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd mwyfwy ystyrlon i ddisgyblion gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol trwy grwpiau llais y disgybl. Mae arolygwyr wedi gweld amrywiaeth a ffocws y grwpiau hyn yn ehangu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i gwmpasu llawer o feysydd y tu hwnt i waith cyngor ysgol traddodiadol. Mae enghreifftiau yn cynnwys gwaith i gefnogi dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth a chydraddoldeb, gwaith i wella gwybodaeth disgyblion am eu hawliau fel plentyn, a gwaith ar y cyd gydag arweinwyr i gefnogi teuluoedd ag incwm isel. Yn yr achosion gorau, roedd arweinwyr yn cynnwys disgyblion yn bwrpasol wrthwerthuso ansawdd addysgu a dysgu, ac yn defnyddio eu hadborth yn ystyrlon i ystyried ansawdd eu darpariaeth a gwneud gwelliannau.

Wrth iddynt symud y tu hwnt i'r tarfu a achoswyd gan y pandemig, parhaodd ysgolion i roi pwyslais cryf ar gefnogi lles disgyblion a'u teuluoedd. Rhoddodd llawer ohonynt fesurau ychwanegol ar waith i fynd i'r afael â gorbryder a sicrhau bod gan ddisgyblion ffyrdd i rannu unrhyw bryderon neu ofidiau. Er enghraifft, mewn rhai ysgolion, fe wnaethant sicrhau bod oedolion penodol ar gael ar adegau ac mewn lleoliadau neilltuedig i siarad â disgyblion a oedd yn anhapus neu'n teimlo'n orbryderus. Crybwyllodd llawer o ysgolion fod mwy o ddisgyblion yn cael trafferth rheoli eu hemosiynau a bod angen rhoi darpariaeth i'w cefnogi, fel ardaloedd tawel dynodedig mewn dosbarthiadau lle gallai disgyblion gymryd amser iddyn nhw'u hunain nes iddynt deimlo'n barod i ddychwelyd at eu dysgu.

Aeth y rhan fwyaf o ysgolion i'r afael â diwygio ADY mewn modd cadarnhaol a gwnaethant gynnydd da tuag at roi gofynion y Ddeddf ADY ar waith. Yn gyffredinol, dangosodd cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADYau) arweinyddiaeth effeithiol o ran sicrhau y diweddarwyd systemau a phrosesau i fodloni anghenion y ddeddf, er enghraifft trwy sicrhau bod gan ddisgyblion a dargedwyd broffiliau un-dudalen yn amlinellu eu diddordebau a sut hoffent gael eu cynorthwyo. Roeddent yn cysylltu'n dda ag arweinwyr eraill ac asiantaethau allanol i sicrhau bod staff yn cael y dysgu proffesiynol roedd ei angen arnynt i gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol.

O ganlyniad i'r pandemig, adolygodd a mireiniodd llawer o ysgolion eu hymagwedd at fonitro ac annog presenoldeb. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gorau llawer o ysgolion, parhaodd cyfraddau presenoldeb islaw'r lefelau cyn y pandemig ac roedd presenoldeb disgyblion o gyd-destunau dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn peri pryder penodol (Llywodraeth Cymru, 2023).

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant fel rhan o'u cymuned leol a Chymru. Yn yr achosion gorau, roeddent yn meithrin cysylltiadau â grwpiau cymunedol lleol ac yn ymweld â'r ardal leol yn rheolaidd i sicrhau bod dysgu disgyblion yn fwy dilys, er enghraifft trwy weithio â siop goffi leol i ddylunio brand ac archwilio materion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Fodd bynnag, nid oedd ysgolion yn rhoi cyfleoedd digonol i ddisgyblion ddysgu am natur amrywiol eu cymunedau, Cymru a'r byd ehangach bob tro. Datblygodd Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî yng Nghasnewydd ymagwedd ysgol gyfan effeithiol i fynd i'r afael â hiliaeth, sy'n ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynefin.

## Arwain a gwella



Mewn llawer o ysgolion, roedd arweinyddiaeth yn gryf. Gweithiodd arweinwyr â llywodraethwyr i sefydlu systemau a phrosesau clir lle'r oedd yr holl aelodau staff yn sicr ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Modelodd arweinwyr werthoedd proffesiynol cryf, gan gynnwys y gallu i fyfyrio'n onest ar eu perfformiad eu hunain a pherfformiad yr ysgol, ac anogodd hyn ethos o hunanfyfyrio ymhlith y staff. Rhoesant bwyslais sylweddol ar gefnogi lles staff. Mewn ychydig o ysgolion, ffurfioliwyd y gefnogaeth hon trwy fesurau penodol i gefnogi lles staff, fel gallu manteisio ar wasanaethau cwnsela. Roedd hyn yn aml yn arwain at staff â lefelau uchel o hyder mewn arweinwyr a rhannu eu gweledigaeth ar gyfer gwella.

Mewn ychydig o ysgolion lle'r oedd arweinyddiaeth ar ei chryfaf, roedd gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer eu hysgol wedi'i seilio'n agos ar ei chyd-destun ac anghenion ei disgyblion a'u teuluoedd. Oherwydd eu bod yn glir ynghylch yr hyn oedd orau i'w hysgol, roeddent yn gwneud dewisiadau gofalus ynghylch y polisïau a'r gweithdrefnau roeddent yn eu mabwysiadu, gan gydnabod efallai nad arfer effeithiol mewn ysgol arall fyddai'r ymagwedd orau ar gyfer eu hysgol eu hunain. I'r gwrthwyneb, yn yr ychydig o ysgolion lle'r oedd arweinyddiaeth yn wan, roedd hyn yn aml oherwydd diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, gormod o ffocws ar faterion rheoli yn hytrach na datblygiad strategol hirdymor yr ysgol a pherthynas wael rhwng arweinwyr a staff.

Roedd gan arweinwyr a gyflwynodd mesurau'n llwyddiannus i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad, weledigaeth strategol glir a oedd yn cwmpasu hyn fel nodwedd allweddol. Roeddent yn defnyddio eu gwybodaeth am eu cymuned yn dda i dargedu cyllid grant yn effeithiol, er enghraifft trwy gyflogi swyddog ymgysylltu â theuluoedd i gefnogi a chysylltu â theuluoedd targedig. Mewn llawer o ysgolion, ystyriodd arweinwyr gost y diwrnod ysgol yn ofalus a'r effaith y gallai hyn ei chael ar deuluoedd. Roeddent yn lliniaru unrhyw effaith trwy fesurau fel sicrhau bod ymweliadau addysgol yn fforddiadwy i bawb a lleihau cost gwisg ysgol trwy gael gwared ar y gofyniad i ddisgyblion wisgo dillad â logo'r ysgol arnynt. Mabwysiadodd Ysgol Gynradd Llwydcoed, ger Aberdâr, ymagwedd 'cost y diwrnod ysgol' werthfawr, trwy gydweithio â'r gymuned ysgol gyfan i nodi a lleihau'r rhwystrau ariannol y mae disgyblion o deuluoedd ag incwm isel yn eu hwynebu.

Roedd dysgu proffesiynol mewn ysgolion effeithiol wedi'i dargedu'n dda i gefnogi amcanion gwella'r ysgol gyda ffocws clir ar eu heffaith ar ddeilliannau i ddisgyblion. Roedd llawer o ysgolion yn cydweithio'n dda ag ysgolion eraill yn eu clwstwr lleol a'r tu hwnt i rannu arfer effeithiol mewn addysgu a dysgu a mynd i'r afael â gofynion y cwricwlwm a diwygio ADY. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid

oedd arweinwyr yn sicrhau bod dysgu proffesiynol i ddatblygu medrau Cymraeg staff yn arwain at effaith gadarnhaol ar safonau a chynnydd disgyblion.

Mewn llawer o achosion, yn enwedig lle'r oeddent wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith, cryfhaodd ysgolion eu perthnasoedd â rhieni a'r gymuned ehangach. Mewn mwyafrif o ysgolion, roedd rhieni'n teimlo bod yr ysgol yn cyfathrebu'n glir â nhw. Lle nad oedd hyn yn wir, roedd yn aml oherwydd bod yr ysgol yn defnyddio gormod o ddulliau cyfathrebu ac nad oedd rhieni'n glir ynghylch pa un y dylent ei ddefnyddio.

Dechreuodd y rhan fwyaf o ysgolion ddychwelyd i amserlen lawn o fonitro, gwerthuso ac adolygu wrth iddynt ddod allan o'r pandemig. Er gwaethaf cyfyngiadau a heriau COVID-19 yn ystod y blynyddoedd blaenorol, llwyddodd ychydig o ysgolion i barhau â llawer o agweddau ar hunanwerthuso a dychwelyd i'w trefn arferol yn gyflym yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd angen gwella prosesau hunanwerthuso a gwella mewn tua thraean o ysgolion. Yn aml, roedd hyn oherwydd nad oeddent yn drylwyr ac nad oeddent yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddeilliannau i ddisgyblion nac yn nodi meysydd allweddol i'w gwella o ran ansawdd yr addysgu, yn enwedig yn nosbarthiadau y disgyblion ieuengaf.

Mewn llawer o achosion, ar ôl y pandemig, nid oedd llywodraethwyr wedi dychwelyd i'w trefn arferol o gasglu tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd gwaith yr ysgol. Rhwystrodd hyn eu gallu i herio a chefnogi'r ysgol, gan eu bod yn dibynnu'n ormodol ar y wybodaeth a roddwyd iddynt gan uwch arweinwyr ac nid oedd ganddynt ddigon o wybodaeth uniongyrchol i ofyn cwestiynau heriol i arweinwyr.

# Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2023) Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir : 5 September 2022 to 24 July 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/presenoldeb-disgyblion-mewn-ysgolion-gynhelir-5-medi-2022-i-24-gorffennaf-2023 [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Adroddiad sector

# Uwchradd

2022-2023



## Darparwyr

**178**
Nifer o ddarparwyr 2023

**41**
Nifer o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg 2023

**121**
Nifer o ddarparwyr sydd â chweched dosbarth

## Disgyblion

**174,948**
Cyfanswm disgyblion

**175,957**
Cyfanswm disgyblion 2021-22

**174,133**
Cyfanswm disgyblion 2020-21

**155,676**
Nifer o ddisgyblion oed uwchradd (addysg orfodol)

**19,272**
Nifer o ddisgylblion chweched dosbarth

**21%**
Canran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

**4%**
Canran gyda Saesneg fel iaith ychwanegol (A,B,C)

**16%**
Canran o ddisgyblion sy'n gallu siarad Cymraeg

**15%**
Canran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

## Arolygiadau craidd

Nifer o arolygiadau craidd: **28**
Cyfrwng Cymraeg: **7**
Cyfrwng Saesneg: **21**
Ymweliadau ymgysylltu: **5**

## Astudiaethau achos

Nifer o astudiaethau achos: **11**

## Gweithgarwch dilynol

Nifer o fewn y categori dilynol Medi 2022
MA: **8** GS: **3** AE: **3**

Nifer a dynnwyd allan 2022-23
MA: **5** GS: **0** AE: **3**

Nifer a roddwyd mewn categori dilynol yn 2022-2023
MA: **1** GS: **4** AE: **6**

Cyfanswm o fewn categori dilynol Awst 2023
MA: **6** GS: **5** AE: **6**

Yn ystod 2022-2023, fe barhaodd arweinwyr a staff mewn ysgolion uwchradd i ymateb yn dda i'r heriau parhaus y mae ysgolion a disgyblion yn eu hwynebu. Roeddent wedi rhoi blaenoriaeth i lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ac wedi canolbwyntio ar wella cyfraddau presenoldeb. Er gwaethaf y ffocws hwn o'r newydd mewn llawer o ysgolion, roedd cyfraddau presenoldeb ar draws y sector yn araf i ddychwelyd i'r un lefelau a cyn y pandemig. Roedd y mwyafrif o ysgolion wedi datblygu gweledigaeth addas ar gyfer Cwricwlwm i Gymru sy'n cael ei deall yn dda. Fodd bynnag, roedd parodrwydd ysgolion i gyflwyno eu cwricwlwm yn rhy amrywiol. Lle'r oedd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llai llwyddiannus, roedd hyn yn aml oherwydd nad oedd datblygiad wedi'i gefnogi'n ddigon da gan ffocws digon cryf ar sicrhau addysgu effeithiol. Fe roedd cryfderau amlwg mewn arweinyddiaeth ar draws y sector ond roedd hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn wendid parhaol o hyd. Ym mwyafrif yr achosion, nid oedd arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith darpariaeth ar ddeilliannau disgyblion. Yn benodol, wrth werthuso addysgu, ni wnaethant ystyried ei effaith ar gynnydd disgyblion yn ddigon gofalus. Yn aml, roedd hyn yn rhoi darlun rhy hael iddynt o effeithiolrwydd eu hysgol ac yn rhwystro eu gallu i gynllunio ar gyfer gwelliannau penodol.

## Addysgu a dysgu

Yn dilyn llacio'r cyfyngiadau COVID-19, fe weithiodd ysgolion yn galed i ailsefydlu arferion bywyd ysgol er mwyn i ddisgyblion allu ymgysylltu â'u dysgu a datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau. Fe fu hyn yn gymorth i'r mwyafrif o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu gwersi a thros gyfnod. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif ohonynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent yn gyson. Roedd hyn yn rhannol oherwydd effeithiau hirdymor y pandemig ond, yn aml, roedd hefyd o ganlyniad i ddiffygion mewn addysgu a disgwyliadau isel.

Gwnaeth fwyafrif y disgyblion ag ADY gynnydd cadarn yn erbyn eu targedau unigol. Dechreuodd llawer o ysgolion ddatblygu ystod o strategaethau addas i gefnogi cyflawniad disgyblion o aelwydydd ag incwm isel. Fodd bynnag, yn gyffredinol, cafodd yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig effaith anghymesur ar y grŵp hwn o ddisgyblion ac roedd y bwlch rhwng lefel eu cynnydd a chynnydd eu cyfoedion yn parhau i beri pryder.

Lle y gwnaeth ddisgyblion gynnydd boddhaol o leiaf, roedd hyn yn gyffredinol oherwydd bod gan athrawon ddisgwyliadau uchel priodol. Roedd yr athrawon hyn yn cynllunio cyfresi o weithgareddau'n ystyrlon, a oedd yn adeiladu'n dda ar ei gilydd ac yn herio disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth ar gyflymdra priodol. Roeddent yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn rhoi adborth defnyddiol iddynt er mwyn sicrhau yr aethpwyd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau'n gyflym. Mewn lleiafrif o achosion, roedd athrawon yn cynllunio ar gyfer yr hyn roeddent am i ddisgyblion ei wneud yn hytrach na'r hyn roeddent am iddynt ei ddysgu. Yn aml, roedd hyn yn arwain at ddisgyblion yn cyflawni tasgau di-her nad oeddent yn eu helpu i wneud cynnydd. Yn y gwersi hyn, nid oedd athrawon yn datblygu gwydnwch ac annibyniaeth disgyblion yn ddigon da ac roeddent yn rhy fodlon derbyn diffyg ymgysylltiad disgyblion.

Mewn llawer o wersi, roedd disgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon a'u cyfoedion ac yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau trafod. Yn ddefnyddiol, rhoddodd llawer o ysgolion bwyslais penodol ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion, gan fod hon yn agwedd a gafodd ei heffeithio'n arbennig gan golli dysgu wyneb-yn-wyneb yn ystod y cyfnodau clo. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o ddisgyblion yn brin o hyder o hyd wrth fynegi eu hunain, gan roi ymatebion cryno nad oeddent wedi'u datblygu'n ddigonol i gwestiynau. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn ysgolion lle nad oedd athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau holi yn gyson dda.



Roedd llawer o ddisgyblion yn dangos medrau darllen sylfaenol cadarn ac roedd ychydig ohonynt yn defnyddio technegau mwy datblygedig yn hyderus, fel cyfosod. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr ysgolion, nid oedd disgyblion yn cael cyfleoedd digon ystyrlon i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Roedd mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu â chywirdeb ac eglurder addas ar gyfer ystod briodol o ddibenion a chynulleidfaoedd, ac roedd ychydig ohonynt yn llunio darnau ysgrifennu estynedig dychmygus a soffistigedig. Ym mwyafrif yr ysgolion, roedd darpariaeth addas yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oedd cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn gynyddol wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd mewn lleiafrif o ysgolion. Cafodd y cyfnodau clo yn ystod y pandemig effaith nodedig ar ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion, ac roedd hyn yn broblem i leiafrif o ddisgyblion o hyd.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, roedd disgyblion yn dangos geirfa eang ac yn gallu trafod ystod o bynciau â rhuglder addas. Roedd y mwyafrif ohonynt yn gallu llunio darnau o waith wedi'u hysgrifennu'n dda a oedd yn mynegi eu syniadau'n glir. Fodd bynnag, roedd gan leiafrif o ddisgyblion eirfa gyfyngedig ac yn ei chael hi'n anodd mynegi eu hunain yn glir yn Gymraeg, gan ddefnyddio geiriau neu ymadroddion Saesneg yng nghanol brawddegau. Roedd llawer o'r ysgolion hyn yn parhau i roi blaenoriaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg a hyrwyddo Cymreictod bob dydd. Roedd y rhain yn gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol trwy weithgareddau allgyrsiol.

Roedd mwyafrif y disgyblion yn dangos medrau rhif sylfaenol cadarn ac yn eu defnyddio'n briodol ar draws y cwricwlwm i gyflawni ystod o gyfrifiadau. Roedd y disgyblion hyn yn mesur yn gywir ac yn defnyddio eu medrau trin data yn addas, yn enwedig wrth ddewis a llunio graffiau priodol. Roedd tua hanner y disgyblion yn dehongli eu graffiau'n addas ac yn defnyddio'r rhain i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r pwnc mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Mewn lleiafrif o ysgolion, roedd disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda trwy ystod fuddiol o gyfleoedd heriol, dilys. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid oedd tasgau yn gysylltiedig â rhifedd yn ddigon perthnasol neu heriol ac roedd disgyblion yn ymarfer yr hyn roeddent yn gallu ei wneud eisoes yn unig. Yn aml, roedd hyn oherwydd nad oedd ymagweddau ysgol gyfan at ddatblygu medrau rhifedd wedi'u cydlynu'n ddigon da. Mewn ychydig o ysgolion, roedd disgyblion yn mwynhau ystod o gyfleoedd defnyddiol i wella eu medrau digidol. Darllenwch sut y gwnaeth Ysgol Gyfun Coed Duon ddatblygu a gwella sgiliau cymhwysedd digidol dysgwyr. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr ysgolion, nid oedd disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn ddigon da oherwydd diffyg cyfleoedd ystyrlon neu heriol addas. Yn rhy aml, nid oedd disgyblion yn adeiladu ar y medrau digidol y gwnaethant eu dysgu yn yr ysgol gynradd.

Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd gan leiafrif o ddisgyblion afael addas ar Gymraeg sylfaenol ond nid oedd y mwyafrif ohonynt yn gwneud cynnydd digonol o ran datblygu eu medrau, yn enwedig eu gallu i siarad Cymraeg. Yn aml, roedd hyn oherwydd bod y gwaith roeddent yn ei gyflawni yn llai beichus na'r hyn y cawsant brofiad ohono ym Mlynyddoedd 5 a 6. Ym mwyafrif yr achosion, nid oedd hyder disgyblion yn y Gymraeg yn cael ei gefnogi'n ddigon da gan gyfleoedd i ymarfer defnyddio'r iaith y tu allan i wersi Cymraeg. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oedd disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Datblygodd mwyafrif yr ysgolion weledigaeth addas ar gyfer Cwricwlwm i Gymru a oedd yn cael ei deall yn dda. Fodd bynnag, roedd parodrwydd ysgolion i gyflwyno eu cwricwlwm yn rhy amrywiol. Yn yr enghreifftiau gorau, treialodd ysgolion amrywiaeth o ymagweddau, wedi'u dilyn gan werthuso a mireinio trylwyr. Mae'r astudiaeth achos hon gan Ysgol Gyfun Lewis i Ferched yn rhoi enghraifft o ddefnyddio'r cwricwlwm i wella profiadau dysgu disgyblion ac ehangu eu gorwelion. Mae Ysgol Gyfun Llangefni wedi datblygu cwricwlwm awyr agored i gynorthwyo i ddatblygu gwybodaeth, medrau a lles disgyblion. Cydweithiodd lleiafrif o ysgolion uwchradd â'u hysgolion cynradd lleol i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o ddysgu a dilyniant. Yn gyffredinol, dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu roedd y gwaith hwn ac nid oedd yn sicrhau cynnydd gwell i bob disgybl yn gyson. Lle'r oedd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llai llwyddiannus, roedd hyn oherwydd nad oedd datblygu wedi'i gefnogi'n ddigon da gan ffocws digon cryf ar sicrhau addysgu effeithiol. Mewn ychydig o achosion, roedd cynllunio ysgolion ar gyfer y cwricwlwm wedi'i rwystro gan gamddehongli rhai egwyddorion allweddol, er enghraifft trwy geisio cynllunio ar gyfer y pedwar diben a'u gwerthuso mewn gwersi unigol.

Darparodd y rhan fwyaf o ysgolion ystod addas o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol ar gyfer disgyblion hŷn. Mewn ychydig o achosion, roedd ymestyn cwricwlwm Cyfnod Allweddol 4 i dair blynedd yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion astudio rhai pynciau y tu hwnt i Flwyddyn 8 ac yn lleihau ehangder y cwricwlwm. Roedd llawer o ysgolion yn cynnig darpariaeth i ddisgyblion a oedd mewn perygl o ymddieithrio. Er enghraifft, darllenwch sut y mae Ysgol Uwchradd Y Rhyl wedi defnyddio cynigion cwricwlwm unigoledig a theilwredig i ddileu rhwystrau rhag dysgu. Yn gyffredinol, roedd ysgolion yn darparu rhaglen briodol o addysg bersonol a chymdeithasol i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3. Fodd bynnag, roedd darpariaeth ar gyfer disgyblion hŷn yn fwy amrywiol o lawer.

# Gofal, cymorth a lles



Roedd llawer o ddisgyblion yn croesawu dychwelyd i addysg arferol ar ôl cyfyngiadau'r cyfnod clo a gwnaethant ymgartrefu'n ôl yn yr ysgol yn llwyddiannus gyda chymorth gan eu hathrawon a'r staff cymorth. Roedd gan ysgolion ffocws cryf ar fonitro a chefnogi lles disgyblion o hyd, yn enwedig y rhai mwyaf bregus. Fodd bynnag, parhaodd ychydig o ddisgyblion i gael trafferth ail-addasu i fywyd ysgol ac roedd effeithiau'r pandemig i'w gweld o hyd ar ymgysylltiad y disgyblion hyn â'u dysgu.

Darparodd llawer o ysgolion gymorth bugeiliol a gofal cryf a bodloni anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda. Yn aml, cefnogwyd y gwaith hwn yn effeithiol gan ystod o bartneriaethau allanol. O ganlyniad, roedd llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd rhag bwlio ac aflonyddu. Roeddent yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt broblem ac yn teimlo'n hyderus y gellid mynd i'r afael ag unrhyw faterion. Yn gyffredinol, datblygodd disgyblion ymwybyddiaeth addas o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i drin pobl eraill â goddefgarwch a pharch. Fodd bynnag, roedd ychydig o ddisgyblion yn teimlo na aethpwyd i'r afael ag achosion o fwlio neu aflonyddu yn ymwneud â rhywioldeb, hil neu rywedd yn ddigon cyson.


Roedd llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Roeddent yn cymryd rhan mewn gwersi â pharodrwydd, yn dangos annibyniaeth a gwydnwch wrth wynebu tasgau heriol ac yn cydweithio'n llwyddiannus mewn gweithgareddau grŵp neu bâr. Weithiau, roedd lleiafrif o ddisgyblion yn fodlon parhau'n oddefol yn eu gwersi, yn enwedig lle'r oedd yr addysgu'n brin o her. Roedd gan lawer o ysgolion drefniadau priodol i fonitro a chefnogi ymddygiad disgyblion. Lle na chymhwyswyd yr ymagweddau hyn yn gyson, roedd ymddygiad ychydig o ddisgyblion yn amharu ar eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill.

Yn ystod y pandemig, gweithiodd ysgolion yn galed i ddatblygu eu systemau ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion. Yn gyffredinol, gwnaethant barhau i ddatblygu'r ymagweddau hyn, gan ddefnyddio ystod o strategaethau i hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da a mynd i'r afael ag absenoldebau cyson. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid oedd y strategaethau hyn yn ddigon strategol nac effeithiol. At ei gilydd, er gwaethaf ymdrechion gorau llawer o ysgolion, roedd cyfraddau presenoldeb, yn enwedig ymhlith y disgyblion hynny ag ADY neu o aelwydydd ag incwm isel, yn peri pryder sylweddol o hyd (Llywodraeth Cymru, 2023) ac yn cael effaith negyddol ar gynnydd lleiafrif o ddisgyblion.

Mewn llawer o ysgolion, roedd disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddylanwadu ar fywyd yr ysgol a datblygu eu medrau arweinyddiaeth trwy'r cyngor ysgol a grwpiau eraill. Mewn lleiafrif o achosion, roedd cyfleoedd arweinyddiaeth i ddisgyblion yn rhy gyfyngedig ac ni wnaethpwyd disgyblion eraill yn ddigon ymwybodol o waith y cyngor ysgol. O ganlyniad, nid oedd disgyblion yn yr ysgolion hyn yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt bob tro.

Mewn llawer o ysgolion, fe ganfu arolygwyr fod y cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a ddarperir gan y tîm ADY yn gryfder. Yn yr achosion hyn, roedd staff ADY yn cynllunio cymorth i'r disgyblion hyn yn ofalus trwy ymyriadau a chymorth targedig mewn gwersi prif ffrwd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid oedd athrawon yn defnyddio'r arweiniad a ddarparwyd gan y tîm ADY yn ddigon da i fodloni anghenion y disgyblion hyn. Gwnaeth llawer o ysgolion gynnydd da wrth iddynt baratoi ar gyfer gofynion diwygio ADY. Er enghraifft, fe lwyddodd Ysgol Gyfun Llangefni i sicrhau fod ADY yn gyfrifoldeb ar bawb fel rhan o'i darpariaeth i ddisgyblion ag ADY. Lle'r oedd gan ysgolion ganolfan adnoddau arbenigol, roeddent yn amgylcheddau diogel a chefnogol a oedd yn helpu disgyblion i integreiddio mewn darpariaeth brif ffrwd yn llwyddiannus. Darllenwch sut mae Ysgol Gyfun Trefynwy wedi datblygu ymagwedd integredig at ddarpariaeth arbenigol.

Ym mron pob ysgol, roedd trefniadau addas ar gyfer hyfforddiant yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant ac roedd staff yn deall eu rôl o ran cadw plant yn ddiogel. Roedd llawer o ysgolion wedi datblygu diwylliant cryf o ddiogelu lle roedd staff yn cadw ffocws cyson ar gadw disgyblion yn hapus ac yn ddiogel trwy bob agwedd o'u gwaith. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, nid oedd prosesau ar gyfer cofnodi digwyddiadau diogelu yn ddigon cadarn. Yn ogystal, mewn tuag un o bob tri arolygiad craidd, nododd arolygwyr fater iechyd a diogelwch yr oedd angen mynd i'r afael ag ef.



# Arwain a gwella

Roedd gan lawer o benaethiaid weledigaeth glir ar gyfer eu hysgol a oedd yn cael ei chyfleu'n glir a'i deall yn dda gan yr holl staff. Yn yr ysgolion hyn, roedd rolau arweinyddiaeth yn deg ac wedi'u diffinio'n glir, ac roedd trefniadau rheolaeth linell yn briodol o gadarn. Lle nad oedd hyn yn wir, roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr gyflawni eu rolau'n effeithiol neu gael eu dwyn i gyfrif yn llawn am sicrhau gwelliant.

Roedd cyfyngiadau yn ystod y pandemig yn golygu, ym mron pob ysgol, bod gweithgareddau hunanwerthuso, fel arsylwi gwersi, wedi'u cwtogi'n sylweddol. Pan roeddent yn gallu ailgydio yn yr agwedd hon ar eu gwaith, cynhaliodd llawer o ysgolion ystod o weithgareddau gwerthuso priodol. Mewn lleiafrif o ysgolion, defnyddiwyd y dystiolaeth uniongyrchol yn addas i nodi meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr achosion, nid oedd arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon gofalus ar effaith darpariaeth ar ddeilliannau disgyblion. Yn benodol, wrth werthuso addysgu, nid oeddent yn ystyried ei effaith ar gynnydd disgyblion yn ddigon gofalus. Yn aml, roedd hyn yn rhoi darlun rhy hael iddynt o effeithiolrwydd eu hysgol ac yn rhwystro eu gallu i gynllunio ar gyfer gwelliannau penodol. O ganlyniad, roedd angen cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella ym mwyafrif yr ysgolion. Mewn ychydig o ysgolion hynod effeithiol yn unig, roedd arweinwyr yn cyfosod ystod o dystiolaeth hunanwerthuso gywir, fanwl yn gyson i gynllunio ar gyfer gwelliannau a'u sicrhau. Darllenwch am waith Ysgol Gyfun Coed Duon i ddatblygu diwylliant effeithiol o hunanwerthuso a dysgu proffesiynol parhaus.

Mewn llawer o ysgolion, datblygodd arweinwyr ffocws cryf ar leihau effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion. Roeddent yn defnyddio cyllid grant, fel y grant datblygu disgyblion, yn briodol i wella profiadau a deilliannau disgyblion sy'n cael profiad o dlodi, er enghraifft trwy ddarparu cyllid ar gyfer teithiau neu wersi cerddorol. Mewn ychydig o ysgolion, sefydlodd arweinwyr ymagwedd ysgol gyfan gydlynus at liniaru effeithiau tlodi a chawsant effaith nodedig ar ddyheadau, ymgysylltiad a chyflawniad y disgyblion hyn.

Roedd arweinwyr mewn llawer o ysgolion yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ddysgu proffesiynol. Er enghraifft, gweler sut defnyddiodd Ysgol Gyfun Lewis i Ferched dysgu proffesiynol i effeithio ar addysgu a dysgu, datblygu'r cwricwlwm, ac arweinyddiaeth. Roeddent yn sicrhau bod staff yn cael ystod o gyfleoedd i rannu arfer dda oddi mewn ac ar draws adrannau ac, yn yr enghreifftiau gorau, gydag ysgolion eraill. Mewn ychydig o achosion, helpodd cysylltiadau cryf, wedi'u cynllunio'n dda, rhwng tystiolaeth hunanwerthuso, trefniadau rheoli perfformiad a gweithgareddau dysgu proffesiynol i ysgolion sicrhau gwelliannau o ran ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid oedd arweinwyr yn cynllunio ar gyfer dysgu proffesiynol nac yn ei werthuso'n ddigon da.

Yn gyffredinol, roedd llywodraethwyr yn gefnogwyr tra ymrwymedig o'u hysgolion. Roeddent yn monitro cyllid yr ysgol yn ofalus ac, mewn llawer o achosion, yn herio uwch arweinwyr yn briodol. Mewn ychydig o achosion, ni roddwyd digon o wybodaeth i lywodraethwyr i allu herio arweinwyr ysgolion neu chwarae rôl lawn mewn gosod cyfeiriad strategol yr ysgol.

### Gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella cadarn, Ysgol Coedcae

Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu penodol ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb, a gasglwyd o ystod o weithgareddau hunanwerthuso cadarn sy'n canolbwyntio'n graff ar gynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn eu helpu i gynllunio ar gyfer gwella yn fanwl, nodi anghenion datblygiadol mewn modd amserol ac addasu darpariaeth yn unol â hynny. Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio amrywiaeth helaeth o ddata'n dda. Mae hyn yn eu helpu i fonitro cynnydd disgyblion yn ofalus a rhoi llawer o ymyrraethau amserol a hynod fuddiol ar waith. Yn ogystal, caiff safbwyntiau disgyblion a chysylltiadau sefydledig â rhieni a'r gymuned ehangach eu defnyddio'n dda i werthuso a chryfhau gwaith yr ysgol.

# Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2023) Absenoldeb o ysgolion Uwchradd: Medi 2022 i Awst 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/10/4/1697706994/absenoldeb-o-ysgolion-uwchradd-medi-2022-i-awst-2023-diwygiedig.pdf [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Adroddiad sector

# Pob oed

2022-2023



## Disgyblion

**26,168**
Cyfanswm disgyblion

**22,516**
Cyfanswm disgyblion 2021-22

**22,308**
Cyfanswm disgyblion 2020-21

**5,836**
Nifer o ddisgyblion oed cynradd

**16,726**
Nifer o ddisgyblion oed uwchradd (addysg orfodol)

**1,734**
Nifer o ddisgylblion chweched dosbarth

**20%**
Canran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

**2%**
Canran gyda Saesneg fel iaith ychwanegol (A,B,C)

**34%**
Canran o ddisgyblion sy'n gallu siarad Cymraeg

**11%**
Canran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

## Darparwyr

**27**
Nifer o ddarparwyr

**15**
Nifer o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg 2023

**15**
Nifer o ddarparwyr sydd â chweched dosbarth

## Arolygiadau craidd

Nifer o arolygiadau craidd: **6**
Cyfrwng Cymraeg: **2**
Cyfrwng Saesneg: **4**

## Astudiaethau achos

Nifer o astudiaethau achos: **3**

## Gweithgarwch dilynol

Nifer o fewn y categori dilynol Medi 2022
MA: **1** GS: **0** AE: **0**

Nifer a dynnwyd allan 2022-23
MA: **0** GS: **0** AE: **0**

Nifer a roddwyd mewn categori dilynol yn 2022-2023
MA: **0** GS: **0** AE: **1**

Cyfanswm o fewn categori dilynol Awst 2023
MA: **1** GS: **0** AE: **1**

Yn ystod 2022-2023, gweithiodd ysgolion pob oed yn galed i gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llefaredd ac ailsefydlu arferion yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys gwaith mewn parau a grwpiau. Yn yr achosion cryfaf, sicrhaodd cynllunio gofalus arweinwyr i ddatblygu medrau disgyblion ar draws yr ystod oed gyfan bod disgyblion, wrth symud trwy'r ysgol, yn adeiladu'n effeithiol ar beth roeddent wedi'i ddysgu pan roeddent yn iau. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ysgolion ar draws y sector, nid oedd cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion wedi'i gydlynu'n ddigon da bob tro. Er gwaethaf perthnasoedd gwaith cryf rhwng staff a disgyblion ar draws y sector, mewn tua hanner yr ysgolion a arolygwyd, roedd ansawdd yr addysgu'n anghyson o hyd, yn bennaf oherwydd y diffyg her a'r disgwyliadau isel o ran yr hyn y gallai disgyblion ei gyflawni. Roedd llawer o ysgolion wedi goresgyn y rhwystrau cychwynnol a oedd ynghlwm â sefydlu ysgol newydd ac roedd morâl staff wedi gwella. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr achosion, nid oedd arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith darpariaeth ar ddysgu disgyblion. Er enghraifft, wrth werthuso ansawdd yr addysgu, nid oeddent yn ystyried ei effaith ar gynnydd disgyblion yn ddigon manwl.

## Addysgu a dysgu



Yn yr ysgolion a arolygwyd, roedd medrau iaith a chymdeithasol disgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol yn gyffredinol is na'r rhai a ddisgwyliwyd ar gyfer eu hoed. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran llafaredd, y cafodd y cyfnodau clo a'r diffyg cysylltiad cymdeithasol yn ystod pandemig COVID-19 effaith niweidiol arno. Gweithiodd ysgolion yn galed i gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafaredd ac ailsefydlu arferion yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys gwaith mewn parau a grwpiau. Ar draws yr ysgolion, gwnaeth mwyafrif y disgyblion gynnydd addas, o leiaf, dros gyfnod a gwnaeth ychydig ohonynt gynnydd cryf. Yn gyffredinol, gwnaeth disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gynnydd priodol o'u mannau cychwyn.

Wedi iddynt ddechrau yn yr ysgol, datblygodd medrau cyfathrebu disgyblion yn dda. Erbyn Blwyddyn 6, roedd llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus ac yn rhugl o ystod addas o destunau, gan ddefnyddio goslef yn dda. Roedd disgyblion o oed uwchradd, i raddau amrywiol, yn dadansoddi testunau ac yn defnyddio rhesymiad a dod i gasgliad, yn ogystal â nodi safbwyntiau gwahanol. Fodd bynnag, nid oedd uwch fedrau darllen disgyblion wedi'u datblygu cystal. Yn aml, roedd hyn yn gysylltiedig â diffyg cyfleoedd pwrpasol i ddarllen mewn gwersi, heblaw gwersi iaith. Roedd hyn yn debyg wrth ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Pan roddwyd y cyfle iddynt, roedd disgyblion yn ysgrifennu ag ymdeimlad clir o ddiben a chynulleidfa, tra'r oedd y disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n fwyfwy soffistigedig i ennyn diddordeb y darllenydd. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, datblygodd disgyblion eu medrau cyfathrebu yr un mor dda yn Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, nid oedd disgyblion yn cael digon o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Roedd hyn yn aml oherwydd nad oedd arweinwyr yn rhoi digon o bwyslais ar ddatblygu Cymraeg disgyblion ac ddim yn cynnwys cyfeiriadau at y Gymraeg yn eu cynlluniau gwella.

At ei gilydd, roedd medrau rhifedd sylfaenol disgyblion yn gadarn. Mewn pedair o'r chwe ysgol a arolygwyd, cafodd disgyblion gyfleoedd addas i ddatblygu eu medrau mewn pynciau perthnasol y tu allan i fathemateg. Yn yr achosion gorau, roedd athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau bob dydd. Mewn hanner yr ysgolion, roedd athrawon yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Lle'r oedd hyn yn wir, o oed cynnar, roedd disgyblion yn ymgysylltu â dyfeisiau digidol ac yn meithrin y medrau sydd eu hangen i gynhyrchu, golygu a datblygu eu gwaith. Wrth iddynt gyrraedd oedran uwchradd, roedd disgyblion yn elwa lle'r oedd cynllunio ysgolion ar gyfer dilyniant mewn medrau digidol yn gadarn. O ganlyniad, roedd disgyblion yn yr ysgolion hyn yn gallu dangos medrau mwy datblygedig, fel rhaglennu, trin data a chreu delweddau a fideos.

Yn yr achosion cryfaf, sicrhaodd cynllunio gofalus arweinwyr i ddatblygu medrau disgyblion ar draws yr ystod oed gyfan, fod disgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar yr hyn y gwnaethant ei ddysgu pan roeddent yn iau wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Arweiniodd hyn at ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Darllenwch sut mae Ysgol Caer Elen yn defnyddio cynllunio cydlynus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ysgolion ar draws y sector, nid oedd cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion wedi'i gydlynu'n ddigon da bob tro.

Roedd athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf â disgyblion ac yn sicrhau rhediad priodol i'r dysgu a oedd yn bodloni anghenion unigolion. Fodd bynnag, yn hanner yr ysgolion a arolygwyd, roedd ansawdd yr addysgu yn anghyson, yn bennaf oherwydd diffyg her a disgwyliadau isel o ran yr hyn y gallai disgyblion ei gyflawni. Roedd ansawdd adborth ac asesu athrawon yn amrywio gormod hefyd ac nid oeddent yn helpu disgyblion i wella eu gwaith bob tro. Mae hyn wedi arwain at argymhelliad i wella agweddau ar addysgu ar gyfer yr ysgolion hyn.

Ers y pandemig, parhaodd ysgolion â'u datblygiadau i roi Cwricwlwm i Gymru ar waith. Sefydlodd arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm a chanolbwyntio'n glir ar ddatblygu medrau a gwella addysgu. Roeddent yn annog athrawon i dreialu agweddau newydd ar addysgu a, thrwy werthuso systematig a chywir, fe addaswyd eu darpariaeth. Roedd llawer o ysgolion yn defnyddio eu hardaloedd awyr agored a'u cymunedau lleol yn dda i wella profiadau disgyblion. Mae'r astudiaeth achos a ddarparwyd gan Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Penrhyn Dewi yn amlygu sut mae'n gwneud defnydd da o'r ardal leol i wella dysgu disgyblion. Fodd bynnag, mewn tua hanner yr ysgolion, roedd y dewis cyrsiau i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn gyfyngedig ac nid oedd ysgolion yn neilltuo digon o amser ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol i ddisgyblion hŷn bob tro.

### Datblygu medrau digidol disgyblion, Ysgol Caer Elen

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau digidol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion oed cynradd yn ymchwilio'n hyderus ar y we, er enghraifft i ddod o hyd i wybodaeth am adar a chreu ffeil o ffeithiau hwyliog. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn rhaglennu'n gywir i symud teclyn digidol ar hyd llwybr penodol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cyflwyno gwybodaeth yn gymwys. Er enghraifft, maent yn cyrchu gwybodaeth ar y we am organau'r corff, gan gynnwys recordiad llais yn disgrifio diben yr organau.

Mae medrau digidol disgyblion oed uwchradd yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu profiadau blaenorol. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau digidol tra chymwys. Er enghraifft, maent yn creu siart addas i ddangos y data ar y newid cyfraneddol mewn disgwyliad oes mewn gwledydd yn Affrica. Mae llawer ohonynt yn defnyddio meddalwedd gymhleth yn fedrus i gyfansoddi cerddoriaeth, creu gemau digidol a dylunio pecynnau o faint a gosodiad penodol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau codio pwrpasol, er enghraifft i greu eu gwefannau ynni adnewyddadwy eu hunain.

# Gofal, cymorth a lles

Yn yr ysgolion a arolygwyd, bu'r gofal, cymorth ac arweiniad a roddir i ddysgwyr a'u teuluoedd yn gryfder. Mae lles disgyblion wedi bod yn flaenoriaeth ar ôl y pandemig ac, ers hynny, mae ysgolion wedi creu amgylchedd diogel a chynhwysol i ddisgyblion o bob oed. Fe wnaethant greu diwylliant diogelu a gofal yn llwyddiannus a oedd o fudd i bron pob un o'r disgyblion. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pe byddai angen cymorth neu gyngor arnynt.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn bodloni anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Roeddent yn cydweithio'n dda â phartneriaid allanol i gynnig darpariaeth oedd wedi'i chydlynu'n dda ac yn fuddiol i'r disgyblion a'u teuluoedd. Elwodd ysgolion pob oed ar fod yn gyfarwydd â disgyblion a'u teuluoedd o gyfnod cynnar. Roeddent hefyd yn cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd partner i sicrhau pontio rhwydd.

Mewn llawer o ysgolion, roedd disgyblion hŷn yn ysgwyddo cyfrifoldebau i gefnogi disgyblion iau yn yr ysgol. Roeddent yn trefnu digwyddiadau a chlybiau, yn ogystal â chwarae rôl arweiniol mewn pwyllgorau a grwpiau. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau. Roedd disgyblion yn lleisio eu barn ar ystod o faterion. Mewn ychydig o achosion, roedd disgyblion yn dylanwadu ar beth a sut maent yn dysgu, yn enwedig yn is i lawr yr ysgol.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn effeithiol ac yn gryfder. Roedd staff yn darparu cymorth wedi'i gynllunio a'i fonitro'n ofalus i wella medrau disgyblion ac ymateb i'w hanghenion emosiynol. Roeddent yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn ofalus ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i athrawon i'w helpu i gynllunio i fodloni eu hanghenion mewn gwersi. O ganlyniad, gwnaeth disgyblion ag ADY gynnydd addas o leiaf yn erbyn eu targedau.

Roedd pob ysgol wedi canolbwyntio ar gryfhau arferion a systemau i hyrwyddo presenoldeb da. Monitrodd staff bresenoldeb yn ofalus a dilyn gweithdrefnau i fynd i'r afael ag absenoldebau a phrydlondeb gwael. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion parhaus, roedd presenoldeb yn peri pryder o hyd ac ni fu cynnydd nodedig mewn lefelau presenoldeb, yn enwedig ar gyfer grwpiau o ddysgwyr bregus.

Ym mron pob ysgol, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Roeddent yn ymddwyn yn dda, yn parchu ei gilydd ac oedolion ac yn cydweithio'n dda mewn grwpiau a pharau. Fodd bynnag, fe ddywedodd athrawon ac arweinwyr wrthym fod rheoli ymddygiad disgyblion yn fwy heriol o lawer nag yr oedd cyn y pandemig.

## Arwain a gwella

Canfu arolygwyr fod gan y rhan fwyaf o benaethiaid weledigaeth glir ar gyfer eu hysgol yr oedd staff yn ei deall yn dda. Roedd rolau arweinyddiaeth wedi'u diffinio'n dda ac roedd cyfrifoldebau'n rhychwantu'r ystod oed gyfan yn gynyddol. Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr yn sylweddoli buddion gweithio ar draws pob oedran a sefydlu polisïau cyffredin, er enghraifft ar addysgu ac asesu. Roedd llawer o ysgolion wedi goresgyn y rhwystrau cychwynnol a oedd ynghlwm â sefydlu ysgol newydd ac roedd morâl staff wedi gwella. Mewn ychydig o achosion yn unig, roedd y cyfnodau cynradd ac uwchradd yn cael eu trin yn gwbl ar wahân ac nid oeddent yn adlewyrchu gwir natur ysgol pob oed.

Roedd arweinwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn dda. Roeddent yn rhoi sylw priodol i ddiwygio ADY a newidiadau i'r cwricwlwm. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, rhoddwyd pwyslais penodol ar liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion. Mewn ychydig o achosion, bu ysgolion yn ddyfeisgar o ran sut roeddent yn cefnogi disgyblion a'u teuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys darparu bwyd a gwisg ysgol, rhoi cymhorthdal ar gyfer ymweliadau addysgol a gwersi offerynnol am ddim. Roedd arweinwyr yn gweithio'n galed i sicrhau bod disgyblion sy'n cael eu heffeithio gan dlodi yn cael cyfle cyfartal i ffynnu.

### Cefnogaeth ar gyfer strategaethau pontio ac ymyrraeth ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac academaidd disgyblion, Ysgol Idris Davies

Mae arweinwyr yn cynllunio ystod eang o strategaethau ymyrraeth i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac academaidd disgyblion. Maent yn cyfateb lefel gywir y gefnogaeth i'w hanghenion a chaiff y ddarpariaeth hon ei chyflwyno gan dîm tra medrus ac ymroddedig o athrawon a staff cymorth.

Un o gryfderau penodol yr ysgol yw'r ymagwedd ystyrlon tuag at gefnogi dysgu a chynnydd disgyblion wrth iddynt bontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 yn yr ysgol ac o ysgolion cynradd partner. Er enghraifft, mae dosbarth medrau sylfaenol yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cryf yn eu medrau llythrennedd a rhifedd, a hefyd gyda'u lles.

### Cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY), Ysgol Cwm Brombil

Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion ag ADY yn effeithiol ac yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth ychwanegol wedi'i theilwra i fodloni anghenion y disgyblion hyn. Mae staff yn cynnwys disgyblion, rhieni ac asiantaethau allanol yn effeithiol i gynllunio camau nesaf disgyblion yn eu dysgu. Mae'r cydlynwyr ADY yn darparu dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer yr holl staff.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal ystod o weithgareddau gwerthusol priodol a oedd yn casglu tystiolaeth uniongyrchol o graffu ar waith disgyblion, teithiau dysgu ac arsylwi gwersi, yn ogystal â chasglu barnau disgyblion a rhieni. Mewn lleiafrif o ysgolion, roedd arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i nodi meysydd i'w gwella yn gywir. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr achosion, nid oedd arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith darpariaeth ar ddysgu disgyblion. Er enghraifft, wrth werthuso ansawdd yr addysgu, nid oeddent yn ystyried ei effaith ar gynnydd disgyblion yn ddigon manwl. Yn hytrach, roeddent yn chwilio am gydymffurfiaeth athrawon ac nid oeddent yn nodi yn union beth yr oedd angen mynd i'r afael ag ef i wella darpariaeth.

Roedd arweinwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yn hyrwyddo diwylliant o hunanfyfyrio a dysgu proffesiynol. Roeddent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff gydweithio â'i gilydd ac ysgolion cynradd partner. Roedd dysgu proffesiynol wedi'i deilwra'n addas i anghenion unigolion a'r ysgol. Roedd staff yn elwa ar arbenigedd ei gilydd ar draws cyfnodau, a oedd yn cyfrannu ymhellach at barhad o ran darpariaeth ac ymagweddau ar draws yr ystod oed.

Yn gyffredinol, roedd llywodraethwyr yn gefnogol o'u hysgolion. Roeddent yn rheoli cyllidebau'n ofalus ac yn deall eu rolau statudol o ran diogelu a hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Roeddent yn gyfeillion beirniadol addas ond, mewn ychydig o achosion, nid oeddent yn ddigon gwybodus bob tro i allu herio arweinwyr yn llawn.



Adroddiad sector

# Ysgolion arbennig a gynhelir

2022-2023



## Darparwyr

**39**
Nifer o ddarparwyr 2023

## Disgyblion

**5,684**
Cyfanswm disgyblion

**5,473**
Cyfanswm disgyblion 2021-22

**5,220**
Cyfanswm disgyblion 2020-21

**46%**
Canran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Gweithgarwch dilynol

Nifer o fewn y categori dilynol Medi 2022
SM: **1** SI: **0** ER: **1**

Nifer a roddwyd mewn categori dilynol yn 2022-2023
SM: **0** SI: **0** ER: **1**

Nifer a israddwyd 2022-23
SM: **0** SI: **0** ER: **0**

Cyfanswm o fewn categori dilynol Awst 2023
SM: **1** SI: **0** ER: **2**

## Arolygiadau craidd

Nifer o arolygiadau craidd: **7**
Cyfrwng Cymraeg: **1**
Cyfrwng Saesneg: **6**

## Astudiaethau achos

Nifer o astudiaethau achos: **6**

Mae ysgolion arbennig a gynhelir yn darparu addysg i blant ag anghenion cymhleth. Mae llawer o'r ysgolion hyn yn darparu ar gyfer disgyblion ar draws ystod oed eang, o 3 i 19 oed. Oherwydd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cymhleth a lluosog disgyblion mewn ysgolion arbennig, mae eu hystod gallu yn amrywio'n sylweddol ac nid yw'n gysylltiedig â'u hoedran, o reidrwydd.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023, cynyddodd nifer y disgyblion mewn ysgolion arbennig yng Nghymru. At ei gilydd, roedd y gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn y sector yn gryfder o hyd. Canfu arolygwyr fod ysgolion wedi cynnal perthynas waith gadarnhaol rhwng aelodau staff a disgyblion, a gafodd effaith fuddiol ar y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion. Ym mhob ysgol a arolygwyd eleni, roedd ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn gryfder.

Er i lawer o ddisgyblion wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn, mewn tair o'r ysgolion a arolygwyd, nid oedd sicrwydd ansawdd a gweithgareddau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n ddigon da ar gynnydd disgyblion nac ansawdd yr addysgu.

Yn gyffredinol, crybwyllodd ysgolion arbennig fod effaith pandemig COVID-19 wedi parhau i leihau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd heriau o hyd, fel cyfraddau presenoldeb is na'r arfer ymhlith rhai disgyblion. Yn ogystal, crybwyllodd ysgolion fod proffil y disgyblion a atgyfeiriwyd iddynt yn dod yn fwy cymhleth, ar y cyfan, er enghraifft oherwydd anghenion iechyd meddwl cynyddol.

## Addysgu a dysgu

Ym mhob ysgol arbennig a gynhelir a arolygwyd, gwnaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd addas o leiaf o'u mannau cychwyn. Ar draws yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw, gwnaeth disgyblion gynnydd priodol o ran datblygu eu medrau annibyniaeth yn unol â'u galluoedd. Roedd hyn yn amrywio o fod yn hyderus ac yn fedrus o ran eu hunanofal a gwisgo, i goginio prydau a siopa'n annibynnol gyda chyllideb.



Canfu arolygwyr fod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o gryf o ran gwella eu medrau cyfathrebu. Roedd hyn yn eu galluogi i fanteisio ar y cwricwlwm, ymgysylltu â'i gilydd, gwneud dewisiadau a mynegi eu hunain yn effeithiol. Yn gyffredinol, roedd disgyblion yn defnyddio technoleg ddigidol yn addas i gyfathrebu ac i gefnogi eu dysgu. Lle'r oedd yn briodol, roeddent yn defnyddio technoleg gynorthwyol wedi'i rheoli â'u llygaid a llechi cyfrifiadurol yn llwyddiannus i gefnogi eu hanghenion cyfathrebu. Fodd bynnag, mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd, nid oedd aelodau staff yn defnyddio strategaethau cyfathrebu dewisol disgyblion yn ddigon cyson i gefnogi eu hymgysylltiad a'u cyfranogiad yn eu dysgu. At ei gilydd, lle'r oedd yn berthnasol, roedd datblygiad medrau Cymraeg disgyblion yn anghyson ar draws yr ysgolion a arolygwyd. Canfu arolygwyr fod disgyblion mewn un ysgol yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu'r medrau hyn, ond bod cynnydd disgyblion yn rhy gyfyngedig mewn dwy ysgol.

Ar draws y saith ysgol a arolygwyd, gwnaeth arolygwyr ddarganfod bod cynllunio cwricwlwm ar y cyd yn nodwedd gref, yn gyffredinol, a oedd yn ymgorffori syniadau ar gyfer beth i'w ddysgu gan ddisgyblion ac aelodau staff. Roedd pob un o'r ysgolion yn darparu cwricwlwm a oedd yn briodol o eang a chytbwys ac yn paratoi disgyblion yn dda, yn gyffredinol, ar gyfer y cam nesaf yn eu bywyd a'u dysgu. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn ennill ystod eang o achrediadau a chymwysterau ystyrlon i'w cynorthwyo i bontio i'r cam nesaf yn eu bywydau. Roeddent yn symud ymlaen yn llwyddiannus i gyrchfannau cynlluniedig a oedd yn adlewyrchu eu hanghenion a'u galluoedd yn dda, yn gyffredinol. Fodd bynnag, mewn dwy ysgol, nid oedd profiadau dysgu yn gweddu'n ddigon da i anghenion disgyblion. Yn ogystal, roedd capasiti staffio mewn un ysgol yn annigonol i fodloni anghenion cymhleth rhai disgyblion yn llawn. Mae recriwtio a chadw aelodau staff cymorth â medrau addas yn her i'r sector o hyd.

Canfu arolygwyr fod tair o'r ysgolion a arolygwyd yn defnyddio amgylcheddau dysgu awyr agored yn fwyfwy creadigol ac yn hynod effeithiol. Roedd disgyblion yn dysgu am natur, roeddent yn tyfu planhigion a llysiau, yn adeiladu cuddfannau, yn cymryd rhan mewn chwarae mwdlyd ac yn coginio bwyd ar ben tân y tu allan. Fodd bynnag, canfu arolygwyr fod yr ardal awyr agored mewn ysgol arall yn anniogel i ddisgyblion ac arweiniodd hyn at anfon llythyr lles at yr ysgol.

Roedd pob un o'r saith ysgol wedi datblygu systemau priodol i olrhain y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion dros gyfnod. Lle'r oedd yn briodol, roedd y rhain yn cael eu haddasu yn unol â newidiadau i'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oedd tair o'r saith ysgol a arolygwyd yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i gynllunio profiadau cwricwlaidd a phennu targedau unigol ar gyfer gwella.

Yn gyffredinol, roedd staff yn rhoi adborth llafar effeithiol i ddisgyblion. Fodd bynnag, mewn dwy o'r ysgolion, nid oedd adborth ysgrifenedig yn ddigon clir i ddisgyblion wybod sut i wella.



## Lleoliadau gwaith ar gyfer disgyblion yn Ysgol Uwchradd Woodlands, Caerdydd

Datblygodd ychydig iawn o ddisgyblion hŷn yn Ysgol Uwchradd Woodlands fedrau annibynnol buddiol dros ben wrth iddynt fynychu lleoliadau gwaith, a oedd yn cyfateb yn dda i'w personoliaethau, eu medrau a'u diddordebau. Roedd disgyblion yn ennill profiad gwerthfawr wrth wneud cais, a chael eu cyfweld ar gyfer, lleoliadau mewn ystod o leoliadau galwedigaethol gan gynnwys cartref cŵn, amgueddfa leol a theatr. Yn ogystal, roedd interniaethau tymor hwy mewn ysbytai a phrifysgolion lleol yn rhoi ystod ehangach o brofiadau i ddisgyblion, gan gynnwys gwaith labordy, arlwyo a gwasanaethau gwybodaeth. Roedd hyn yn eu helpu i fagu'r hyder i ymaddasu i sefyllfaoedd, tasgau a heriau newydd a fydd yn eu gwasanaethu'n dda mewn agweddau amrywiol ar eu bywydau personol a phroffesiynol.

## Asesu dysgwyr yn Ysgol Pen Coch, Sir y Fflint

Mae Ysgol Pen Coch yn ymddangos yn ein adroddiad thematig ar [ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu](). Nodom fod yr ysgol wedi ail-lunio asesu yn rhan o naratif cyfannol o'r plentyn. Symleiddiwyd ymagweddau at asesu i gysylltu'n agosach â chynllunio'r cwricwlwm. Roeddent wedi cyfuno ystod o fframweithiau presennol i gefnogi cynllunio ar gyfer dysgu ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Roedd aelodau staff wedi datblygu eu fframweithiau eu hunain i gefnogi disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog neu anghenion synhwyraidd. Roedd rhannu'r cynllunio o ran addysgu ac asesu â chynorthwywyr addysgu, yn caniatáu maes ehangach o asesiadau a ffocws cliriach ar sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd ar gyflymdra priodol. Gwellodd dealltwriaeth pob ymarferydd o'r dysgu bwriadedig ar gyfer pob gweithgaredd, hefyd.

# Gofal, cymorth a lles

Roedd y gofal, cymorth a lles a ddarparwyd gan bob un o'r ysgolion arbennig a gynhelir a arolygwyd yn gryfder sylweddol. Roedd pob un o'r ysgolion yn adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac roeddent i gyd yn cydweithio'n effeithiol â gweithwyr proffesiynol eraill i ddarparu gwasanaeth a oedd yn gweddu'n dda iawn i anghenion disgyblion, yn gyffredinol.

Ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd, canfu arolygwyr fod aelodau staff wedi meithrin perthnasoedd hynod effeithiol â disgyblion. Roeddent wedi creu amgylcheddau diogel ac meithringar lle'r oedd disgyblion yn cael eu hannog i ddatblygu a ffynnu. Roedd disgyblion yn ymateb yn dda i'r strwythur a'r drefn a ddarparwyd gan eu hysgolion.

At ei gilydd, roedd y parch roedd disgyblion yn ei ddangos tuag at ei gilydd, aelodau staff ac ymwelwyr yn nodwedd arbennig o gryf ym mhob un o'r ysgolion. Roedd disgyblion yn gweithio'n dda ochr yn ochr â'u cyfoedion, roeddent yn dathlu llwyddiannau ei gilydd ac yn mwynhau cwmni ei gilydd, gan fwyaf. Dros gyfnod, roeddent yn dysgu i ddeall y gallai disgyblion feddwl ac ymddwyn mewn ffyrdd sy'n wahanol iddyn nhw'u hunain.

Ar draws yr ysgolion a arolygwyd, roedd disgyblion yn mwynhau ac yn ymhyfrydu yn y cyfleoedd a gynigiwyd i fod yn rhan o gynghorau ysgol a grwpiau eraill llais y disgybl. Roedd aelodau cynghorau ysgol yn cynrychioli buddiannau disgyblion yn dda. Daethant yn fwyfwy hyderus wrth fynegi eu barn a chyflwyno dadleuon cymhellol o blaid gwelliannau yn eu hysgolion, gan gynnwys datblygu arlwy'r cwricwlwm.

Yn gyffredinol, roedd gan ysgolion drefniadau cadarn iawn i gefnogi presenoldeb rheolaidd. Fodd bynnag, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, roedd presenoldeb cyffredinol islaw'r lefelau cyn y pandemig o hyd.



### Cymorth i rieni a theuluoedd yn ysgolion Riverbank a Tŷ Gwyn, Caerdydd

Mae ysgolion Riverbank a Tŷ Gwyn, sy'n rhan o Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin, wedi datblygu arferion effeithiol i ymgysylltu â rhieni. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd rheolaidd i rieni gyfarfod mewn ystod o leoliadau gwahanol, er enghraifft boreau coffi anffurfiol, yn ogystal â gweithdai i deuluoedd yn ystod y dydd ar gyfer cymorth cyntaf paediatrig a datblygu iaith. Mae Tŷ Gwyn hefyd yn darparu cymorth i rieni disgyblion ag ADY o ysgolion eraill. Mae yn cynllunio'n effeithiol i gynorthwyo rhieni a gofalwyr sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, gan sicrhau y caiff eu hanghenion iaith eu bodloni. O ganlyniad, mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan y ddwy ysgol yn fawr.

### Y panel darpariaeth a chymorth ysgol yn Ysgol Sant Christopher, Wrecsam

Sefydlodd staff yn Ysgol Sant Christopher banel darpariaeth a chymorth o ganlyniad i'r newidiadau cyflym o ran cymhlethdod anghenion disgyblion yn gysylltiedig â rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith. Nododd arweinwyr fod angen i'r ysgol ddatblygu ei chymorth ar gyfer lles dysgwyr a'i hymagwedd at ddysgu proffesiynol staff yn gyflym hefyd er mwyn rheoli'r heriau hyn. Caiff y fforwm amlddisgyblaethol hwn ei ddefnyddio i ystyried yn fanwl y cymorth y mae'r ysgol yn ei ddarparu i fodloni anghenion disgyblion. Pan fydd yn gwneud atgyfeiriadau i bartneriaid allanol, gwneir yn siŵr fod y rhain yn briodol. O ganlyniad, dywed arweinwyr bod staff yn teimlo'n fwy hyderus wrth gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion ag ystod o anghenion ychwanegol cymhleth a'u bodloni. Erbyn hyn, mae'r ysgol mewn sefyllfa gref i gefnogi disgyblion, rhieni ac aelodau staff wrth i broffil y garfan disgyblion newid.

# Arwain a gwella

At ei gilydd, ym mhob un o'r saith ysgol a gafodd eu harolygu, sicrhaodd arweinwyr fod gweledigaeth ac ethos eu hysgolion wedi'u ffurfio o amgylch lles pennaf eu disgyblion. Addasodd arweinwyr ysgolion arbennig a gynhelir y ddarpariaeth yn barhaus i fodloni anghenion cyfnewidiol disgyblion.

Canfu arolygwyr fod trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith disgyblion wedi dychwelyd i'r arferion cyn y pandemig, i raddau helaeth. Yn yr enghreifftiau gorau, defnyddiwyd ystod lawn o weithgarwch yn dda i fonitro gwaith gwella cyfredol a phennu meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn ystod y teithiau dysgu a'r arsylwadau gwersi yr ymgymerwyd â nhw, nid oedd ychydig o arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar safon gwaith disgyblion a'r cynnydd roeddent yn ei wneud. Hefyd, roedd gwerthusiadau'r arweinwyr hyn o ansawdd yr addysgu yn rhy hael ac nid oedd ganddynt ddigon o ffocws ar nodi meysydd i'w gwella.

Yn gyffredinol, roedd llywodraethwyr yn wybodus am eu hysgol a'i blaenoriaethau. Yn yr enghreifftiau gorau, defnyddiwyd medrau ac arbenigedd eang llywodraethwyr unigol yn dda i helpu i fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella. Roedd y llywodraethwyr hyn yn gallu cynnig cymorth a her graff i arweinwyr ysgolion ar y blaenoriaethau hyn.

Ar draws y sector, canfu arolygwyr fod dysgu proffesiynol aelodau staff yn gryfder, yn gyffredinol, ond nid oedd wedi'i gynllunio'n strategol bob tro. Roedd aelodau staff yn fwyfwy cysylltiedig â rhwydweithiau o arfer broffesiynol. Roeddent yn manteisio ar gyrsiau a digwyddiadau perthnasol i wella a mireinio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o flaenoriaethau cenedlaethol ymhellach, gan gynnwys datblygiadau yn y cwricwlwm. Defnyddiwyd cysylltiadau â darparwyr eraill, er enghraifft colegau addysg bellach lleol, i gefnogi datblygiad proffesiynol staff cymorth.

Roedd yr holl arweinwyr yn rheoli eu cyllidebau ysgol yn effeithiol a defnyddiwyd cyllid grant yn dda at ei ddiben bwriadedig. Fodd bynnag, roedd amrywiad sylweddol yn y cyllid sydd ar gael fesul disgybl i ysgolion arbennig a gynhelir ledled Cymru.

### Rôl y corff llywodraethol mewn hunanwerthuso yn Ysgol Plas Brondyffryn, Sir Ddinbych

Roedd dwy ysgol arbennig yn rhan o'n hadolygiad thematig ar lywodraethwyr ysgol.

Yn Ysgol Plas Brondyffryn, nodom fod gan y corff llywodraethol system sefydledig ar waith i hunanwerthuso ei heffeithiolrwydd. Bob blwyddyn, mae llywodraethwyr yn cwblhau gweithgaredd hunanwerthuso, sy'n eu galluogi i nodi meysydd i'w gwella ar gyfer y corff llywodraethol ei hun. O ganlyniad, cydnabu llywodraethwyr yr angen iddynt fod â phresenoldeb cryf yn yr ysgol a chyfrannu at gasglu tystiolaeth uniongyrchol. Arweiniodd hyn atynt yn diwygio ac ehangu rôl eu llywodraethwyr cyswllt ac mae wedi cryfhau gallu'r corff llywodraethol i werthuso'r cynnydd mae'r ysgol yn ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol.

# Cyfeiriadau



Llywodraeth Cymru (2023) Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwariant-sydd-wedii-gyllidebu-ar-gyfer-darpariaeth-anghenion-addysgol-arbennig-ebrill-2022-i-fawrth-2023 [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023) Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ionawr-2023[Cyrchwyd 17 Tachwedd 2023]

Adroddiad sector

# Ysgolion arbennig annibynnol

2022-2023



### Darparwyr

**42**

Nifer o ddarparwyr 2023

### Arolygiadau craidd

Nifer o arolygiadau craidd: **3**
Cyfrwng Cymraeg: **0**
Cyfrwng Saesneg: **3**
Ymweliadau monitro: **25**

### Astudiaethau achos

Nifer o astudiaethau achos: **1**

Yn ystod 2022-2023, parhaodd ysgolion arbennig annibynnol i ddarparu addysg i ddysgwyr o Gymru a Lloegr sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol, roedd cyfran uwch o'r ysgolion hyn yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Yn gyffredinol, canfu arolygwyr fod ysgolion arbennig annibynnol yn darparu amgylchedd meithringar a bod ganddynt ddealltwriaeth gref o'u disgyblion. Roedd staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu a chynnig cwricwlwm eang a chytbwys. Fodd bynnag, mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod y flwyddyn, nid oedd prosesau asesu wedi'u datblygu'n ddigonol ac roedd ymagweddau strategol cyfyngedig i sicrhau datblygiad medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, bu newidiadau o ran arweinyddiaeth ers adeg yr arolygiad neu ymweliad monitro diweddaraf. Yn ogystal â'r newidiadau mewnol hyn, roedd ysgolion arbennig annibynnol yn ymwybodol o newidiadau allanol, er enghraifft gwaith cyfredol i ddiweddaru safonau ysgolion annibynnol (Cymru) a newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol i gael gwared ar elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal. Er mwyn ymateb i ddiwygio ADY, roedd ysgolion arbennig annibynnol wedi dechrau'r broses o gofrestru'n ffurfiol â Llywodraeth Cymru fel ysgolion sy'n gallu cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol.

Yn gyffredinol, adroddodd ysgolion arbennig annibynnol fod effaith pandemig COVID-19 wedi parhau i leihau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd heriau o hyd, er enghraifft o ran ailfeithrin perthnasoedd â darparwyr lleoliadau profiad gwaith. Yn ogystal, adroddodd yr ysgolion hyn, at ei gilydd, fod proffil y disgyblion sy'n cael eu hatgyfeirio iddynt yn dod yn fwy cymhleth, er enghraifft oherwydd anghenion iechyd meddwl cynyddol.



# Addysgu a dysgu

Ym mhob un o'r tair ysgol a arolygwyd, yn ogystal ag yn ystod lleiafrif o ymweliadau monitro blynyddol, canfu arolygwyr fod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Gwnaeth lawer ohonynt gynnydd mewn meysydd pwysig, fel eu medrau llythrennedd, rhifedd, annibyniaeth a bywyd a, lle'r oedd yn briodol, enillodd disgyblion ystod o achrediadau perthnasol. Fodd bynnag, roedd presenoldeb isel disgyblion mewn ychydig iawn o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ac mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd yn rhwystro cynnydd y disgyblion dan sylw. Yn ogystal, ym mhob un o'r tair ysgol a arolygwyd eleni, roedd cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh yn gynyddol dros gyfnod.

Mewn tua hanner yr ymweliadau monitro, nodwyd asesu yn faes i'w ddatblygu. Yn yr ysgolion hyn, roedd ymagweddau strategol cyfyngedig i sicrhau datblygiad medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, nid oedd arweinwyr ac athrawon yn yr ysgolion hyn yn olrhain y camau cynnydd graddol a wnaed gan ddisgyblion yn ddigon cyson ac, yn rhy aml, nid oedd gwybodaeth asesu'n llywio cynllunio athrawon na'r camau nesaf y dylai disgyblion eu cymryd yn eu dysgu.

Yn gyffredinol, ar draws mwyafrif yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn defnyddio hyn yn effeithiol i ennyn eu diddordeb yn eu dysgu. Mewn lleiafrif o ysgolion, roedd athrawon yn cynllunio gwersi yn ofalus i gynnwys gweithgareddau dysgu perthnasol a difyr. Yn yr ysgolion hyn, cyfoethogwyd arlwy'r cwricwlwm gan ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu, gan gynnwys gweithgareddau oddi ar y safle a rhyngweithiadau ag ymwelwyr â'r ysgol.

Roedd dwy o'r tair ysgol a arolygwyd, ynghyd â llawer o'r ysgolion yr ymwelodd arolygwyr â nhw fel rhan o'r broses fonitro, yn bodloni holl ofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Roedd yr ysgolion hyn yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu i'w disgyblion. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o'r ysgolion yn bodloni'r gofynion. Yn yr ysgolion hyn, nid oedd profiadau dysgu yn cyfateb yn ddigon da i anghenion disgyblion, yn enwedig y rhai sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun datblygu unigol (CDU).

### Profiadau dysgu difyr yn Ysgol Therapiwtig Amberleigh, Powys

Yn ogystal â'r cwricwlwm craidd, darparodd yr ysgol ystod helaeth o brofiadau dysgu go iawn a difyr. Er enghraifft, gwnaeth disgyblion gyffeithiau a chynhyrchion pren wedi'u saernïo i'w gwerthu'n lleol, trwsio beiciau a thyfu eu bwyd eu hunain. O ganlyniad, datblygodd disgyblion ystod o fedrau buddiol ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys medrau ymarferol a rhai yn gysylltiedig â gwaith.

# Gofal, cymorth a lles

Roedd pob un o'r tair ysgol a arolygwyd, ynghyd â lleiafrif o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o weithgarwch monitro blynyddol, yn darparu amgylchedd meithringar i ddisgyblion. O ganlyniad, roedd llawer o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym i'w dysgu ac yn ymgysylltu'n dda â'u cyd-ddisgyblion ac aelodau staff. Roedd llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol ac yn mwynhau eu dysgu. Ym mhob un o'r tair ysgol a arolygwyd gennym, roedd staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol wedi'u seilio ar gydymddiriedaeth a pharch cytûn.

Ym mhob un o'r tair ysgol a arolygwyd, gwnaeth disgyblion gynnydd addas yn eu hannibyniaeth a'u paratoadau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, yn un o'r ysgolion a arolygwyd ac mewn ychydig o ysgolion lle y cynhaliom ymweliadau monitro, nid oedd rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid oeddent yn cynnwys meysydd pwysig fel gyrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith.



Ar draws y sector hwn, roedd diogelu'n agwedd gref ar waith yr ysgol, yn gyffredinol. Roedd y tair ysgol a arolygwyd wedi datblygu diwylliannau diogelu lle'r oedd gan staff ddealltwriaeth dda o'u rôl o ran cadw disgyblion yn ddiogel. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod gweithgarwch monitro, nid oedd arweinwyr yn monitro'r modd y cymhwyswyd polisïau a gweithdrefnau yn ddigon manwl. Mewn tair o'r ysgolion hyn, roedd polisïau pwysig sy'n llywio gwaith yn ymwneud â diogelu yn rhy gyffredinol ac nid oeddent yn rhoi ystyriaeth ddigonol i arweiniad Llywodraeth Cymru.

## Arwain a gwella

Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod y flwyddyn academaidd hon, bu newidiadau o ran arweinyddiaeth ers yr arolygiad neu'r ymweliad monitro blaenorol. Roedd ansefydlogrwydd estynedig o ran arweinyddiaeth mewn ychydig o ysgolion yn cael effaith negyddol ar addysgu a dysgu, hefyd.

Elwodd mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gymorth a her gan eu sefydliad ehangach fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant. Ym mhob un o'r tair ysgol a arolygwyd, roedd arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac roedd ganddynt broses addas ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd. Mewn dwy o'r tair ysgol, roedd gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau eu hysgol a'i meysydd i'w datblygu.

Fodd bynnag, yn yr ysgolion eraill yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro eleni, roedd diffygion o ran ansawdd arweinyddiaeth yn cyfyngu ar y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion, yn y pen draw. Yn yr ysgolion hyn, roedd diffyg trylwyredd mewn prosesau hunanwerthuso ac nid oedd cynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n ddigon craff ar y meysydd pwysicaf i'w gwella. At ei gilydd, nid oedd y prosesau hyn yn canolbwyntio'n gyson ar effaith addysgu a dysgu. O ganlyniad, nid oedd gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau eu hysgolion a'u meysydd i'w gwella, ac roeddent yn gwneud cynnydd araf o ran symud yr ysgol yn ei blaen.

Yn gyffredinol, mae gan ysgolion arbennig annibynnol arlwy dysgu proffesiynol sy'n cwmpasu ystod eang o bynciau, gan gynnwys hyfforddiant staff ar sut i reoli enghreifftiau o ymddygiad heriol. Fodd bynnag, mewn dwy o'r tair ysgol a arolygwyd eleni, nid oedd yr arlwy dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n ddigon da ar addysgu a dysgu. Yn ogystal, nid oedd ysgolion yn defnyddio cysylltiadau â darparwyr eraill yn ddigon cyson i helpu i sbarduno gwelliant.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinwyr wedi gwneud newidiadau buddiol i'r amgylchedd dysgu ac wedi cryfhau ystod yr adnoddau sydd ar gael. Er enghraifft, ychwanegodd un ysgol weithdy ac ystafell ddosbarth yn yr ardd. Fodd bynnag, nododd arolygwyr yr amgylchedd dysgu fel maes i'w ddatblygu ar gyfer pob un o'r tair ysgol a arolygwyd, yn ogystal ag ychydig o ysgolion a gafodd ymweliadau monitro. Yn yr ysgolion hyn, nid oedd yr amgylchedd dysgu yn cael ei gynnal a chadw'n dda neu roedd yr amgylchedd yn cyfyngu ar ddysgu.

## Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2022) Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-04/220401-cadw-dysgwyr-yn-ddiogel.pdf [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2023]

### Helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer bywyd fel oedolion, Ysgol Greenfields, Casnewydd

Roedd disgyblion yn elwa ar ystod o weithgareddau ystyrlon a oedd yn cefnogi eu paratoadau ar gyfer profiadau bywyd fel oedolion. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn ffug gyfweliadau, ynghyd â gweithgareddau i ddatblygu medrau bywyd pwysig, fel rheoli arian neu goginio cinio i'w cyfoedion fel rhan o 'Feed me Friday'.

### Pennu targedau disgyblion a'u holrhain yng Nghanolfan Addysg Gwenllian, Sir Gâr

Yng Nghanolfan Addysg Gwenllian, canfu arolygwyr fod targedau disgyblion unigol yn gynyddol ac yn ystyrlon. Roedd staff yn olrhain y camau bach o gynnydd a wnaed gan ddisgyblion yn ystod y dydd yn ofalus. Rhannwyd y wybodaeth werthfawr hon â rhieni a gofalwyr bob dydd.

Roedd gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Roeddent yn cynllunio ystod o weithgareddau perthnasol a difyr i fodloni anghenion a diddordebau disgyblion unigol yn dda. Roedd disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r ymagwedd hon. Roeddent yn pontio'n rhwydd rhwng gweithgareddau ac yn ymgysylltu'n fawr â'u dysgu. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, roedd bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol o'u mannau cychwyn unigol.



Adroddiad sector

# Prif ffrwd annibynnol

2022-2023



**Darparwyr**

**37**

Nifer o ddarparwyr 2023

**Arolygiadau craidd**

Nifer o arolygiadau craidd: **4**
Cyfrwng Cymraeg: **0**
Cyfrwng Saesneg: **4**

**Astudiaethau achos**

Nifer o astudiaethau achos: **1**

Ymatebodd ysgolion prif ffrwd annibynnol yn gadarn i'r pandemig a sefydlu dulliau'n gyflym i sicrhau bod dysgu a gofal bugeiliol yn parhau'n effeithiol. O ganlyniad, pan ailddechreuodd arolygiadau, canfuom fod cynnydd a lles disgyblion yn nodweddion cryf o'r ysgolion hyn o hyd. Fodd bynnag, yn yr holl ysgolion a arolygwyd, nid oedd arweinwyr wedi ail-sefydlu ystod lawn o waith sicrhau ansawdd effeithiol ac, o ganlyniad, nid oedd eu hunanwerthusiadau'n nodi'r ychydig o feysydd a allai elwa ar gael eu gwella yn gywir bob tro.

## Addysgu a dysgu



Ar draws yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, roedd cynnydd disgyblion yn gryf. Roedd medrau cyfathrebu yn gryfder penodol ac roedd bron pob un o'r disgyblion hŷn yn huawdl, yn hyderus ac yn sicr wrth siarad ag ymwelwyr. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda ac roedd disgyblion iau, yn benodol, yn dangos eu bod yn mwynhau darllen. Roedd disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth a datblygu eu dealltwriaeth o gyd-destunau pynciau'n dda.

Mewn tair o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, roedd safon Saesneg ysgrifenedig yn gryf. Roedd disgyblion iau yn ysgrifennu'n hyderus ac yn estynedig mewn amrywiaeth o arddulliau ac yn cael cyfleoedd helaeth i ailddrafftio a gwella eu gwaith. Roedd disgyblion hŷn yn defnyddio prosesau sy'n cael eu deall yn dda i ysgrifennu darnau o waith estynedig, yn aml er mwyn ymateb i gwestiynau arholiad. Fodd bynnag, lle'r oedd ysgrifennu'n llai cadarn, nid oedd disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu'n gywir yn gyson ac, wrth ysgrifennu mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, nid oeddent yn ysgrifennu i'r un safon uchel ag yn eu gwersi Saesneg bob tro.

At ei gilydd, ar draws yr ysgolion a arolygwyd, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemategol cryf. Roedd y disgyblion ieuengaf yn mwynhau defnyddio adnoddau ffisegol, fel cardiau rhif neu rodenni rhif. Fodd bynnag, mewn un ysgol, nid oedd disgyblion yn gweithio i'r un safon uchel na lefel o gywirdeb bob tro wrth gymhwyso eu medrau mathemategol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Roedd cynnydd o ran medrau digidol disgyblion yn amrywio ar draws y pedair ysgol. Mewn un enghraifft, roedd hyn yn adlewyrchu athroniaeth addysg yr ysgol, lle mae llai o bwyslais ar fedrau digidol, yn enwedig ymhlith disgyblion iau. Mewn un ysgol, roedd disgyblion yn datblygu medrau byw annibynnol rhagorol, tra yn y tair ysgol arall, roedd medrau creadigol ac artistig yn arbennig o gryf.

Roedd y cynnydd cryf a wnaed gan ddisgyblion yn yr ysgolion a arolygwyd wedi'i hwyluso gan gwricwlwm eang. Yn aml, roedd hyn wedi'i deilwra'n dda i anghenion a diddordebau disgyblion. Mewn un ysgol, roedd y cwricwlwm wedi'i sylfaenu ar athroniaeth a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu medrau a gwerthoedd ar gyfer dysgu gydol oes. Mewn ysgol arall, roedd ffocws cryf ar yr amgylchedd awyr agored fel adnodd i symbylu dysgu.

Roedd staff yn yr ysgolion hyn yn adnabod anghenion, galluoedd a diddordebau eu disgyblion yn arbennig o dda ac yn meithrin perthnasoedd meithringar cryf â'u dosbarthiadau. Roedd gwersi wedi'u cynllunio'n dda, roedd rhediad da iddynt ac roeddent yn defnyddio ystod o adnoddau symbylol. Roedd athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau asesu i ddeall cynnydd disgyblion a rhoi adborth amserol i symud dysgu yn ei flaen. Lle nad oedd cynnydd yr un mor gryf, roedd hyn yn aml oherwydd bod athrawon yn sgaffaldio gweithgareddau'n ormodol ac nid oeddent yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol.

## Gofal, cymorth a lles

Roedd pob un o'r ysgolion a arolygwyd yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i les eu disgyblion. Roedd perthnasoedd gwaith rhwng staff a disgyblion yn barchus, gofalgar ac yn gefnogol bron bob tro. Roedd staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn bodloni eu hanghenion yn hynod effeithiol. Roedd hyn yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o gymuned.

Roedd bron pob un o'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn gwybod ei bod yn gymuned ofalgar.. Roedd disgyblion yn gwrtais ac yn ystyriol. Roedd disgyblion iau yn cydweithio'n dda â'i gilydd, gan gymryd tro ac aros yn amyneddgar i ddechrau gweithgaredd. Roedd disgyblion hŷn yn dangos hyder ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr mewn gwersi. Ar draws yr ysgolion, cafodd disgyblion eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu ac roeddent yn ymgymryd â swyddi o gyfrifoldeb, a oedd yn datblygu medrau arweinyddiaeth disgyblion a'u hunanhyder. Roedd disgyblion yn ymfalchïo yn y swyddi hyn.

Roedd gan ddwy ysgol ardaloedd awyr agored helaeth a ddefnyddiwyd yn dda i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hamgylchedd a phwysigrwydd corff iach ac ymennydd iach.

Mae disgyblion yn llawn cymhelliant a chyffro i ddysgu yn yr awyr agored. Mae gweithgareddau fel tyfu llysiau yn yr ardd neu baratoi toes i bobi yn yr awyr agored yn cyfrannu'n gadarnhaol at les disgyblion. Ar draws yr ysgolion, dangosodd y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn gweithio'n dda yn annibynnol. Roeddent hefyd yn mwynhau'r cyfle i weithio mewn parau a grwpiau bach, gan ddangos lefelau cryf o barch tuag at ei gilydd. Fodd bynnag, mewn un ysgol yn benodol, ychydig iawn o ddisgyblion iau a oedd yn dangos gwydnwch a'r gallu i wella eu gwaith a dysgu o'u camgymeriadau.

Roedd un ysgol yr ymwelwyd â hi wedi ymwreiddio diwylliant diogelu cryf, ac roedd yr ysgolion eraill yn gweithio i ymwreiddio diwylliant cadarn. Yn gyffredinol, roedd y problemau a godwyd ag ysgolion yn ymwneud â chadw cofnodion, er enghraifft yn ymwneud â hyfforddiant staff.

### Defnydd effeithiol o'r amgylchedd awyr agored yn Ysgol Treffos

Mae Ysgol Treffos yn canolbwyntio'n gryf ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored fel adnodd i symbylu dysgu. Mae gan yr ysgol ardaloedd awyr agored helaeth sy'n cael eu defnyddio'n dda i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hamgylchedd a phwysigrwydd corff iach ac ymennydd iach.

Mae ystod eang o brofiadau dysgu yn digwydd y tu allan, gan gynnwys gweithgareddau datrys problemau fel adeiladu pontydd a chyfeiriannu. Gwna athrawon ddefnydd rheolaidd o deithiau pwrpasol i goedwigoedd a thraethau lleol ac maent yn defnyddio'r rhain yn dda i symbylu trafodaeth bellach a dysgu yn ôl yn yr ysgol.

# Arwain a gwella



Ar gyfer dwy o'r ysgolion a arolygwyd, dyma oedd eu harolygiad craidd cyntaf ers iddynt gofrestru'n ysgolion annibynnol. Mewn un arall, bu newid i'r pennaeth yn ddiweddar ac, yn y bedwaredd ysgol, roedd yr arweinyddiaeth wedi'i hen sefydlu. Roedd pob un o'r ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Roedd gan arweinwyr ym mhob un o'r pedair ysgol weledigaeth glir ar gyfer eu hysgol, roeddent yn uchelgeisiol ar gyfer eu disgyblion ac roedd ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u staff. Yn y ddwy ysgol newydd, roedd arweinwyr wedi llwyddo i sefydlu cymuned deuluol roedd gan ddisgyblion a rhieni deyrngarwch ac anwyldeb mawr tuag ati.

Roedd arweinwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i staff gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant sy'n benodol i ymagwedd addysgegol, hyfforddiant a ddarparwyd trwy fod yn aelod o rwydwaith ysgolion a hyfforddiant a oedd yn benodol i fyrddau arholi. Fodd bynnag, nid oedd dysgu proffesiynol yn cysylltu'n ddigon da ag anghenion datblygu unigol staff bob tro.

Ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd, canfuom ddiffygion yn y broses ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella'r ysgol. Mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd, nid oedd arweinwyr wedi ailsefydlu eu hystod o weithgareddau sicrhau ansawdd ar ôl y cyfnod o aflonyddwch a achoswyd gan bandemig COVID-19 hyd yn hyn. Mewn ysgol arall, roedd diffyg ffocws yn y gweithgareddau sicrhau ansawdd cynhwysfawr ac, yn aml, roeddent yn canolbwyntio ar ddarpariaeth yn hytrach na chynnydd disgyblion. Yn y bedwaredd ysgol, roedd llawer o'r gwaith sicrhau ansawdd yn cael ei gynnal yn anffurfiol ac nid oedd yn cael ei gofnodi bob tro. O ganlyniad i'r diffygion hyn, nid oedd cynlluniau datblygu arweinwyr wedi'u seilio ar dystiolaeth gref, nid oeddent wedi nodi'r ychydig o feysydd a allai elwa ar ddatblygiad neu nid oeddent yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella deilliannau disgyblion.



Adroddiad sector

# Unedau cyfeirio disgyblion

2022-2023



## Darparwyr

**22**

Nifer o ddarparwyr 2023

## Disgyblion

**969**

Cyfanswm disgyblion

**857**

Cyfanswm disgyblion 2021-22

**886**

Cyfanswm disgyblion 2020-21

## Arolygiadau craidd

Nifer o arolygiadau craidd: **4**
Cyfrwng Cymraeg: **0**
Cyfrwng Saesneg: **4**

## Astudiaethau achos

Nifer o astudiaethau achos: **1**

## Gweithgarwch dilynol

Nifer o fewn y categori dilynol Medi 2022
MA: **0** GS: **0** AE: **0**

Nifer a dynnwyd allan 2022-23
MA: **0** GS: **0** AE: **0**

Nifer a roddwyd mewn categori dilynol yn 2022-2023
MA: **1** GS: **1** AE: **1**

Cyfanswm o fewn categori dilynol Awst 2023
MA: **1** GS: **1** AE: **1**

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-2023, cafodd 2,396 o ddisgyblion fynediad i ryw fath o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Y ddarpariaeth AHY a ddefnyddiwyd fwyaf oedd unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), gyda 49.8% o'r holl gofrestriadau AHY. Ers y pandemig, mae awdurdodau lleol yn crybwyll y bu cynnydd yn y cyfraddau atgyfeirio ar gyfer darpariaeth AHY. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gwasanaethau tiwtora awdurdodau lleol. Bu cynnydd hefyd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer disgyblion cynradd iau. Mae gan fwy o'r disgyblion sy'n cael eu hatgyfeirio anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl sylweddol, yn hytrach nag anghenion ymddygiadol, a oedd yn wir yn hanesyddol.

Yn gyffredinol, canfu arolygwyr fod UCDau yn gwneud cynnydd priodol tuag at gyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Roedd ehangder a chydbwysedd arlwy'r cwricwlwm ar draws UCDau yn briodol ac yn gwella. Roedd bron pob UCD wedi cryfhau ei hymagweddau darpariaeth gyfan at iechyd a lles emosiynol er mwyn ymateb i anghenion eu disgyblion.

Roedd gan lawer o'r disgyblion mewn UCDau gofnodion presenoldeb gwael o'u hysgolion blaenorol. Roedd gwella presenoldeb disgyblion mewn UCDau yn her o hyd a gwaethygwyd hyn gan y pandemig.

Er bod awdurdodau lleol yn disgwyl i ddisgyblion AHY fanteisio ar arlwy cwricwlwm amser llawn lle bo hynny'n briodol, roedd gormod o ddisgyblion yn cael mynediad at addysg ran-amser yn unig. Roedd gormod o ddisgyblion cynradd a disgyblion uwchradd iau yn aros mewn UCDau am gyfnod hirdymor. O ganlyniad, ychydig iawn o ddisgyblion oedd yn dychwelyd i'w hysgol brif ffrwd yn llwyddiannus.

Arolygwyd pedair UCD eleni. Roedd pob un ohonynt yn bodloni ystod eang o anghenion ac oedrannau disgyblion. Roedd un o'r UCDau yn darparu ar gyfer disgyblion cynradd hŷn a disgyblion uwchradd. Roedd dwy o'r UCDau yn bodloni anghenion disgyblion oed cynradd ac uwchradd. Yn olaf, roedd y bedwaredd UCD yn bodloni anghenion disgyblion uwchradd hŷn, hyd at ac yn cynnwys disgyblion 18 oed. Roedd dwy o'r UCDau yn rhai aml-safle ac roedd un ohonynt wedi'i leoli mewn ysbyty.

Yn ystod 2022-2023, cwblhaom adolygiad thematig hefyd ar Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Ymwelom ag wyth UCD ar gyfer yr adolygiad hwn.

# Addysgu a dysgu

Fe wnaeth mwyafrif y disgyblion gynnydd digonol o'u mannau cychwyn gwreiddiol. Fel yr adroddom y llynedd, roedd angen cymorth ychwanegol ar y rhan fwyaf o ddisgyblion o hyd ar gyfer eu lles emosiynol a'u hiechyd meddwl. Roedd problemau parhaus yn ymwneud â phresenoldeb yn her o hyd ac yn effeithio ar gynnydd disgyblion. Hefyd, roedd gormod o ddisgyblion yn cael mynediad at addysg ran amser yn unig.

Yn y pedair UCD a arolygwyd, er mwyn bodloni anghenion tra chymhleth disgyblion a oedd yn mynychu darpariaethau, mabwysiadodd arweinwyr ymagwedd hyblyg tuag at y cwricwlwm, gyda ffocws penodol ar les disgyblion. Roedd UCDau yn ystyried y ffordd orau i roi Cwricwlwm i Gymru ar waith, gan gynnwys arweiniad Cwricwlwm i Gymru ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) (Llywodraeth Cymru, 2021). Roedd hyn ar gamau datblygu amrywiol ac, yn gyffredinol, canfuom fod ansawdd ac effaith y gwaith hwn yn amrywiol dros ben.

Yn yr arfer fwyaf effeithiol, roedd gan arweinwyr a staff ymagwedd strategol tra ystyriol tuag at gynllunio'r cwricwlwm. O ganlyniad, roedd arlwy'r cwricwlwm yn cynnig profiadau dysgu eang a dwfn. Roedd hyn yn cefnogi dysgu, cynnydd, iechyd emosiynol ac anghenion therapiwtig disgyblion mewn modd ystyrlon. Roedd hefyd yn cefnogi pontio disgyblion i'w cyrchfan cynlluniedig nesaf yn dda. Fodd bynnag, roedd ehangder a chydbwysedd arlwy'r cwricwlwm i ddisgyblion cynradd a disgyblion uwchradd iau yn benodol, yn anghyson.

Roedd y cwricwlwm iechyd a lles mewn tua hanner yr UCDau yn datblygu'n addas. O ganlyniad, datblygwyd dealltwriaeth disgyblion o sut i gadw eu hunain yn ddiogel a gwneud dewisiadau gwybodus trwy ystod o weithgareddau gwerth chweil. Roedd UCDau hefyd yn canolbwyntio ar godi dyheadau disgyblion hŷn. Ym mhob un o'r UCDau, cryfhawyd hyn ymhellach trwy drefniadau gweithio ar y cyd ag asiantaethau allanol, er enghraifft y gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS).

Yn y gwersi mwyaf effeithiol, roedd athrawon yn cynllunio'n dda i ddarganfod diddordebau disgyblion ac ennyn eu diddordeb yn eu dysgu. Roedd athrawon yn defnyddio ystod o asesiadau gwerthfawr i gynllunio, olrhain a monitro cynnydd disgyblion.

Mewn dwy o'r pedair UCD, nid oedd cynllunio i ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Roedd diffyg cyfleoedd i ddefnyddio medrau'n gyson ar draws y cwricwlwm yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion. Roedd cynnydd o ran datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn rhy anghyson a chafwyd effaith benodol ar ddilyniant o ran datblygu medrau TGCh a Chymraeg. Fodd bynnag, yn UCD Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau, roedd datblygu a defnyddio medrau Cymraeg ar draws y cwricwlwm yn gryfder.

Lle'r oedd arfer yn gryf, roedd disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol buddiol trwy ystod o weithgareddau pwrpasol. At ei gilydd, fe wnaeth tua hanner y disgyblion gynnydd yn eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu, yn unol â'u hanghenion a'u mannau cychwyn.

Ym mhob un o'r UCDau, roedd perthnasoedd gwaith rhwng staff a disgyblion yn gryf. Roedd gan staff ddealltwriaeth werthfawr o anghenion disgyblion, yn enwedig o ran eu bregusrwydd a'u hanghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol a lles. Roedd staff yn fodelau rôl cadarnhaol ac yn cefnogi disgyblion yn fedrus i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Roeddent yn lleddfu achosion yn ymwneud ag ymddygiad yn effeithiol.

### Cynllunio profiadau dysgu i ennyn diddordeb, herio a chefnogi disgyblion yn Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau

Mae'r UCD hon yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Pobl Ifanc Gogledd Cymru. Mae staff yr UCD yn cynllunio'n greadigol ar gyfer ystod o brofiadau dysgu, sy'n alinio'n agos ag anghenion a diddordeb disgyblion a nodwyd yn glir. Mae'r profiadau hyn yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth, anghenion a medrau presennol disgyblion. Mae staff yn cefnogi a herio disgyblion yn effeithiol ac yn eu caniatáu i ymgysylltu â'u dysgu pan maent yn ddigon iach i fynychu'r UCD er mwyn gwneud y cynnydd gorau posibl.

### Datblygu medrau cymdeithasol effeithiol yn UCD Portffolio Sir y Fflint

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol effeithiol trwy ystod o weithgareddau pwrpasol. Mewn gwersi, maent yn gweithio'n dda ochr yn ochr â'i gilydd. Maent yn aros eu tro, yn chwarae gemau ac yn dathlu llwyddiannau ei gilydd. Yn ystod amseroedd egwyl, mae disgyblion yn chwarae campau tîm yn llwyddiannus ac yn ymdopi'n dda wrth ennill a cholli. Ar gyfer llawer o ddisgyblion, mae hyn yn cynrychioli cynnydd cryf o'u mannau cychwyn.

### Cefnogaeth ar gyfer medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn Tŷ Dysgu, Merthyr Tudful

Mae staff yn yr UCD yn darparu cymorth priodol i ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae staff yn defnyddio asesiadau lles i ddarparu gwybodaeth fanwl i gefnogi meysydd o angen sydd â blaenoriaeth ar gyfer pob disgybl unigol. Mae bron pob un o'r staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf â disgyblion ac yn deall eu hanghenion yn dda. Mae bron pob un o'r staff cymorth yn bodloni anghenion disgyblion mewn modd sensitif ac amserol. At ei gilydd, mae staff yn fodelau rôl cadarnhaol i ddisgyblion.

# Gofal, cymorth a lles

Ar draws pob un o'r UCDau a arolygwyd, roedd y perthnasoedd gwaith cryf roedd staff yn eu datblygu â'r disgyblion yn eu helpu i deimlo'n ddiogel, yn sicr a'u bod yn cael gofal da. Roedd ethos gofalgar timau staff a'u defnydd o ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cyfrannu'n effeithiol at les, ymgysylltiad a datblygiad personol disgyblion.

Ym mron pob un o'r UCDau, roedd trefniadau i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn glir ac roedd y rhan fwyaf o'r staff yn eu deall yn dda. Roedd staff yn hyrwyddo strategaethau ymddygiad gwerthfawr yn gyson. O ganlyniad, roedd ymddygiad disgyblion ar draws bron pob un o'r UCDau yn briodol. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, roedd llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran rheoli eu hymddygiad eu hunain trwy gefnogaeth ac ymyrraeth fedrus gan staff. Fodd bynnag, lle'r oedd presenoldeb disgyblion yn anghyson a'r defnydd o'r gallu i fanteisio ar drefniadau addysg rhan-amser ar waith yn rhy hir, roedd hyn yn effeithio ar gynnydd.

Roedd gan lawer o'r disgyblion a oedd yn mynychu'r UCDau gofnodion presenoldeb gwael o'u hysgolion blaenorol. Mewn tair o'r pedair UCD a arolygwyd, gwellodd presenoldeb lleiafrif o ddisgyblion tra'r oeddent yn yr UCD. Lle nad oedd disgyblion yn gallu manteisio ar addysg amser llawn am gyfnodau maith, roedd hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnaethant yn eu presenoldeb a'u dysgu.

Ar draws llawer o'r UCDau, ychydig iawn o ddisgyblion a oedd yn dychwelyd i'w ysgolion prif ffrwd. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer disgyblion cynradd a disgyblion uwchradd iau. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod ychydig iawn o ddisgyblion yn cael cyfleoedd i gynnal cysylltiadau gwerthfawr â'u hysgolion prif ffrwd. Roedd gormod o ddisgyblion yn aros mewn UCDau am gyfnodau rhy hir heb unrhyw gyfleoedd cynlluniedig i'w hailintegreiddio i'w hysgolion prif ffrwd.

Ar gyfer disgyblion uwchradd hŷn, roedd ffocws priodol ar fanteisio ar ystod o gymwysterau yn barod ar gyfer eu cyrchfannau nesaf. Roedd ehangder a chydbwysedd y llwybrau cymhwyster hyn yn amrywio. Yn gyffredinol, roedd cyrchfannau nesaf disgyblion wedi'u cynllunio'n dda ac roeddent yn cael cymorth ac arweiniad priodol gan yr UCD a Gyrfa Cymru. O ganlyniad, roedd nifer y disgyblion a oedd yn gadael UCDau ac nad oeddent yn ymgysylltu ag addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yn isel.

Mewn tair UCD, roedd y prosesau i olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn anghyson. Lle'r oedd arfer yn effeithiol, roedd prosesau wedi'u hen sefydlu ac wedi'u teilwra i anghenion disgyblion. Arweiniodd y prosesau hyn at gynllunio effeithiol ar gyfer dilyniant ym medrau disgyblion, gan alluogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mewn dwy o'r UCDau, nid oedd prosesau i nodi a phennu targedau disgyblion unigol ar gyfer eu cynlluniau addysg neu ddatblygu unigol (CAUau/CDUau) wedi'u datblygu'n ddigonol. Lle'r oedd arfer yn effeithiol, roedd proffiliau un-dudalen, rhaglenni a thargedau unigol i helpu staff i gefnogi disgyblion â'u dysgu a'u hymddygiad ar waith yn gadarn. Yn yr UCDau hyn, roedd staff yn adolygu cynnydd disgyblion yn gadarn tuag at fodloni'r targedau hyn.

Roedd hanner yr UCDau a arolygwyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr a rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau llais y disgybl. O ganlyniad, datblygodd disgyblion ymdeimlad o berchenogaeth dros eu dysgu a'u hymddygiad, ymresymu a medrau arweinyddiaeth a oedd yn briodol i'w galluoedd a'u hoedrannau.

### Defnydd effeithiol o bolisi ymddygiad yn Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau

Mae UCD Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau wedi'i chyd-leoli â darpariaeth ysbyty Gwasanaeth Pobl Ifanc Gogledd Cymru. Mae staff yn yr UCD yn rhoi'r polisi ymddygiad ar waith yn gyson ac yn cofnodi digwyddiadau'n briodol, ar y cyd â chydweithwyr iechyd sydd wedi'u lleoli yn narpariaeth yr ysbyty. Mae prosesau i fonitro digwyddiadau a nodi patrymau a thueddiadau yn gadarn ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd fel rhan o gyfarfodydd tîm dyddiol ac i lywio cynllunio. Mae'r UCD yn dangos y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud mewn perthynas â'u hymddygiad yn glir wrth gynllunio cyfleoedd iddynt ddychwelyd i'w darpariaeth brif ffrwd.

### Cyfathrebu â rhieni a gofalwyr gan Canolfan Ddysgu Glanynant, Caerffili

Mae staff yn yr UCD yn cysylltu â rhieni a gofalwyr yn rheolaidd. Mae'r athro â gofal, ynghyd â gweithwyr proffesiynol perthnasol, yn meithrin perthnasoedd buddiol â rhieni a gofalwyr trwy gynnal llinellau cyfathrebu effeithiol. Mae'r prosiect magu plant sydd wedi'u hen sefydlu yn cefnogi rhieni'n dda. Mae staff yr UCD a'r tîm seicoleg addysg yn darparu strategaethau gwerthfawr i gynorthwyo rhieni i ddeall a rheoli ymddygiad eu plant gartref. Dywed rhieni bod hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng yr UCD a'r cartref ac yn cynorthwyo staff a rhieni i gydweithio â'i gilydd i gefnogi dysgu.

Roedd cyfathrebu â rhieni a gofalwyr ar draws pob un o'r UCDau yn gryf. Roedd staff yn darparu gwybodaeth bwrpasol trwy ystod o ddulliau ac amlderau i roi'r gefnogaeth orau i rieni a sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth drwyadl am eu plentyn.

Ym mhob un o'r UCDau a arolygwyd, roedd gweithio mewn partneriaeth yn gadarn. Roedd pob UCD yn cydweithio ag ystod o asiantaethau, fel yr heddlu cymunedol lleol, gweithwyr proffesiynol iechyd, Gyrfa Cymru, y gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) a'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y trefniadau gwaith amlasiantaeth yn cefnogi ymagwedd gydgysylltiedig i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd yn dda.

Mewn tair o'r UCDau, roedd diwylliant diogelu cadarn. Roedd staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir ac yn dilyn eu gweithdrefnau diogelu yn briodol. O ganlyniad, yn yr UCDau hyn, roedd trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion.

# Arwain a gwella

Mewn dwy o'r UCDau a arolygwyd, roedd gan arweinwyr weledigaeth ac ethos clir ar gyfer eu UCD. Roedd y rhain yn cael eu cyfleu'n glir i'r holl staff. O ganlyniad, roedd staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Roedd arweinwyr yn cydweithio'n fuddiol â'r awdurdod lleol i sicrhau gwelliant parhaus.

Roedd prosesau hunanwerthuso yn gadarn mewn un o'r pedair UCD a arolygwyd. Roedd system gref o brosesau sicrhau ansawdd wedi'i hen sefydlu. O ganlyniad, roedd gan arweinwyr ddealltwriaeth fanwl gywir o gryfderau'r UCD a'i meysydd i'w datblygu. Mewn un o'r UCDau, er bod y pennaeth yn newydd i'r swydd, roedd uwch arweinwyr wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn brydlon, gyda staff yn cyfrannu at y broses. Nid oedd prosesau hunanwerthuso wedi'u datblygu'n ddigonol mewn tair o'r UCDau. At ei gilydd, nid oedd deilliannau gweithgareddau hunanwerthuso yn cael eu defnyddio'n ddigon da gan arweinwyr i nodi diffygion yn gywir.

At ei gilydd, roedd ystod ac ansawdd y cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff yn rhy amrywiol. Lle'r oedd arfer yn gryf mewn un o'r UCDau, roedd pwyslais cadarn ar wella medrau staff yn amlwg. Roedd gan arweinwyr yn yr UCD ddealltwriaeth fanwl gywir o gryfderau staff ac roeddent yn darparu cyfleoedd perthnasol a rheolaidd i staff ddatblygu eu medrau'n unol â phrosesau hunanwerthuso.

Mewn tair o'r UCDau a arolygwyd, roedd angen cryfhau rôl y pwyllgor rheoli ymhellach i sicrhau ansawdd gwaith yr UCD yn effeithiol. Roedd y berthynas waith â gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol yn amrywio. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, roedd partneriaid gwella ysgolion yn adnabod yr UCD yn dda. Roeddent yn deall ystod anghenion y disgyblion, yn cynnig cymorth ac arweiniad cwricwlaidd buddiol ac yn cydweithio'n dda ag arweinwyr a staff.

### Prosesau sicrhau ansawdd effeithiol yn Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau

Mae'r athro mewn gofal wedi sefydlu system gadarn o brosesau sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau dysgu, craffu ar lyfrau a monitro fforensig wythnosol o'r offeryn olrhain gweithrediad iechyd meddwl mewn addysg (MHFE) ar gyfer pob disgybl. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth fanwl gywir o gryfderau'r UCD a'i meysydd i'w gwella.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cryf o fyfyrio a chydweithio, sy'n cefnogi staff i werthuso eu harfer a nodi sut gallent wneud gwelliannau.

Caiff rolau a chyfrifoldebau staff eu dosbarthu'n hynod effeithiol i fanteisio i'r eithaf ar fedrau unigol ar draws yr UCD. Mae athrawon a staff cymorth yn ysgwyddo cyfrifoldeb am wahanol agweddau ar waith yr UCD, er enghraifft meysydd dysgu a phrofiad, dulliau sy'n ystyriol o drawma, gwaith therapiwtig â chydweithwyr iechyd, a datblygu medrau iaith Gymraeg dysgwyr. Mae hyn yn golygu bod gan yr holl staff ymdeimlad clir o gydweithio â'i gilydd i sbarduno gwelliant.

# Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2021) Cwricwlwm i Gymru: Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein] Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-ahy/ [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Adroddiad sector

# Colegau arbenigol annibynnol

2022-2023



**Darparwyr**

**7**

Nifer o ddarparwyr 2023

**Arolygiadau craidd**

Nifer o arolygiadau craidd: **5**
Cyfrwng Cymraeg: **0**
Cyfrwng Saesneg: **5**

**Astudiaethau achos**

Nifer o astudiaethau achos: **2**

Yn ystod 2022-2023, roedd colegau arbenigol annibynnol yn parhau i ddarparu cymorth addysg a lles i ddysgwyr ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol (ADY). At ei gilydd, canfuom fod gan y darparwyr hyn ddealltwriaeth gref o anghenion eu dysgwyr a'u bod yn eu cynorthwyo i ddatblygu medrau pwysig, fel medrau cymdeithasol ac annibyniaeth, yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Fodd bynnag, roedd ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol ar draws y sector hwn ac, yn aml, roedd wedi'i gyfyngu gan ofynion achrediadau neu orddibyniaeth ar daflenni gwaith.

Roedd hwn yn gyfnod o newid ar draws y sector. Ym mhob un o'r pum coleg a arolygwyd yn ystod y flwyddyn academaidd, bu newidiadau nodedig yn eu harweinyddiaeth ers eu harolygiad neu ymweliad monitro diweddaraf. Yn fwy cyffredinol, bu newidiadau o ran arweinyddiaeth ym mhob un o'r colegau arbenigol annibynnol ers dechrau pandemig COVID-19.

Yn ogystal â'r newidiadau mewnol hyn, roedd colegau arbenigol annibynnol yn ymwybodol o newidiadau allanol sylweddol. Er enghraifft, mae'r cyfrifoldeb dros ddyrannu cyllid ar gyfer lleoliadau yn y colegau hyn yn symud o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, yn unol â diwygio ADY.

Yn gyffredinol, adroddodd colegau fod effaith pandemig COVID-19 wedi parhau i leihau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd rhai heriau o hyd, er enghraifft o ran ailfeithrin perthnasoedd â darparwyr lleoliadau profiad gwaith. Yn ogystal, adroddodd colegau arbenigol annibynnol fod proffiliau'r dysgwyr sy'n cael eu hatgyfeirio iddynt yn dod yn fwy cymhleth, ar y cyfan, yn rhannol oherwydd effaith y pandemig ar ddatblygiad dysgwyr unigol.

## Addysgu a dysgu

At ei gilydd, fe wnaeth llawer o ddysgwyr yn y pum coleg arbenigol annibynnol ar arolygwyd yn ystod 2022-2023 gynnydd cyson yn eu dysgu. Canfu arolygwyr fod llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf, yn gyffredinol, o ran datblygu medrau cyfathrebu, cymdeithasol a medrau byw'n annibynnol. Fe wnaeth llawer o ddysgwyr gynnydd cadarn o ran datblygu medrau creadigol, corfforol a medrau byw'n annibynnol. Ar draws y colegau a arolygwyd, lle'r oedd yn briodol, cyflawnodd llawer o ddysgwyr ystod o unedau achredu, er enghraifft mewn medrau llythrennedd neu fedrau byw'n annibynnol. Fodd bynnag, mewn tair o'r pum coleg, rhwystrwyd cynnydd dysgwyr gan bresenoldeb gwael.

Canfu arolygwyr fod pob un o'r pum coleg a arolygwyd yn cynnig cwricwlwm eang i'w dysgwyr. Roedd tri o'r colegau hyn yn defnyddio eu hadeiladau a'u tir yn dda i ddarparu gweithgareddau pwrpasol ac ymarferol i ddysgwyr. Er enghraifft, roedd dysgwyr yn gofalu am eifr y coleg, yn gweini cwsmeriaid yng nghaffi'r coleg ac yn cyfrif enillion siop y coleg. Roedd tri o'r pum coleg yn ychwanegu at arlwy'r cwricwlwm gydag ystod o weithgareddau difyr a buddiol yn y gymuned. Er enghraifft, roedd dysgwyr yn manteisio ar hwb lles yr awdurdod lleol i ddefnyddio'r ystafell synhwyraidd neu gymryd rhan mewn gwersi gwaith crosio. Mewn tri o'r pum lleoliad, yn rhannol oherwydd effaith pandemig COVID-19, roedd ystod gyfyngedig o weithgareddau yn y gymuned neu weithgareddau'n gysylltiedig â gwaith ar gael.

Mewn pedwar o'r colegau, roedd staff yn meithrin perthnasoedd cryf a gofalgar â dysgwyr, wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a chyd-barch. Mewn tri choleg, roedd staff yn ymwreiddio arferion defnyddiol yn niwrnod y coleg i gynorthwyo dysgwyr i bontio rhwng gweithgareddau a datblygu eu hannibyniaeth. Roedd yr aelodau staff hyn yn rhoi canmoliaeth anogol ac adborth llafar defnyddiol i ddysgwyr i symud eu dysgu yn ei flaen. Mewn tri o'r colegau, canfu arolygwyr fod staff yn rhoi cyfarwyddiadau clir i ddysgwyr ac yn defnyddio holi'n effeithiol i ddatblygu gallu dysgwyr i alw dysgu blaenorol i gof.

Fodd bynnag, mewn pedwar o'r pum coleg, roedd ansawdd yr addysgu'n rhy amrywiol. Lle'r oedd addysgu'n llai llwyddiannus, nid oedd yn cyfateb yn ddigon da i anghenion dysgwyr. Mewn tri choleg, canfu arolygwyr fod y cwricwlwm ac addysgu wedi'u cyfyngu'n ormodol gan ofynion achrediadau neu orddibyniaeth ar daflenni gwaith. At ei gilydd, nid oedd darpariaeth i wella medrau dysgwyr wedi'i datblygu'n ddigonol ym mhob un o'r pum coleg.

Roedd pob un o'r colegau'n defnyddio ystod briodol o strategaethau i asesu cynnydd dysgwyr, roedd y prosesau hyn newydd gael eu diwygio mewn dau o'r colegau. Nid oedd tri choleg yn defnyddio gwybodaeth felly am gynnydd dysgwyr yn gyson i lywio eu cynllunio.


### Digwyddiadau cyfoethogi yng Ngholeg Plas Dwbl, Sir Benfro

Roedd y coleg yn cynllunio dathliadau a digwyddiadau rheolaidd a oedd yn cyfoethogi arlwy craidd y cwricwlwm, er enghraifft trwy wyliau tymhorol, fel gŵyl Martinmas, lle'r oedd yr holl ddysgwyr yn gwneud ac yn goleuo eu llusernau eu hunain. Roedd y coleg yn darparu amgylchedd i ddysgwyr sy'n cydnabod ac yn dathlu ei gyd-destun a diwylliant Cymreig penodol, er enghraifft trwy baratoadau ar gyfer perfformiad y coleg o 'Y Mabinogi'.

## Gofal, cymorth a lles

Roedd pob un o'r pum coleg a arolygwyd eleni wedi datblygu cymunedau meithringar yn llwyddiannus, gyda ffocws cryf ar ddysgwyr. Ym mhob un o'r colegau, roedd gan staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion dysgwyr a oedd wedi'i thanategu gan y coleg yn mabwysiadu arlwy therapiwtig. Er enghraifft, roedd pob un o'r colegau'n elwa ar gymorth gan therapydd iaith a lleferydd i roi arweiniad ar fodloni anghenion cyfathrebu dysgwyr.

Roedd pob coleg wedi defnyddio ystod o wybodaeth bwysig am anghenion dysgwyr i ddatblygu cynlluniau gofal a chymorth cynhwysfawr. Lle y defnyddiwyd y rhain yn effeithiol, roedd gan staff ddealltwriaeth glir o sut i fodloni'r ystod eang o anghenion eu dysgwyr. Fodd bynnag, mewn dau o'r pum coleg, ni roddwyd y cynlluniau hyn ar waith yn gyson. Roedd gan bedwar coleg brosesau pontio priodol ar waith i gefnogi dysgwyr a oedd i fod i ymuno â'r coleg, yn ogystal â'r rhai a oedd yn paratoi i ymadael.



Yn gyffredinol, roedd llawer o ddysgwyr yn mwynhau mynd i'r coleg. Roeddent yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol ag aelodau staff ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Roedd llawer o ddysgwyr yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau allgyrsiol, fel clybiau a gweithgareddau yn y gymuned. Er enghraifft, roedd dysgwyr yn mynychu clwb gwaith coed ar ôl coleg ac yn mynd i siopa i baratoi ar gyfer sesiynau coginio. Fe wnaeth llawer o ddysgwyr gynnydd cadarn mewn meysydd pwysig, fel datblygu eu hannibyniaeth a'u medrau cymdeithasol. Fodd bynnag, ar gyfer tri o'r pum coleg, roedd presenoldeb dysgwyr yn faes i'w ddatblygu.

Ym mhob un o'r pum coleg, datblygodd dysgwyr ddealltwriaeth o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ac yn iach, er enghraifft trwy ddysgu am fwyta'n iach a pherthnasoedd iach. Fodd bynnag, roedd y ddarpariaeth hon yn anghyson ar draws y colegau. Mewn rhai achosion, nid oedd yn ymdrin â phynciau pwysig fel radicaleiddio ond, mewn colegau eraill, nid oedd cynlluniau dysgu'n cael eu haddasu'n ddigon da i fodloni anghenion pob dysgwr.

Roedd gan bob un o'r pum coleg dimau staff a oedd yn dangos dealltwriaeth gref o'u rôl o ran cadw dysgwyr yn ddiogel. Roedd tri choleg wedi datblygu prosesau hynod effeithiol yn y maes hwn. Fodd bynnag, cafodd dau o'r colegau a arolygwyd lythyr lles gan Estyn oherwydd pryderon penodol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch neu ddiogelu.

### Datblygu annibyniaeth dysgwyr yng Ngholeg Aspris Gogledd Cymru, Wrecsam

Roedd darpariaeth y coleg i ddatblygu medrau cymdeithasol, annibyniaeth a medrau byw'n annibynnol yn gryfder. Er enghraifft, lle y bo'n briodol, cynorthwywyd mwyafrif y dysgwyr yn dda i ddatblygu medrau perthnasol mewn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn annibynnol ac yn hyderus.

Darparodd y coleg ystod bwrpasol o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu hannibyniaeth a'u medrau gwaith trwy ymgymryd â phrofiad allanol perthnasol yn gysylltiedig â gwaith. Er enghraifft, roedd dysgwyr yn elwa ar leoliadau gwaith mewn cyndai cŵn, ffatrïoedd cyfagos neu yn yr amgueddfa leol.

## Arwain a gwella

Er gwaethaf y cyd-destun heriol a'r ansefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth ar draws y sector, mewn tri o'r pum coleg a arolygwyd, roedd arweinwyr wedi gosod gweledigaeth glir ar gyfer y coleg, yr oedd aelodau staff yn ei deall yn dda. Roedd gan bob un o'r colegau a arolygwyd ffocws cryf ar ddiogelu ac roeddent yn datblygu diwylliant diogelu cadarnhaol. Roedd tri o'r colegau hefyd yn cynnig cymorth gofalgar i'w haelodau staff, er enghraifft trefniadau cymorth lles ac ariannol gwerthfawr, ochr yn ochr â rhaglenni cymorth ehangach i gyflogeion. Mewn tri choleg, gweithiodd arweinwyr newydd yn ddiwyd i wneud gwelliannau cyflym. Fodd bynnag, at ei gilydd, fe wnaeth pob un o'r pum coleg a arolygwyd gynnydd araf neu anghyson yn erbyn yr argymhellion o'u harolygiadau a'u hymweliadau monitro diweddaraf.



Roedd llawer o brosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant y colegau newydd eu sefydlu mewn pedwar o'r colegau a arolygwyd. Roedd uwch arweinwyr mewn dau goleg yn defnyddio data'n effeithiol i werthuso gwaith eu colegau. Fodd bynnag, mewn tri choleg, nid oedd uwch arweinwyr yn gwerthuso'r gwaith hwn ar lefel coleg cyfan. Yn rhy aml, roedd gwaith yn y maes hwn yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth ac nid oedd yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith addysgu ar ddysgu.

Mae pob un o'r pum coleg a arolygwyd yn ystod y flwyddyn academaidd hon yn rhan o sefydliadau ehangach sy'n cynnig addysg neu ofal i ddysgwyr ledled Cymru a Lloegr. Roedd pob un o arweinwyr y colegau yn elwa ar ystod o gymorth a gwasanaethau gan y sefydliadau ehangach hyn. Er enghraifft, roeddent yn cael cymorth â recriwtio mwy diogel, sicrhau ansawdd a llywodraethu, yn ogystal ag agweddau gweithredol fel TGCh. Fodd bynnag, mewn pedwar o'r colegau, nid oedd y cymorth a'r arweiniad hwn yn rhoi ystyriaeth ddigon da i gyd-destun Cymreig penodol y coleg nac yn rhoi digon o ystyriaeth i arweiniad Llywodraeth Cymru.

Roedd pob un o’r colegau a arolygwyd yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff, yn arbennig o ran ADY dysgwyr, fel anghenion dysgwyr sydd â chyflwr ar y sbectrwm awtistig neu’r rhai sydd wedi cael profiad o drawma. Fodd bynnag, mewn pedwar lleoliad, nid oedd y cyfleoedd hyn yn canolbwyntio’n ddigon effeithiol ar addysgu a dysgu, ac nid oedd trefniadau pedwar lleoliad i ddysgu o arfer dda mewn mannau eraill wedi’u datblygu’n ddigonol.

Ers eu harolygiad neu eu hymweliad diwethaf, roedd dau goleg wedi gwneud gwelliannau i’w hadnoddau a’u hamgylcheddau dysgu. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, roedd angen i dri o’r pum lleoliad a arolygwyd wneud gwelliannau yn yr agweddau hyn.



Adroddiad sector

# Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

2022-2023



## Darparwyr

**22**

Nifer o ddarparwyr 2023

## Arolygiadau craidd

Nifer o arolygiadau craidd: **4**
Cyfrwng Cymraeg: **2**
Cyfrwng Saesne: **2**

## Astudiaethau achos

Nifer o astudiaethau achos: **2**

## Gweithgarwch dilynol

Nifer o fewn y categori dilynol Medi 2022
AAPS: **3**

Nifer a dynnwyd allan 2022-23
AAPS: **2**

Nifer a roddwyd mewn categori dilynol yn 2022-2023
AAPS: **0**

Cyfanswm o fewn categori dilynol Awst 2023
AAPS: **1**

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys y rhai sy'n cael eu darparu neu eu comisiynu gan un awdurdod lleol, yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill. Caiff gwasanaethau gwella ysgolion eu darparu ar y cyd â chonsortia rhanbarthol, yn bennaf, neu drwy bartneriaethau ar ran awdurdodau lleol, er bod y model ar gyfer sut mae hyn yn gweithio yn amrywio ledled Cymru. Mae 22 o awdurdodau lleol ledled Cymru.

Cyflawnodd ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol eu gwaith arferol ag awdurdodau lleol. Addasom ein hymagwedd at ymweliad yr arolygydd cyswllt â chonsortia rhanbarthol trwy ganolbwyntio ar agwedd benodol yn ystod tymor yr hydref a thymor yr haf. Roedd hyn yn ein galluogi i ystyried eu hymagweddau at werthuso a gwella yn fanylach.

Yn ystod 2022-2023 ac yn enwedig yn ystod tymor yr hydref, bu'n rhaid i wasanaethau addysg llywodraeth leol ymateb i lawer o heriau a oedd yn parhau ar ôl pandemig COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys absenoldebau staff a disgyblion a achoswyd gan achosion lleol o COVID-19. Yn ogystal, bu'n rhaid i swyddogion awdurdodau lleol gynorthwyo ysgolion â phroblemau ychwanegol o ran ymddygiad a phresenoldeb y tu hwnt i'r hyn a oedd yn arferol cyn y pandemig. Bu ychydig o awdurdodau lleol yn araf wrth ailgydio yn eu goruchwyliaeth flaenorol o bresenoldeb, ac mae awdurdodau lleol eraill sydd wedi ailddechrau eu harferion cyn-COVID wedi gweld gwelliannau o ran lefelau presenoldeb. Yn gyffredinol, parhaodd absenoldebau disgyblion, yn enwedig ymhlith y rhai o gyd-destunau sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn ystyfnig o uchel. Roedd prosesau awdurdodau lleol i fonitro, gwerthuso a sicrhau ansawdd eu gwaith yn wendid cyffredinol. Arweiniodd hyn at argymhellion ym mhob un o'r pedwar arolygiad a gynhaliwyd. Roedd prosesau i sicrhau ansawdd a chynorthwyo i wella addysg mewn darpariaeth heblaw yn yr ysgol (AHY) yn ddiffyg mewn lleiafrif o awdurdodau lleol. Roedd pob awdurdod lleol yn cydnabod heriau cynnal lefelau eu gwasanaethau yng ngoleuni toriadau cyllidol arfaethedig.

## Arolygiadau

Rhwng mis Medi 2022 a mis Gorffennaf 2023, cynhaliom bedwar arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol. Gofynnwyd i ddau awdurdod lleol lunio astudiaethau achos yn amlinellu arfer effeithiol mewn agweddau ar eu gwaith. Gofynnwyd i awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf lunio astudiaeth achos yn canolbwyntio ar ei ddefnydd cryf o ddata a gwybodaeth, a gofynnwyd i awdurdod lleol Gwynedd lunio astudiaeth achos ar gefnogi disgyblion ag addysg dysgu ychwanegol (ADY) trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Deilliannau a gwasanaethau addysg

Ym mhob arolygiad, parhaom i werthuso pa mor dda roedd awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion i wella. Ym mhob un o'r awdurdodau lleol a arolygwyd y llynedd, canfuom fod perthnasoedd gwaith wedi'u hen sefydlu â'u gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol. Yn gyffredinol, roedd gan dri o'r pedwar awdurdod lleol drosolwg addas o'u hysgolion a defnyddiwyd y wybodaeth a roddwyd iddynt gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion yn briodol. Helpodd hyn swyddogion awdurdodau lleol i ymyrryd a chynnig cymorth ar ôl nodi ysgolion oedd yn peri pryder iddynt.

Yn Rhondda Cynon Taf, adeg yr arolygiad, roedd un ysgol gynradd yr oedd angen mesurau arbennig arni ac nid oedd angen gweithgarwch dilynol ar unrhyw ysgol uwchradd nac ysgol pob oed. Canfuom fod gan yr awdurdod lleol ddisgwyliadau clir ac uchel o waith ei wasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a'i fod yn ei herio'n dda i wella llawer o agweddau ar ei waith. Roedd arweinwyr yn cynnig her gadarn ac amserol o ran effeithiolrwydd gwaith partneriaid gwella ac yn gofyn i bob partner gwella gasglu ystod o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth yn eu hysgolion. Fodd bynnag, nid oedd ansawdd y cymorth i ysgolion wedi gwella'n ddigon cyflym.

Ym Mlaenau Gwent, nid oedd unrhyw ysgolion cynradd na lleoliadau nas cynhelir yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt ar ôl arolygiad. At ei gilydd, roedd yr awdurdod lleol a'i wasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol wedi darparu cymorth defnyddiol i alluogi ysgolion cynradd targedig i wella. Fodd bynnag, mewn un ysgol uwchradd ac un ysgol pob oed, ni nododd swyddogion ddiffygion pwysig yn ddigon cyflym. O ganlyniad, bu cyflymdra'r gwelliant mewn dwy o'r ysgolion hyn yn rhy araf.

Yng Ngwynedd, ni farnwyd bod angen unrhyw weithgarwch dilynol ar unrhyw ysgolion a arolygwyd o fis Chwefror 2022 hyd at adeg yr arolygiad llywodraeth leol. Canfuom fod swyddogion yr awdurdod lleol a swyddogion rhanbarthol yn gweithio'n gynhyrchiol â'i gilydd a bod ganddynt wybodaeth gyffredinol gref am eu hysgolion. Roedd swyddogion yn trafod cryfderau a meysydd i'w gwella mewn ysgolion yn rheolaidd ac yn blaenoriaethu cymorth yn briodol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid oedd ymyrraeth a chymorth yn ddigon amserol ac nid oeddent yn arwain at welliant digonol yn yr ysgolion hyn.

### Cydweithio effeithiol i deilwra systemau a phrosesau i anghenion Rhondda Cynon Taf

Mae uwch arweinwyr yn Rhondda Cynon Taf yn cyfleu eu blaenoriaethau ar gyfer gwella ysgolion yn glir, fel yr amlinellir yn y cynllun strategol addysg cyfredol. Mae uwch arweinwyr a swyddogion yn cydweithio'n rhagweithiol â'r consortiwm rhanbarthol i deilwra systemau a phrosesau i anghenion yr awdurdod lleol. Er enghraifft, maent yn rhoi adborth manwl ar addasrwydd prosesau adrodd o ran rhannu gwybodaeth am y cymorth a'r her y mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn eu cynnig i bob ysgol ac UCD. O ganlyniad, erbyn hyn, mae gofynion penodol i bartneriaid gwella adrodd ar effeithiolrwydd prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ysgol neu UCD, yn ogystal ag ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth.



Yn Sir Gâr, barnwyd bod angen gweithgarwch dilynol statudol ar ddwy ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd ers i ni ailddechrau arolygiadau ym mis Chwefror 2022. Canfuom fod gan swyddogion drosolwg addas o gryfderau a meysydd i'w gwella yn eu hysgolion cynradd. Roeddent yn gweithio'n rhagweithiol â'r ysgolion hyn ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, yn gyffredinol. Yn yr achosion gorau, roedd swyddogion yn brocera cymorth effeithiol a rheolaidd a oedd yn arwain at welliant cryf. Fodd bynnag, roedd y cymorth ar gyfer ysgolion uwchradd yn yr awdurdod lleol hwn yn rhy amrywiol. Nid oedd Ymgynghorwyr Cymorth Addysg yn nodi meysydd i'w gwella mewn ysgolion uwchradd yn ddigon cyflym ac nid oeddent yn ymyrryd yn llwyddiannus bob tro. Yn ogystal, nid oedd prosesau sicrhau ansawdd wedi bod yn ddigon cadarn i sicrhau effeithiolrwydd gwaith yr holl swyddogion dros amser.

Lle'r oedd prosesau gwella ysgolion yn llai effeithiol, roedd hyn yn gyffredinol oherwydd nad oedd swyddogion yn monitro cynnydd yn ddigon gofalus nac yn sicrhau bod partneriaid gwella ysgolion yn gosod meini prawf llwyddiant digon manwl a phenodol y gellid mesur cynnydd yn eu herbyn. Nodom hefyd fod cymorth ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn amrywio a chafodd tair o'r pedair UCD a arolygom yn ystod 2022-2023 eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol statudol.

Yn ystod y flwyddyn, ystyriom pa mor dda roedd awdurdodau lleol yn ceisio darparu profiadau addysg cyfartal i blant sy'n byw mewn tlodi. Yn gyffredinol, canfuom fod pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i wella deilliannau i bob unigolyn ifanc, ac roedd arweinwyr yn canolbwyntio ar sut gall gwasanaethau wella darpariaeth i liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Yn gyffredinol, roedd gan awdurdodau lleol brosesau priodol ar gyfer nodi disgyblion bregus gan ddefnyddio ystod addas o wybodaeth. Roedd y wybodaeth hon yn helpu gwasanaethau i flaenoriaethu cymorth i ddisgyblion a phobl ifanc ar draws yr awdurdod.

Ym Mlaenau Gwent, canfuom fod swyddogion yn cydweithio'n dda â'i gilydd, ar draws cyfarwyddiaethau, ar faterion yn ymwneud â threchu tlodi ac yn sicrhau eu bod yn targedu eu hadnoddau at yr angen mwyaf. Roedd hyn yn cynnwys gweithio'n dda ag asiantaethau allanol ac ysgolion. Canfuom hefyd fod swyddogion yn gweithio'n gadarnhaol i sicrhau bod ysgolion yn gwario eu grant datblygu disgyblion yn addas ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am dargedu adnoddau lle maent yn debygol o gael yr effaith orau. Aeth yr awdurdod lleol hwn y tu hwnt i ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer prydau ysgol am ddim i bawb trwy eu darparu ar gyfer pob disgybl hyd at Flwyddyn 2.

Yn Rhondda Cynon Taf, ystyriom ba mor dda roedd yr awdurdod lleol yn gweithio â'i gymunedau i gefnogi disgyblion bregus. Canfuom fod ganddo ddealltwriaeth gref o anghenion dysgwyr unigol a'i fod yn nodi bregusrwydd yn dda. Roedd swyddogion yn gallu manteisio ar ystod eang o ddata a gwybodaeth ac yn eu defnyddio'n dda i dargedu cymorth i ddisgyblion a phobl ifanc. Er enghraifft, roeddynt yn defnyddio data presenoldeb yn effeithiol wrth ymweld ag ysgolion.

Canolbwyntiodd swyddogion yn Rhondda Cynon Taf yn dda ar gefnogi plant a'u teuluoedd cyn iddynt gyrraedd oedran ysgol statudol. Roedd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer iaith a lleferydd a chyflwyno teuluoedd i'r rhaglenni cymunedol un i un sydd ar gael. Roedd gwasanaethau ieuenctid yn yr awdurdod lleol hwn yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion a chymunedau. Roeddent yn targedu eu gwaith at yr ardaloedd â'r anghenion mwyaf ac, yn benodol, yn darparu cymorth cryf i'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Yn Sir Gâr, canfuom fod gan swyddogion ddealltwriaeth gref o anghenion pobl ifanc yn eu hawdurdod lleol. Yn ogystal, roedd polisi clir ar gyfer cynorthwyo pobl ifanc i wella eu presenoldeb a'u hymddygiad, wedi'i sylfaenu â'r nod o sicrhau tegwch i bob unigolyn ifanc gyflawni ei orau. At ei gilydd, roedd yr awdurdod lleol yn cynnig cymorth defnyddiol i ysgolion a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi cael effaith ddigon cryf ar wella lefelau presenoldeb i bob disgybl bregus.

Yng Ngwynedd, canolbwyntiom ar y ffordd yr oedd yr awdurdod lleol yn bodloni anghenion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Roedd yr awdurdod lleol hwn wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cryfhau gwasanaethau cymorth ymddygiad ac roedd prosesau wedi gwella'n addas dros gyfnod. Canfuom fod ystod yr ymyriadau sydd ar gael i gynorthwyo disgyblion i wella eu hymddygiad yn briodol, ar y cyfan. Roedd staff ar draws yr awdurdod yn gweithio'n dda i ddarparu ystod eang o brofiadau cwricwlaidd a oedd yn ennyn diddordeb disgyblion targedig yn dda ac yn eu helpu i gael profiadau cadarnhaol o fywyd ysgol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oedd y gwerthusiad o effaith y cymorth a ddarperir gan ganolfannau arbenigol yn ddigon cryf. O ganlyniad, nid oedd teilwra darpariaeth ar gyfer yr ystod eang o anghenion yn ddigon effeithiol bob tro.

Cyhoeddom adroddiad thematig ym mis Mehefin 2023 a oedd yn ystyried profiad cwricwlwm disgyblion sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Yn yr adroddiad hwn, canfuom yn yr enghreifftiau gorau fod awdurdodau lleol yn cydweithio ag ysgolion i fod â chynllun clir i ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth AHY ddychwelyd i addysg brif ffrwd sy'n amserol ac yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd disgyblion sy'n mynychu darpariaeth AHY yn aros yno'n rhy hir. Nid oedd awdurdodau lleol yn gwerthuso ansawdd darpariaeth y cwricwlwm mewn AHY yn ddigon da. Roedd gormod o awdurdodau lleol nad oeddynt yn nodi'n glir hyd disgwyliedig lleoliadau i ddisgyblion mewn darparwyr AHY. Yn ogystal, nid oedd prosesau adolygu ar gyfer lleoliadau disgyblion mewn darparwyr AHY wedi'u datblygu'n ddigonol mewn llawer o awdurdodau lleol.

# Arwain a gwella

Ym mhob awdurdod lleol a arolygwyd rhwng mis Medi 2022 a mis Gorffennaf 2023, rhoddodd arweinwyr flaenoriaeth uchel i wella deilliannau i blant a phobl ifanc. Yn aml, adlewyrchwyd hyn yng nghynlluniau corfforaethol ac ariannol yr awdurdodau lleol unigol.

Yn Rhondda Cynon Taf, roedd arweinyddiaeth ar bob lefel yn effeithiol, ar y cyfan. Yn yr awdurdod lleol hwn, roedd gan uwch arweinwyr ac aelodau etholedig ddealltwriaeth gref o weledigaeth a gwaith y gyfarwyddiaeth addysg ac roedd swyddogion ac aelodau'n cydweithio â'i gilydd yn fwriadus i nodi a mynd i'r afael ag agweddau pwysig ar eu gwaith. Roedd arweinwyr a swyddogion yn gwneud defnydd cryf o ddata i lywio eu gwaith. Darllenwch sut yr oeddynt yn defnyddio'r defnyddio'r data hwn i'w helpu i gael dealltwriaeth gref o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu gwasanaethau a thargedu cymorth yn effeithiol.

Ym Mlaenau Gwent, nodom fod gan arweinwyr ffocws cryf ar adfywio a gwella deilliannau i bobl ifanc, ond nid oedd aelodau etholedig, swyddogion na staff mewn ysgolion yn deall y weledigaeth hon yn ddigon da. Nodom nad oedd arweinyddiaeth gorfforaethol yn ddigon effeithiol o ran gwerthuso neu wella agweddau pwysig ar y gwaith hwn. Er gwaethaf y diffygion hyn, roedd gan uwch arweinwyr ym Mlaenau Gwent berthynas waith gref â swyddogion sydd, trwy eu harweinyddiaeth weithredol, wedi galluogi gwasanaethau i gryfhau dros gyfnod.

Yng Ngwynedd, canfuom fod gan arweinwyr weledigaeth gref ar gyfer addysg yn eu hawdurdod lleol. Roeddent yn dangos eu bod wedi ymrwymo i sicrhau y gall pob plentyn ac unigolyn ifanc fanteisio'n gyfartal ar ddarpariaeth o ansawdd uchel. Roedd arweinwyr a swyddogion yn gweithio'n greadigol i fynd i'r afael â heriau, fel recriwtio, mewn ysgolion. Roeddent hefyd yn gweithio'n rhagweithiol i nodi a lleihau'r rhwystrau rhag ymgysylltu i'r bobl ifanc fwyaf bregus mewn ysgolion a darpariaethau eraill. Serch hynny, ni fu arweinwyr yn ddigon strategol wrth fynd i'r afael ag ychydig o feysydd pwysig o'u gwaith. Er enghraifft, nid oedd arweinwyr a swyddogion wedi nodi'n ddigon da yr angen i dargedu a gwella presenoldeb nac wedi gwerthuso'n ddigon da effaith darpariaeth gyffredinol ar gyfer y disgyblion hynny ag anghenion ymddygiadol ac emosiynol.




Yn Sir Gâr, canfuom fod gan arweinwyr ar draws yr awdurdod weledigaeth glir a'u bod yn cyfathrebu'n effeithiol ar draws y sefydliad. Helpodd hyn i ddatblygu timau ymgysylltiedig ac effeithiol a oedd yn cydweithio'n gadarnhaol â'i gilydd i nodi heriau a sut byddent yn eu goresgyn. Roedd arweinwyr wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn cynnig gwasanaeth cryf i gefnogi pobl ifanc ac yn gwerthuso llawer o agweddau ar eu gwaith yn addas.

Ym mhob awdurdod lleol, roedd swyddogion ac aelodau'n cydweithio'n gadarnhaol â'i gilydd i ystyried eu gwaith. Lle'r oedd prosesau craffu'n fwyaf effeithiol, roedd aelodau'n cael gwybodaeth amserol ac effeithiol am effaith eu gwaith. O ganlyniad, roedd aelodau craffu yn herio gwaith yr awdurdod lleol yn gadarn ac yn sicrhau eu bod yn dwyn aelodau i gyfrif. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oedd prosesau gwerthuso a gwella yn ddigon effeithiol ac, yn aml, roedd hyn yn golygu nad oedd gan aelodau craffu wybodaeth ddigonol bob tro i gefnogi a herio'r awdurdod lleol yn effeithiol.

Roedd awdurdodau lleol yn y camau cynnar o roi eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith. Gofynnom i awdurdod lleol Gwynedd ddarparu astudiaeth achos am ddatblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY a'u teuluoedd.

Rhoesom argymhelliad i bob awdurdod lleol yn ymwneud â phrosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Bu'r maes hwn yn wendid dros gyfnod maith. Yn gyffredinol, roedd hyn oherwydd bod ansawdd gwerthuso a chynllunio gwelliant yn rhy amrywiol o fewn cyfarwyddiaethau addysg. Yn aml, nid oedd cynlluniau'n pennu meini prawf llwyddiant clir ac, yn rhy aml, roedd swyddogion yn monitro os oedd camau gweithredu wedi'u cwblhau ai peidio, yn hytrach na'r effaith yr oeddynt wedi'u cael ar wella darpariaeth a deilliannau i blant a phobl ifanc. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn ddigon manwl i sicrhau gwelliannau mwy effeithiol.

## Gwaith parhaus ag awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion

Mae gan bob awdurdod lleol a gwasanaeth gwella ysgolion arolygydd cyswllt penodedig. Mae arolygwyr cyswllt yn ymweld ag awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion yn rheolaidd i gynnal trosolwg o'u gwaith. Rydym yn ystyried ystod o wasanaethau a meysydd yn ystod y flwyddyn ac wedi dod â rhai canfyddiadau cyffredin o ychydig o'r meysydd hynny at ei gilydd isod. Yn ystod 2022-2023, ystyriom sut roedd sampl o awdurdodau lleol yn cefnogi rhieni a phobl ifanc a oedd wedi dewis addysg yn y cartref.

Dywedodd awdurdodau lleol y bu cynnydd yn nifer y rhieni sydd wedi dewis addysgu eu plant yn y cartref ers y pandemig. Cododd y ffigurau ar gyfer dysgwyr addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru o 2,626 yn 2018-2019 i 5,330 yn 2022-2023 (Llywodraeth Cymru, 2023c). Roedd y cynnydd hwn yn nifer y dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn ei gwneud yn fwy heriol i awdurdodau lleol fodloni eu gofyniad statudol i sicrhau bod yr addysg y mae rhieni'n ei darparu yn 'addysg amser llawn effeithlon sy'n addas ar gyfer oed, gallu a doniau'r plentyn ac unrhyw angen addysgol arbennig' (Deddf Addysg 1996). Yn ogystal, rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiadau o anghenion dysgu ychwanegol (ADY), lle y gofynnir amdanynt, a chynnig cymorth priodol i ddysgwyr ag ADY sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, yn ôl yr angen. Darparodd Llywodraeth Cymru £1.7 miliwn o gyllid yn 2022-2023 i helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r dyletswyddau hyn, a oedd yn cynnwys £50,000 i bob awdurdod lleol a £160 pellach fesul dysgwr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynlluniau i gyflwyno 'arlwy craidd' o gymorth, y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ei ddarparu i ddysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

Roedd pob awdurdod lleol yr ymwelom af eg fel rhan o'r gwaith targedig hwn yn darparu'r lefel leiaf o gymorth i ddysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, ac roedd y lleiafrif ohonynt yn darparu ystod eang o gymorth, sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr a chyfleoedd buddiol i ehangu dysgu. Er enghraifft, darparodd lleiafrif o awdurdodau lleol adnoddau addysgol am ddim, talebau llyfrau a chardiau ar gyfer cyfleusterau hamdden ac amrywiaeth o weithgareddau lleol, fel gweithgareddau awyr agored a sesiynau celf, Cymraeg a garddwriaeth i ddysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Rhoddodd ychydig o awdurdodau lleol fynediad estynedig i ddysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref at lyfrgelloedd cyhoeddus, gwasanaethau chwaraeon a cherddoriaeth neu gydweithio â cholegau lleol i gynnig cyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o deuluoedd addysg ddewisol yn y cartref a oedd yn manteisio ar y cyfleoedd hyn ac nid oedd awdurdodau lleol yn monitro nac yn gwerthuso effaith y cymorth yr oeddynt yn ei gynnig i ddysgwyr sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Cynhaliodd ychydig iawn o awdurdodau lleol arolwg â theuluoedd addysg ddewisol yn y cartref am y cymorth yr hoffent ei gael. Roedd yr awdurdodau hyn yn ceisio teilwra eu darpariaeth i fodloni'r anghenion hynny neu'n cynnig cyfleoedd i deuluoedd addysg ddewisol yn y cartref gyfarfod i helpu ei gilydd.

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi codi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau etholedig o'r cyd-destun lleol o ran addysg ddewisol yn y cartref, ond dim ond lleiafrif ohonynt sy'n adrodd arno'n flynyddol i'r pwyllgor craffu addysg. Mae cyfyng-gyngor cenedlaethol a lleol allweddol, sef po fwyaf o gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu a gorau oll yw'r gefnogaeth i ddysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn lleol, y mwyaf deniadol y daw addysg ddewisol yn y cartref fel opsiwn i rieni. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn ei gwneud yn fwy heriol i awdurdodau lleol sicrhau y gall dysgwyr fanteisio ar addysg addas.

## Cydweithio ag arolygiaethau eraill ar faterion diogelu ac amddiffyn plant

Yn ystod 2022-2023, parhaom i weithio ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) mewn arolygiadau ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant (JICPA) mewn dau awdurdod lleol. Cynhaliom arolygiadau ar y cyd yng Nghyngor Sir Ddinbych ym mis Chwefror a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Mehefin. AGC sy'n arwain pob arolygiad ar y cyd, ac mae gan bob arolygiaeth arall, gan gynnwys Estyn, rôl gyfartal yn y broses arolygu . Caiff adroddiad aml-asiantaeth ei gyflwyno i'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd rhanbarthol a chwnstabliaeth yr heddlu ar ddiwedd y broses arolygu yn amlinellu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ac yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Yn y ddau arolygiad, nodom fod gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant rheolaidd, pwrpasol i arweinwyr diogelu dynodedig mewn darparwyr addysg ac yn eu cefnogi'n dda yn eu rolau. At ei gilydd, roedd ysgolion a lleoliadau nas cynhelir yn hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yn gryf ac, yn aml, yn cyflwyno rhaglenni ymyrraeth llwyddiannus i gefnogi eu hiechyd emosiynol a'u hiechyd meddwl. Roedd uwch swyddogion yn cydweithio'n addas â'u cymheiriaid mewn gwasanaethau eraill i gynllunio ac adolygu trefniadau amddiffyn plant ar lefel strategol. Fodd bynnag, roedd rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau iechyd, yr heddlu a gwasanaethau plant ar lefel weithredol, yn enwedig wrth wneud penderfyniadau pwysig, yn amrywio.

Gwahoddodd Llywodraeth Cymru ni i gymryd rhan mewn adolygiad cyflym aml-asiantaeth o benderfyniadau ynghylch amddiffyn plant hefyd, er mwyn ymateb i nifer o farwolaethau trasig ymhlith plant ledled Cymru a Lloegr. Roedd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys AGC ac AGIC ac fe'i cynhaliwyd ym mis Ebrill 2023. Diben yr arolwg hwn oedd darganfod i ba raddau y mae'r strwythurau a'r prosesau cyfredol yng Nghymru yn sicrhau y caiff enwau plant eu rhoi'n briodol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a'u tynnu oddi arni pan fydd tystiolaeth ddigonol i ddangos ei bod yn ddiogel gwneud hynny. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gweithgarwch targedig mewn saith awdurdod lleol a phedwar bwrdd iechyd a chanfuwyd fod dealltwriaeth o'r trothwyon o ran a yw plentyn yn profi, neu mewn perygl o brofi, niwed sylweddol, a rhoi'r trothwyon hynny ar waith, yn dda, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd asiantaethau partner ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn deall hyn yn gyson bob tro. At ei gilydd, roedd prosesau rhannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio ledled Cymru. Yn gyffredinol, mae trefniadau aml-asiantaeth yn gweithio'n dda mewn llawer o feysydd, ond mae angen i rai meysydd gael eu cryfhau ymhellach.

## Cynigion Trefniadaeth Ysgolion – Medi 2022 hyd Gorffennaf 2023

Eleni, ymgynghorodd 11 o awdurdodau lleol ar gyfanswm o 15 o gynigion ad-drefnu ysgolion. Roedd nifer y cynigion a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn sylweddol llai nag yn ystod blynyddoedd blaenorol, gan gynnwys yn ystod pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi darlun cywir o'r newidiadau arfaethedig i addysg ledled Cymru, gan i ychydig o awdurdodau lleol gyflwyno ymgynghoriadau unigol sy'n cynnig newidiadau i ddarparwyr lluosog. Pan fydd hyn yn digwydd, nid yw'r ymgynghoriadau lluosog hyn yn rhoi cymaint o wybodaeth ddefnyddiol am newidiadau arfaethedig bob tro.

Nod tua 40% o gynigion yw sefydlu darpariaeth newydd ar gyfer ADY neu ymestyn darpariaeth bresennol. Roedd hyn yn cynnwys y cynnig i sefydlu ysgol arbennig 3 i 19 newydd yn Rhondda Cynon Taf. Roedd tua thraean o'r cynigion eleni yn canolbwyntio ar gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd y cynigion hyn yn parhau i ymgynghori ar ystod o strategaethau i wella'r gallu i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.




## Gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol

Eleni, fe wnaethom beilota ein hymagwedd newydd at waith ein harolygwyr cyswllt â'r gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol. Roedd hyn yn cynnwys dau ymweliad a oedd yn canolbwyntio ar agwedd benodol ar eu gwaith, sef cymorth pwrpasol i ysgolion. Ar ddiwedd yr ymweliadau hyn, rhoesom adborth unigol wedi'i seilio ar ein canfyddiadau. At ei gilydd, canfuom fod y consortia rhanbarthol yn dechrau ymateb i'r argymhellion yn ein hadroddiad o 2022, Cwricwlwm i Gymru: Sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?

Roedd gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol wedi cydweithio ag awdurdodau lleol i ddatblygu ymagweddau i ddarparu cymorth mwy teilwredig i ysgolion. Mewn dau o'r pedwar awdurdod lleol a arolygwyd, roedd ysgolion yn dechrau cael cymorth defnyddiol. Fodd bynnag, roedd y cymorth pwrpasol hwn a'i effaith yn rhy amrywiol o hyd ledled Cymru.

Yn gyffredinol, roedd gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol yn dechrau datblygu ymagweddau at werthuso effaith eu gwaith, ond dim ond megis dechrau cael eu cyflwyno oedd y gwaith hwn ac roedd yn rhy gynnar i fesur pa wahaniaeth yr oedd yr ymagweddau hyn wedi ei wneud. Mewn rhai ardaloedd, canfuom fod swyddogion yn dibynnu'n rhy drwm o hyd ar adborth gan gyfranogwyr ac nad oeddent yn defnyddio digon o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso effaith dysgu proffesiynol. Yn ogystal, nid oedd meini prawf llwyddiant yn ddigon manwl bob tro i gefnogi prosesau gwerthuso a gwella.

## Gweithdai Risg a Sicrwydd Blynyddol

Fel rhan o waith parhaus ein harolygwyr cyswllt â gwasanaethau addysg llywodraeth leol, cyfrannom at weithdai risg a sicrwydd blynyddol ar y cyd ag Archwilio Cymru ac AGC. Ar sail y gwaith hwn ag awdurdodau lleol, darparom lythyr yn amlinellu'r sicrwydd a'r risgiau a nodom ym mhob awdurdod lleol.

## Sicrwyddau allweddol

Mewn llawer o awdurdodau lleol, nodom fod deilliannau arolygu yn gadarnhaol, yn gyffredinol, mewn ysgolion cynradd a lleoliadau nas cynhelir. Ym mwyafrif yr awdurdodau lleol, amlygom sicrwyddau yn ymwneud ag arweinyddiaeth yn yr awdurdod lleol. Siaradom am uwch arweinyddiaeth gref yn yr awdurdodau hyn, gan gynnwys uwch swyddogion ac aelodau etholedig. Ym mwyafrif yr awdurdodau, nodom fod ganddynt gynlluniau addas ar waith i ddatblygu darpariaeth Gymraeg yn eu hawdurdod lleol. Er enghraifft, nodom fod gan un awdurdod lleol Gynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg uchelgeisiol, a oedd yn cynnwys sefydlu pwyllgorau i ymateb i bob un o'r saith o ddeilliannau'r cynllun.

## Risgiau allweddol

Ym mwyafrif yr awdurdodau lleol, amlygom risgiau yn ymwneud â deilliannau arolygu darparwyr, yn enwedig nifer yr ysgolion uwchradd a roddwyd mewn categorïau statudol a'r rhai a fu yn y categorïau hyn ers cryn amser. Mewn tua hanner yr awdurdodau lleol, nodom risgiau yn ymwneud â chyllid a chyllidebau. Mynegodd awdurdodau lleol bryder ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, nodwyd bod darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn risg. Roedd y risg yn cynnwys sicrhau y caiff staff addas eu recriwtio, gan gynnwys athrawon sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Nodom hefyd fod presenoldeb yn risg mewn lleiafrif o awdurdodau lleol.

## Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2023a) Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 5 Medi 2022 i 24 Gorffennaf 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/presenoldeb-disgyblion-mewn-ysgolion-gynhelir-5-medi-2022-i-24-gorffennaf-2023 [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023b) Absenoldeb o ysgolion Uwchradd: Medi 2022 i Awst 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/absenoldeb-o-ysgolion-uwchradd-medi-2022-i-awst-2023-diwygiedig-html [Cyrchwyd 13 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023c) Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2022 i Awst 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2022-i-awst-2023 [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Senedd Cymru (2022) Cwestiwn Senedd – Pa brosesau yngynghori sydd wedi'u cynnal, neu a fydd yn cael eu cynnal, mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar addysg yn y cartref? WQ85742 (e) Caerdydd: Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://record.senedd.wales/WrittenQuestion/85742 [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2023]

Adroddiad sector

# Addysg bellach

2022-2023



**Darparwyr**

**12**

Nifer o ddarparwyr 2023

**Dysgwyr**

**99,925**

Cyfanswm dysgwyr 2021-2022

**90,395**

Cyfanswm dysgwyr 2020-21

**Arolygiadau craidd**

Nifer o arolygiadau craidd: **1**
Cyfrwng Cymraeg: **0**
Cyfrwng Saesneg: **1**

**Astudiaethau achos**

Nifer o astudiaethau achos: **1**

Ymatebodd colegau addysg bellach (AB) yn hyblyg i'r pandemig i gynnal parhad mewn dysgu a chymorth i ddysgwyr, yn enwedig o ran hwyluso cyflwyno addysg o bell ac ar-lein. Pan ailddechreuodd arolygiadau, canfuom fod y rhan fwyaf o weithgareddau dysgu wedi dechrau dychwelyd i gael eu cyflwyno wyneb-yn-wyneb yn raddol. Roedd hyn yn cael ei groesawu gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ac aelodau staff ar draws yr holl golegau. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r dysgwyr lleiaf galluog yn disgyn ymhellach ar ei hôl hi, roedd y bylchau medrau mewn llythrennedd, ac yn enwedig mewn rhifedd, yn parhau'n sylweddol ehangach  nag ar gyfer carfanau tebyg o ddysgwyr cyn y pandemig.

## Addysgu a dysgu



Yn ystod ein hymweliadau a galwadau ymgysylltu gan arolygwyr cyswllt â cholegau addysg bellach (AB), canolbwyntiom ar ddysgu digidol ac ar-lein. Yn dilyn cyfnod y cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â phandemig COVID-19, roedd colegau naill ai wedi dychwelyd yn llawn i gyflwyno wyneb-yn-wyneb neu wedi cadw ychydig iawn o gyflwyno ar-lein. Roedd y rhan fwyaf o athrawon a dysgwyr yn croesawu dychwelyd i gyflwyno wyneb-yn-wyneb. Roedd dysgu o bell ar gael o hyd ar gyfer ychydig o raglenni masnachol a phroffesiynol, lle'r oedd dysgwyr a chyflogwyr yn gwerthfawrogi'r ymagwedd hyblyg hon. Roedd ychydig iawn o golegau'n cynnig cyrsiau TGAU mathemateg a Saesneg rhan-amser ar-lein.

Parhaodd colegau a'u dysgwyr i elwa ar y buddsoddiadau gweddol fawr a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru mewn offer ac adnoddau yn ystod y pandemig. Roedd yr adnoddau digidol hyn yn cael eu defnyddio i gefnogi a gwella cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth a chynnig gweithgareddau ymestyn a gwaith cartref. Roeddent hefyd yn galluogi ymagwedd wrthdro at ddysgu, lle y gallai dysgwyr fanteisio ar adnoddau cyn gwersi i'w paratoi ar gyfer gweithgareddau a thrafodaethau yn y dosbarth. Roedd ychydig o wersi'n cael eu recordio hefyd, a oedd yn galluogi dysgwyr i ailedrych arnynt neu fynd atynt yn ddiweddarach os oeddent yn absennol.

Lle'r oedd ymagwedd ymgorfforedig at ddysgu digidol wedi'i hen sefydlu, roedd llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'n arbennig y cyfleoedd roedd hyn yn eu cynnig. Roedd enghreifftiau defnyddiol yn cynnwys defnyddio nodiadau llais gan athrawon i ategu adborth ysgrifenedig, offer ar y we ar gyfer gweithgareddau cydweithredol a defnyddio pensetiau realiti rhithwir fel offeryn dysgu.

Roedd ein hymweliadau a'n galwadau ymgysylltu hefyd yn canolbwyntio ar drefniadau colegau ar gyfer ymweliadau addysgol. Roedd colegau'n cydnabod gwerth ac effaith gadarnhaol ymweliadau addysgol i bob dysgwr, o ran cyfoethogi eu dysgu yn ogystal â'u datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd cyfleoedd i gymryd rhan mewn teithiau ac ymweliadau yn amrywio rhwng meysydd gwahanol o'r cwricwlwm. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd nifer yr ymweliadau addysgol, gan gynnwys teithiau dramor, wedi dychwelyd i'r un drefn â chyn y pandemig, yn gyffredinol. Fel arfer, gwnaed hyn yn raddol gan flaenoriaethu meysydd penodol o'r cwricwlwm a grwpiau penodol o ddysgwyr. Er enghraifft, roedd colegau wedi blaenoriaethu dysgwyr yr oedd angen iddynt fynychu digwyddiadau neu ymgymryd â gweithgareddau y tu allan i'r coleg i gwblhau eu cymwysterau. Roeddent hefyd yn blaenoriaethu dysgwyr a fyddai'n elwa'n benodol ar fanteisio ar weithgareddau i ffwrdd o'r safle, fel dysgwyr medrau byw'n annibynnol. Roedd colegau yn benodol yn croesawu'r cyfle i ddysgwyr a staff dreulio amser dramor fel rhan o raglen cyfnewid dysgu rhyngwladol, sef Taith, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod arolygiad craidd Coleg Cambria, canfuom fod llawer o ddysgwyr galwedigaethol yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau ymarferol a oedd yn datblygu eu medrau i gyfateb i anghenion diwydiant. Roedd dysgwyr academaidd a galwedigaethol ar draws ystod eang o alluoedd yn cyflawni graddau da yn gyson, yn berthynol i'w mannau cychwyn unigol. Fodd bynnag, nid oedd medrau rhifedd dysgwyr wedi'u datblygu cystal â charfanau tebyg cyn y pandemig.

Roedd cwricwlwm Coleg Cambria yn cynnig ystod eang o gyrsiau, a oedd yn amrywio o ddarpariaeth gyswllt ag ysgolion i ddisgyblion lleol ym Mlynyddoedd 10 ac 11, i gyrsiau addysg uwch. Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn cynllunio gweithgareddau a oedd yn ennyn eu diddordeb yn effeithiol. Fodd bynnag, ar draws y coleg, nid oedd llawer o athrawon yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr.

### Profiad gwaith wedi'i dargedu yn Coleg Cambria

Mae Coleg Cambria yn datblygu partneriaethau effeithiol gyda chyflogwyr lleol i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith go iawn sy'n galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gyflogaeth neu addysg uwch. Un enghraifft o hyn yw'r rhaglen cadetiaid nyrsio ar gyfer y GIG, lle mae'r coleg wedi meithrin cysylltiadau cryf â'r bwrdd iechyd lleol i alluogi dysgwyr iechyd a gofal cymdeithasol lefel 3 i ymgymryd â lleoliadau gwaith. Mae'r rhain ar wardiau llawfeddygol a meddygol mewn ysbytai ac yn digwydd yn ystod y flwyddyn gyntaf o astudio, mae dysgwyr yna'n dewis maes arbenigol i symud ymlaen iddo yn ystod eu hail flwyddyn.

## Gofal, cymorth a lles

Yn ystod yr arolygiad craidd yng Ngholeg Cambria, canfu arolygwyr fod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig am eu cyrsiau ac wedi'u cymell i gyflawni eu cymwysterau, gyda llawer ohonynt yn ceisio symud ymlaen i'r lefel nesaf. Roedd dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu hathrawon ac aelodau staff eraill wrth fynychu'r coleg. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod y coleg yn lle cynhwysol a chroesawgar lle'r oeddent yn cael eu gwerthfawrogi. Roedd bron pob un ohonynt yn cydweithio'n dda â'i gilydd a'u hathrawon ac aelodau staff eraill.

Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o ystod eang o gefnogaeth ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol ac yn elwa arni. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r diwylliant a oedd yn hybu eu hannibyniaeth ac yn cefnogi eu cynnydd. Roedd llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth glir o beryglon eithafiaeth a radicaleiddio.

Mewn astudiaeth achos a gyhoeddwyd yn ddiweddar, amlinellom sut roedd Coleg Cambria wedi nodi cynnydd sylweddol mewn datgeliadau ac atgyfeiriadau iechyd meddwl a lles, yn enwedig wrth ymateb i bwysau pandemig COVID-19. Yn ogystal, roedd y coleg wedi nodi nifer fawr o achosion disgyblu a oedd yn cynnwys dysgwyr o aelwydydd ag incwm isel. O ganlyniad, cyflwynodd y coleg ymagwedd gynhwysfawr ar draws y coleg at arfer sy'n ystyriol o drawma sy'n cyd-fynd â'r fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma (Hyb ACE Cymru, 2022). Datblygwyd yr ymagweddau hyn trwy 'fethodoleg sy'n ystyriol o drawma' a chânt eu cefnogi gan staff arbenigol a 'Strategaeth Coleg Cynhwysol'. Mae'r fenter yn paratoi staff i gefnogi dysgwyr a chydweithwyr, fel ei gilydd.

Fel rhan o'i dull sy'n ystyriol o drawma datblygodd a gweithredodd Coleg Cambria gynllun gweithredu, gan gynnwys rhaglen o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar draws y coleg. Arweiniodd hyn at staff yn cael eu hyfforddi'n dda i ddefnyddio strategaethau cadarnhaol ac effeithiol a oedd yn cefnogi lles ac yn helpu dysgwyr i barhau i ymgysylltu â'u dysgu. Ar ôl cael eu hadolygu o safbwynt sy'n ystyriol o drawma, roedd prosesau'r coleg, ynghyd â'u dull addysgu a dysgu, wedi arwain at arwyddion cynnar o les gwell ymhlith dysgwyr ac aelodau staff.

Fel rhan o'n hadolygiad thematig o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, fe ymwelsom â phob coleg AB yng Nghymru i ganolbwyntio ar y mater cymhleth hwn. Adolygom y prosesau a oedd ar waith i helpu i ddiogelu a chefnogi'r rhai 16 i 18 oed, y diwylliant ymhlith dysgwyr mewn colegau a'r ddarpariaeth yr oedd gan golegau ar waith i hyrwyddo perthnasoedd iach. Canfuom nad oedd aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn cael ei gofnodi'n ddigonol, yn gyffredinol. Am amrywiol resymau, roedd llawer o ddysgwyr yn dewis peidio â rhoi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol neu ddim yn siŵr sut i wneud hynny. Roedd achosion o aflonyddu rhywiol yn digwydd wyneb-yn-wyneb ac ar-lein. Roedd ein trafodaethau â dysgwyr ac aelodau staff yn awgrymu bod dysgwyr sy'n ystyried eu hunain yn fenywod neu'n LHDTC+ a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwy tebygol o gael profiad o aflonyddu rhywiol o gymharu â'r garfan gyffredinol o ddysgwyr.

Roedd gan golegau bolisïau a phrosesau sefydledig i ddisgyblu dysgwyr ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymdrin yn effeithiol â'r achosion mwyaf difrifol o aflonyddu rhywiol honedig rhwng cyfoedion y rhoddwyd gwybod iddynt amdanynt. Canfuom nad oedd systemau colegau i gofnodi a dadansoddi aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr yn gywir wedi'u datblygu'n ddigonol. Yn rhy aml, roedd achosion o aflonyddu rhywiol yn cael eu cofnodi a'u categoreiddio gan ddefnyddio dosbarthiadau cyffredinol o fwlio.

## Arwain a gwella




Yn ystod arolygiad Coleg Cambria, canfuom fod y prif swyddog gweithredol, gyda chefnogaeth gan ei huwch dîm arweinyddiaeth, llywodraethwyr a staff, wedi sefydlu cyfeiriad strategol ar gyfer y coleg yn seiliedig ar weledigaeth, cenhadaeth a nodau strategol ar y cyd. Roedd llawer o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys ac yn teimlo'n gadarnhaol am y cyfeiriad strategol ac yn gwerthfawrogi'r ffocws cryf ar les a chymorth.

Canfu arolygwyr fod y coleg yn gwasanaethu anghenion ei gymunedau'n dda. Roedd ganddo bartneriaethau datblygedig ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, colegau addysg bellach eraill, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, y bartneriaeth medrau rhanbarthol a chyflogwyr. Roedd gan uwch dîm arweinyddiaeth ffocws clir ar wella profiadau dysgu i wneud yn siŵr fod yr holl ddysgwyr yn cyrraedd eu llawn botensial. Roedd y coleg yn defnyddio gweithdrefnau cynhwysfawr i sicrhau ansawdd ac yn casglu ystod eang o wybodaeth i lywio ei arferion. Adeg yr arolygiad, roedd sawl menter allweddol yn newydd ac nid oedd rheolwyr yn mesur cynnydd ac effaith camau gweithredu yn ddigon da bob tro.

Trwy ein hymweliadau a'n galwadau ymgysylltu, canfuom yr eir i'r afael â sicrhau ansawdd dysgu ar-lein a digidol trwy fwy nag un llwybr a'i fod yn amrywio rhwng colegau. Roedd gan bob coleg raglen arsylwi, a oedd yn cynnwys dysgu ar-lein a digidol. Roedd gan y rhan fwyaf o golegau dimau digidol neu unigolion ar waith i gefnogi'r agwedd hon ar y cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys timau arbenigol a oedd yn creu cynnwys, yn ogystal â mentoriaid unigol sy'n canolbwyntio ar y cwricwlwm, a oedd yn aml yn athrawon neu'n aelodau staff cymorth a dyrannwyd amser iddynt ar gyfer y rôl hon. Roedd cymorth cymheiriaid anffurfiol rhwng athrawon yn ffurf werthfawr ar ddatblygu, hefyd.

Roedd colegau'n parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu i aelodau staff ddiweddaru eu medrau mewn dysgu digidol ac ar-lein. Roedd arweinwyr yn cydnabod yr awydd am ddatblygu digidol ar draws y gweithlu ac yn nodi'r effaith gadarnhaol roedd hyn yn ei chael ar addysgu, dysgu ac asesu, yn ogystal â gwasanaethau ehangach. Roedd colegau'n rhannu eu profiadau a'u gwybodaeth am ddysgu digidol trwy rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol. Er enghraifft, sefydlwyd rhwydwaith arweinwyr digidol ar gyfer y sector i gefnogi cydweithio.

Canfu arolygwyr fod colegau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion o'n [hadolygiad thematig o bolisïau ymweliadau mewn AB](), a gyhoeddwyd yn 2015. Roedd darparwyr wedi defnyddio canfyddiadau'r adroddiad fel sail i adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau ar gyfer ymweliadau ac wedi rhoi arweiniad cam-wrth-gam manwl ar waith ar gyfer ymweliadau addysgol, yn ôl yr angen, gan fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion. Er enghraifft, roeddent wedi cyflwyno codau ymddygiad ffurfiol a oedd yn cael eu rhannu a'u llofnodi cyn cynnal ymweliadau, ac wedi cyflwyno cyfeiriadau penodol at ymweliadau mewn arweiniad a pholisïau perthnasol.

Rhoddwyd diweddariadau rheolaidd i aelodau staff a oedd yn gyfrifol am ymweliadau dysgwyr ac roedd yn ofynnol i aelodau staff dibrofiad ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol, gan gynnwys, mewn rhai achosion, cysgodi neu gynorthwyo staff mwy profiadol cyn arwain ymweliadau eu hunain. Nid oedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn casglu adborth ffurfiol gan ddysgwyr yn gysylltiedig â theithiau, er bod dysgwyr yn rhannu'n anffurfiol fod y profiadau'n werthfawr ac yn gadarnhaol.

Yn ystod ein hymweliadau a cholegau fel rhan o'r adolygiad thematig ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, dywedodd llawer o aelodau staff wrthym eu bod yn brin o hyder ac yn teimlo bod angen mwy o ddatblygiad proffesiynol a diweddariadau, yn hyn o beth. At ei gilydd, canfuom fod prinder adnoddau penodol ar gyfer AB i gynorthwyo aelodau staff colegau i ymdrin ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae gwaith cydweithredol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn wedi dechrau'n ddiweddar, ond mae'n rhy gynnar i werthuso ei effeithiolrwydd neu ei effaith.

# Cyfeiriadau

ACE Hub Wales (2022) Trauma-Informed Wales: A societal approach to understanding, preventing and supporting the impacts of trauma and adversity. Caerdydd: ACE Hub Wales. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://acehubwales.com/wp-content/uploads/2022/03/V11-Wales-Trauma-Informed-Approach-and-Practice-Framework-5.pdf [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Adroddiad sector

# Dysgu yn y gwaith

2022-2023



**Darparwyr**

**10**
Nifer o ddarparwyr 2023

**Dysgwyr**

**39,370**
Cyfanswm dysgwyr Prentisiaeth (pob lefel) 2021-2022

**46,040**
Cyfanswm dysgwyr Prentisiaeth (pob lefel) 2020-21

**15,635**
Dysgwyr Prentisiaeth Sylfaen 2021-2022

**7,340**
Dysgwyr Prentisiaeth Uwch 2021-22

**16,395**
Dysgwyr Prentisiaeth lefel 3 2021-22

**Arolygiadau craidd**

Nifer o arolygiadau craidd: **3**
Cyfrwng Cymraeg: **0**
Cyfrwng Saesneg: **3**

**Astudiaethau achos**

Nifer o astudiaethau achos: **3**

Mae darparwyr prentisiaethau wedi gweithio yn dda i gynnal ymgysylltiad dysgwyr â'u rhaglenni yn yr amser ers cychwyn y pandemig COVID-19. Serch hynny, cymerodd ychydig o ddysgwyr gyfnod rhy hir i gwblhau eu rhaglenni. At ei gilydd, roedd darparwyr yn gofalu am les dysgwyr yn dda ac yn cefnogi eu hanghenion dysgu unigol. Fodd bynnag, nid oedd darparwyr yn cefnogi dysgwyr yn ddigon da i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, eu gallu Cymraeg a'u dealltwriaeth o radicaleiddio ac eithafiaeth.

## Addysgu a dysgu

Yn ystod 2022-2023, fe ganfu arolygwyr fod pob un o'r tri darparwr prentisiaethau a arolygwyd wedi gweithio'n dda i gefnogi dysgwyr i barhau a'u rhaglenni, ag i ddenu dechreuwyr newydd i raglenni prentisiaeth yn dilyn tarfu'r pandemig COVID-19. O ganlyniad, roedd llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu gwybodaeth ddamcaniaethol a'u medrau ymarferol. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o ddysgwyr a fu ar y rhaglen ers anterth y pandemig wedi gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent. Yn aml, roedd y dysgwyr hyn yn aros ar y rhaglen ymhell y tu hwnt i ddyddiadau cwblhau disgwyliedig eu prentisiaeth, yn enwedig y prentisiaid hynny yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i effeithiau aflonyddgar y pandemig, a oedd yn golygu nad oedd aseswyr yn gallu mynd at leoliadau gofal yn gorfforol am gyfnodau estynedig. Roedd ffactorau eraill yn cynnwys y pwysau sylweddol ar y gweithlu yn y sector hyn a chyflwyno cymwysterau newydd ar gyfer y sectorau hyn. Er bod deilliannau dysgwyr yn dechrau gwella, arweiniodd pob un o'r tri arolygiad at argymhelliad i wella cyfraddau llwyddo a chwblhau amserol dysgwyr mewn meysydd dysgu sy'n tanberfformio.


Ym mhob un o'r tri darparwr, canfu arolygwyr fod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu rolau gwaith, gan ddatblygu ystod eang o fedrau galwedigaethol penodol. Roedd dysgwyr hefyd yn datblygu medrau gwaith ehangach gwerthfawr dros ben, gan gynnwys cyfathrebu'n effeithiol ag uwch gydweithwyr, cyfoedion a chwsmeriaid. O ganlyniad, roedd prentisiaid yn gallu gwneud cyfraniadau cryf i fusnesau eu cyflogwyr ac yn cydnabod manteision y gwelliannau hyn yn eu medrau. Mewn ychydig o achosion, roedd cyflogwyr yn anfodlon rhyddhau dysgwyr i fynychu sesiynau i ffwrdd o'r gwaith neu sesiynau ar-lein, yn enwedig gweithgareddau Sgiliau Hanfodol Cymru.

Roedd gan fwyafrif yr athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr, gan eu hannog a'u cefnogi i gwblhau asesiadau ysgrifenedig ac ymarferol. Yn yr achosion hyn, roeddent yn cynllunio gweithgareddau'n ystyriol, a oedd yn adeiladu'n dda ar ddysgu ac asesu blaenorol. Roeddent yn cefnogi dysgwyr mewn ffordd unigol, gan ymweld â gweithle'r dysgwr yn aml i gynnal asesiadau a chynnig cymorth personol wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr unigol. Roedd aseswyr yn monitro cynnydd dysgwyr yn rheolaidd, yn diweddaru dogfennau olrhain cynnydd dysgwyr ac, yn yr achosion gorau, yn pennu targedau cytûn a heriol ar gyfer cwblhau gwaith ysgrifenedig neu asesiadau ymarferol. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'r cynnydd roeddent yn ei wneud a'r hyn roedd angen iddynt ei wneud nesaf, er nad oedd y mwyafrif ohonynt yn ymwybodol o'u targedau ar gyfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Roedd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddysgwyr a oedd, yn yr achosion gorau, yn adeiladol ac yn fanwl ac yn helpu dysgwyr i wella eu perfformiad. Yn yr achosion gorau, roedd darparwyr wedi datblygu a defnyddio ystod gynhwysfawr o adnoddau addysgu a dysgu yn dda i gefnogi cynnydd, er enghraifft, gweler astudiaeth achos am Educ8 yn datblygu amgylchedd dysgu rhithwir cynhwysfawr.

Mewn sesiynau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, fel ei gilydd, roedd llawer o ddysgwyr yn dangos medrau gwrando effeithiol. Roeddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau'n frwdfrydig, yn enwedig sesiynau ymarferol. Roedd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn defnyddio technegau holi buddiol yn y rhan fwyaf o sesiynau. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, ni ddefnyddiwyd holi'n ddigon da i wirio gwybodaeth dysgwyr na phrocio uwch ddealltwriaeth. Nid oedd tiwtoriaid ac aseswyr yn cynnwys dysgwyr yn llwyddiannus mewn gweithgareddau i ddatblygu eu dealltwriaeth o radicaleiddio ac eithafiaeth yn ddigon da.

Roedd llawer o ddarparwyr ac isgontractwyr wedi dechrau datblygu ystod o adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog ac wedi gwneud cynnydd o ran cydnabod a chynyddu gallu eu haelodau staff i gyflwyno'n ddwyieithog. Fodd bynnag, roedd nifer y dysgwyr a oedd yn dewis cwblhau agweddau ysgrifenedig ar eu gwaith yn y Gymraeg yn isel o hyd. Roedd dysgwyr â lefelau uchel o ruglder yn sgwrsio yn Gymraeg ag unrhyw aseswyr neu diwtoriaid Cymraeg eu hiaith a oedd ar gael iddynt o'u gwirfodd.

## Gofal, cymorth a lles



Cryfhawyd y gofal, cymorth a lles sydd ar gael i ddysgwyr prentisiaethau yn sylweddol yn ystod y pandemig ac ar ei ôl. Roedd gan bob un o'r tri darparwr a arolygwyd drefniadau cadarn i nodi dysgwyr yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. Yn aml, roedd hyn yn canolbwyntio ar les dysgwyr ac roedd y rhan fwyaf o aelodau staff wedi datblygu eu medrau i'w galluogi i roi cymorth cychwynnol ystyrlon. Roedd y cymorth personol hwn yn helpu dysgwyr a oedd mewn perygl o adael eu prentisiaethau yn effeithiol. Er bod y dysgwyr hyn yn aros ar ei hyfforddiant, at ei gilydd, roeddent yn cymryd llawer mwy o amser na'r bwriad i gwblhau eu fframweithiau prentisiaeth.

Roedd gan bob un o'r tri darparwr naill ai eu gwasanaethau cymorth mewnol eu hunain neu roeddent yn gallu manteisio ar asiantaethau cymorth allanol i roi cymorth arbenigol i ddysgwyr unigol pan nodwyd angen. Roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys cymorth â materion personol, ariannol a lles. Un o gryfderau penodol y darparwyr oedd y cymorth personol roedd aseswyr, fel y man cyswllt cyntaf, yn ei roi i ddysgwyr. Roedd y cydymddiriedaeth a'r cyd-barch a ddatblygwyd fel rhan o'r berthynas gynhyrchiol rhwng dysgwyr ac aseswyr yn golygu y gallai aseswyr helpu dysgwyr ag ystod eang o anghenion lles mewn modd sensitif. Yn y pen draw, roedd hyn yn cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd yn eu hastudiaethau galwedigaethol a'u rolau gwaith. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig am ei dysgu, gyda'r mwyafrif ohonynt yn bwriadu symud ymlaen i'r lefel nesaf. Roedd y dysgwyr hyn yn rhagori yn eu gweithleoedd ac yn dod yn aelodau cynhyrchiol a gwerthfawr o staff eu cyflogwyr yn gyflym.

Canfu arolygwyr fod y tri darparwr a arolygwyd wedi cryfhau eu prosesau i nodi anghenion cymorth dysgwyr mewn modd amserol ac, o ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn manteisio ar y cymorth roedd ei angen arnynt yn gyflym. Roedd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr a oedd yn datgan bod ganddynt angen dysgu ychwanegol. Yn sgil y pandemig, roedd y darparwyr wedi nodi tuedd gynyddol yn nifer y dysgwyr yr oedd angen cymorth arnynt â materion yn ymwneud â hyder a gorbryder. Roedd yr angen hwn yn arbennig o ddifrifol yn ystod cyfnodau arholiadau allanol ac asesiadau pwysig eraill. Roedd hefyd yn nodedig bod cyfran y dysgwyr lefel 3 a oedd yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu yn rhagweithiol yn is na'r arfer cyn y pandemig. Roedd y dysgwyr hyn yn fwy tebygol o fod angen sicrwydd a chefnogaeth wrth gasglu tystiolaeth asesu, cwblhau gwaith ysgrifenedig neu baratoi ar gyfer asesiadau allanol nag yn y gorffennol.

Canfu arolygwyr fod darparwyr yn cefnogi eu haelodau staff yn dda, gan eu galluogi i ddatblygu eu medrau a'u galluoedd eu hunain o ran cefnogi dysgwyr. Defnyddiwyd hyfforddiant arbenigol i wella'r gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr. Yn gynyddol, roedd darparwyr yn ehangu'r ystod o gymorth oedd ar gael i brentisiaid. Fel rhan o'r arolygiad o Grŵp Llandrillo Menai, gofynnwyd i'r darparwr lunio astudiaeth achos ar y cymorth cofleidiol effeithiol a'r mynediad cyfartal i ddysgwyr ar draws y grŵp. Roedd prentisiaid yn gallu manteisio ar gymorth a chyfleusterau ar draws safleoedd gwahanol, fel canolfannau adnoddau dysgu, campfeydd a chyfleusterau cwnsela.

Roedd gan bob un o'r tri darparwr drefniadau a hyfforddiant addas ar waith i ddiogelu eu dysgwyr ac roedd staff ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau perthnasol. Roedd gan ddysgwyr ddealltwriaeth briodol o ddiogelu ac roeddent yn gwybod pwy i'w hysbysu am ddigwyddiadau yn y gweithle ac â'r darparwr. Fodd bynnag, nid oedd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn cynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau i ddatblygu eu dealltwriaeth o radicaleiddio ac eithafiaeth yn ddigon da.


## Arwain a gwella



Roedd arweinwyr y tri darparwr a arolygwyd yn cefnogi meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol â phartneriaid, isgontractwyr a chyflogwyr lleol. Roedd eu cynllunio strategol yn cyd-fynd yn dda â thargedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ategwyd gwaith partneriaeth cryf a sefydledig gan gyfathrebu clir a rheolaidd rhwng rheolwyr ac aelodau staff ar bob lefel. Rhannodd partneriaid ystod eang o wybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud â chyflwyno eu contractau prentisiaeth. Yn yr achosion gorau, rhannwyd data pennawd ar gynnydd a deilliannau dysgwyr yn agored â phartneriaid ac isgontractwyr. Hwylusodd hyn y gwaith o werthuso perfformiad ar draws pob darparwr yn y bartneriaeth. Yn yr achosion hyn, roedd arfer effeithiol yn cael ei chydnabod a'i rhannu. Roedd pob un o'r tri darparwr a arolygwyd yn rhoi gwerth uchel ar ddysgu proffesiynol i'w haelodau staff. Yn yr achosion gorau, roedd hyn yn cael ei rannu â phartneriaid ac isgontractwyr ac roedd wedi arwain at staff yn cael eu cefnogi'n dda i wella eu dulliau cyflwyno ac asesu. Yn arolygiad Grŵp Llandrillo Menai, nodwyd astudiaeth achos a oedd yn esbonio sut roedd y darparwr wedi datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol cynhwysol ar gyfer aelodau staff ei hun a staff ei isgontractwyr.

Roedd gan bob un o'r darparwr drefniadau cynhwysfawr ar waith i hunanwerthuso ac adrodd ar ansawdd eu gwaith. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn dychwelyd i'r ystod lawn o weithgareddau gwerthuso cyn y pandemig, gan gynnwys arsylwi addysgu, hyfforddiant ac asesu ar draws eu darpariaeth. Fodd bynnag, nid oedd cynlluniau gwella a thargedau yn canolbwyntio'n ddigon craff ar feysydd allweddol i'w gwella bob tro, fel cynorthwyo dysgwyr oedd wedi mynd y tu hwnt i'r dyddiad cwblhau disgwyliedig ar gyfer eu prentisiaeth.

Yn rhannol oherwydd y pandemig, roedd recriwtio aseswyr cymwysedig a phrofiadol wedi dod yn fwy heriol i ddarparwyr prentisiaethau. Er mwyn lleddfu'r pwysau hyn, defnyddiodd darparwyr strategaethau amrywiol yn briodol, gan gynnwys gwella amodau gwasanaeth a recriwtio arbenigwyr galwedigaethol profiadol cyn eu hyfforddi a'u cefnogi i ddod yn aseswyr cymwysedig. Roedd heriau ledled y DU yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i roi pwysau mawr ar ddarparwyr. Roedd recriwtio a chadw dysgwyr a chyfraddau cwblhau fframweithiau prentisiaeth yn bryderon allweddol i'r sector. Er syndod, ar draws rhwydwaith y darparwyr prentisiaethau, roedd cofrestru dysgwyr adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig yn is na'r targed o hyd. Roedd hyn ar adeg pan roedd y sector yn fywiog a'r angen am brentisiaid yn uchel ar draws pob un o'r crefftau. Ar draws mwyafrif y meysydd dysgu eraill, roedd darparwyr yn denu niferoedd digonol o ddysgwyr i fodloni'r galw. Roedd gan y rhan fwyaf o ddarparwyr berthynas waith gref â chyflogwyr, yr oeddent yn aml wedi gweithio â nhw ers blynyddoedd lawer. Mae astudiaeth achos Academi Sgiliau Cymru yn disgrifio ffocws cryf y darparwr ar ragweld datblygiadau yn y farchnad lafur ac ymgysylltiad cynnar rhagweithiol i fodloni anghenion gweithlu prosiectau rhanbarthol.



Fodd bynnag, ar draws y rhanbarthau, roedd nifer sylweddol o gyflogwyr o hyd nad oeddent yn manteisio ar gyfleoedd i gael cyflogeion prentis. At ei gilydd, roedd angen i ddarparwyr hyfforddiant wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o fanteision prentisiaethau ac ymgysylltu â'r cyflogwyr hyn.

Roedd y newidiadau yng Nghymru i gymwysterau yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant ac adeiladu a'r amgylchedd adeiledig wedi rhoi pwysau cynyddol ar recriwtio dysgwyr. Yn gyffredinol, mae'r cymwysterau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr barhau i gofrestru ar raglen am gyfnod hwy nag y byddant dan y trefniadau blaenorol. Yn ogystal, rhaid cwblhau gwaith ymarferol a theori ar lefel uwch. Roedd pryderon ynghylch yr argyfwng costau byw a chyfraddau talu prentisiaid yn ffactorau a oedd yn cyfrannu at yr heriau recriwtio, hefyd. Adroddodd darparwyr fod darpar brentisiaid yn dewis swyddi a oedd yn cynnig cyfraddau talu uwch i ddechrau, ond nad oeddent yn cynnig hyfforddiant ffurfiol neu ragolygon gyrfa gwell yn y tymor hir.

Adroddiad sector

# Twf Swyddi Cymru+ (rhaglen cyflogadwyedd)

2022-2023



**Darparwyr**

**5**

Darparwr dysgu yn y gwaith yn gweithredu ar draws 4 partneriaeth ranbarthol

**Dysgwyr**

**5,330**

Nifer o ddysgwyr

Mae'r ddarpariaeth hon, a gyflwynwyd yn ddiweddar gyda'r nod o helpu pobl ifanc 16 i 19 oed i ddod o hyd i gyflogaeth neu gymryd rhan mewn hyfforddiant, wedi'i sefydlu ar y cyd ledled Cymru. Er bod sesiynau mewn canolfannau yn gryf, ar y cyfan, nid oedd dysgwyr yn elwa'n ddigonol ar brofiad gwaith go iawn fel rhan o'u rhaglenni ac roedd y niferoedd a gofrestrodd ar y rhaglenni hyn yn isel o hyd.

## Canfyddiadau a negeseuon allweddol o'n hadolygiad o Twf Swyddi Cymru+

Roedd darparwyr yn cyflwyno rhaglenni'n dda a thiwtoriaid yn defnyddio ystod eang o ddeunyddiau addysgu a dysgu o ansawdd da yn fedrus. Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn manteisio ar gymorth personol cryf gan eu tiwtoriaid ac, mewn llawer o achosion, roedd hyn yn eu helpu i barhau ar eu rhaglenni a gwneud cynnydd tuag at eu nodau. Fodd bynnag, nid oedd cyfranogwyr yn manteisio ar gyfleoedd profiad gwaith ystyrlon, hyd yn oed pan roedd hynny'n briodol.

Canfu arolygwyr fod angen i ddarparwyr ystyried sut gallent ymgysylltu'n well â chyflogwyr ar draws eu rhanbarthau a'u cefnogi, gyda'r bwriad o gynyddu cyfleoedd i gyfranogwyr. Yn y dyfodol, dylai darparwyr ddatblygu eu cysylltiadau â chymunedau lleol ymhellach i ymgysylltu â grwpiau addas o gyfranogwyr a chyflogwyr posibl sydd ag ymgysylltiad cyfyngedig neu ddim ymgysylltiad o gwbl â'r rhaglen.

Ar draws darpariaeth Twf Swyddi Cymru+, roedd nifer y cyfranogwyr yn is na'r disgwyl. Nid oedd recriwtio trwy Cymru'n Gweithio wedi arwain at y niferoedd disgwyliedig ac, o ganlyniad, roedd darparwyr wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb o recriwtio'n uniongyrchol er mwyn sicrhau hyfywedd y rhaglen.

Mae angen i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol wneud mwy i gasglu a rhannu gwybodaeth amserol yn ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Dylai'r data hwn gynnwys targedau cofrestru rhaglenni, ffigurau cofrestru gwirioneddol a deilliannau cyfranogwyr.

Adroddiad sector

# Dysgu oedolion yn y gymuned

2022-2023



## Darparwyr

**13**

Partneriaethau rhanbarthol ynghyd ag Addysg Oedolion Cymru sy'n gweithredu'n genedlaethol

## Arolygiadau craidd

Nifer o arolygiadau craidd: **3**
Cyfrwng Cymraeg: **0**
Cyfrwng Saesneg: **3**

## Astudiaethau achos

Nifer o astudiaethau achos: **3**

## Gweithgarwch dilynol

Nifer o fewn y categori dilynol Medi 2022: **1**
Nifer a dynnwyd allan 2022-23: **1**
Nifer a roddwyd mewn categori dilynol yn 2022-2023: **1**
Cyfanswm o fewn categori dilynol Awst 2023: **1**

Mae effaith negyddol pandemig COVID-19 ar nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan mewn dysgu oedolion yn amlwg o hyd. Serch hynny, mae bron pawb sy'n ymgymryd â dysgu oedolion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'r ddarpariaeth, gan arwain at fanteision clir o ran eu lles, yn ogystal â'u gwybodaeth a medrau. Yn gyffredinol, mae partneriaethau dysgu oedolion yn gwasanaethu eu dysgwyr a'u cymunedau'n dda. Fodd bynnag, mae olrhain cynnydd a chyrchfannau dysgwyr gan arweinwyr yn rhy anghyson ac mae angen gwneud mwy i ehangu'r ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Addysgu a dysgu



Darparodd partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer nifer gynyddol o ddysgwyr yn ystod 2021-2022. Roedd hyn yn dilyn tuedd gostyngol hirdymor yn nifer yr oedolion a oedd yn dysgu ar raglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru a ragflaenodd ostyngiadau sydyn yn 2019-2020 a 2020-2021 oherwydd pandemig COVID-19. Roedd y cynnydd yn 2021-2022 yn arbennig o amlwg mewn rhaglenni Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), yn rhannol oherwydd cofrestriad dysgwyr a oedd yn dod i Gymru o Wcráin a Syria. Yn ogystal â datblygu eu medrau Saesneg, roedd darpariaeth SSIE yn helpu'r dysgwyr hyn i addasu i'w hamgylchoedd a'u diwylliant newydd. Roedd dysgwyr ar raglenni SSIE+ yn elwa ar ddarpariaeth a oedd yn cyfuno dysgu Saesneg â hyfforddiant galwedigaethol a luniwyd i'w cynorthwyo i ddod o hyd i gyflogaeth. Er bod darpariaeth ar draws meysydd rhaglen yn cael ei chyflwyno wyneb-yn-wyneb yn fwyfwy ar ôl yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig, roedd dysgwyr hefyd yn gwerthfawrogi dewisiadau dysgu ar-lein lle'r oeddent ar gael.

Yn ystod yr arolygiadau yn 2022-2023, roedd tiwtoriaid ar draws y meysydd pwnc yn addysgu'n effeithiol, ar y cyfan. Roedd ganddynt wybodaeth bynciol gref ac roeddent yn adnabod eu dysgwyr yn dda. Yn ogystal â gwella medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr, yn yr achosion gorau, roedd cyrsiau a addysgwyd yn dda yn darparu medrau creadigol ac entrepreneuraidd i ddysgwyr i'w helpu i ddod o hyd i gyflogaeth neu sefydlu eu busnesau eu hunain.

Canfu arolygwyr fod partneriaethau dysgu oedolion yn cynnig darpariaeth a oedd yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Lle'r oedd partneriaethau'n cynnig cyrsiau o ddiddordeb personol, er enghraifft mewn crefftau, iaith arwyddo ac ieithoedd tramor modern, roedd hyn yn helpu i fod o fudd o les meddyliol, emosiynol a chorfforol dysgwyr, yn ogystal â'u galluogi i ennill gwybodaeth a medrau newydd. Fodd bynnag, roedd ychydig iawn o gyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg eu hiaith ymgymryd â chyrsiau llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol neu ddiddordeb personol trwy gyfrwng y Gymraeg.

At ei gilydd, nid oedd partneriaethau'n olrhain ac yn monitro cynnydd dysgwyr yn ddigon da. Roedd olrhain cynnydd dysgwyr yn ystod eu cyrsiau, eu cynnydd i gyrsiau eraill a'u camau nesaf yn allanol wrth iddynt adael y ddarpariaeth yn anghyson ac yn aneffeithlon, yn gyffredinol.

## Gofal, cymorth a lles



Canfu arolygwyr fod darparwyr partneriaethau'n llwyddo i greu amgylcheddau diogel a gofalgar a oedd yn cefnogi datblygiad addysgol a phersonol dysgwyr. Roeddent yn darparu'n dda ar gyfer anghenion unigol eu dysgwyr ac yn cynnig cymorth ychwanegol defnyddiol, yn ôl y gofyn.

Roedd partneriaethau'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn amlygu pwysigrwydd y cysyniadau hyn yn y gymdeithas yng Nghymru yn llwyddiannus. Roedd darparwyr yn canolbwyntio hefyd ar hyrwyddo dewisiadau iach o ran ffordd o fyw. Mae astudiaeth achos arfer effeithiol partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Caerdydd a'r Fro yn darparu enghraifft o weithio mewn partneriaeth i helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth dysgwyr SSIE o symptomau canser a sut i fanteisio ar ofal iechyd. Cynorthwyodd partneriaethau y nifer uwch na'r arfer o ddysgwyr a oedd yn profi gorbryder, sef mater a oedd wedi dod yn fwy cyffredin ar ôl y pandemig.

Roedd bron pob un o'r dysgwyr yn dangos lefelau uchel o gymhelliant ac ymrwymiad i'w dysgu. Roeddent yn cyfrannu'n frwdfrydig i sesiynau ac yn mwynhau eu profiadau dysgu. At ei gilydd, roedd partneriaethau'n cynnig cyfleoedd ystyrlon i farnau dysgwyr gael eu clywed ac iddynt ddylanwadu ar ddarpariaeth ac arfer.

## Arwain a gwella

Mae strwythurau arweinyddiaeth a rheolaeth y partneriaethau gwahanol yn amrywio ar draws y sector, gan adlewyrchu anghenion a natur wahanol yr ardaloedd daearyddol maent yn eu gwasanaethu. Roedd dwy o'r tair partneriaeth yn cyfleu gweledigaeth glir ac ethos cytûn. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd partneriaethau'n alinio eu gwaith a'u hadnoddau'n effeithiol yn unol â'u gweledigaeth a'u hethos. I weld enghreifftiau o hyn, gweler astudiaethau achos arfer effeithiol Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro ar trawsnewid ei phartneriaeth a'i hacademïau sgiliau sector blaenoriaethol.

Yn gyffredinol, roedd partneriaethau'n deall anghenion eu cymunedau amrywiol a'u dysgwyr yn dda. Roeddent yn darparu ar gyfer y rhain yn briodol, ochr yn ochr â'u gwaith i fodloni blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Er enghraifft, roedd darparwyr yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd i sicrhau y cynhaliwyd dosbarthiadau rhifedd a Saesneg ar draws ystod eang o leoliadau cyfleus a hygyrch yn eu cymunedau lleol. Fodd bynnag, mewn un bartneriaeth, nid oedd prosesau i graffu ar ansawdd darpariaeth a'i wella, yn ogystal â deilliannau dysgwyr, yn ddigon cryf.

# Cyfeiriadau

Addysg Oedolion Cymru (2022) Report and Financial Statements: Year ended 31st July 2022. Caerdydd: Addysg Oedolion CymruAdult Learning Wales. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.adultlearning.wales/userfiles/files/Public_Documents/Report_and_Financial_statements_to_31_July_2022_English.pdf [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2021) Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion: Awst 2019 i Orffennaf 2020. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/addysg-bellach-dysgu-seiliedig-ar-waith-dysgu-oedolion-awst-2019-i-orffennaf-2020 [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2022) Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol: Awst 2020 i Orffennaf 2021. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/addysg-bellach-dysgu-seiliedig-ar-waith-dysgu-cymunedol-awst-2020-i-orffennaf-2021 [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2023]

Adroddiad sector

# Addysg gychwynnol athrawon

2022-2023



**Darparwyr**

**7**
Nifer o bartneriaethau 2023

**Dysgwyr**

**1,610**
Cyfanswm dysgwyr 2021-22

**1,680**
Cyfanswm dysgwyr 2020-21

**Arolygiadau craidd**

Nifer o arolygiadau craidd: **2**
Cyfrwng Cymraeg: **0**
Cyfrwng Saesneg: **2**

**Astudiaethau achos**

Nifer o astudiaethau achos: **0**

Yn ystod 2022-2023, gwnaeth llawer o ddysgwyr gynnydd da tuag at fodloni'r safonau ar gyfer statws athro cymwysedig (SAC), er bod hyn yn anghyson ar draws y partneriaethau ac, mewn ychydig o achosion, roedd y cynnydd hwn yn fwy cyfyngedig oherwydd gwendidau mewn addysgu a mentora ar y rhaglen. Yr agweddau mwyaf effeithiol ar y model partneriaethau newydd yw'r diwrnodau hyfforddiant mewn ysgolion. Elwodd myfyrwyr ar y cyfleoedd hyn i weithio mewn grwpiau mewn ysgol arweiniol a gydnabuwyd am ei harfer effeithiol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oedd darnau cydrannol rhaglenni addysg gychwynnol athrawon (AGA) wedi'u cydbwyso'n ddigon da neu nid oeddent yn cysylltu â'i gilydd mor llwyddiannus ag y gallent. At ei gilydd, roedd ymrwymiad clir gan bartneriaid unigol i gefnogi addysg gychwynnol athrawon, er bod trawsnewid o ddarpariaeth dan arweiniad prifysgolion i ddarpariaeth dan arweiniad partneriaethau yn faes i'w ddatblygu o hyd ym mhob partneriaeth. Mae angen gwella prosesau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso. Mewn rhai achosion, nid oedd arweinwyr yn ymateb yn ddigon cyflym i faterion a godwyd gan fyfyrwyr neu ddatrys diffygion yn y ddarpariaeth. Un diffyg penodol oedd y gwendid o ran sicrhau ansawdd addysgu a mentora, a oedd yn arwain at ormod o amrywioldeb o ran arfer ac effeithiolrwydd.

## Dysgu a lles

Roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn dangos cymhelliant cryf i addysgu ac yn datblygu agweddau ac ymddygiad proffesiynol cryf. At ei gilydd, roedd llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni'r safonau ar gyfer SAC, er bod hyn yn anghyson ar draws y partneriaethau ac, mewn ychydig o achosion, roedd y cynnydd hwn yn fwy cyfyngedig oherwydd gwendidau mewn addysgu a mentora ar y rhaglen.

Yn eu profiadau mewn ysgolion, roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cynllunio'n ddiwyd ac roedd lleiafrif ohonynt yn archwilio profiadau dysgu creadigol ar gyfer eu disgyblion. Fodd bynnag, diffyg cyffredin mewn cynlluniau gwersi myfyrwyr oedd yr anallui i nodi'r dysgu bwriadedig yn ddigon penodol. Yn rhy aml, roedd amcanion dysgu myfyrwyr wedi'u hysgrifennu mewn modd amwys neu'n disgrifio'r hyn roeddent am i ddisgyblion ei wneud yn unig. Roedd hyn yn llesteirio gallu myfyrwyr i ddewis y dulliau addysgu mwyaf effeithiol ac yn golygu nad oeddent yn gallu gwerthuso effeithiolrwydd eu haddysgu o ran cynnydd disgyblion yn ddigon da. Roedd ychydig o fyfyrwyr yn cael trafferth cynnal ymgysylltiad disgyblion yn yr ystafell ddosbarth gan nad oeddent yn ddigon clir ynghylch eu hamcanion dysgu. Yn ogystal, mewn gormod o achosion, roedd myfyrwyr yn cynllunio'n rhy agos at gynlluniau gwaith yr ysgol. Roedd hyn yn golygu bod eu dealltwriaeth o gynllunio yn y tymor canolig a'r tymor hir wedi'i llesteirio. Yn gyffredinol, roedd dealltwriaeth myfyrwyr o ofynion y cwricwlwm yn gadarn. Fodd bynnag, yn aml, roedd eu dealltwriaeth o sut mae Cwricwlwm i Gymru yn gweithio'n ymarferol wedi'i gyfyngu'n ormodol i'r hyn roeddent yn ei weld yn eu hysgolion lleoliad.

Roedd llawer o fyfyrwyr yn datblygu ystod eang o fedrau defnyddiol a oedd yn eu helpu yn eu harfer. Roedd mwyafrif ohonynt yn defnyddio amrywiaeth ddefnyddiol o ddulliau rheoli'r ystafell ddosbarth. Roedd myfyrwyr yn dangos medrau cyfathrebu da ac yn dysgu sut i ddefnyddio ystod o dechnegau a dulliau holi i gefnogi asesu'n briodol. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif o fyfyrwyr yn datblygu eu haddysgegau ar gyfer cyfnodau neu bynciau penodol yn ddigon da.

Roedd gan lawer o fyfyrwyr fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol addas. Fodd bynnag, nid oedd mwyafrif ohonynt yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol. Roedd llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau Cymraeg o'u mannau cychwyn, er nad oedd myfyrwyr a oedd yn hyfforddi i addysgu mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg yn defnyddio'u Cymraeg yn ddigon aml yn yr ysgol. Darllenwch fwy am sut mae partneriaethau'n cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg, gan gynnwys addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein hadolygiad thematig.

Yn gyffredinol, roedd myfyrwyr yn gwneud cynnydd da yn eu hastudiaethau academaidd. Roedd llawer ohonynt yn deall rôl ymchwil mewn datblygu eu harfer. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o athrawon dan hyfforddiant a oedd yn creu cysylltiadau cadarn rhwng theori ac arfer ac yn defnyddio'r hyn yr oeddynt wedi'i ddysgu o ddarllen ac ymchwil i lywio a ffurfio eu harfer yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd, neu i fyfyrio ar y cynnydd roedd eu disgyblion wedi'i wneud.

Er bod tiwtoriaid a mentoriaid yn annog myfyrwyr i gadw cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd, yn gyffredinol, roedd lleiafrif o fyfyrwyr yn ei chael yn anodd cydbwyso beichiau cynllunio cynyddol a gwerthuso gwersi, cwblhau aseiniadau academaidd a lanlwytho tystiolaeth i'w Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP). Nid oedd myfyrwyr yn gweld gwerth y tasgau roedd yn ofynnol iddynt eu cwblhau bob tro ac roeddent yn gweld y nifer fawr o brosesau a thasgau roedd y bartneriaeth yn gofyn iddynt eu cwblhau yn feichus ac yn ddryslyd.

## Addysgu a phrofiadau dysgu



Lluniwyd yr holl raglenni yn unol â'r Meini Prawf Achredu ac roeddynt yn cynnwys ystod eang o brofiadau dysgu.

Rhai o'r agweddau mwyaf effeithiol ar y model partneriaeth newydd yw'r diwrnodau hyfforddiant mewn ysgolion. Elwodd myfyrwyr ar y cyfleoedd hyn i weithio mewn grwpiau mewn ysgol arweiniol a gydnabuwyd am ei harfer effeithiol. Lluniwyd y profiadau dysgu mwyaf llwyddiannus fel bod myfyrwyr yn archwilio ac yn trafod theori yn ymarferol, ac roeddynt yn cynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr arsylwi a rhyngweithio â staff a disgyblion mewn ysgolion.

Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, nid oedd darnau cydrannol rhaglenni AGA wedi'u cydbwyso'n ddigon da neu nid oeddent yn cysylltu â'i gilydd mor llwyddiannus ag y gallent. Nid oedd dyluniad y rhaglenni'n rhoi digon o sylw i'r ffordd y mae athrawon newydd yn datblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth dros gyfnod. Nid yw rhaglenni'n galluogi dysgwyr yn gyson i ddatblygu eu haddysgeg ar gyfer pynciau a chyfnodau yn ddigon da. Ar ben hynny, ni roddwyd ystyriaeth ddigon gofalus i amseriad a chynnwys tasgau ac aseiniadau ac roedd hyn yn cael effaith negyddol ar les myfyrwyr. Er enghraifft, roedd yn ofynnol i fyfyrwyr gasglu tystiolaeth o ddysgu disgyblion ar gyfer aseiniad pan roeddent eisoes wedi cwblhau eu profiad ysgol, neu roedd dyddiadau cau aseiniadau'n disgyn ar adeg pan roeddent yn brysur yn cynllunio ac yn paratoi gwersi.

Nid oedd llawer o fentoriaid, gan gynnwys uwch fentoriaid, yn ddigon ymwybodol o elfennau'r rhaglen sy'n cael eu haddysgu, a oedd yn golygu nad oeddent yn gallu cefnogi datblygiad myfyrwyr yn effeithiol. Ar ben hynny, er bod agweddau ar raglenni AGA yn helpu i gynorthwyo myfyrwyr i gysylltu theori ac arfer, nid oedd tiwtoriaid a mentoriaid yn addysgu myfyrwyr sut i feddwl yn feirniadol fel mater o drefn nac yn helpu myfyrwyr i ystyried eu harfer ddatblygol yn sgil eu darllen a'u hymchwil.

Yn gyffredinol, roedd partneriaethau'n dueddol o ddisgwyl i fyfyrwyr ddysgu am y Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion ac nid oeddent yn cydnabod y rôl maent yn ei chwarae o ran cefnogi datblygiad y cwricwlwm, er enghraifft trwy fynd i'r afael â chamsyniadau neu gyfrannu eu harbenigedd at y dysgu proffesiynol sy'n cael ei gynnig gan y consortia.

Mewn ychydig o achosion, roedd addysgu yn y brifysgol yn rhagorol. Yn y sesiynau hyn, roedd tiwtoriaid nid yn unig yn arbenigwyr yn eu maes, roedd ganddynt ddealltwriaeth ragorol o addysgegau AGA, hefyd. Roeddent yn defnyddio adnoddau dychmygus a holi sythweledol i ysbrydoli myfyrwyr a meithrin eu meddwl beirniadol a chreadigol yn fedrus. Roedd lleiafrif o fentoriaid hefyd yn hyddysg mewn deall anghenion datblygiadol eu myfyrwyr. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd mentoriaid yn fedrus wrth arwain myfyrwyr i ddod yn athrawon cymwys. Roeddent yn cynnwys myfyrwyr mewn 'sgyrsiau dysgu', gan eu helpu i fyfyrio ar eu harfer a gwella eu medrau. Roeddent yn annog cysylltiadau perthnasol â theori addysgol ac yn helpu myfyrwyr i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i broblemau. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd gormod o amrywioldeb mewn addysgu a mentora ar draws partneriaethau. Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar gynnydd myfyrwyr.

## Arweinyddiaeth



Er bod ymrwymiad canmoladwy gan bartneriaid unigol, roedd pontio o ddarpariaeth dan arweiniad prifysgolion i ddarpariaeth dan arweiniad partneriaethau yn faes i'w ddatblygu o hyd ym mhob partneriaeth. Roedd ysgolion partner yn dechrau datblygu eu rôl o ran arweinyddiaeth strategol ac yn dechrau ysgwyddo cyfrifoldebau mwy estynedig mewn arwain agweddau allweddol, fel sicrhau ansawdd a phrosesau hunanwerthuso. Fodd bynnag, er gwaethaf cydweithio cryf wrth sefydlu'r partneriaethau i ddechrau, roedd hyn wedi gwanhau'n fwy diweddar. At ei gilydd, roedd ysgolion partner yn dueddol o chwarae rôl gefnogol yn hytrach nag un strategol.

Mewn lleiafrif o bartneriaethau, nid oedd strwythurau arweinyddiaeth yn ddigon cadarn yn ymarferol. Nid oedd llif digonol o wybodaeth rhwng y grwpiau arweinyddiaeth i sicrhau bod arweinyddiaeth y bartneriaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu agweddau allweddol sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau myfyrwyr ac, mewn ychydig o achosion, roedd llinellau atebolrwydd yn aneglur.

At ei gilydd, nid oedd prosesau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso yn ddigon trylwyr na chadarn. Mewn rhai achosion, nid oedd arweinwyr yn ymateb yn ddigon cyflym i faterion a godwyd gan fyfyrwyr neu i ddatrys diffygion yn y ddarpariaeth. Un diffyg penodol oedd y gwendid o ran sicrhau ansawdd addysgu a mentora, a oedd yn arwain at ormod o amrywioldeb o ran arfer ac effeithiolrwydd.

Er bod partneriaethau'n casglu adborth gan fyfyrwyr yn rheolaidd ac yn cynnig cyfleoedd niferus i staff drafod datblygiad y bartneriaeth, roedd hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn parhau'n faes i'w wella ers cryn amser. Roedd diffygion cyffredin yn cynnwys gwendidau mewn strwythurau arweinyddiaeth, diffyg prosesau i gasglu tystiolaeth uniongyrchol a rhwystrau tybiedig rhag cynnydd, fel anawsterau o ran sicrhau bod hunanwerthuso'n cyd-fynd â gweithdrefnau prifysgolion i sicrhau ansawdd. Roedd cynnydd myfyrwyr yn cael ei olrhain i gefnogi unigolion ac roedd prosesau cyffredinol i gefnogi myfyrwyr a oedd mewn perygl o beidio â bodloni'r safonau, yn gadarn. Fodd bynnag, roedd cynnydd myfyrwyr yn dueddol o gael ei olrhain gan ddefnyddio agweddau cydrannol ar y safonau ar gyfer SAC. Nid oedd hyn yn galluogi partneriaethau i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn darpariaeth ac arfer yn ddigon da. O ganlyniad i'r ymagwedd hon at olrhain a'r methiant i dynnu tystiolaeth uniongyrchol at ei gilydd yn ymwneud ag addysgu, mentora a dyluniad y rhaglen, nid oedd cynllunio ar gyfer gwella yn ddigon miniog. Roedd yn dueddol o fod yn seiliedig ar flaenoriaethau a oedd yn rhy eang ac yn cynnwys prosesau monitro a gwerthuso gwan.



Yn ystod yr arolygiadau a gynhaliwyd yn 2022-2023, roedd datblygu diwylliant ymchwil ar draws partneriaethau yn gryfder a oedd yn dod i'r amlwg. Roedd hyn yn cael effaith benodol lle y manteisiwyd ar fuddion y bartneriaeth. Roedd enghreifftiau cadarnhaol yn cynnwys ysgolion partner yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigiwyd gan y brifysgol ac ymchwil ar y cyd wedi'i seilio yn ysgolion y bartneriaeth. Fodd bynnag, roedd ymchwil i ddarpariaeth ac arfer AGA yn y camau cynnar o ran ei datblygu. Yn gyffredinol, roedd datblygu mentoriaid yn faes a oedd yn datblygu ac yn parhau'n her o hyd, hyd yn oed ar ôl y pandemig. Nid oedd dysgu proffesiynol i diwtoriaid prifysgolion wedi'i seilio'n ddigon da ar ddatblygu arfer effeithiol mewn AGA.

## Cyfeiriadau


Llywodraeth Cymru (2018) Rhaglenni addysg gychwynnol athrawon: meini prawf achredu. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-meini-prawf-achredu [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Llywodraeth Cymru (2023) Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-05/ar-gyfer-rhaglenni-aga-wediu-hachredu-syn-dechrau-o-1-medi-2024-ymlaen.pdf [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Adroddiad sector

# Cymraeg i oedolion

2022-2023



**Darparwyr**

**11**

Nifer o ddarparwyr

**Dysgwyr**

**15,260**

Cyfanswm dysgwyr 2021-22

**14,965**

Cyfanswm dysgwyr 2020-21

**Arolygiadau craidd**

Nifer o arolygiadau craidd: 2
Cyfrwng Cymraeg: 2
Cyfrwng Saesneg: 0

**Astudiaethau achos**

Nifer o astudiaethau achos: 1

Symudodd y sector Cymraeg i oedolion yn gyflym i gyflwyno cyrsiau ar-lein ar ddechrau pandemig COVID-19. Parhaodd i gynnig ystod o ddysgu ar-lein, yn ogystal â chyrsiau wyneb-yn-wyneb, yn ystod 2022-2023. At ei gilydd, mae dysgwyr yn uchel eu cymhelliant ac yn cymryd rhan yn eu dysgu â brwdfrydedd ac mae safon y gofal, cymorth ac arweiniad yn parhau i fod yn gryfder yn y sector hwn.

## Addysgu a dysgu



Roedd y ddau ddarparwr a arolygwyd yn cynnig ystod lawn o gyrsiau, o lefel mynediad i lefel hyfedredd, wyneb-yn-wyneb ac ar-lein. Roedd hyn yn galluogi dysgwyr i ddewis cyrsiau a dulliau dysgu a oedd yn bodloni eu hanghenion unigol a'u hamgylchiadau personol. Roedd un darparwr yn cydweithio'n effeithiol â chyrff lleol a chenedlaethol i ddarparu cyrsiau gwerthfawr, teilwredig yn y gweithle ar gyfer staff mewn ystod o gyflogwyr, a oedd yn cyfrannu'n gadarnhaol at y genhadaeth genedlaethol i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er enghraifft, roedd cyrsiau'n cael eu darparu ar gyfer Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru.

Roedd bron pob un o'r dysgwyr ym mhob math o ddarpariaeth yn uchel eu cymhelliant ac yn cyfrannu'n frwdfrydig yn ystod eu gwersi. Roedd dysgwyr yn gwneud cynnydd da neu well yn eu medrau siarad a gwrando pan roeddent yn cael eu herio'n effeithiol gan diwtoriaid i ymestyn eu hatebion a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio eu medrau Cymraeg y tu allan i wersi ffurfiol.

Mewn un darparwr a arolygwyd, roedd yr addysgu'n hynod effeithiol ac, o ganlyniad, roedd dysgwyr yn dyfalbarhau i ddefnyddio'r Gymraeg â'u tiwtoriaid ac â'i gilydd yn ystod gwersi, heb droi at y Saesneg. Roedd llawer o'r dysgwyr yn y darparwr hwn hefyd yn elwa ar ddarpariaeth ychwanegol y tu allan i'w gwersi arferol. Roedd hyn yn eu cefnogi'n dda i ddod yn siaradwyr Cymraeg mwyfwy annibynnol a gweithredol.

Yn y darparwr arall, nid oedd disgwyliadau tiwtoriaid o ddysgwyr mewn lleiafrif o wersi yn ddigon uchel. Roedd tiwtoriaid yn rhy barod i droi at y Saesneg wrth gyflwyno gweithgareddau a rhoi cyfarwyddiadau ac, mewn ychydig o achosion, nid oedd tiwtoriaid yn cefnogi ynganiad dysgwyr yn ddigon da. Yn ogystal, er iddynt gael eu hannog i ymarfer siarad Cymraeg yn rheolaidd, nid oedd lleiafrif o ddysgwyr yn achub ar y cyfleoedd a gynlluniwyd. O ganlyniad, nid oedd lleiafrif o'r dysgwyr hyn yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent dros gyfnod.

## Gofal, cymorth a lles

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd safon y gofal, cymorth ac arweiniad yn gryfder o hyd yn y ddau ddarparwr a arolygwyd. Llwyddodd darparwyr i greu cymunedau dysgu clos a chynhwysol a oedd yn cynnig cefnogaeth effeithiol i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar agweddau dysgwyr at ddysgu a'u mwynhad o brofiadau dysgu.

Roedd staff yn y ddau ddarparwr yn cynnig cymorth ychwanegol gwerthfawr i ddysgwyr i barhau i ddysgu os oeddynt yn colli gwersi neu'n disgyn ar ei hôl hi. Roedd darparwyr yn cyfathrebu'n effeithiol gyda dysgwyr ac, o ganlyniad, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed ac y gweithredwyd arnynt yn briodol.

Mewn un o'r ddau ddarparwr a arolygwyd, nid oedd system ffurfiol ar waith i olrhain presenoldeb dysgwyr a'i fonitro'n rheolaidd i hwyluso blaengynllunio effeithiol a sicrhau cynnydd.

## Arwain a gwella



Roedd gan y ddau ddarparwr a arolygwyd weledigaeth glir, yn unol â gweledigaeth y Ganolfan Genedlaethol a pholisi Llywodraeth Cymru, i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Maent yn cyflawni rôl bwysig yn eu sefydliadau lletyol o ran hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Un enghraifft nodedig yw'r rhaglen o gyrsiau blasu ar gyfer dros 100 o fyfyrwyr meddygol o'r Ysgol Feddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd i ddysgu ymadroddion sylfaenol cyn iddynt dreulio amser gyda chleifion ar wardiau ysbytai.

Roedd arweinyddiaeth mewn un darparwr yn hynod effeithiol. Roedd arweinwyr ar bob lefel yn deall eu rolau ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu profiadau o ansawdd uchel i ddysgwyr. Roedd diwylliant ymgorfforedig o hunanwerthuso a gwella'n barhaus ym mhob agwedd o waith. Gwellodd y ddarpariaeth dros gyfnod er budd i'r dysgwyr, wedi'i hategu gan gynllunio bwriadus ar gyfer gwella, dadansoddi data'n effeithiol a datblygiad proffesiynol parhaus targedig. Yn y darparwr arall a arolygwyd, nid oedd prosesau i sicrhau ansawdd yr addysgu a dysgu yn ddigon gwerthusol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. O ganlyniad, nid oedd yr arlwy dysgu proffesiynol yn cefnogi tiwtoriaid yn ddigon bwriadus i wella arferion addysgu a dysgu penodol. Yn ogystal, nid oed dysgwyr yn defnyddio data'n effeithiol i gynllunio darpariaeth a blaenoriaethu meysydd i'w gwella.

Adroddiad sector

# Cyfiawnder

2022-2023



**Darparwyr**

**5**
Nifer o Garchardai

**1**
Nifer y sefydliadau troseddwyr ifanc

**17**
Nifer o ddarparwyr Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc

**1**
Nifer o Gartrefi Diogel i Blant

Yn ystod 2022-2023, ymunodd Estyn ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar un arolygiad, sef arolygiad o CEF Abertawe, i werthuso ansawdd gweithgareddau addysg, hyfforddiant a gwaith. Cyhoeddwyd yr adroddiad arolygu llawn ar gyfer Carchar Ei Fawrhydi Abertawe ym mis Mehefin 2023. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn arwain arolygiadau o garchardai ledled Cymru a Lloegr ac mae Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Carchardai EF yn ymdrin â'r materion cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer yr ystad ddiogel.

Daw'r canfyddiadau sy'n dilyn o'r arolygiad o Garchar EF Abertawe ac maent yn adlewyrchu materion cenedlaethol o adroddiad blynyddol Arolygiaeth Carchardai EF.

## Addysgu a dysgu

Canfu arolygwyr fod y dynion yng Ngharchar EF Abertawe yn gallu manteisio ar arlwy cwricwlwm priodol, er enghraifft, roeddent yn gallu dysgu medrau galwedigaethol perthnasol ac sy'n benodol i ddiwydiant neu ganolbwyntio ar ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Roedd grŵp Cymraeg gweithredol ac roedd sesiynau Cymraeg yn cael eu cynnig i garcharorion. Roedd tiwtoriaid a rheolwyr gweithdai yn arwain eu dysgwyr i wneud cynnydd. At ei gilydd, roedd llawer o ddysgwyr yn ennill cymwysterau priodol yn ystod eu cyfnod yng Ngharchar EF Abertawe.

Er gwaethaf yr ystod o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a gwaith sydd ar gael, roedd oedi o ran trefnu darpariaeth a luniwyd i gyfateb i anghenion y farchnad lafur leol ac roedd hyn yn cyfyngu ar y gallu i fanteisio ar y gweithgareddau pwrpasol hyn. Dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu oedd strategaeth darllen y carchar ac nid oedd darllenwyr datblygol yn cael eu nodi'n ddigonol ac nid oedd darpariaeth ddigonol ar eu cyfer.

## Gofal, cymorth a lles

Roedd dysgwyr yng Ngharchar EF Abertawe yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gefnogi eu rhagolygon cyflogaeth a datblygu'r medrau cymdeithasol ac emosiynol sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus y tu mewn a'r tu allan i'r carchar. Yn benodol, roedd y dynion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarparwyd gan fentoriaid y carchar ar gyfer eu lles, yn ogystal â'u dysgu. Roedd carcharorion a oedd yn cyfranogi mewn addysg neu hyfforddiant yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu, yn gyffredinol, ac yn trin eu cymheiriaid ac aelodau staff â pharch. Fodd bynnag, roedd presenoldeb mewn sesiynau addysg yn rhy anghyson.

Yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi ar gyfer addysg a medrau yng Nghymru, roedd y carchar yn asesu dysgwyr yn briodol i ddarganfod eu hanghenion hyfforddiant o ran dysgu a medrau. Fodd bynnag, roedd asesu anghenion dysgu ychwanegol wedi'i gyfyngu i hunanddatgelu ac nid oedd gwybodaeth am ddysgu blaenorol y dynion ar gael yn rhwydd. Roedd hyn yn effeithio ar ystod ac ansawdd y cymorth i ddynion ag anghenion mwy cymhleth.

Roedd bwrdd a hwb cyflogaeth Carchar EF Abertawe yn ymgysylltu'n dda ag asiantaethau a chyflogwyr i ddarparu hyfforddiant ychwanegol i'r dynion, ynghyd â chymorth ymarferol o ddod o hyd i swyddi ac ymgeisio amdanynt, yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu eu medrau cyfweliad. Adeg yr arolygiad, roedd tua chwarter y dynion yn cael eu cyflogi chwe wythnos ar ôl cael eu rhyddhau, roedd hyn yn cymharu'n dda â chyfraddau cyflogaeth dynion a ryddhawyd yn ddiweddar o ystadau diogel eraill yng Nghymru.

## Arwain a gwella

Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2023, canfu Arolygiaeth Carchardai EF, ar ôl aflonyddwch pandemig COVID-19, y bu cyflymdra'r adferiad ar draws y sector carchardai yng Nghymru a Lloegr yn rhy araf, ar y cyfan, a bod gormod o garcharorion wedi'u caethiwo am gyfnodau gormodol. Yn ystod yr arolygiad o Garchar EF Abertawe, canfu arolygwyr Estyn fod arweinwyr ac aelodau staff wedi gweithio'n ddiwyd ar hyd pandemig COVID-19 i greu pecynnau gweithgareddau, a oedd yn cefnogi dysgu a lles, a oedd ar gael i'r dynion yn ystod y cyfnodau estynedig yn eu celloedd. Roedd y staff wedi ymdrechu i ailddechrau arlwy addysg, hyfforddiant a gwaith amser llawn i'r dynion cyn gynted â phosibl ar ôl i gyfyngiadau'r cyfnodau clo gael eu llacio.

Roedd gan arweinwyr yng Ngharchar EF Abertawe weledigaeth glir i fodloni anghenion carcharorion trwy arlwy'r cwricwlwm a chynnig y cymorth a'r arweiniad yr oedd eu hangen arnynt i'w helpu i sicrhau a chynnal cyflogaeth ar ôl cael eu rhyddhau, gan leihau'r perygl o aildroseddu. Roeddent yn dechrau defnyddio hunanwerthuso yn briodol i lywio dysgu proffesiynol aelodau staff addysg, yn ogystal â llunio arlwy'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oeddent yn nodi meysydd i'w gwella'n ddigon manwl bob tro nac yn blaenoriaethu eu gweithgareddau gwella yn effeithiol. Fel y crybwyllwyd gan Arolygiaeth Carchardai EF, roedd ymgysylltu â gweithgarwch bwriadus yn peri pryder o hyd. Canfuom nad oedd arweinwyr yn nodi nac yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg presenoldeb neu ddiffyg ymgysylltiad yn ddigon da. Mewn llawer o garchardai ar draws Cymru a Lloegr, roedd prinder staff yn cael effaith negyddol ar allu rheolwyr carchardai i sicrhau parhad yn ystod lawn y ddarpariaeth, ac roedd hyn i'w weld yng Ngharchar EF Abertawe hefyd.

# Cyfeiriadau

Arolygaeth Carchardai Ei Fawrhydi (2023a) Carchar ei Fawrhydi Abertawe. DU: HMIP. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2023/06/Swansea-web-2023-Welsh.pdf [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Arolygaeth Carchardai Ei Fawrhydi (2023b) Adroddiad Blynyddol2022-23. DU: HMIP. [Ar-lein]. Ar gael yn:Available from: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/annual-report-2022-23/ [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru (2019) HMPPS in Wales: Learning and Skills strategy for Prisons in Wales. Wales: HMPPS. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5d3afa93e5274a400ce4c212/Learning_and_Skills_Strategy_for_Wales_Prisons_July_2019_.pdf [Cyrchwyd 16 Tachwedd 2023]

# Adroddiadau thematig



Adroddiad thematig

# Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol o ran cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

2022-2023

Ysgrifennwyd yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr cylch gwaith i Estyn ar gyfer 2022-2023. Hwn yw'r cyntaf o ddau adroddiad. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o ba mor dda y mae'r ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a gynhelir a gymerodd ran yn yr adolygiad yn gweithredu agweddau allweddol ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ADYTA) a'r Cod ADY cysylltiedig. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr adolygiad rhan wedi cefnogi ysgolion.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o drafodaethau â 29 o ddarparwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed ac ysgolion uwchradd. Cynhaliwyd 12 o'r trafodaeth hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae chwech o'r ysgolion, gan gynnwys dwy ysgol cyfrwng Cymraeg, yn cynnal darpariaeth dosbarth arbenigol awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag ADY. Dewiswyd ysgolion ar sail eu maint, eu math, eu lleoliad daearyddol, a'u cyd-destun economaidd-gymdeithasol. Hefyd, defnyddiom dystiolaeth o drafodaethau rhwng ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol a swyddogion awdurdodau lleol. Yn ychwanegol, cyfarfuom â Chynghrair Anghenion Dysgu Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA). Mae TSANA yn cynrychioli gwahanol grwpiau o bobl ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd.

Ein hargymhellion:

**Dylai ysgolion:**

**A1** Wella ansawdd y wybodaeth a ddarperir i rieni er enghraifft, a datgan yn glir beth mae'r ysgol yn ei hystyried yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol

**A2** Sicrhau bod Cydlynwyr ADY yn cael digon o amser ac adnoddau i gyflawni eu dyletswyddau

**A3** Sicrhau bod dysgu proffesiynol staff ysgol yn canolbwyntio'n ddigonol ar addysgu o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion ag ADY

**Dylai awdurdodau lleol:**

**A4** Sicrhau bod pob un o'r ysgolion yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf ADYTA

**A5** Darparu gwybodaeth glir, gywir a chyfoes i randdeiliaid, yn enwedig o ran:

- beth mae darpariaeth ddysgu ychwanegol yn ei olygu mewn ysgolion
- y cynlluniau datblygu unigol (CDU) hynny a fydd yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol a'r rhai a fydd yn cael eu cynnal gan ysgolion

**A6** Parhau i sicrhau ansawdd ac adolygu arfer a darpariaeth ddysgu ychwanegol i sicrhau bod cyllid a dysgu proffesiynol yn darparu cefnogaeth effeithiol ar gyfer:

- arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- cynlluniau datblygu unigol
- gwasanaethau, adnoddau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg

**A7** Datblygu a chyhoeddi eu strategaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag ADY

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

**A8** Sicrhau bod yr holl leoliadau yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r diffiniadau cyfreithiol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf ADYTA a'r Cod ADY, ac yn darparu enghreifftiau ymarferol i gynorthwyo dealltwriaeth

**A9** Gwerthuso'n llawn effaith y cyllid ychwanegol a ddyrannir i awdurdodau lleol

**A10** Sicrhau bod arweiniad a chyllid yn cael eu darparu mewn modd amserol yn y dyfodol i alluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gynllunio'n ddigonol

## Dyma beth ddywedodd ein hadolygiad thematig:

Heb amheuaeth, mae gweithredu diwygio ADY a diwygio'r cwricwlwm yn ystod cyfnod o her ddigynsail a sylweddol wedi bod yn gamp anodd ac uchelgeisiol i bawb dan sylw. Mae gweithio yn unol â fframweithiau deddfwriaethol anghenion addysgol arbennig (AAA) ac ADY wedi bod yn her ychwanegol i awdurdodau lleol ac ysgolion.

At ei gilydd, mae nifer y disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY neu AAA wedi gostwng. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y disgyblion y nodwyd eu darpariaeth ddysgu ychwanegol / darpariaeth addysgol arbennig mewn cynllun statudol, naill ai drwy CDU neu ddatganiad o AAA. Yn gyffredinol, o ganlyniad i'r gwaith sensitif rhwng Cydlynwyr ADY ysgolion a rhieni, yn enwedig lle ystyrir nad oes gan ddisgyblion ADY lle byddai ganddynt AAA o'r blaen, mae rhieni yn dawelach eu meddwl fod y ddarpariaeth a drefnir yn diwallu anghenion y disgybl.

Yn gyffredinol, roedd ysgolion a gymerodd ran yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r ddarpariaeth y maent yn ei threfnu ar gyfer disgyblion, ac maent fel arfer wedi addasu hyn yn dda i ddiwallu anghenion disgyblion. Fodd bynnag, roedd y graddau y caiff y ddarpariaeth ei dosbarthu'n gyfreithiol yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn aneglur. Felly, mae'n debygol nad yw ysgolion yn cymhwyso'r gyfraith yn gyson.

Roedd cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY) sy'n aelodau o uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol yn defnyddio'u swyddi'n dda i hyrwyddo ADY ar draws pob agwedd ar waith yr ysgol. Roedd datblygu gweithio mewn clystyrau wedi cefnogi gweithio o ysgol i ysgol. Roedd arweinwyr clwstwr wedi cynorthwyo â rhannu arferion ac adnoddau arbenigol.

Roedd awdurdodau lleol ac ysgolion yn unfryd yn eu brwdfrydedd am arferion a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. O ganlyniad, mae perthnasoedd rhwng ysgolion a theuluoedd wedi gwella. Mae arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cyd-fynd yn dda â'r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru sy'n anelu at fod yn gynhwysol. Mae llwyddiant diwygio ADY a Cwricwlwm i Gymru yn ymwneud â gwella ansawdd yr addysgu fel y gall ystafelloedd dosbarth prif ffrwd gefnogi cynnydd priodol disgyblion unigol yn well, ni waeth beth yw eu ADY. At ei gilydd, nid oedd digon o feddwl cyd gysylltiedig wedi bod naill ai ar lefel polisi ac arfer i bwysleisio'r cysylltiad rhwng Cwricwlwm i Gymru a diwygio ADY.

Roedd diffyg eglurder a thryloywder ynghylch pa gynlluniau datblygu unigol (CDUau) (heblaw am y rhai a nodwyd gan Lywodraeth Cymru) fyddai yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol.

Mae awdurdodau lleol yn gwella darpariaeth ADY ar gyfer disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg yn raddol. Fodd bynnag, mae diffyg adnoddau, asesiadau, staffio a darpariaeth ddigonol.

Bu cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn cyllid ADY dros sawl blwyddyn, gyda £77m o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar ôl y pandemig. Roedd ymagweddau cyffredinol at werthuso effaith y cyllid ar ddisgyblion ag ADY yn wan. Dywedodd arweinwyr ysgolion nad oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon clir o sut caiff penderfyniadau am gyllid eu gwneud gan eu hawdurdodau lleol.

Adroddiad llawn

### Adroddiad thematig

# Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10-14 mlwydd oed

2022-2023

Mae gwella medrau darllen disgyblion yn flaenoriaeth gan weinidogion y llywodraeth. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn dilyn cais gan y Gweinidog Addysg yn ei lythyr cylch gwaith 2022-2023 i Estyn. Ymwelom â 23 o ysgolion ledled Cymru, gan gynnwys ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed, yn ogystal â dadansoddi tystiolaeth o 98 o arolygiadau craidd a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2021 a mis Hydref 2022.

## Ein hargymhellion

Dylai arweinwyr ysgolion:

**A1** Ddarparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel am strategaethau wedi'u seilio ar dystiolaeth i staff, i ddatblygu medrau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm

**A2** Monitro a gwerthuso effaith strategaethau ac ymyriadau darllen yn drylwyr

**A3** Cynllunio o fewn eu clwstwr ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn gynyddol o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, gan gynnwys gwneud defnydd priodol o adborth ac adroddiadau cynnydd o asesiadau personoledig

Dylai athrawon a staff cymorth mewn ystafelloedd dosbarth:

**A4** Gynllunio cyfleoedd ystyrlon a difyr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen yn raddol

**A5** Defnyddio testunau o ansawdd uchel, sy'n briodol o heriol, i ddatblygu medrau darllen disgyblion ochr yn ochr ag addysgu'r strategaethau sydd eu hangen ar ddisgyblion i ddarllen y testunau hyn, ac ymgysylltu â nhw

Dylai partneriaid gwella ysgolion:

**A6** Weithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau cysondeb a synergedd gwell mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol ynghylch darllen ar gyfer arweinwyr ysgolion, athrawon a chynorthwywyr addysgu

Dylai Llywodraeth Cymru:

**A7** Barhau i hyrwyddo a datblygu'r ymagwedd ysgol gyfan at y pecyn cymorth llafaredd a darllen

# Beth ddywedodd ein hadolygiad thematig

Mae tystiolaeth o'r ysgolion yn ein sampl yn awgrymu y cafodd y pandemig effaith negyddol ar fedrau darllen disgyblion, yn enwedig y rhai oedd dan anfantais yn sgil tlodi, ond roedd safonau darllen yn gwella eto, yn enwedig mewn ysgolion oedd wedi nodi diffygion mewn medrau penodol, ac yn canolbwyntio eu darpariaeth ar lenwi'r bylchau hyn.

Mae llawer o ddisgyblion 10-14 mlwydd oed yn defnyddio medrau darllen sylfaenol, a thua hanner ohonynt yn datblygu medrau darllen uwch yn hyderus. Fodd bynnag, mae cyfran uwch yn gwneud hynny ar ddiwedd y sector cynradd nag ar ddechrau'r sector uwchradd. Yn gyffredinol, mae gan athrawon cynradd ffocws cryf ar ddatblygu medrau darllen disgyblion, ac maent yn defnyddio strategaethau priodol i gyflawni hyn. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau pwnc disgyblion. Mae'n fwy heriol cynllunio a chydlynu datblygiad medrau disgyblion yn dda ar draws y cwricwlwm yn y sector uwchradd.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd a llawer o ysgolion uwchradd yn y sampl wedi nodi strategaethau yn seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu medrau darllen disgyblion, fel addysgu geirfa anghyfarwydd ymlaen llaw neu holi disgyblion yn ofalus i wirio eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, lleiafrif o ysgolion uwchradd yn unig sy'n gweithredu'r strategaethau hyn yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Pan mae'r ddarpariaeth ar ei chryfaf, ceir cydbwysedd da o ran dulliau addysgu i ddatblygu medrau darllen disgyblion, gan gynnwys darllen dan arweiniad, darllen ar y cyd, darllen cilyddol a darllen yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn darparu cyfleoedd ystyrlon rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu medrau darllen, ond lleiafrif o ysgolion uwchradd yn unig sy'n gwneud hynny.

Yn y ddau sector, lleiafrif o arweinwyr yn unig sy'n monitro ac yn gwerthuso effaith strategaethau darllen yn ddigon trylwyr. Ychydig iawn o glystyrau ysgolion sy'n cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl yn datblygu diwylliant lle rhoddir blaenoriaeth i ddarllen er pleser ochr yn ochr â dysgu darllen, a darllen i ddysgu. Mae cymorth uwch arweinwyr yn elfen hanfodol yn effeithiolrwydd y mentrau hyn.

Gellir gweld nodweddion allweddol rhaglen effeithiol i ddatblygu medrau darllen disgyblion yma. Gellir gweld yr elfennau allweddol mewn datblygu diwylliant darllen yma.

Adroddiad llawn

## Adroddiad thematig

# Cefnogi'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon

2022-2023

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gwblhau ein harolwg thematig ar sut mae partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (AGA) yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant i wella eu medrau Cymraeg, gan gynnwys addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried cynlluniau Llywodraeth Cymru i wireddu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a'i rhaglen i ddatblygu'r gweithlu.

Mae ein hadroddiad yn tynnu ar ganfyddiadau arolygiadau AGA, ymweliadau thematig â phartneriaethau a holiaduron ar gyfer myfyrwyr ac athrawon sydd newydd gymhwyso. Roedd ymweliadau â phartneriaethau yn cynnwys trafodaethau gydag arweinwyr, ymweliadau ag ysgolion a chyfweliadau â grwpiau o fyfyrwyr. Yn ogystal, buom yn siarad â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol, gwasanaethau gwella ysgolion a phartneriaid allweddol eraill.

## Mae ein hargymhellion yn cynnwys

Dylai partneriaethau addysg gychwynnol athrawon:

**A1** gynllunio'n fwriadus i ddatblygu'r Gymraeg ymhob agwedd o'r rhaglenni addysg gychwynnol athrawon er mwyn sicrhau cefnogaeth gyson i fyfyrwyr trwy gydol eu profiad, gan gynnwys pan ar brofiad mewn ysgolion.

**A2** sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau Cymraeg yn datblygu medrau personol ac addysgu myfyrwyr i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Dylai hyn gynnwys addysgeg caffael a datblygu iaith mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog.

**A3** monitro a gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg gan ystyried sut mae myfyrwyr yn defnyddio eu medrau Cymraeg a'u haddysgeg caffael iaith i gefnogi cynnydd disgyblion mewn ysgolion.

**A4** greu cyfleoedd i bartneriaethau AGA gydweithio er mwyn datblygu ac ehangu'r gefnogaeth ar gyfer addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai arweinwyr mewn ysgolion partneriaeth:

**A5** flaenoriaethu a chreu strategaeth bendant ar gyfer datblygu'r Gymraeg gan ymateb i ddisgwyliadau'r partneriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru.

Dylai Llywodraeth Cymru:

**A6** sicrhau eglurder yn nisgwyliadau'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth fel bod ffocws clir ar effaith ymarfer athrawon ac arweinwyr ar fedrau Cymraeg disgyblion.

**A7** sicrhau bod partneriaethau AGA yn cydweithio gyda phartneriaid gwella ysgolion fel bod darpariaeth fwy cyson, cydlynol ac arbenigol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg y gweithlu addysg fel rhan o'r continwwm dysgu proffesiynol.

# Beth ddywedodd ein hadroddiad thematig?

Yn gyffredinol, canfuom fod y gefnogaeth i ddatblygu sgiliau Cymraeg myfyrwyr, gan gynnwys addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio. Yn gyffredinol, mae partneriaethau'n canolbwyntio ar ddarparu sesiynau penodol i wella sgiliau Cymraeg myfyrwyr yn ystod y rhaglen a addysgir yn y brifysgol. Mae llawer o fyfyrwyr yn mynegi barn gadarnhaol am y sesiynau hyn gan nodi eu bod yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymarfer eu sgiliau ieithyddol personol o dan arweiniad tiwtor Cymraeg. Fodd bynnag, yn aml nid yw'r sesiynau hyn yn cael eu cysylltu yn ddigonol gyda sesiynau pwnc neu oedran penodol. Yn ogystal, mae argaeledd sesiynau pwnc uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio.

Dim ond ychydig o bartneriaethau sy'n darparu cyfleoedd i fyfyrwyr wneud cysylltiadau clir rhwng yr hyn y maent wedi'i ddysgu am fethodoleg addysgu Cymraeg mewn sesiynau a addysgir ac ymarfer yn yr ystafell ddosbarth pan fyddant ar brofiad ysgol. O ganlyniad, er bod llawer o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd addas yn eu sgiliau Cymraeg personol mewn sesiynau medrau Cymraeg, nid ydynt bob amser yn cymhwyso eu dysgu am addysgu'r Gymraeg pan fyddant ar brofiad ysgol.

Mewn llawer o bartneriaethau, nid oes gweledigaeth a rennir na dealltwriaeth glir a chyson o ddisgwyliadau'r bartneriaeth ar gyfer y Gymraeg ymhlith ysgolion partner. Yn aml, nid yw partneriaethau'n cynllunio'n ddigon strategol y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y rhaglenni. Mae hyn yn golygu bod darpariaeth yn dameidiog, neu mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried fel agwedd ar wahân. Yn gyffredinol, nid yw partneriaethau'n gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws rhaglenni'n ddigon effeithiol. Nid ydynt yn ystyried y cynnydd y mae myfyrwyr yn ei wneud wrth ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg wrth addysgu. Yn ogystal, nid ydynt yn ystyried effaith addysgu myfyrwyr ar sgiliau a phrofiadau disgyblion.  O ganlyniad, nid ydynt yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu'n ddigon miniog i'w galluogi i wneud gwelliannau.

Mae'r dysgu proffesiynol a gynigir gan bartneriaid gwella ysgolion mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gefnogi ymarferwyr addysg i ddatblygu eu medrau Cymraeg ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ledled Cymru. Mae hyn yn golygu nad yw athrawon, yn enwedig yn y sector uwchradd, bob amser yn hyderus wrth gefnogi disgyblion i gaffael a datblygu eu medrau Cymraeg ar draws pynciau'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae hyn yn cael effaith ar hyder a gallu athrawon wrth iddynt fentora myfyrwyr AGA I'w helpu i ddatblygu eu haddysgu i gefnogi medrau Cymraeg disgyblion.

Adroddiad llawn

Adroddiad thematig

# Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)

2022-2023

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o brofiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n mynychu darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ledled Cymru. Mae'n gwerthuso tegwch arlwy'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n cael eu lleoli mewn darpariaethau addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys eu cyfle i fanteisio ar arlwy cwricwlwm amser llawn neu ran-amser. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn gwerthuso a gwella ansawdd ac effaith y ddarpariaeth, ac yn adrodd ar y cyfnod pontio rhwng darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac ysgolion neu ddarpariaeth ôl-16. Rydym yn amlygu enghreifftiau o arfer dda mewn awdurdodau lleol lle mae ansawdd arlwy'r cwricwlwm yn cefnogi anghenion y disgyblion yn llwyddiannus, ac yn cefnogi eu dychweliad i addysg brif ffrwd, addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth, yn effeithiol.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o 17 o ymatebion a dderbyniom o arolygon a anfonwyd at yr holl awdurdodau lleol. Yn ychwanegol, gwnaethom gyfarfod â swyddogion arweiniol ar gyfer AHY o 19 awdurdod lleol. O ganlyniad, casglom wybodaeth gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, ar wahân i un. Gwnaethom gyfarfod hefyd â chynrychiolwyr o wasanaethau gwella ysgolion ac ymweld ag wyth UCD. Yn ystod yr ymweliadau hyn, gwnaethom gyfarfod ag arweinydd yr UCD ac arweinwyr ar gyfer y cwricwlwm. O ran cyfanswm, ymgysylltom â thros 40 o ddisgyblion ar draws yr wyth UCD. Mae tystiolaeth o'r naw arolygiad UCD er mis Ionawr 2019 wedi'i chynnwys hefyd.

## Ein hargymhellion

Dylai UCDau ac ysgolion prif ffrwd:

**A1** Rannu arfer â'i gilydd a gweithio gydag awdurdodau lleol, disgyblion, a rhieni i gryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddychwelyd i addysg brif ffrwd

**A2** Monitro presenoldeb disgyblion yn agos i sicrhau eu bod yn elwa ar eu darpariaeth lawn ac, yn benodol, i ddiogelu disgyblion lle maent yn cael addysg ran-amser mewn gwahanol ddarparwr

Dylai awdurdodau lleol a'u gwasanaethau gwella ysgolion:

**A3** Gynorthwyo mwy o ddisgyblion i ddychwelyd i ysgol brif ffrwd lle bo'n briodol trwy:

- gryfhau cymorth dwys tymor byr mewn darpariaeth AHY
- sicrhau bod penderfyniadau am leoliadau'n cael eu gwneud yn brydlon ac yn nodi hyd cytunedig, rolau a chyfrifoldebau clir a dyddiad adolygu

**A4** Sicrhau darpariaeth cwricwlwm mewn UCDau sy'n diwallu anghenion pob un o'r disgyblion, gan weithio gyda'r pwyllgor rheoli a'r athro sydd â gofal

**A5** Sicrhau darpariaeth cwricwlwm mewn darparwyr AHY heblaw UCDau

**A6** Cryfhau'r prosesau sicrhau ansawdd a monitro i sicrhau bod arlwy'r cwricwlwm yn cael ei gyflwyno'n effeithiol mewn darparwyr AHY

**A7** Herio a monitro presenoldeb disgyblion yn drylwyr ar draws darparwyr AHY, gan gynnwys defnydd priodol o amserlenni rhan-amser a rhaglenni cymorth bugeiliol

Dylai Llywodraeth Cymru:

**A8** Ddiweddaru a sicrhau bod y Fframwaith ar gyfer Gweithredu AHY yn cael ei gyflwyno, gan gynnwys yr holl ganllawiau atodol perthnasol ar AHY, i adlewyrchu argymhellion yr adroddiad hwn

# Beth ddywedodd ein hadolygiad thematig

Weithiau, mae angen i awdurdodau lleol drefnu i ddisgyblion gael mynediad at addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Gallai hyn fod oherwydd bod disgybl yn sâl, mae wedi cael ei wahardd, neu mewn perygl o gael ei wahardd, neu'n cael trafferth manteisio ar ysgol oherwydd ei anghenion cymdeithasol ac emosiynol neu les.

Ers y pandemig, dywed awdurdodau lleol y bu cynnydd yn y cyfraddau atgyfeirio ar gyfer darpariaeth AHY. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer gwasanaethau tiwtora wedi'u trefnu gan awdurdodau lleol. Bu cynnydd hefyd mewn atgyfeiriadau ar gyfer disgyblion oedran cynradd iau. Mae gan fwy o ddisgyblion sy'n cael eu hatgyfeirio anghenion cymdeithasol, emosiynol, ac iechyd meddwl (CEIM) sylweddol, yn hytrach nag anghenion ymddygiadol, sydd wedi bod yn wir yn hanesyddol.

Yn gyffredinol, mae unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn gwneud cynnydd priodol tuag at gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, a gefnogir yn briodol gan wasanaethau gwella ysgolion mewn llawer o achosion. Mae ehangder a chydbwysedd arlwy'r cwricwlwm ar draws UCDau yn briodol ac yn gwella. Mae hyn yn hynod amlwg ar gyfer disgyblion oedran uwchradd hŷn, sydd â llwybrau cymhwyster cynyddol amrywiol sy'n cefnogi disgyblion i fanteisio ar addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae bron pob un o'r UCDau wedi cryfhau eu hymagweddau o ran y ddarpariaeth gyfan at iechyd a lles emosiynol i ymateb i anghenion eu disgyblion. Mae arweinwyr UCDau wedi buddsoddi mewn dysgu proffesiynol i wella dealltwriaeth staff o ymagweddau penodol at gefnogi iechyd a lles emosiynol eu disgyblion. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r ymagweddau hyn yn ategu arlwy'r cwricwlwm yn gryf.

Er bod yr holl awdurdodau lleol yn disgwyl i ddisgyblion AHY gael mynediad at arlwy cwricwlwm amser llawn, lle bo'n briodol, mae gormod o ddisgyblion yn cael mynediad at addysg ran-amser yn unig. Ledled Cymru, mae ansawdd y rhaglenni cymorth bugeiliol i gefnogi trefniadau rhan-amser, a'r defnydd ohonynt, yn anghyson. Nid yw awdurdodau lleol yn monitro'r trefniadau hyn yn ddigon trylwyr ac mae hyn yn effeithio ar hawl plant a phobl ifanc i gael addysg amser llawn.

Trwyddi draw yn bendant, mae'n well gan ddisgyblion fynychu eu UCD nag ysgol brif ffrwd. Ychydig iawn o ddisgyblion a gafodd eu cyfweld oedd yn hiraethu am eu hysgol brif ffrwd neu eisiau dychwelyd yno. Maent yn teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am y cwricwlwm, yn enwedig disgyblion oedran uwchradd hŷn. Maent yn mynegi eu pryderon ar gyfer dychwelyd i addysg brif ffrwd yn dda ac yn siarad yn wybodus am yr hyn y maent yn eu dirnad yw'r rhwystrau. Maent yn credu'n gryf fod eu lles yn cael blaenoriaeth mewn UCDau, ac o ganlyniad, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, y gwrandewir arnynt a'u bod yn gallu dysgu trwy gael cymorth arbenigol. Mae hyn yn aml mewn cyferbyniad â'r hyn a brofon nhw yn eu hysgol brif ffrwd. O ganlyniad, mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella yn ystod eu cyfnod yn eu UCD.

Bu gwelliannau o ran y defnydd o banelau gwneud penderfyniadau ar draws bron pob un o'r awdurdodau lleol i bennu'r ddarpariaeth AHY sydd ei hangen ar gyfer disgyblion unigol. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys ystod ehangach o aelodau panel sy'n meddu ar arbenigedd priodol ac ansawdd gwell o wybodaeth a gyflwynir gan ysgolion prif ffrwd i lywio'r broses gwneud penderfyniadau yn fwy cywir.

Mae prosesau awdurdodau lleol ar gyfer cytuno ar hyd lleoliadau AHY ac adolygu trefniadau lleoliadau yn parhau i fod yn anghyson. Pan mae arfer yn fwyaf effeithiol, caiff hyd y lleoliadau a threfniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys dyddiadau adolygu ar gyfer lleoliadau disgyblion, eu cytuno fel rhan o gyfarfod panel cychwynnol yr awdurdod lleol. Mae hyn yn darparu disgwyliadau, rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer y darparwr AHY, yr ysgol brif ffrwd a swyddogion monitro awdurdodau lleol.

Mae gormod o ddisgyblion oedran cynradd ac oedran uwchradd iau yn aros mewn darparwyr AHY dros y tymor hir. O ganlyniad, ychydig iawn o'r disgyblion hyn yn unig sy'n dychwelyd i ysgol brif ffrwd yn llwyddiannus. Mae disgyblion uwchradd hŷn yn aros mewn darparwyr AHY gyda ffocws ar ennill cymwysterau, sy'n eu harfogi â'r medrau angenrheidiol ar gyfer eu cyrchfannau nesaf. At ei gilydd, dywedodd yr awdurdod lleol fod niferoedd y disgyblion sy'n gadael darparwyr AHY nad ydynt yn cael mynediad at addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, yn isel.

Mae'r prif rwystrau rhag ailintegreiddio disgyblion yn llwyddiannus i ysgolion prif ffrwd yn cynnwys lefelau a chymhlethdod cynyddol anghenion disgyblion, yn enwedig ar gyfer anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM), anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY), yn ogystal ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gwaelodol eraill. O ganlyniad, gall y lefelau angen hyn effeithio ar hyd y lleoliad ar gyfer disgyblion. Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae UCDau yn gweithredu'n debycach i ysgolion arbennig, ac mae lleoliadau disgyblion yn rhai tymor hir yn yr UCD.

Nid yw lleiafrif o brosesau awdurdodau lleol i sicrhau ansawdd a chefnogi gwelliant mewn darparwyr AHY wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae sicrhau ansawdd arlwy'r cwricwlwm mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn fwy trylwyr nag ydyw mewn darparwyr AHY allanol wedi'u comisiynu gan awdurdodau lleol.

Adroddiad llawn

Adroddiad thematig

# Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn colegau addysg bellach ledled Cymru

2022-2023

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddom ein hadroddiad thematig ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn colegau addysg bellach ledled Cymru. Mae ein hadroddiad yn defnyddio canfyddiadau o ymweliadau wyneb yn wyneb â phob un o'r deuddeg coleg addysg bellach yng Nghymru. Cynhaliom weithdai â dysgwyr, siarad ag arweinwyr, athrawon a staff cymorth mewn colegau, ac edrych ar ystod eang o ddogfennau yn ymwneud â phrosesau presennol a oedd yn cynnwys achosion posibl o aflonyddu rhywiol.

## Mae ein hargymhellion yn cynnwys

Dylai colegau addysg bellach:

**A1** Sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a thrafodaethau yn ymwneud â ffurfio a chynnal perthnasoedd iach

**A2** Datblygu strategaethau i atal a mynd i'r afael ag agweddau a diwylliannau misogynistaidd sy'n datblygu ymhlith grwpiau o ddysgwyr

**A3** Sicrhau bod yr holl aelodau staff perthnasol yn ymgymryd â dysgu proffesiynol sy'n eu galluogi i nodi ac ymateb yn hyderus i aflonyddu rhywiol, yn ogystal â helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd iach

**A4** Sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus ym mhob ardal o adeiladau, tir, mannau rhithiol a thrafnidiaeth y coleg

**A5** Cofnodi, categoreiddio a dadansoddi achosion o aflonyddu, ymosodiadau a cham-drin rhywiol mewn ffordd gyson sy'n galluogi arweinwyr i nodi tueddiadau a chymryd camau priodol i ymateb iddynt

Dylai Llywodraeth Cymru:

**A6** Ei gwneud yn glir pa agweddau ar arweiniad addysg Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol sy'n berthnasol i golegau addysg bellach a chadarnhau unrhyw wahaniaethau rhwng y gofynion mewn ysgolion a cholegau addysg bellach

**A7** Darparu arweiniad priodol i golegau i'w helpu i fabwysiadu ymagwedd gydlynus a chyson tuag at gofnodi a chategoreiddio achosion o aflonyddu rhywiol

# Beth oedd ein hadroddiad thematig yn ei ddweud

Canfuom fod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn colegau yn fater cymhleth nad yw'n cael ei gofnodi'n ddigonol, gyda llawer o ddysgwyr yn dewis peidio rhoi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol neu ddim yn siŵr sut i roi gwybod amdanynt, am amrywiol resymau. Mae gan golegau bolisïau a phrosesau sefydledig ar gyfer disgyblu dysgwyr ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdrin yn effeithiol â'r achosion mwyaf difrifol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion y rhoddir gwybod amdanynt.

Nid yw systemau colegau i gofnodi a dadansoddi aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr yn gywir wedi'u datblygu'n ddigonol. Yn rhy aml, caiff achosion o aflonyddu rhywiol eu cofnodi a'u categoreiddio o fewn dosbarthiadau bwlio cyffredinol. Dywedodd llawer o staff wrthym nad ydynt yn hyderus a'u bod yn teimlo bod angen mwy o ddatblygiad proffesiynol a diweddariadau yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol.

Lle mae colegau wedi cynnal sesiynau hyfforddiant penodol ar fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol, mae'r rhain wedi helpu staff i nodi achosion a mynd i'r afael â nhw'n briodol. At ei gilydd, mae prinder adnoddau penodol ar gyfer addysg bellach i gynorthwyo staff colegau i ymdrin ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion hefyd. Mae gwaith cydweithredol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn wedi dechrau'n ddiweddar, ond mae'n rhy gynnar i werthuso ei effeithiolrwydd a'i effaith.

Mae ein trafodaethau â dysgwyr a staff yn awgrymu y gallai dysgwyr sy'n ystyried eu hunain yn fenywod, LHDTC+ a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol fod yn fwy tebygol o gael profiad o aflonyddu rhywiol. Mae achosion o aflonyddu rhywiol yn cynnwys cymysgedd o faterion wyneb-yn-wyneb ac ar-lein.

Adroddiad llawn

## Adroddiad thematig

# Cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth

2022-2023

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) mewn prentisiaethau dysgu yn y gwaith. Ym mis Mai a mis Mehefin 2023, ymwelodd arolygwyr â naw o'r deg darparwr arweiniol sy'n cynnig rhaglenni prentisiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliom gyfarfodydd a siarad gyda dysgwyr, rheolwyr, staff cyflwyno a chyflogwyr. Arsylwom sesiynau addysgu grŵp ac adolygiadau un-i-un. Cynhaliom arolwg ar-lein dienw i ddysgwyr, staff cyflwyno a chyflogwyr yn ymchwilio i agweddau ymatebwyr at gymwysterau SHC a datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar raglenni prentisiaeth.

## Ein hargymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru:

**A1** Gydweithio â Cymwysterau Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i adolygu'r defnydd o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn prentisiaethau

**A2** Adnewyddu Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) ac adnoddau

**A3** Trwy gydweithio â phartneriaid, datblygu cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol i wella dealltwriaeth ymarferwyr o'r addysgeg a'r gallu i gyflwyno medrau hanfodol

Dylai darparwyr prentisiaethau dysgu yn y gwaith:

**A4** Ddatblygu ymagweddau gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau:

- y caiff dysgwyr gyfleoedd ystyrlon i astudio ac ymgymryd ag asesiadau'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg
- y caiff anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr eu nodi a'u gwerthuso'n brydlon a'u cefnogi'n briodol

**A5** Sicrhau bod dysgwyr sydd eisoes wedi ennill y cymwysterau SHC gofynnol neu sydd wedi'u heithrio trwy ddirprwy yn parhau i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol

**A6** Cynnig dysgu proffesiynol sy'n datblygu addysgeg tiwtoriaid ac aseswyr i gyflwyno medrau hanfodol

Dylai darparwyr arweiniol:

**A7** Sicrhau bod hunanwerthuso'n myfyrio ar effeithiolrwydd y modelau cyflwyno sy'n cael eu defnyddio ar draws partneriaid ac isgontractwyr y darparwr ac yn cymryd camau i leihau'r anfanteision posibl a nodir yn yr adroddiad hwn

## Beth ddwedodd ein hadroddiad thematig?

Mae darparwyr wedi datblygu ystod o ddulliau cyflwyno sy'n effeithiol o ran galluogi dysgwyr i gwblhau eu cymwysterau SHC. Rydym yn categoreiddio'r modelau y mae darparwyr yn eu defnyddio i gyflwyno cymwysterau SHC mewn rhaglenni prentisiaeth yn ôl chwe chategori eang ac yn amlinellu eu manteision a'u hanfanteision.

Rydym yn nodi arweddion nodweddiadol rhaglenni effeithiol, gan gynnwys:

- rôl asesu cychwynnol, cyfathrebu a chydlynu o fewn darparwyr
- bod gan ddysgwyr raglen astudio ystyrlon – pa ddull cyflwyno bynnag y mae'r darparwr yn ei ddefnyddio – sy'n eu galluogi i ddatblygu ac ymarfer eu medrau hanfodol a pharatoi ar gyfer asesiadau allanol
- darpariaeth hyblyg sy'n addasu yn ôl anghenion dysgwyr
- dysgu proffesiynol ar gyfer staff cyflwyno
- cefnogaeth gan gyflogwr prentis.

Er bod darparwyr yn effeithiol o ran galluogi dysgwyr i ennill eu cymwysterau SHC, canfuom fod addysgu a dysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar brentisiaethau wedi'u gogwyddo'n annefnyddiol tuag at baratoi ar gyfer asesiadau allanol. Mae tri phrif ffactor yn cyfrannu at hyn: yr amser y mae gan brentisiaid i gwblhau eu cymwysterau SHC yn ystod cyfnod cymharol fyr eu prentisiaethau, yr her ddysgu sylweddol y mae dysgwyr yn aml yn ei hwynebu wrth ddatblygu'r medrau sydd eu hangen ar gyfer eu hasesiadau SHC, a model asesu ar gyfer cymwysterau SHC sy'n generig i raddau helaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymhwyso medrau mewn cyd-destunau nad ydynt yn gysylltiedig â'u cefndir galwedigaethol yn aml.

Roedd neges gyson gan ddysgwyr, darparwyr a chyflogwyr bod medrau llythrennedd, rhifedd a digidol da yn bwysig ar gyfer bywyd a gwaith. Fodd bynnag, mae'n llawer gwell gan ddysgwyr ddysgu'r medrau hyn trwy gyd-destun eu gwaith a'u hastudiaethau galwedigaethol, ac maent yn gwerthfawrogi hynny. Mae hyn yn achosi cyfyng gyngor i ddarparwyr: sut orau i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr, gan ddefnyddio ffafriaeth glir dysgwyr i ddysgu trwy eu cyd-destun galwedigaethol, wrth eu paratoi ar yr un pryd ar gyfer asesiad allanol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymhwyso medrau mewn cyd destunau nad ydynt wedi'u cysylltu â'u cefndir galwedigaethol yn aml.

Roedd tri maes, yn gysylltiedig â'r ffocws cul ar asesu, lle'r oedd ansawdd dysgu yn peri pryder. Y cyntaf yw gallu dysgwyr i gofio'r medrau maent wedi'u datblygu, a grynhowyd gan un dysgwr fel, 'Rydw i'n ei ddysgu ar gyfer y prawf ac yna'n ei anghofio ar unwaith.' Yr ail yw bod dysgu'n canolbwyntio'n bennaf ar baratoi ar gyfer tasgau asesu allanol, gan leihau'r medrau sy'n cael eu dysgu i 'bethau sydd eu hangen i lwyddo yn y prawf', yn hytrach na 'medrau defnyddiol a fydd yn fy helpu yn fy mywyd gwaith neu fywyd ehangach'. Y trydydd yw i ba raddau y gall dysgwyr gymhwyso'r medrau maent wedi'u dysgu i'w helpu yn eu swyddi gwaith neu eu bywydau ehangach.

O ystyried y cyfyngiadau o ran dysgu a amlinellwyd uchod, yn y sesiynau a arsylwom, roedd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'u gwendidau mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ac roedd llawer ohonynt yn glir ynghylch eu cynnydd a'r hyn roedd angen iddynt ei wella. Roedd y mwyafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu'r medrau yr ymdriniwyd â nhw yn y sesiwn honno. Crybwyllodd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ein hymweliadau ac yn yr holiadur ar-lein eu bod yn cael cymorth ac adborth defnyddiol gan eu tiwtoriaid neu aseswyr, a oedd yn eu helpu i ddeall yr hyn roedd angen iddynt ei wneud i wella a'r camau gweithredu roedd angen iddynt eu cwblhau i wneud hynny.

Crybwyllodd darparwyr nad yw methu ennill y cymwysterau SHC yn achos sylweddol pam nad yw dysgwyr yn cwblhau eu fframwaith cyffredinol, bellach. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu rwystrau eraill rhag dysgu, fel y rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, yn ei chael hi'n anodd ennill eu cymwysterau SHC, ac mae hyn yn rhwystr iddynt rhag cyflawni llwyddiant cyffredinol yn eu fframwaith.

Ychydig iawn o brentisiaid sy'n cyflawni asesiadau ar gyfer cymwysterau SHC yn ddwyieithog neu yn Gymraeg. At ei gilydd, nid yw darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth yn ddigon da i gynorthwyo dysgwyr sy'n dymuno astudio eu cymwysterau SHC yn ddwyieithog neu yn Gymraeg.

Er bod darparwyr yn effeithiol o ran galluogi dysgwyr i ennill y cymwysterau SHC sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu fframwaith, nid yw dysgwyr sydd eisoes wedi ennill y cymwysterau SHC gofynnol neu sydd wedi'u heithrio trwy brocsi yn parhau i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol yn gyson.

Adroddiad llawn

Adroddiad thematig

# Llywodraethwyr Ysgol: gweithredu fel ffrindiau beirniadol ac effaith hyfforddiant i lywodraethwyr

2022-2023

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn dilyn cais gan y Gweinidog Addysg yn ei lythyr cylch gwaith 2022 i Estyn. Cynhaliom gyfweliadau â phenaethiaid a llywodraethwyr mewn 41 o ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig. Hefyd, anfonom arolwg ar-lein i gyrff llywodraethol mewn 250 o ysgolion a derbyn 363 o ymatebion. Ymgynghorom ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys gwasanaethau gwella ysgolion a swyddogion awdurdodau lleol a chynrychiolwyr o sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda chyrff llywodraethol yng Nghymru, ac yn eu cefnogi.

## Ein hargymhellion

Dylai Cyrff Llywodraethol ac ysgolion:

**A1** Wella gallu llywodraethwyr i herio uwch arweinwyr am bob agwedd ar waith yr ysgol

**A2** Sicrhau bod llywodraethwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i arsylwi'n uniongyrchol y cynnydd y mae eu hysgol yn ei wneud tuag at gyflawni ei blaenoriaethau

**A3** Cynnal hunanwerthusiad rheolaidd o waith y corff llywodraethol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella

**A4** Gwerthuso effaith hyfforddiant i lywodraethwyr ar eu rôl fel arweinwyr strategol effeithiol a nodi gofynion hyfforddi yn y dyfodol

Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion:

**A5** Werthuso ansawdd eu hyfforddiant i lywodraethwyr yn fwy trylwyr i wneud gwelliannau lle mae angen

**A6** Cydweithio i sicrhau cydlyniant a chysondeb gwell mewn cyfleoedd hyfforddi o ansawdd uchel rhwng gwahanol rannau o'r wlad

**A7** Darparu cymorth a chyngor mwy effeithiol i gyrff llywodraethol i'w helpu yn eu rôl fel arweinwyr strategol effeithiol

Dylai Llywodraeth Cymru:

**A8** Ddiweddaru'r arweiniad i awdurdodau lleol ar beth i'w gynnwys mewn hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgol ar ddeall rôl data mewn cefnogi hunanwerthuso a gwelliant mewn ysgolion, yn unol â newidiadau cenedlaethol i arferion asesu

**A9** Cynhyrchu gwybodaeth am rôl bwysig rhiant-lywodraethwyr i helpu annog rhieni, yn enwedig y rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol gwahanol, i wneud cais i fod yn rhiant-lywodraethwr

**A10** Creu fframwaith cymwyseddau i gynorthwyo cyrff llywodraethol i wella'u heffeithiolrwydd

# Beth ddwedodd ein hadroddiad thematig?

O'r dystiolaeth a gasglwyd gennym, canfuom fod y rhan fwyaf o lywodraethwyr yn frwdfrydig ac yn angerddol am eu cyfrifoldebau. Maent yn hynod ymrwymedig i'r rôl sydd ganddynt yn eu hysgol. Mae llawer o lywodraethwyr yn siarad yn wybodus am y cymunedau a wasanaethir gan eu hysgolion, ac maent yn aml yn deall anghenion y cymunedau hynny. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y cyrff llywodraethol yn adlewyrchu cyfansoddiad amrywiol eu cymuned leol yn ddigon da.

Mae cael y cydbwysedd cywir o her a chymorth ar gyfer uwch arweinwyr yn agwedd bwysig ar rôl corff llywodraethol. Yn aml, bod yn ffrind beirniadol yw'r enw am hyn. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'r uwch arweinwyr ac maent yn gefnogol i'w gwaith. Fodd bynnag, canfuom mewn mwyafrif o ysgolion nad yw llywodraethwyr yn dwyn arweinwyr i gyfrif am berfformiad addysgol yn ddigon da. Yn ychwanegol, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon eang o'u rôl mewn sicrhau disgwyliadau uchel ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn herio uwch arweinwyr yn ddigon da.

Mewn llawer o ysgolion, mae gan lywodraethwyr drosolwg o flaenoriaethau eu hysgol ar gyfer gwella, ac mae ganddynt ddealltwriaeth fras o sut maent wedi cael eu nodi trwy hunanwerthuso. Mae llywodraethwyr yn dilyn hynt a helynt y cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud tuag at gyflawni eu blaenoriaethau trwy wybodaeth reolaidd y mae arweinwyr yn ei darparu ar eu cyfer. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, yn dilyn y cyfyngiadau o ganlyniad i bandemig COVID-19, mae llywodraethwyr wedi ailddechrau cynnal eu hymweliadau. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, nid yw llywodraethwyr yn defnyddio eu hymweliadau ag ysgolion yn bwrpasol i gasglu tystiolaeth uniongyrchol i lywio'u gwerthusiadau o waith yr ysgol.

Er bod hunanwerthuso ysgol gyfan fel arfer yn cael ei ymgorffori mewn ysgolion, lleiafrif o gyrff llywodraethol yn unig sydd wedi cynnal unrhyw hunanwerthusiad o'u gwaith eu hunain yn ddiweddar. Mae mwyafrif y cyrff llywodraethol yn cydnabod bod hwn yn faes sydd angen ei wella. Yn ychwanegol, lleiafrif o gyrff llywodraethol yn unig sy'n cynnal archwiliad rheolaidd o fedrau eu haelodau fel bod ganddynt ddarlun cyfredol o ystod eu medrau a'u profiadau.

Mae hyfforddiant o ansawdd uchel yn bwysig i sicrhau bod llywodraethwyr yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf mewn addysg. Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr yn cael hyfforddiant gan staff ysgol a gan ddarparwyr allanol, sef awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion fel arfer. Ceir cyrsiau hyfforddi gorfodol y mae'n rhaid i lywodraethwyr eu mynychu, yn ogystal â sesiynau dewisol. Mae argaeledd ac ansawdd yr hyfforddiant yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol rannau o Gymru. Mae rhai awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion yn cynnig amrywiaeth gyfoethog o sesiynau hyfforddiant buddiol i lywodraethwyr bob tymor, tra bod llai o sesiynau o lawer ar gael mewn rhannau eraill o'r wlad. Yn bwysig, mae'r hyfforddiant data gorfodol y mae'n rhaid i bob llywodraethwr ei fynychu wedi dyddio ac nid yw'n helpu llywodraethwyr i ddeall arferion asesu presennol. Lleiafrif o lywodraethwyr yn unig sy'n gwerthuso'r hyfforddiant a gânt a'i effaith ar wella'u rôl fel llywodraethwyr effeithiol.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth ddigonol i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o faterion addysgol pwysig, fel Cwricwlwm i Gymru a'r newidiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET).

Mae gan lywodraethwyr rwymedigaethau statudol pwysig. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn deall eu rôl mewn diogelu disgyblion. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o'u holl rwymedigaethau, er enghraifft o ran bwyta ac yfed yn iach.

Adroddiad llawn